# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2012**
**Tuesday, 20 November 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


| | |
|---|---|
| 4 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>Questions to the First Minister |
| 33 | Cwestiwn Brys: Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yng Nghastell-nedd Port Talbot<br>Urgent Question: Neath Port Talbot Children's Social Services |
| 39 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes<br>Business Statement and Announcement |
| 47 | Datganiad: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol<br>Statement: The Future Delivery of Education Services in Wales |
| 64 | Datganiad: Paratoadau ar gyfer y Gaeaf<br>Statement: Winter Preparations |
| 78 | Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio—Pwerau i Gynnwys Darpariaethau Machlud ac Adolygu mewn Is-ddeddfwriaeth<br>Legislative Consent Memorandum on the Enterprise and Regulatory Reform Bill Relating Powers to Include Sunset and Review Provisions in Subordinate Legislation |
| 80 | Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2011-12<br>The Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2011-12 |
| 108 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time |
| 111 | Dadl Fer: Y Storm Berffaith—Asesu Effaith Gronnol Diwygio Lles mewn cysylltiad â Thai yng Nghymru<br>Short Debate: The Perfect Storm—Assessing the Cumulative Impact of Housing-related Welfare Reform in Wales |


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Y Rhaglen Lywodraethu

### The Programme for Government

***1. Suzy Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae'r Rhaglen Lywodraethu yn gwella bywydau pobl yng Ngorllewin De Cymru. OAQ(4)0781(FM)*

***1. Suzy Davies:*** *Will the First Minister outline how the Programme for Government is improving the lives of people in South Wales West. OAQ(4)0781(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** We are making good progress in delivering our programme for government in all parts of Wales.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Rydym yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein rhaglen lywodraethu ym mhob rhan o Gymru.

**Suzy Davies:** The potential downgrading of accident and emergency services in the Princess of Wales Hospital in your own constituency leaves many in South Wales West fearing that their lives will not be improved as questions over access to those centralised services inevitably arise. One of the drivers of the potential downgrading is the lack of accident and emergency consultants. As there is no shortage of undergraduates entering medical school in Wales, how can the Welsh Government help direct them to follow postgraduate routes in specialisms we actually need in Wales?

**Suzy Davies:** Mae'r israddio posibl o wasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn eich etholaeth eich hun yn gadael llawer yng Ngorllewin De Cymru yn ofni na fydd eu bywydau yn cael eu gwella pan fydd y cwestiynau anochel ynglŷn â mynediad i'r gwasanaethau canolog hynny yn codi. Un elfen sy'n sbarduno'r israddio posibl yw diffyg ymgynghorwyr damweiniau ac achosion brys. Gan nad oes prinder o israddedigion yn mynd i mewn i ysgolion meddygol yng Nghymru, sut y gall Llywodraeth Cymru helpu i'w cyfeirio i ddilyn llwybrau ôl-raddedig mewn arbenigeddau yr ydym eu gwir angen yng Nghymru?

**The First Minister:** I do not recognise the use of the word 'downgrading' and I am completely aware of the services provided by the Princess of Wales Hospital, seeing as I live in Bridgend, unlike the Member opposite. With regard to accident and emergency, it is true to say that there is a shortage of accident and emergency specialists across the UK. It is an unattractive specialism in some ways because of the hours involved, but it would certainly help if the UK Government were to revise its visa regulations in order to make the UK more welcoming to doctors from outside. Historically, the NHS in Wales has relied on

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn cydnabod y defnydd o'r gair 'israddio', ac yr wyf yn llwyr ymwybodol o'r gwasanaethau a ddarperir gan Ysbyty Tywysoges Cymru, gan fy mod yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn wahanol i'r Aelod gyferbyn. O ran damweiniau ac achosion brys, mae'n wir i ddweud bod prinder o arbenigwyr damweiniau ac achosion brys ar draws y DU. Nid yw'n arbenigedd deniadol mewn rhai ffyrdd oherwydd yr oriau gwaith y mae'n ei olygu, ond byddai'n sicr yn helpu pe byddai Llywodraeth y DU yn adolygu ei rheoliadau fisa er mwyn gwneud y DU yn fwy croesawgar i feddygon o'r tu allan. Yn

doctors from outside the UK and that situation needs to be improved in order to make sure that accident and emergency services can be properly staffed in the future.

hanesyddol, mae'r GIG yng Nghymru wedi dibynnu ar feddygon o'r tu allan i'r DU ac mae angen gwella'r sefyllfa er mwyn gwneud yn siŵr y gall gwasanaethau damweiniau ac achosion brys gael eu staffio yn briodol yn y dyfodol.

**Polisi Caffael Cyhoeddus**

**Public Procurement Policy**

***2. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0776(FM)*

***2. Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's public procurement policy in north Wales. OAQ(4)0776(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Sicrhau'r budd mwyaf o'r £4.3 biliwn sy'n cael ei wario'n flynyddol ar gaffael ledled Cymru yw ein polisi ni.

**The First Minister:** Our policy is to maximise the value of the £4.3 billion-worth annual procurement expenditure across Wales.

**Alun Ffred Jones:** Rwy'n siŵr y buasem yn cytuno â hynny. Mae cwmnïau adeiladau yn y gogledd yn anhapus iawn â'r penderfyniad i greu rhywbeth sy'n cael ei alw yn 'gerbyd fframwaith' ar draws y gogledd ar gyfer rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mewn llythyr at y cynrychiolwyr, dywedodd eich Gweinidog Cyllid chi:

**Alun Ffred Jones:** I am sure that we would agree with that. Construction companies in north Wales are very unhappy with the decision to create what is called a 'framework vehicle' across north Wales for the twenty-first century schools programme. In a letter to representatives, your Minister for Finance said:

'The Welsh Government does not have the mandate to intervene in the framework approach being adopted by the six north Wales local authorities.'

'Nid yw Llywodraeth Cymru yn meddu ar y mandad i ymyrryd yn y dull fframwaith sy'n cael ei fabwysiadu gan y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru.'

Mewn llythyr arall at yr un grŵp gan Mohammed Mehmet, prif weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, sy'n arwain y grŵp yma, dywedodd yntau:

In another letter to the same group, Mohammed Mehmet, the chief executive of Denbighshire County Council, says that

'The six north Wales local authorities have been advised by Welsh Government that grant funding for the twenty-first century schools programme is conditional on councils agreeing to collaborative procurement arrangements.'

'Mae chwe awdurdod lleol gogledd Cymru wedi eu cynghori gan Lywodraeth Cymru bod cyllid grant ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn amodol ar gynghorau yn cytuno i drefniadau caffael ar y cyd.'

Ydy Mohammed Mehmet yn dweud y gwir?

Is Mohammed Mehmet telling the truth?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda busnesau a chyrff cyhoeddus ar draws y gogledd er mwyn sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gael i fusnesau o ran caffael. Ynglŷn â rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, rwy'n gwybod bod

**The First Minister:** The Government is working with businesses and public bodies across north Wales to ensure that there are further procurement opportunities available to businesses. As regards the twenty-first century schools programme, I know that

Gwerth Cymru yn rhoi cefnogaeth i'r cynghorau er mwyn iddynt sicrhau bod eu strategaethau caffael yn iawn ac, wrth gwrs, i sicrhau eu bod yn mabwysiadu'r polisïau iawn o ran sicrhau bod cyfleoedd ar gael i fusnesau yn y gogledd. Felly, rydym yn gweithio gyda chynghorau yn ys gogledd, a bydd y Gweinidog Cyllid yn cyhoeddi datganiad polisi caffael cyn y Nadolig a fydd yn egluro yr hyn rydym yn ei erfyn gan gyrff cyhoeddus yn y maes hwn.

Value Wales is providing support to councils in order to ensure that their procurement strategies are correct and, of course, to ensure that they adopt the correct policies in terms of ensuring that opportunities are available to businesses in north Wales. So, we are working with north Wales councils, and the Minister for Finance will publish a procurement policy statement before Christmas that will set out what we expect from public bodies in this area.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, many businesses in north Wales hoping to benefit from public sector investment are repeatedly disappointed that your Government overlooks the region when it allocates its capital investment. North Wales has 20% of Wales's population and receives just 13% of the capital funding from the 25 biggest projects. Do you understand why so many people in north Wales believe that they are ignored by your Government, and will you commit to delivering capital investment in north Wales that is proportionate to the population living there?

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, mae llawer o fusnesau yng ngogledd Cymru sy'n gobeithio elwa o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus yn cael eu siomi dro ar ôl tro wrth i'ch Llywodraeth anwybyddu'r rhanbarth pan fydd yn dyrannu ei fuddsoddiad cyfalaf. Mae gogledd Cymru yn cynnwys 20% o boblogaeth Cymru ond yn derbyn dim ond 13% o'r arian cyfalaf o'r 25 prosiect mwyaf. A ydych chi'n deall pam mae cynifer o bobl yng ngogledd Cymru yn credu eu bod yn cael eu hanwybyddu gan eich Llywodraeth, ac a wnewch chi ymrwymo i ddarparu buddsoddiad cyfalaf yn y gogledd sydd yn gymesur â'r boblogaeth sy'n byw yno?

**The First Minister:** I do not believe that we have disadvantaged the north in any way. I know that this is something that the Tories like to suggest, but many people in north Wales say to me that they will feel disadvantaged given the UK Government's changes in their welfare benefits; they feel very disadvantaged because of the cuts that have taken place in the UK Government's budgets, and they certainly look to the Welsh Government to protect the interests of Wales against the interests of the UK Government, which is doing down north Wales, both actively now and in the future.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu ein bod wedi rhoi'r gogledd dan anfantais mewn unrhyw ffordd. Gwn fod hyn yn rhywbeth y mae'r Torïaid yn hoffi ei awgrymu, ond mae llawer o bobl yng ngogledd Cymru yn dweud wrthyf y byddant yn teimlo dan anfantais oherwydd newidiadau Llywodraeth y DU yn eu budd-daliadau lles; maent yn teimlo o dan anfantais fawr oherwydd y toriadau sydd wedi digwydd yng nghyllidebau Llywodraeth y DU, ac maent yn sicr yn disgwyl i Lywodraeth Cymru warchod buddiannau Cymru yn erbyn buddiannau Llywodraeth y DU, sydd yn anfanteisio gogledd Cymru, yn ymarferol ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol.

**Aled Roberts:** In February 2012, the Government announced that it was changing the public procurement practice in Wales, and referred specifically to simplifying the pre-qualification requirements. Mention was made by the Minister for Finance at the time regarding the supplier qualification information database and the advances that had been made. Are you able to tell us when you will be publishing new data on SQuID,

**Aled Roberts:** Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn newid yr arfer caffael cyhoeddus yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at symleiddio'r gofynion cyn-gymhwyso. Soniodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd am y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr a'r datblygiadau a wnaed. A allwch chi ddweud wrthym pryd y byddwch yn cyhoeddi data newydd ar y gronfa ddata gwybodaeth am

to show whether or not that advance is being sustained?

gymwysterau cyflenwyr i ddangos a yw'r datblygiadau hynny'n cael eu cynnal ai peidio?

**The First Minister:** We have committed to adopting key procurement policies, including the SQuID approach, as the Member will know, to supplier selection, and our community benefits approach to procurement. We will fully monitor this approach, and its success, in the months to come.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu polisïau caffael allweddol wrth ddethol cyflenwyr, gan gynnwys y dull cronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr, yn ogystal â'n hymagwedd o sicrhau buddion cymunedol wrth gaffael, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, Byddwn yn monitro'r dull hwn o weithredu, yn ogystal â'i lwyddiant, yn llawn, yn ystod y misoedd i ddod.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** First Minister, in 2008, I asked representatives of energy companies, during an Assembly committee investigation, whether they met to discuss prices. Those suspicions have been strong enough that the Financial Services Authority and the Office of the Gas and Electricity Markets are conducting investigations, and that a European Union-wide investigation is now likely. The UK Government is making an announcement today on social tariffs. What powers does the Welsh Government have to intervene in the energy market in Wales?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Brif Weinidog, yn 2008, gofynnais i gynrychiolwyr cwmnïau ynni, yn ystod ymchwiliad gan bwyllgor y Cynulliad, a ydynt yn cwrdd i drafod prisiau. Mae'r amheuon hynny wedi bod yn ddigon cryf i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan gynnal ymchwiliadau, ac mae ymchwiliad ledled yr Undeb Ewropeaidd yn debygol erbyn hyn. Mae Llywodraeth y DU yn gwneud cyhoeddiad heddiw ar dariffau cymdeithasol. Pa bwerau sydd gan Lywodraeth Cymru i ymyrryd yn y farchnad ynni yng Nghymru?

**The First Minister:** We have no powers to intervene in the energy market, although I met with Ofgem last week, together with some of the energy suppliers.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennym bwerau i ymyrryd yn y farchnad ynni, er fy mod wedi cyfarfod ag Ofgem yr wythnos diwethaf, ynghyd â rhai o'r cyflenwyr ynni.

**Leanne Wood:** If there has been price rigging by the energy companies, that will have hurt not just Welsh householders, but companies and public sector institutions in Wales. As a result of another rigging scandal, over the London interbank offered rate, a fine of £290 million was levied on Barclays. However, none of that money was returned directly to the people who were affected. What action do you believe is appropriate for energy companies, if they are found guilty of market rigging?

**Leanne Wood:** Os bu rigio prisiau gan y cwmnïau ynni, bydd hynny wedi niweidio nid yn unig deiliaid tai yng Nghymru, ond cwmnïau a sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru hefyd. O ganlyniad i sgandal rigio arall, dros y gyfradd gynnig rhwng banciau Llundain, codwyd dirwy o £290 miliwn ar Barclays. Fodd bynnag, ni ddychwelwyd dim o'r arian hwnnw yn uniongyrchol i'r bobl yr effeithiwyd arnynt. Pa gamau yr ydych yn ei gredu sy'n briodol ar gyfer cwmnïau ynni, os profir eu bod yn euog o rigio'r farchnad?

**The First Minister:** The appropriate authorities should take the strongest possible

**Y Prif Weinidog:** Dylai'r awdurdodau priodol gymryd y camau cryfaf posibl yn eu

action against them. Members of the public feel that there is no competition in the energy market and that they are paying too much for their energy. The energy companies have a job to do in explaining to people how it is that they are making substantial profits while seeing consumer prices rise.

herbyn. Mae aelodau o'r cyhoedd yn teimlo nad oes unrhyw gystadleuaeth yn y farchnad ynni a'u bod yn talu gormod am eu hynni. Mae gan y cwmnïau ynni waith i'w wneud i egluro i bobl sut eu bod nhw'n gwneud elw sylweddol tra bod prisiau i ddefnyddwyr yn codi.

**Leanne Wood:** Thank you for that constructive response, First Minister. UK Energy Minister, Ed Davey, has already confirmed to Members of Parliament that any fines resulting from this will be paid to the energy regulator, Ofgem, and not to energy consumers, in just the same way as the Barclays fine was paid to the FSA. I would suggest an option that has been taken by the city of Baltimore, which has been leading a class action against 16 US and UK banks since June 2011. It is unlikely that families or companies in Wales would be able to go to court to reclaim the inflated costs that they have paid to energy companies—the size differential is just too great. However, if market rigging is confirmed, then the Welsh public sector will have been a major loser. If this transpires, will the Welsh Government lead a group litigation order, co-ordinated with the Welsh public sector and the encouraged participation of Welsh householders and businesses, against the energy companies?

**Leanne Wood:** Diolch i chi am yr ymateb adeiladol yna, Brif Weinidog. Mae Gweinidog Ynni'r DU, Ed Davey, eisoes wedi cadarnhau i Aelodau Seneddol y bydd yr arian o unrhyw ddirwyon sy'n deillio o hyn yn cael ei dalu i'r rheoleiddiwr ynni, Ofgem, ac nid i ddefnyddwyr ynni, yn union yr un ffordd ag y talwyd dirwy Barclays i'r FSA. Byddwn yn awgrymu opsiwn a gymerwyd gan ddinas Baltimore, sydd wedi bod yn arwain at weithredu yn erbyn 16 o fanciau'r Unol Daleithiau a'r DU ers mis Mehefin 2011. Mae'n annhebygol y byddai teuluoedd na chwmnïau yng Nghymru yn gallu mynd i'r llys i adennill y costau chwyddedig y maent wedi eu talu i'r cwmnïau ynni—mae'r gwahaniaeth maint yn rhy fawr. Fodd bynnag, os bydd rigio'r farchnad yn cael ei gadarnhau, bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn gollwr mawr. Os daw hyn yn hysbys, a fydd Llywodraeth Cymru yn arwain gorchymyn ymgyfreitha grŵp, wedi'i gydgysylltu â'r sector cyhoeddus yng Nghymru a chyfranogiad wedi'i annog gan ddeiliaid tai a busnesau Cymru, yn erbyn y cwmnïau ynni?

**The First Minister:** I am not sure what point the leader of Plaid Cymru was making but I will try to answer it as best I can. I believe that she was asking whether there was a way of money being recouped to the Welsh public sector—not exclusively, but the Welsh public sector particularly—as a result of any price rigging, should that be proved. The first step is for the appropriate investigations to be made, in order to discover whether in fact such price fixing, or rigging, has taken place. Thought can then be given to how compensation, if appropriate, can be given to those who have been most affected.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr beth oedd y pwynt yr oedd arweinydd Plaid Cymru yn ei wneud, ond byddaf yn ceisio ei ateb i'r gorau o'm gallu. Rwyf yn credu ei bod yn gofyn a oes unrhyw ffordd i'r sector cyhoeddus yng Nghymru allu adennill arian—nid yn unig y sector cyhoeddus yng Nghymru, ond y sector hwnnw'n arbennig—o ganlyniad i unrhyw rigio prisiau, pe byddai hynny'n cael ei brofi. Y cam cyntaf yw i'r ymchwiliadau priodol gael eu gwneud, er mwyn darganfod a yw gosod prisiau o'r fath, neu rigio, wedi digwydd mewn gwirionedd. Gellir ystyried wedyn sut y gellir talu iawndal, os yw'n briodol, i'r rhai hynny sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog,

Minister, the National Assembly for Wales can make laws and spend money, but it is the only legislature in the world without powers over taxation. The Silk commission has set out a blueprint, with support across the political spectrum. You have been clear that you support borrowing powers and some of the minor taxes set out in the report, and you have also been clear that Wales needs a fair funding formula, which is another of the report's recommendation. Given that you support those elements, do you broadly endorse the package as a whole?

gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud deddfau a gwario arian, ond dyma'r unig ddeddfwrfa yn y byd nad oes ganddi bwerau dros drethiant. Mae comisiwn Silk wedi gosod glasbrint, gyda chefnogaeth ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Rydych wedi bod yn glir eich bod yn cefnogi pwerau benthyca a rhai o'r mân drethi a nodir yn yr adroddiad, ac yr ydych wedi bod yn glir hefyd bod angen fformiwla ariannu teg, sy'n un o argymhellion eraill yr adroddiad. O ystyried eich bod yn cefnogi'r elfennau hynny, a ydych yn fras gefnogi'r pecyn yn ei gyfanrwydd?

**The First Minister:** Yes, I do.

**Y Prif Weinidog:** Ydw.

**Kirsty Williams:** Thank you for that clarification. Recommendation 18 of the Silk report states that the transfer of income tax powers to the Welsh Government should be conditional on resolving the fair funding issue. What discussions have you had with the Chancellor of the Exchequer, the Chief Secretary to the Treasury and the shadow chancellor, to ensure that all parties commit to introducing a fair funding formula to enable this to happen by 2020?

**Kirsty Williams:** Diolch am wneud hynny'n glir. Mae Argymhelliad 18 adroddiad Silk yn datgan y dylai trosglwyddo pwerau treth incwm i Lywodraeth Cymru fod yn amodol ar ddatrys y mater ariannu teg. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Changhellor y Trysorlys, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a changhellor yr wrthblaid, er mwyn sicrhau bod yr holl bartïon yn ymrwymo i gyflwyno fformiwla ariannu teg i alluogi hyn i ddigwydd erbyn 2020?

**The First Minister:** I have had exhaustive discussions with the UK Government on this issue. We have an agreement in relation to a Barnett floor, but it is the view of the UK Government that it does not wish to revisit Barnett at this point.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi cael trafodaethau trwyadl gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae gennym gytundeb o ran isafswm Barnett, ond barn Llywodraeth y DU yw nad yw'n dymuno ailedrych ar Barnett ar hyn o bryd.

**Kirsty Williams:** It would have been helpful, Presiding Officer, if we could have had confirmation from the First Minister about whether he has discussed this with the shadow chancellor, and whether the shadow chancellor will commit to implementing a fair funding formula, so that we can enact the Silk recommendations by 2020. Perhaps the First Minister could answer that question.

**Kirsty Williams:** Byddai wedi bod yn ddefnyddiol, Lywydd, pe byddem wedi cael cadarnhad gan y Prif Weinidog am ba un a yw wedi trafod hyn gyda changhellor yr wrthblaid, ac a fydd canghellor yr wrthblaid yn ymrwymo i weithredu fformiwla ariannu teg, fel y gallwn ddeddfu argymhellion Silk erbyn 2020. Efallai y gallai'r Prif Weinidog ateb y cwestiwn hwnnw.

All four parties here, First Minister, worked together to ensure that the Silk commission was set up and to agree its terms of reference. All our party nominees have worked together on the commission in order to forge a consensus on a future direction and a way forward for Wales. I now believe that it is essential that the UK and Welsh Governments work quickly and co-

Mae pob un o'r pedair plaid sydd yma, Brif Weinidog, wedi cydweithio i sicrhau sefydlu comisiwn Silk ac i gytuno ar ei gylch gorchwyl. Mae holl enwebeion y pleidiau wedi gweithio gyda'i gilydd ar y comisiwn er mwyn creu consensws ar gyfeiriad ar gyfer y dyfodol a ffordd ymlaen i Gymru. Rwyf bellach yn credu ei bod yn hanfodol bod y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n

operatively to implement all of the Silk commission's findings in full. Will you make representations to the UK Government to ask for a legislative slot for a Wales Bill in the spring of 2014, as recommended by Silk? If you do so, I can assure you of the Welsh Liberal Democrats' full support in that.

gyflym ac yn gydweithredol i weithredu pob un o ganfyddiadau comisiwn Silk yn llawn. A wnewch chi gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ofyn am slot deddfwriaethol ar gyfer Mesur Cymru yng ngwanwyn 2014, fel yr argymhellwyd gan Silk? Os byddwch yn gwneud hynny, gallaf eich sicrhau y cewch gefnogaeth lawn y Democratiaid Rhyddfrydol yn hynny o beth.

**The First Minister:** Yes. In answer to the Member's first question, there have been discussions with figures in the Labour Party outside of Wales regarding Barnett. The Member falls a little into a trap by saying that the shadow chancellor must agree to this in order for this to be implemented, because she suggests that she expects the Labour Party to win the 2015 general election. Nevertheless, I welcome her commitment to Barnett reform, as is the case with some of the other parties in this Chamber.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mewn ateb i gwestiwn cyntaf yr Aelod, bu trafodaethau gydag unigolion yn y Blaid Lafur o'r tu allan i Gymru ynghylch Barnett. Mae'r Aelod yn disgyn i drap braidd drwy ddweud bod yn rhaid i ganghellor yr wrthblaid gytuno i hyn er mwyn iddo gael ei weithredu, gan ei bod yn awgrymu ei bod yn disgwyl i'r Blaid Lafur ennill etholiad cyffredinol 2015. Serch hynny, rwyf yn croesawu ei hymrwymiad i ddiwygio Barnett, fel sy'n wir am rai o'r pleidiau eraill yn y Siambr hon.

With regard to the second point, I have already raised this issue with the Secretary of State for Wales. I have made it clear that there is a need for a legislative slot to be found before the end of the 2015 parliament. He is sympathetic to that, although he has indicated that that does not mean that the UK Government will necessarily accept every recommendation, which I understand that at this stage. I hope that every recommendation is accepted by the UK Government, however, and I look forward to seeing a legislative slot being made available as soon as possible so that Silk part 1 can be implemented well before the 2015 date for the next general election.

O ran yr ail bwynt, rwyf eisoes wedi codi'r mater hwn gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Rwyf wedi gwneud yn glir fod angen dod o hyd i slot deddfwriaethol cyn diwedd senedd 2015. Mae'n cydymdeimlo â hynny, er ei fod wedi nodi nad yw hynny'n golygu y bydd Llywodraeth y DU o reidrwydd yn derbyn pob argymhelliad, ac yr wyf yn deall hynny ar hyn o bryd. Gobeithiaf y bydd pob argymhelliad yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth y DU, fodd bynnag, ac yr wyf yn edrych ymlaen at weld slot deddfwriaethol yn cael ei neilltuo cyn gynted ag y bo modd fel y gall rhan 1 Silk gael ei weithredu ymhell cyn dyddiad yr etholiad cyffredinol nesaf yn 2015.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** We, on this side, fully welcome the Silk commission recommendations, and I pay tribute to all the members of the commission, particularly Nick Bourne, our representative on the commission, who played such an active part.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Rydym ni, ar yr ochr hon, yn croesawu argymhellion comisiwn Silk yn llawn, ac rwyf yn talu teyrnged i holl aelodau'r comisiwn, yn enwedig Nick Bourne, ein cynrychiolydd ar y comisiwn, a chwaraeodd ran mor weithredol.

The key issue about fiscal responsibility is that word 'responsibility'. We have had a decade of spending without responsibility. Money has arrived here and you have just looked in the envelope and spent it rather willy-nilly, I would suggest. Do you not now believe that it is critical that we move to a

Y mater allweddol ynghylch cyfrifoldeb ariannol yw'r gair 'cyfrifoldeb' hwnnw. Rydym wedi cael degawd o wario heb gyfrifoldeb. Mae arian wedi cyrraedd yma ac rydych wedi edrych yn yr amlen ac fe fyddwn i'n awgrymu eich bod wedi ei wario rywsut-rywsut braidd. Onid ydych chi bellach

climate that confers far greater responsibility on the Welsh Government for the money that it spends, so that there is genuine accountability over the processes and policies that you implement?

yn credu ei bod yn hanfodol ein bod yn symud i hinsawdd sy'n gosod llawer mwy o gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru dros yr arian y mae'n ei wario, fel bod atebolrwydd gwirioneddol dros y prosesau a'r polisïau yr ydych yn eu gweithredu?

**The First Minister:** The leader of the opposition makes it sound as if, somehow, we are not elected in this Chamber. The reality is that there are those of us who put ourselves forward in constituencies to be elected every five years and seek to represent those constituencies. The Silk commission was set up by a former Secretary of State for Wales who suggested that there should be greater accountability, which is ironic given the fact that she was not accountable in any way to the people of Wales. So, I do not accept that there is somehow power without responsibility here, although, as the leader of the opposition knows, we are more than happy, as a Government, to take forward the recommendations of the Silk commission.

**Y Prif Weinidog:** Mae arweinydd yr wrthblaid yn ei gwneud hi swnio, rywsut, fel nad ydym yn cael ein hethol yn y Siambr hon. Y realiti yw bod rhai ohonom yn rhoi ein hunain ymlaen mewn etholaethau i gael ein hethol bob pum mlynedd ac yn ceisio cynrychioli'r etholaethau hynny. Sefydlwyd comisiwn Silk gan gyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru a awgrymodd y dylai fod mwy o atebolrwydd, ac mae hynny'n eironig o ystyried y ffaith nad oedd hi'n atebol mewn unrhyw ffordd i bobl Cymru. Felly, nid wyf yn derbyn bod, rywsut, pŵer heb gyfrifoldeb yma, er, fel y mae arweinydd yr wrthblaid yn gwybod, rydym yn fwy na hapus, fel Llywodraeth, i fynd ymlaen ag argymhellion comisiwn Silk.

**Andrew R.T. Davies:** As per usual, I did not hear a word of the First Minister's bellyaching, other than his slight about regional Members over constituency Members. I am sure that the two regional Members on his own benches, who allow him to govern, would have heard his words. Certainly, it is not our position to divide and rule, much like the Labour Party does by trying to divide and rule in Wales, with the rhetoric he has given today. I asked him a simple question about responsibility. Time and again, we hear from the First Minister speeches at the London School of Economics and other places on constitutional convention, new legal jurisdiction and a reserved powers model, and yet, on the very simple question of financial responsibility, all he can do is bellyache and try to divide Members in this institution. That is quite a damning indictment on the First Minister's response to the Silk commission.

**Andrew R.T. Davies:** Fel arfer, ni chlywais air o sylwadau cwynfanllyd y Prif Weinidog, ar wahân i'r ffaith ei fod yn bychanu Aelodau rhanbarthol o'u cymharu ag Aelodau etholaeth. Yr wyf yn siŵr bod y ddau Aelod rhanbarthol ar ei feinciau ei hun, sy'n caniatáu iddo lywodraethu, wedi clywed ei eiriau. Yn sicr, nid ein hagwedd ni yw rhannu a rheoli, yn y modd y mae'r Blaid Lafur yn ei wneud drwy geisio rhannu a rheoli yng Nghymru, gyda'r rhethreg a gafwyd ganddo heddiw. Gofynnais gwestiwn syml iddo am gyfrifoldeb. Dro ar ôl tro, clywn areithiau gan y Prif Weinidog yn y London School of Economics a mannau eraill ar gonfensiwn cyfansoddiadol, awdurdodaeth gyfreithiol newydd a model pwerau neilltuedig, ac eto, ar y cwestiwn syml iawn o gyfrifoldeb ariannol, y cyfan y gall ei wneud yw cwyno a cheisio rhannu Aelodau yn y sefydliad hwn. Mae hynny'n gondemniad eithaf damniol ar ymateb y Prif Weinidog i gomisiwn Silk.

1.45 p.m.

**The First Minister:** It is always unfortunate to see the leader of the opposition unable to move away from his script in the Chamber, particularly when he is given an answer that he does not expect. Let me repeat this for him once again: we support part 1 of the Silk

**Y Prif Weinidog:** Mae bob amser yn anffodus i weld arweinydd yr wrthblaid yn methu symud i ffwrdd oddi wrth ei sgript yn y Siambr, yn enwedig pan ei fod yn cael ateb nad yw'n ei ddisgwyl. Gadewch i mi ailadrodd hyn ar ei gyfer ef unwaith eto:

commission, we are happy to see it taken forward and we look forward to his party taking it forward in its entirety before the end of this parliamentary session.

rydym yn cefnogi rhan 1 comisiwn Silk, rydym yn hapus i'w weld yn cael ei ddwyn ymlaen ac rydym yn edrych ymlaen at weld ei blaid yn bwrw ymlaen ag ef yn ei gyfanrwydd cyn diwedd y sesiwn seneddol hwn.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, I can be accused of many things but sticking to the script is not one of them. [*Laughter*.] My contributions are probably too often off the cuff. I have said that we are fully supportive of the Silk commission's recommendations. The time frame is important, but there are some very important recommendations that could go forward: for example, air passenger duty, business rates, and the business rate multiplier—we have just announced that our position is to consult on that—especially given that 99% of businesses in Wales are small businesses. How do you propose to take forward, along with the UK Government—it is a joint approach and I accept that—some of the less controversial recommendations that could make a real difference to the competitiveness of the Welsh economy? In particular, I am thinking of the two examples of air passenger duty—we know about the troubles around Cardiff Airport—and business rates. Businesses of all hues indicate that that is a real issue that affects their ability to be competitive here in Wales and in the United Kingdom.

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, gellir fy nghyhuddo o lawer o bethau, ond nid yw cadw at y sgript yn un ohonynt. [Chwerthin.] Mae fy nghyfraniadau yn ôl pob tebyg yn rhai difyfyr yn rhy aml. Rwyf wedi dweud ein bod yn gwbl gefnogol o argymhellion comisiwn Silk. Mae'r amserlen yn bwysig, ond mae rhai argymhellion pwysig iawn a allai fynd ymlaen: er enghraifft, toll teithwyr awyr, ardrethi busnes, a'r lluosydd ardrethi busnes—rydym newydd gyhoeddi mai ein safbwynt ni yw ymgynghori ar hynny—yn enwedig o gofio bod 99% o fusnesau yng Nghymru yn fusnesau bach. Sut ydych chi'n bwriadu bwrw ymlaen, ynghyd â Llywodraeth y DU—rwyf yn derbyn mai ymagwedd ar y cyd yw hyn—gyda rhai o'r argymhellion llai dadleuol a allai wneud gwir wahaniaeth i gystadleurwydd economi Cymru? Rwyf yn meddwl am y ddwy enghraifft o dollau teithwyr awyr—rydym yn gwybod am y trafferthion yn ymwneud â Maes Awyr Caerdydd—ac ardrethi busnes. Mae busnesau o bob math yn nodi hyn fel gwir broblem sy'n effeithio ar eu gallu i fod yn gystadleuol yma yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.

**The First Minister:** These are all matters for the UK Government. It is a UK Government commission, which it has to take forward via a legislative vehicle in Westminster. We will, of course, support the UK Government in that regard. I have made our position clear to the Secretary of State for Wales, that we expect to see the Silk commission taken forward. It is our view, as a Government, that the whole of Silk should be taken forward. We look forward to the UK Government doing that. When it does so, we will give it our full support.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhain i gyd yn faterion i Lywodraeth y DU. Comisiwn Llywodraeth y DU yw hyn, y mae'n rhaid iddi ei symud ymlaen drwy gyfrwng deddfwriaethol yn San Steffan. Byddwn, wrth gwrs, yn cefnogi Llywodraeth y DU yn hynny o beth. Rwyf wedi gwneud ein safbwynt yn glir i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ein bod yn disgwyl gweld comisiwn Silk yn cael ei symud ymlaen. Yn ein barn ni, fel Llywodraeth, dylid dwyn ymlaen Silk yn ei gyfanrwydd. Rydym yn edrych ymlaen at weld Llywodraeth y DU yn gwneud hynny. Pan fydd yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi ein cefnogaeth lawn iddi.

**Entrepreneuriaid**

**Entrepreneurs**

***3. Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu entrepreneuriaid yn Islwyn. OAQ(4)0782(FM)*

**The First Minister:** We are helping entrepreneurs across Wales in a variety of ways, including support through the business start-up service, the regional centre service and the inaugural entrepreneurs' conference.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. First Minister, when I speak to businesses in Islwyn, one of the pressures that they always mention is transport costs. Since you spoke about the Severn crossing, I have been approached by members of the business community who say that any reduction in or scrapping of the charges would make a massive difference to their businesses. Will you continue to give this matter your serious consideration?

**The First Minister:** Yes. Our view as a Government is that it would be wholly wrong for the current situation to continue, and for the tolls, once the contract comes to an end, to be set by the Department for Transport and used entirely for the benefit of the English road network. It would be entirely wrong for what is effectively an entry fee, charged to people coming into Wales, to provide no benefit at all to the people of Wales. We take the view that those tolls should be controlled within Wales. The tolls could then be used to improve the M4, for example. Those are the submissions that we are making to the UK Government and we will continue to make those points strongly.

**Mohammad Asghar:** An essential condition for helping entrepreneurs is for businesses to have a supply of educated school leavers, equipped with skills for employment. According to a recent survey, 82% of small businesses said that they did not think that Welsh school leavers had up-to-the-mark numeracy and literacy skills. The Federation of Small Business Wales said that schools should put a greater emphasis on core workplace skills, such as communication, literacy and numeracy. What is the Government doing to ensure that young people leave school with qualifications that

***3. Gwyn R. Price:*** *Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government is helping entrepreneurs in Islwyn. OAQ(4)0782(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn helpu entrepreneuriaid ledled Cymru mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cymorth drwy'r gwasanaeth dechrau busnes, y gwasanaeth canolfan ranbarthol a'r gynhadledd gyntaf i entrepreneuriaid.

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb yna. Brif Weinidog, pan fyddaf yn siarad â busnesau yn Islwyn, un elfen  o bwysau y maent bob amser yn sôn amdani yw costau cludiant. Ers i chi siarad am groesfan Hafren, mae nifer o aelodau'r gymuned fusnes wedi cysylltu â mi gan ddweud y byddai unrhyw ostyngiad neu gael gwared ar y taliadau yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'w busnesau. A wnewch chi barhau i roi ystyriaeth ddifrifol i'r mater hwn?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Ein barn ni fel Llywodraeth yw y byddai'n gwbl anghywir i'r sefyllfa bresennol barhau, ac i'r tollau, ar ôl i'r contract ddod i ben, gael eu pennu gan yr Adran Drafnidiaeth a'u defnyddio yn gyfan gwbl er budd rhwydwaith ffyrdd Lloegr. Byddai'n gwbl anghywir nad yw'r hyn sydd, i bob pwrpas, yn ffi mynediad a godir ar bobl sy'n dod i mewn i Gymru, yn darparu unrhyw fudd o gwbl i bobl Cymru. Rydym o'r farn y dylai'r tollau hyn gael eu rheoli yng Nghymru. Gallai'r tollau wedyn gael eu defnyddio i wella'r M4, er enghraifft. Dyma'r cyflwyniadau yr ydym yn eu gwneud i Lywodraeth y DU a byddwn yn parhau i wneud y pwyntiau hynny yn gryf.

**Mohammad Asghar:** Amod hanfodol o helpu entrepreneuriaid yw bod gan fusnesau gyflenwad o bobl ddysgedig sy'n gadael yr ysgol gyda sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Yn ôl arolwg diweddar, dywedodd 82% o fusnesau bach nad oeddent yn credu bod gan bobl sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru y sgiliau rhifedd a llythrennedd angenrheidiol. Dywedodd  Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y dylai ysgolion roi mwy o bwyslais ar sgiliau craidd y gweithle, megis cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc yn gadael yr ysgol gyda

best meet their own needs and those of employers in Wales?

chymwysterau sy'n bodloni eu hanghenion eu hunain ac anghenion cyflogwyr yng Nghymru yn y modd gorau?

**The First Minister:** I am not aware of the survey to which the Member is referring. We have a youth entrepreneurship strategy, which promotes the value of entrepreneurship and supports young people with entrepreneurial learning opportunities and those who wish to start up in business.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn ymwybodol o'r arolwg y mae'r Aelod yn cyfeirio ato. Mae gennym strategaeth entrepreneuriaeth ieuenctid, sy'n hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth ac sy'n cefnogi pobl ifanc gyda chyfleoedd dysgu entrepreneuraidd yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno dechrau busnes.

**Lindsay Whittle:** First Minister, Wales is one of the most expensive parts of the UK for business rates but, strangely, we are the cheapest part of the UK in which to open a supermarket. That is unacceptable. Will you take the best way forward and seek the devolution of business rates so that we can start planning meaningful and immediately beneficial measures to assist the growth of small businesses, and come back to the Assembly to tell us how successful you have been?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, mae Cymru yn un o rannau drutaf y DU o ran ardrethi busnes, ond, yn rhyfedd, ni yw'r rhan rataf o'r DU i agor archfarchnad. Mae hynny'n annerbyniol. A wnewch chi gymryd y ffordd orau ymlaen a cheisio datganoli ardrethi busnes fel y gallwn ddechrau cynllunio mesurau ystyrlon ac o fudd di-oed i gynorthwyo twf busnesau bach, a dod yn ôl i'r Cynulliad i ddweud wrthym ba mor llwyddiannus y buoch?

**The First Minister:** Yes. That forms part of the Silk commission's recommendations, which we support.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae hynny'n ffurfio rhan o argymhellion comisiwn Silk, ac yr ydym yn eu cefnogi.

**TAN 18**

**TAN 18**

***4. Rhodri Glyn Thomas:*** *Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i rhoi i adolygu TAN18. OAQ(4)0772(FM)*

***4. Rhodri Glyn Thomas:*** *What consideration has the First Minister given to reviewing TAN18. OAQ(4)0772(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Nid oes adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried unrhyw argymhellion sy'n dod o'r adolygiad cyfredol i drafnidiaeth gyhoeddus gan y pwyllgor.

**The First Minister:** There is no review in hand at present. We would consider any recommendations that emanate from the current committee review of public transport.

**Rhodri Glyn Thomas:** O'r 135,000 o geffylau sydd â phasbort yng Nghymru, mae 22,000 ohonynt yn sir Gaerfyrddin. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud gwaith arbennig o dda yn agor llwybrau ceffylau. Nid wyf yn canmol Cyngor Sir Caerfyrddin yn aml, ond, y tro hwn, mae lle i'w ganmol am agor y llwybrau ceffylau hyn. Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r ceffylau a'u marchogion gyrraedd y llwybrau ceffylau hynny yn y lle cyntaf. A fyddech yn ystyried cynnwys marchogion dan ddiffiniad defnyddwyr bregus ein ffyrdd yn TAN 18? A fyddech yn barod i sicrhau bod eu hawliau hwy hefyd yn cael eu cydnabod o fewn y TAN? Gyda llaw,

**Rhodri Glyn Thomas:** Of the 135,000 passported horses in Wales, 22,000 are in Carmarthenshire. Carmarthenshire County Council has done some very good work in opening bridleways. I do not often praise Carmarthenshire County Council, but, in this instance, it deserves praise for opening these bridleways. Of course, horses and their riders must, first of all, reach these bridleways. Would you consider including horse riders under the definition of vulnerable road users in TAN 18? Would you be willing to ensure that their rights are also recognised within the TAN? The TAN has not, by the way, been reviewed for five years.

nid yw'r TAN wedi'i adolygu ers pum mlynedd.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf ystyried hynny. Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig, felly ysgrifennaf ato i ddelio'n fanwl gyda'r pwynt y mae'n ei wneud.

**The First Minister:** I will consider that. The Member raises an important point, so I will write to him to respond in detail to the point that he makes.

**Nick Ramsay:** I did not anticipate that this question would move on to bridleways. My question is more on the essence of TAN 18, which I have just been wading through. The Active Travel (Wales) Bill, of which I am sure you are aware, because your Welsh Government is bringing it forward under the Minister with responsibility for transport, is at an early stage, but there are concerns that it is trying to do a great number of things and that it relies very much on integration of land use and transport—the sort of detail that is in TAN 18. It strikes me that it will need to be reviewed if we are to assist the effective implementation of the active travel Bill. Will you undertake, if it helps with the active travel Bill, to review TAN 18 as soon as possible?

**Nick Ramsay:** Ni ragwelais y byddai'r cwestiwn hwn yn symud ymlaen i lwybrau ceffylau. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud mwy ar hanfod TAN 18, yr wyf newydd fod yn llafurio trwyddo. Mae Bil Teithio Byw (Cymru), yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol ohono, gan fod eich Llywodraeth Cymru yn ei gyflwyno o dan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am drafnidiaeth, yn ei ddyddiau cynnar, ond ceir pryderon ei fod yn ceisio gwneud nifer fawr o bethau a'i fod yn dibynnu i raddau helaeth ar integreiddio'r defnydd o dir a thrafnidiaeth—y math o fanylion sydd yn TAN 18. Mae'n ymddangos i mi y bydd angen ei adolygu os ydym am gynorthwyo gweithrediad effeithiol y Bil teithio byw. A wnewch chi ymrwymo, os bydd yn helpu gyda'r Bil teithio byw, i adolygu TAN 18 cyn gynted ag y bo modd?

**The First Minister:** Of course, we will look at anything that helps to assist the passage and implementation of any Bill that passes through the Assembly. At present, the emphasis is on drafting the Bill itself with a view to introducing it in the spring of next year. Of course, we want to ensure that the Bill itself works in tandem with TAN 18.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, byddwn yn edrych ar unrhyw beth sy'n helpu i gynorthwyo tramwyad a gweithrediad unrhyw Fil sy'n mynd drwy'r Cynulliad. Ar hyn o bryd, mae'r pwyslais ar ddrafftio'r Bil ei hun gyda'r bwriad o'i gyflwyno yng ngwanwyn y flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, rydym am sicrhau bod y Bil ei hun yn gweithio ar y cyd â TAN 18.

### Blaenoriaethau

***5. Russell George:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Drefaldwyn. OAQ(4)0783(FM)*

**The First Minister:** Yes, they are to be found in the programme for government.

**Russell George:** The people of Montgomeryshire will hope that the halting of the mid Wales connection project will be high on your agenda, as Welsh Ministers will undoubtedly have the final say on whether a critical sub-station at Cefn-coch should be given planning permission. I draw your attention to the comments made by John Hayes, the Minister of State at the

### Priorities

***5. Russell George:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for Montgomeryshire. OAQ(4)0783(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, maen nhw i'w gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Russell George:** Bydd pobl Sir Drefaldwyn yn gobeithio y bydd atal y prosiect cysylltiad canolbarth Cymru yn uchel ar eich agenda, gan y bydd Gweinidogion Cymru yn ddi-os yn cael y gair olaf ynghylch a ddylai is-orsaf dra phwysig yng Nghefn-coch gael caniatâd cynllunio. Tynnaf eich sylw at y sylwadau a wnaed gan John Hayes, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Ynni a Newid yn yr

Department of Energy and Climate Change, who said that we can no longer have extremely inefficient and costly windfarms imposed upon communities—'enough is enough'. Do you agree with him?

Hinsawdd, a ddywedodd na allwn mwyach gael ffermydd gwynt hynod aneffeithlon a chostus yn cael eu gorfodi ar ein cymunedau—'digon yw digon'. A ydych chi'n cytuno ag ef?

**The First Minister:** In that case, he must adjust the UK Government's policy. It is the UK Government that has responsibility for grid connections and larger windfarm applications. His comments must be directed at that particular Minister. With regard to any application for a sub-station, that, in the first instance, is a matter for Powys County Council and not the Welsh Government.

**Y Prif Weinidog:** Os felly, mae'n rhaid iddo addasu polisi Llywodraeth y DU. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gysylltiadau grid a cheisiadau am ffermydd gwynt mwy o faint. Mae'n rhaid iddo gyfeirio ei sylwadau at y Gweinidog arbennig hwnnw. O ran unrhyw gais am is-orsaf, mae hwnnw, yn y lle cyntaf, yn fater i Gyngor Sir Powys ac nid i Lywodraeth Cymru.

**Kenneth Skates:** First Minister, Montgomeryshire is indeed one of the most beautiful parts of Wales, perfectly suited to road cycling. The organisers of the Tour de France, along with British Cycling, are looking at bringing the event back to the British isles in the next few years. What is your Government doing to explore a possible bid to bring the Tour de France through Montgomeryshire, north Wales and the rest of Wales?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, mae Sir Drefaldwyn yn wir yn un o rannau mwyaf prydferth Cymru, ac yn berffaith ar gyfer beicio ar y ffordd. Mae trefnwyr y Tour de France, ynghyd â British Cycling, yn ystyried dod â'r digwyddiad yn ôl i ynysoedd Prydain yn ystod y blynyddoedd nesaf. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i archwilio cais posibl i ddod â'r Tour de France drwy sir Drefaldwyn, gogledd Cymru a gweddill Cymru?

**The First Minister:** I can confirm that the Welsh Government has been working with partners on a joint British bid for stages of the Tour de France in 2014 or 2015, which would include a stage in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd â phartneriaid Prydeinig ar gais i gynnal rhai o gamau'r Tour de France yn 2014 neu 2015, a fyddai'n cynnwys cam yng Nghymru.

**Simon Thomas:** Mae Ed Davey, y Gweinidog sy'n gyfrifol am felinau gwynt, wedi dweud yn glir bod lle pwysig iddynt o ran taclo newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Yr wythnos hon, mae'r Alban wedi creu 70.5 swydd newydd yn y diwydiant melinau gwynt drwy gael yr hawl dros ynni yn gyfan gwbl.

**Simon Thomas:** Ed Davey, the Minister with responsibility for windfarms, has said clearly that they have an important role in dealing with climate change and generating renewable energy. This week, Scotland has created 70.5 new jobs in the windfarm industry as a result of being fully responsible for energy.

Wrth inni symud i ail ran Silk, a fyddwch chi a'ch Llywodraeth yn gwneud yr achos cryfaf posibl i gael yr hawl dros ynni yng Nghymru—fel ein bod nid yn unig yn gallu delio â'r problemau sy'n wynebu rhai pobl yn sir Drefaldwyn, ond hefyd yn manteisio'n llawn ar y gallu i ecsbloetio ein hadnoddau naturiol?

As we move to Silk part 2, will you and your Government make the strongest possible case for having devolved power for energy in Wales—so that we are not only able to deal with the problems faced by people in Montgomeryshire but are also able to take full advantage of our natural resources?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn gwneud hynny'n hollol glir. Rydym wedi gweld y swyddi yn yr Alban, ond mae'r cawlach yn

**The First Minister:** We will make that clear. We have seen the jobs created in Scotland, but the mess in London with regard to energy

Llundain o ran polisi ynni yn costio swyddi yng Nghymru. Rydym wedi cyflwyno'r achos sawl gwaith dros ddatganoli tystysgrifau ymrwymo i ynni adnewyddadwy a datganoli'r gallu i ganiatáu proseictau ynni mawr, er mwyn sicrhau bod budd economaidd i Gymru. Rydym ar ein colled ar hyn o bryd gan nad ydym yn rheoli ynni yn yr un ffordd ag y mae pobl Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw hynny'n deg ar bobl Cymru.

policy is costing us jobs in Wales. We have made the case more than once for the devolution of renewable obligation certificates and the ability to decide on large energy projects, so that we see an economic benefit for Wales. We lose out at present as a result of our inability to control energy in the same was as is done in England, Scotland and Northern Ireland. That is not fair on the people of Wales.

**William Powell:** First Minister, given the potential gains that could be achieved from the Powys local growth zones initiative—an initiative that this group warmly welcomes—which infrastructure projects within Montgomeryshire and wider Powys is your Government prepared to prioritise to assist in the successful delivery of those zones? I am thinking particularly of the Carno station project, which has been a long-term aspiration, and the delivery of the hourly service on the Cambrian line.

**William Powell:** Brif Weinidog, o ystyried y manteision posibl y gellid eu cyflawni gan fenter ardal twf lleol Powys—menter y mae'r grŵp hwn yn ei chroesawu'n gynnes—pa brosiectau seilwaith o fewn Sir Drefaldwyn a Phowys ehangach y mae eich Llywodraeth yn barod i flaenoriaethu i gynorthwyo wrth gyflawni'r ardaloedd hynny'n llwyddiannus? Rwyf yn meddwl yn arbennig am brosiect gorsaf Carno, sydd wedi bod yn ddyhead tymor hir, a darparu'r gwasanaeth bob awr ar reilffordd Cambrian.

**The First Minister:** The Member will be aware that the hourly service on the Cambrian line, if memory serves me right, is in the national transport plan. Carno station has been more problematic, because of finance and other issues. We would hope to be in a position whereby frequency on the central Wales line is improved as soon as possible, finance permitting, in line with what has been proposed in the national transport plan.

**Y Prif Weinidog:** Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod y gwasanaeth bob awr ar reilffordd Cambrian, os cofiaf yn iawn, yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Mae gorsaf Carno wedi bod yn fwy problemus, oherwydd cyllid a materion eraill. Byddem yn gobeithio bod mewn sefyllfa lle y bydd amledd ar linell canolbarth Cymru yn cael ei wella cyn gynted ag y bo modd, os bydd arian yn caniatáu, yn unol â'r hyn a gynigiwyd yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Onid yw'r drafodaeth hon, unwaith eto, Brif Weinidog, yn pwysleisio'r angen i Lywodraeth Cymru weithredu ar ei chefnogaeth i argymhellion y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a adroddodd ar holl fater cynllunio ac ynni yn ddiweddar? A gaf sicrwydd gan y Prif Weinidog ei fod yn dal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru weithredu ar y derbyniad adeiladol a roddwyd i'r adroddiad hwnnw?

**Lord Elis-Thomas:** Does this discussion, First Minister, not emphasise again the need for the Welsh Government to act upon its support for the recommendations of the Environment and Sustainability Committee, which recently reported on the whole issue of planning and energy? Will the First Minister assure me that it remains a priority for the Welsh Government to act upon the positive reception given to that report?

**Y Prif Weinidog:** Bydd yr Aelod yn gwybod ein bod wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion, ond mae'n wir dweud ei bod yn anodd iawn sicrhau y budd mwyaf i bobl Cymru heb gael y grym i wneud hynny.

**The First Minister:** The Member will know that we accepted most of the recommendations, but it is true to say that it is difficult to secure the greatest benefits for the people of Wales without the necessary

Rydym yn gweld yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nid oes rheswm o gwbl pam na ddylai pobl Cymru gael yr un pwerau â phobl yr Alban a phobl Gogledd Iwerddon. Dyna yw safbwynt y Llywodraeth yn awr, ac i'r dyfodol. Dylai Cymru gael ei thrin yn yr un ffordd â phob rhan arall o'r Deyrnas Unedig.

powers. We see what is happening in Scotland, England and Northern Ireland. There is no reason at all why the people of Wales should not have the same powers as the people of Scotland and Northern Ireland. That is the Government's view now and for the future. Wales should be treated on a par with all other parts of the United Kingdom.

**Perfformiad y Gwasanaeth Ambiwlans**

**The Performance of the Ambulance Service**

***6. Peter Black:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am berfformiad y gwasanaeth ambiwlans yng Ngorllewin De Cymru. OAQ(4)0773(FM)*

***6. Peter Black:*** *Will the First Minister make a statement on the performance of the ambulance service in South Wales West. OAQ(4)0773(FM*)

**The First Minister:** The 65% national response standard has been met in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board region every month since March 2011.

**Y Prif Weinidog:** Bodlonwyd y safon ymateb cenedlaethol o 65% yn rhanbarth Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg bob mis ers mis Mawrth 2011.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. You will know that there are currently proposals in relation to restructuring services in south Wales that will have an impact on maternity services and accident and emergency services. That is in an engagement process at the moment. Has the Welsh Government engaged with the Welsh Ambulance Services NHS Trust as to what impact these proposals will have on its services?

**Peter Black:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod bod cynigion yn bodoli ar hyn o bryd yn ymwneud â gwasanaethau ailstrwythuro yn ne Cymru a fydd yn cael effaith ar wasanaethau mamolaeth a gwasanaethau damweiniau ac achosion brys. Proses o ymgysylltu yw hon ar hyn o bryd. A yw Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ynglŷn â'r effaith y bydd y cynigion hyn yn ei chael ar ei gwasanaethau?

**The First Minister:** There are no firm proposals as such, but there is a consultation taking place and it is important that all those with a view should offer their views as part of that consultation process. I would expect the ambulance trust to be fully involved in that process and any process beyond.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes unrhyw gynigion cadarn fel y cyfryw, ond mae ymgynghoriad yn digwydd ac mae'n bwysig y dylai pawb sydd â barn gynnig eu barn yn rhan o'r broses ymgynghori honno. Byddwn yn disgwyl i'r ymddiriedolaeth ambiwlans gymryd rhan lawn yn y broses honno ac unrhyw broses dilynol.

**David Rees:** First Minister, I will take that point further. Ambulance performance figures are affected by delays in A&E departments—we all know that. What actions will the Welsh Government take to monitor the delivery of A&E services at hospitals to ensure that ambulances are not delayed unnecessarily, thus becoming temporarily unavailable to the trust?

**David Rees:** Brif Weinidog, rwyf am ddatblygu'r pwynt yna. Mae ffigurau perfformiad Ambiwlans yn cael eu heffeithio gan oedi mewn adrannau damweiniau ac achosion brys—rydym i gyd yn gwybod hynny. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fonitro cyflawni gwasanaethau damweiniau ac achosion brys mewn ysbytai i sicrhau nad yw ambiwlansiau yn profi oedi diangen, sy'n golygu nad ydynt ar gael dros dro i'r ymddiriedolaeth?

**The First Minister:** I am encouraged to note that, in recent months, there has been a 47% reduction in lost ambulance hours. Local health boards are responsible for ensuring that their hospitals deliver safe and high-quality emergency healthcare services, and officials talk to the LHBs and the Welsh ambulance service on a daily basis. That includes holding daily conference calls with LHBs and the ambulance trust's executive-level representative in order to make sure that patients are receiving the right level of clinical care.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n galonogol nodi y bu gostyngiad, yn ystod y misoedd diwethaf, o 47% mewn oriau ambiwlans a gollwyd. Byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu hysbytai yn darparu gwasanaethau gofal iechyd brys diogel ac o ansawdd uchel, ac mae swyddogion yn siarad â'r Byrddau Iechyd Lleol a gwasanaeth ambiwlans Cymru bob dydd. Mae hynny'n cynnwys cynnal galwadau cynhadledd bob dydd gyda Byrddau Iechyd Lleol a chynrychiolydd lefel gweithredol yr ymddiriedolaeth ambiwlans er mwyn gwneud yn siŵr bod cleifion yn derbyn y lefel gywir o ofal clinigol.

**Suzy Davies:** First Minister, in recent weeks we have seen ambulance stations across my region closed due to lack of manpower. That is a miserable state of affairs for valued ambulance staff. The formal consultation on the plans to which Peter Black referred is due to start in January, yet here we are, with another review of ambulances queuing outside A&E departments. Should that formal consultation be delayed until we have a much clearer picture of the state of the ambulance service following that review?

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi gweld gorsafoedd ambiwlans ar draws fy rhanbarth ar gau oherwydd diffyg gweithlu. Mae hynny'n sefyllfa druenus o ran staff ambiwlans a werthfawrogir. Mae'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynlluniau y cyfeiriodd Peter Black ato i fod i ddechrau ym mis Ionawr, ac eto dyma ni, yn wynebu adolygiad arall o ambiwlansiau yn ciwio y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys. A ddylai'r ymgynghoriad ffurfiol gael ei ohirio hyd y bydd gennym ddarlun llawer cliriach o gyflwr y gwasanaeth ambiwlans yn dilyn yr adolygiad hwnnw?

**The First Minister:** We know that doctors—the Member will know this, having organised a meeting where doctors told her this—are saying that it is not sustainable in the future to carry on exactly as we are. We must plan to have services that are both safe and sustainable. That is why it is absolutely crucial that the plans are put in place now to ensure that is the case in the future.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwybod bod meddygon—bydd yr Aelod yn gwybod hyn, gan ei bod wedi trefnu cyfarfod pryd y dywedodd meddygon hyn wrthi—yn dweud nad yw'n gynaliadwy yn y dyfodol i barhau yn union fel yr ydym yn ei wneud. Mae'n rhaid i ni gynllunio i gael gwasanaethau sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy. Dyna pam y mae'n gwbl hanfodol bod y cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith yn awr i sicrhau mai dyma fydd yr achos yn y dyfodol.

2.00 p.m.

**Lleihau Tlodi Plant**

**Reducing Child Poverty**

***7. David Rees:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i leihau tlodi plant yng Nghymru. OAQ(4)0778(FM)*

***7. David Rees:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's actions to reduce child poverty in Wales. OAQ(4)0778(FM)*

***11. Mark Drakeford:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. OAQ(4)0777(FM)*

***11. Mark Drakeford:*** *Will the First Minister make a statement on addressing child poverty in Wales. OAQ(4)0777(FM)*

**The First Minister:** Tackling child poverty is a fundamental priority for the Welsh Government and features in the 'Tackling Poverty Action Plan' for Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn flaenoriaeth sylfaenol ar gyfer Llywodraeth Cymru ac mae'n nodwedd o'r 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi' yng Nghymru.

**David Rees:** Thank you for that answer, First Minister. Two of the three strategic objectives of the child poverty strategy reflect the importance of using fiscal levers to get parents or carers into secure, well-paid employment, thus leading to more households having good incomes. Yesterday, the Silk commission identified that some of those levers may be transferred to the Welsh Government, but, as we know, that may not happen until 2020, which is the target date that the Government has set for the eradication of child poverty. In the meantime, what progress has been made on the 'Tackling Poverty Action Plan', which was launched in June, and what discussions has the Welsh Government had with the UK Government on the impact that the welfare and benefit reform will have on this plan?

**David Rees:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. .Mae dau o dri amcan strategol y strategaeth tlodi plant yn adlewyrchu pwysigrwydd defnyddio dulliau cyllidol i gael rhieni neu ofalwyr i gyflogaeth ddiogel, sy'n talu'n dda, gan arwain at fwy o gartrefi sy'n cael incwm da. Ddoe, nododd comisiwn Silk y gallai rhai o'r dulliau hynny gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, ond, fel y gwyddom, efallai na fydd hynny'n digwydd tan 2020, sef y dyddiad targed y mae'r Llywodraeth wedi'i osod ar gyfer dileu tlodi plant. Yn y cyfamser, pa gynnydd a wnaed ar y 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi', a lansiwyd ym mis Mehefin, a pha drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar yr effaith y bydd y diwygio lles a budd-daliadau yn ei chael ar y cynllun hwn ?

**The First Minister:** Good progress is being made on the 'Tackling Poverty Action Plan'. With regard to welfare and benefit reforms, there have been exhaustive discussions with the UK Government on this issue. Ministers have discussed their concerns about the implication of welfare reforms for the people of Wales. I certainly raised this in the joint ministerial committee, together with the Minister for Education and Skills, and the Minister for Education and Skills has raised questions about the implementation of the UK Government reforms in Wales. There are many issues on which we have yet to receive a firm answer.

**Y Prif Weinidog:** Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar y 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi'. O ran diwygiadau lles a budd-daliadau, cafwyd trafodaethau trylwyr gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae Gweinidogion wedi trafod eu pryderon am oblygiadau diwygiadau lles ar gyfer pobl Cymru. Yn sicr, mi godais hyn yn y pwyllgor gweinidogol ar y cyd, yn ogystal â chyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, ac mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi codi cwestiynau am weithrediad diwygiadau Llywodraeth y DU yng Nghymru. Mae llawer o faterion yr ydym eto i dderbyn ateb cadarn ynglŷn â hwy.

**Mark Drakeford:** First Minister, the Secretary of State at the Department for Work and Pensions, Iain Duncan Smith, has recently set out his belief that the benefits system ought not to provide any additional help for families with more than two children. It is now being suggested that this policy would be extended to cover help that is linked to the benefits system, such as free school meals. First Minister, will you provide an assurance that, in Welsh schools at least,

**Mark Drakeford:** Brif Weinidog, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, Iain Duncan Smith, wedi nodi'n ddiweddar ei fod yn credu na ddylai'r system budd-daliadau ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol i deuluoedd gyda mwy na dau o blant. Mae bellach yn cael ei awgrymu y byddai'r polisi hwn yn cael ei ymestyn i gynnwys cymorth sy'n gysylltiedig â'r system budd-daliadau, megis prydau bwyd ysgol am ddim. Brif Weinidog, a wnewch chi

no child will be sent away hungry simply because their two elder brothers or sisters have already been fed?

ddarparu sicrwydd, yn ysgolion Cymru o leiaf, na fydd unrhyw blentyn yn cael ei adael heb fwyd dim ond oherwydd bod dau frawd neu chwiorydd hŷn eisoes wedi cael bwyd?

**The First Minister: T**he Member is absolutely right to point out that, as things stand at the moment with the DWP, where families are on benefits and they have more than two children, the first two children will be fed in school and subsequent children will not. That is the extent of the humanity that exists in the DWP at the moment. I can assure the Member that the scenario that he has outlined will not happen in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn llygad ei le i dynnu sylw at y ffaith, fel y mae pethau ar hyn o bryd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, lle mae teuluoedd ar fudd-daliadau a bod ganddynt fwy na dau o blant, bydd y ddau blentyn cyntaf yn cael eu bwydo yn yr ysgol ond ni fydd plant ychwanegol yn cael bwyd. Dyna faint o ddyngarwch sy'n bodoli yn y DWP ar hyn o bryd. Gallaf sicrhau'r Aelod na fydd y sefyllfa y mae wedi'i hamlinellu yn digwydd yng Nghymru.

**William Graham:** First Minister, you will agree that, sadly, Wales has the highest level of child poverty in any United Kingdom region or nation. A survey carried out by the Prince's Trust in 2011, which looked into children's views and their particular aspirations, found that 10% of young people growing up in Wales felt that people like them did not succeed in life, while 12% imagined that they would end up on benefits at some point in their lives. Will your action plan change those attitudes?

**William Graham:** Brif Weinidog, byddwch yn cytuno mai Cymru, yn anffodus, sydd â'r lefel uchaf o dlodi plant mewn unrhyw ranbarth neu genedl yn y Deyrnas Unedig. Canfu arolwg a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth y Tywysog yn 2011, a oedd yn edrych ar farn plant a'u dyheadau penodol, bod 10% o'r bobl ifanc sy'n tyfu i fyny yng Nghymru yn teimlo nad oedd pobl fel nhw yn llwyddo mewn bywyd, tra bod 12% yn credu y byddent yn dibynnu ar fudd-daliadau ar ryw adeg yn eu bywydau. A fydd eich cynllun gweithredu'n newid yr agweddau hynny?

**The First Minister:** It will indeed. If you look at the policies that we have introduced over the years, such as Communities First, you will see that they are designed to address just that: to give individuals and communities confidence that they can have a prosperous and viable future—policies that his party opposed when they were introduced. I can tell him that the difference between us on this side of the Chamber and his party is that we want to give people opportunities whereas his party wants to remove them.

**Y Prif Weinidog:** Bydd yn wir. Os byddwch chi'n edrych ar y polisïau yr ydym wedi'u cyflwyno dros y blynyddoedd, megis Cymunedau yn Gyntaf, fe welwch eu bod wedi'u cynllunio i fynd i'r afael yn union â hynny: i roi hyder i unigolion a chymunedau y gallant gael dyfodol ffyniannus a hyfyw—polisïau a wrthwynebwyd gan ei barti ef pan gawsant eu cyflwyno. Gallaf ddweud wrtho mai'r gwahaniaeth rhyngom ni ar yr ochr hon i'r Siambr a'i blaid ef yw ein bod ni eisiau rhoi cyfleoedd i bobl tra bod ei blaid ef eisiau cael gwared arnynt.

**Jocelyn Davies:** First Minister, as the Child Poverty Act 2010 targets and measures apply right across the UK, will your Government be responding to the UK Government's consultation on how to measure child poverty? This, of course, is based on the concept that measuring only the income does not best reflect the reality of a child's life.

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, gan fod targedau a mesurau Deddf Tlodi Plant 2010 yn berthnasol ar draws y DU, a fydd eich Llywodraeth yn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar sut i fesur tlodi plant? Mae hyn, wrth gwrs, yn seiliedig ar y cysyniad nad yw mesur incwm yn unig yn rhoi'r adlewyrchiad gorau o realiti bywyd y

Therefore, will you outline your view on the proposed changes and how you think child poverty is best measured?

plentyn. Felly, a wnewch chi amlinellu eich barn ar y newidiadau arfaethedig a'r ffordd orau o fesur tlodi plant yn eich barn chi?

**The First Minister:** We will be responding. We are sceptical about the changes that are being proposed, because, when they are boiled down, it seems to be suggested that it does not matter how much or how little money you have as long as you have a park opposite you to play in. That is not the way in which poverty is to be measured. When Governments try to change the way in which poverty is measured, there has to be a sneaking suspicion that they are trying to cover up figures that they are uncomfortable with. Therefore, from our point of view, poverty must be measured in the most effective way, but also in the most honest way, and we are far from convinced that the proposed changes go down that road.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn ymateb. Rydym yn amheus ynghylch y newidiadau sy'n cael eu cynnig, oherwydd, pan edrychir arnynt yn fanwl, mae'n ymddangos yr awgrymir nad oes ots faint o arian sydd gennych na chyn lleied, cyn belled â bod gennych barc gyferbyn â chi i chwarae ynddo. Nid dyna'r ffordd y dylid mesur tlodi. Pan fydd llywodraethau yn ceisio newid y ffordd o fesur tlodi, mae'n rhaid i rywun led amau eu bod yn ceisio cuddio ffigurau nad ydynt yn gyfforddus â hwy. Felly, o'n safbwynt ni, mae'n rhaid mesur tlodi yn y ffordd fwyaf effeithiol, ond hefyd yn y ffordd fwyaf gonest, ac yr ydym ymhell o fod wedi'n hargyhoeddi bod y newidiadau arfaethedig yn cyflawni hynny.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, you will be aware that there are arrears of £46 million in child support payments owed to parents in north Wales alone and, undoubtedly, this money would make a significant contribution to reducing child poverty. Across Wales, the figure stands at £207 million. What representation has your Government made to the UK Government to ensure that this huge and growing legacy of uncollected payments gets paid to Welsh parents as early as possible?

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod ôl-ddyledion o £46 miliwn mewn taliadau cynnal plant sy'n ddyledus i rieni yng ngogledd Cymru yn unig ac, heb amheuaeth, byddai'r arian hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol i leihau tlodi plant. Ledled Cymru, mae'r ffigur yn £207 miliwn. Pa sylwadau y mae eich Llywodraeth wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU i sicrhau bod yr etifeddiaeth enfawr a chynyddol hon o daliadau heb eu casglu yn cael ei thalu i rieni Cymru cyn gynted ag y bo modd?

**The First Minister:** These are matters for the appropriate authorities. However, her party has suggested charging people to ensure that children receive the payments that they are due. It is no good just saying that payments should be made for child support. She is right, of course, that that should happen, but as her party has suggested that a charge should be made on people if they wish to pursue the money that is rightfully theirs, then she should not be surprised if people find that they cannot get the money that they are entitled to. She is right to point out that absent parents, sometimes, should pay for their children, but every obstacle must be removed by the UK Government in order to ensure that children get the money that they deserve.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhain yn faterion ar gyfer yr awdurdodau priodol. Fodd bynnag, mae ei phlaid wedi awgrymu codi tâl ar bobl i sicrhau bod plant yn derbyn y taliadau sy'n ddyledus idddynt. Nid oes unrhyw ddiben mewn dweud y dylai taliadau gael eu gwneud ar gyfer cynnal plant. Mae hi'n iawn, wrth gwrs, y dylai hynny ddigwydd, ond gan fod ei phlaid wedi awgrymu y dylid codi tâl ar bobl os ydynt yn dymuno mynd ar drywydd yr arian sydd yn ddyledus iddynt, yna ni ddylai synnu os yw pobl yn canfod na allant gael yr arian y mae ganddynt hawl iddo. Mae hi'n iawn i nodi y dylai rhieni absennol, weithiau, dalu am eu plant, ond rhaid i bob rhwystr gael ei ddileu gan Lywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod plant yn cael yr arian y maent yn ei haeddu.

**Lindsay Whittle:** First Minister, I have been an elected representative of some kind for 37 continuous years. For the first time on Sunday, at my home, a gentleman knocked at my door and said, 'Mr Whittle, I do not have enough money to purchase an electricity token. Can you help me?' This gentleman is from a workless household. One of your key priorities is to reduce the number of families living in workless households. As part of your three key targets in your child poverty strategy, what progress has been made?

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, yr wyf wedi bod yn gynrychiolydd etholedig o ryw fath am 37 mlynedd yn olynol. Am y tro cyntaf, ddydd Sul, yn fy nghartref, curodd gŵr bonheddig ar fy nrws a dweud, 'Mr Whittle, nid oes gennyf ddigon o arian i brynu tocyn trydan. A allwch chi fy helpu i?' Mae'r gŵr bonheddig hwn yn dod o aelwyd ddi-waith. Un o'ch blaenoriaethau allweddol yw lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd di-waith. Gan fod hyn yn rhan o'ch tri tharged allweddol yn eich strategaeth tlodi plant, pa gynnydd sydd wedi'i wneud?

**The First Minister:** We are making good progress if you look at the figures. The levels of economic inactivity in Wales are lower than they have ever been in history. It is also right to say that the level of unemployment is coming down, but, let us face it, we know that there is always going to be work to do. We understand that the situation is not exactly ideal in the world economy, still less in the UK economy where growth has been very much stagnant for some time. Therefore, there is progress, but, of course, there is more work that will be done to ensure that that situation does not occur in the future.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwneud cynnydd da os edrychwch ar y ffigurau. Mae lefelau anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn is nag y buont erioed mewn hanes. Mae hefyd yn gywir i ddweud bod lefel diweithdra yn gostwng, ond, gadewch inni wynebu'r gwir, rydym yn gwybod y bydd gwaith i'w wneud bob amser. Rydym yn deall nad yw'r sefyllfa yn ddelfrydol o bell ffordd yn yr economi byd-eang, a llai fyth yn economi'r DU lle mae twf wedi bod yn farwaidd ers peth amser. Felly, mae yna gynnydd, ond, wrth gwrs, mae mwy o waith a fydd yn cael ei wneud i sicrhau na fydd sefyllfa o'r fath yn digwydd yn y dyfodol.

**Blaenoriaethau Trafnidiaeth**

**Transport Priorities**

***8. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ym maes trafnidiaeth dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0774(FM)*

***8. Eluned Parrott:*** *Will the First Minister make a statement on his priorities regarding transport over the next 12 months. OAQ(4)0774(FM)*

**The First Minister:** Yes, they are to be found in the national transport plan.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, maen nhw i'w gweld yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**Eluned Parrott:** One of the priorities must be to tackle levels of overcrowding on our rail services in Wales. You will be aware that £13.2 million has been spent by the Welsh Government lengthening platforms at rail stations across the Valleys lines. Yet, in the last five years, no investment has been made to buy new rolling stock to provide those larger trains. Over the next couple of years, as electrification projects take place across the UK, releasing diesel rolling stock units, will the Welsh Government be bidding to get some of those diesel units to help tackle overcrowding while we are waiting for our own electrification project to begin?

**Eluned Parrott:** Mae'n rhaid mai un o'r blaenoriaethau yw mynd i'r afael â lefelau gorlenwi ar ein gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Byddwch yn ymwybodol bod £13.2 miliwn wedi ei wario gan Lywodraeth Cymru ar ymestyn platfformau mewn gorsafoedd rheilffyrdd ar draws rheilffyrdd y Cymoedd. Er hynny, yn y pum mlynedd diwethaf, ni fu unrhyw fuddsoddiad mewn prynu cerbydau newydd i ddarparu'r trenau mwy sydd eu hangen. Dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, wrth i brosiectau trydaneiddio ddigwydd ar draws y DU, gan ryddhau unedau cerbydau diesel, a fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cais i gael rhai o'r unedau

diesel hynny i helpu i fynd i'r afael â gorlenwi tra byddwn yn aros am ein prosiect trydaneiddio ein hunain i ddechrau?

**The First Minister:** These are things that we are looking at. In the longer term, we know that the Wales and borders franchise will come to an end in 2018, if I remember rightly. We want to explore innovative possibilities in terms of that franchise being run in the future, but it means that we need to have sufficient control over the awarding of the franchise. We understand that the rail network is more and more heavily used, which is something to be welcomed. We are looking at ways to ensure that more rolling stock becomes available before electrification takes place.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhain yn bethau yr ydym yn edrych arnynt. Yn y tymor hwy, rydym yn gwybod y bydd masnachfraint Cymru a'r gororau yn dod i ben yn 2018, os cofiaf yn iawn. Rydym yn awyddus i archwilio posibiliadau arloesol o ran rhedeg y fasnachfraint honno yn y dyfodol, ond mae'n golygu bod angen i ni gael rheolaeth ddigonol dros ddyfarnu'r fasnachfraint. Rydym yn deall bod mwy a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r rhwydwaith rheilffyrdd, ac mae hynny'n rhywbeth i'w groesawu. Rydym yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod rhagor o gerbydau yn dod ar gael cyn bod trydaneiddio'n digwydd.

**Julie Morgan:** With the electrification of the south Wales Valleys lines in the pipeline, would he agree that it is essential that there is a single passenger transport authority for the south-east region, with real powers on the lines of Manchester and Glasgow? Does he not think that it is essential that we start planning for that?

**Julie Morgan:** Gan fod trydaneiddio rheilffyrdd Cymoedd de Cymru ar y gweill, a fyddai'n cytuno ei bod yn hanfodol bod un awdurdod trafnidiaeth teithwyr yn gyfrifol am ranbarth y de-ddwyrain, gyda phwerau gwirioneddol tebyg i Fanceinion a Glasgow? Onid yw'n credu ei bod yn hanfodol ein bod yn dechrau cynllunio ar gyfer hynny?

**The First Minister:** There are a number of possibilities that are being explored at the moment. It is right to say that when the Valleys lines—in their greatest definition—are electrified, it will lead to an opportunity to create a proper south Wales metro network that will need to be properly integrated and branded. It would certainly need to be run as an integrated network. As to how that could be done, a transport authority would be one way of doing it, but we are looking at a number of options to ensure that an effective system is put in place once electrification takes place.

**Y Prif Weinidog:** Mae nifer o bosibiliadau sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd. Mae'n iawn i ddweud, pan fydd rheilffyrdd y Cymoedd—o dan y diffiniad mwyaf eang—yn cael eu trydaneiddio, bydd yn arwain at gyfle i greu rhwydwaith metro priodol ar gyfer de Cymru y bydd angen ei integreiddio'n briodol a'i frandio. Byddai'n sicr angen iddo gael ei redeg fel rhwydwaith integredig. O ran sut y gellid gwneud hynny, byddai awdurdod trafnidiaeth yn un ffordd o'i wneud, ond rydym yn edrych ar nifer o opsiynau i sicrhau bod system effeithiol yn cael ei rhoi ar waith ar ôl i'r trydaneiddio ddigwydd.

**Byron Davies:** First Minister, I am sure that you are aware and fully briefed on the proposals to close junctions 40 and 41 of the M4 motorway. While I accept that there is a consultation period under way, constituents are extremely concerned about the effects that these proposals will have on motorists travelling west from Maesteg. Will you give me an assurance that your Government will not disadvantage the people of South Wales

**Byron Davies:** Brif Weinidog, Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol ac wedi eich briffio'n llawn ar y cynigion i gau cyffyrdd 40 a 41 ar draffordd yr M4. Er fy mod yn derbyn bod cyfnod ymgynghori wedi cychwyn, mae etholwyr yn hynod o bryderus am effeithiau'r cynigion hyn ar fodurwyr sy'n teithio i'r gorllewin o Faesteg. A wnewch chi roi sicrwydd i mi na fydd eich Llywodraeth yn rhoi pobl Gorllewin De

West by cutting them off from arterial roads without adequate alternative transport in place?

Cymru dan anfantais drwy eu torri i ffwrdd oddi wrth ffyrdd prifwythiennol heb fod trafnidiaeth ddigonol arall ar gael?

**The First Minister:** I am familiar with the junctions. The difficulty with that section of the M4 is that it was not built as a motorway. It was built as an A road, and is well below the standard of a motorway as it would be built now. The junctions are difficult because there is very little time for people to enter the motorway as they come off those junctions. A consultation is taking place on this, as the Member rightly says. In the longer term, consideration will need to be given as to how to improve the section of motorway between Margam and Earlswood, or Margam and Britton Ferry to be more exact, because we know that the road is below the standard that we would expect of a motorway in the modern day.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn gyfarwydd â'r cyffyrdd. Yr anhawster gyda'r rhan honno o'r M4 yw nad adeiladwyd hi i fod yn draffordd. Cafodd ei hadeiladu fel ffordd A, ac mae ei safon yn llawer is nag unrhyw draffordd a fyddai'n cael ei hadeiladu heddiw. Mae'r cyffyrdd yn anodd gan mai prin iawn yw'r amser i bobl fynd ar y draffordd wrth iddynt ddod oddi ar y cyffyrdd hynny. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn, fel y soniwyd yn gywir gan yr Aelod. Yn y tymor hwy, bydd angen ystyried sut i wella'r darn o draffordd rhwng Margam ag Earlswood, neu Margam a Britton Ferry i fod yn fanwl gywir, oherwydd gwyddom fod safon y ffordd yn is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl gan draffordd y dyddiau hyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn dilyn cwestiwn Julie Morgan i chi ynglŷn â rhwydwaith rheilffordd de Cymru, rydym ni fel plaid yn gefnogol iawn i'r rhwydwaith hwnnw ac wedi galw am drydaneiddio rhannau ohono. A wnewch chi ymrwymiad hefyd i roi ystyriaeth lawn i drydaneiddio'r rhwydwaith yng ngogledd Cymru yn ogystal ag yn ne Cymru, er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith hwnnw hefyd yn cael y math o fuddiannau a ddaw o drydaneiddio?

**Rhodri Glyn Thomas:** Following Julie Morgan's question as regards the south Wales rail network, we as a party are very supportive of that network and have been calling for the electrification of parts of it. Will you also make a commitment that you are giving full consideration to the electrification of the network in north Wales, in addition to south Wales, in order to ensure that that network also receives the kinds of benefits that accrue from electrification?

**Y Prif Weinidog:** Byddem yn gefnogol o unrhyw fath o drydaneiddio. Mae'n bwysig dros ben nad yw'r gogledd yn cael ei adael ar ôl. Rwy'n gwybod bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gefnogol o hynny—efallai y byddem yn deall pam y byddai hynny'n wir—ac yn gefnogol o unrhyw gynlluniau i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Bidston. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod cynllun yn y dyfodol agos i drydaneiddio'r brif reilffordd o Crewe i Gaergybi.

**The First Minister:** We would be supportive of any electrification. It is very important that north Wales is not left behind. I know that the Secretary of State is supportive of that—we may understand why that is the case—and supportive of any plans to electrify the line between Wrexham and Bidston. So, it is important to ensure that there is a scheme in place in the near future to electrify the main line from Crewe to Holyhead.

### Gwella Bywydau

### Improving Lives

***9. Andrew R.T. Davies:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella bywydau trigolion Canol De Cymru. OAQ(4)0775(FM)*

***9. Andrew R.T. Davies:*** *What steps is the Welsh Government taking to improve the lives of the residents of South Wales Central. OAQ(4)0775(FM)*

**The First Minister:** The steps that we are taking are identified in the programme for

**Y Prif Weinidog:** Mae'r camau yr ydym yn eu cymryd wedi eu nodi yn y rhaglen ar gyfer

government.

llywodraethu.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you, First Minister, for that answer. One of the key things that I have championed in this Chamber is the issue of fly-grazing. In fairness, your Deputy Minister brought forward a statement on fly-grazing the other week, and he talked of some measures that the Welsh Government had taken, but did not outline any of them. Could you outline what measures the Government has taken to address this significant anti-social behaviour that is blighting many people's lives in South Wales Central, and in your constituency as well, because, to date, I have not been able to find any such measures?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Un o'r pethau allweddol yr wyf wedi ei hyrwyddo yn y Siambr hon yw'r broblem o bori anghyfreithlon. I fod yn deg, dygwyd ymlaen ddatganiad gan eich Dirprwy Weinidog ar bori anghyfreithlon yr wythnos o'r blaen, a soniodd am rai mesurau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd, ond ni wnaeth amlinellu unrhyw un ohonynt. A allech chi amlinellu pa gamau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r ymddygiad gwrth-gymdeithasol sylweddol hwn sy'n difetha bywydau llawer o bobl yng Nghanol De Cymru, ac yn eich etholaeth yn ogystal, oherwydd, hyd yma, nid wyf wedi gallu dod o hyd i unrhyw fesurau o'r fath ?

**The First Minister:** The Member will know the problems; it is certainly the case that horses are straying into the cemetery where my mother is buried, to the extent that the gates have had to be closed, which is gravely upsetting to all those people who have relatives buried there. There is sufficient legislation; enforcing it is the problem. That said, we are looking at items of legislation at the moment to see if they can be improved in the future. Some of the legislation is specific to the old preserved counties, such as the Mid Glamorgan Act and so on, but I know that the Deputy Minister is actively considering whether legislative changes can be made to ease enforcement in relation to what is becoming a problem in a wider area than Bridgend. As the Member knows, Cardiff Airport has been affected, as have communities in the Vale of Glamorgan, by stray horses that are rounded up, but somehow a number of those horses end up straying once again. I know that the police have also been looking at some of the complaints made by residents.

**Y Prif Weinidog:** Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r problemau; mae'n sicr yn wir bod ceffylau yn crwydro i mewn i'r fynwent lle mae fy mam wedi ei chladdu, i'r graddau bod y giatiau wedi gorfod cael eu cau, sy'n peri gofid difrifol i'r holl bobl hynny sydd â pherthnasau wedi'u claddu yno. Mae'r ddeddfwriaeth yn ddigonol; ei gorfodi yw'r broblem. Wedi dweud hynny, rydym yn edrych ar eitemau o ddeddfwriaeth ar hyn o bryd i weld a oes modd eu gwella yn y dyfodol. Mae rhan o'r ddeddfwriaeth yn benodol ar gyfer yr hen siroedd cadwedig, megis Deddf Morgannwg Ganol ac yn y blaen, ond gwn fod y Dirprwy Weinidog wrthi'n ystyried a oes modd gwneud newidiadau deddfwriaethol i wneud gorfodi'n haws ynglŷn â rhywbeth sy'n dod yn broblem mewn ardal ehangach na Phen-y-bont ar Ogwr. Fel y mae'r Aelod yn gwybod, mae Maes Awyr Caerdydd wedi ei effeithio, fel y mae cymunedau ym Mro Morgannwg, gan geffylau crwydr sy'n cael eu corlannu, ond rhywsut mae nifer o'r ceffylau hynny'n crwydro unwaith eto yn y pen draw. Gwn fod yr heddlu hefyd wedi bod yn edrych ar rai o'r cwynion a wnaed gan drigolion.

**Christine Chapman:** First Minister, we know that cyber-bullying has a massively detrimental impact on the lives of young people in South Wales Central and across Wales. Estimates suggest that anything from a fifth to a third of young people have been victims of this. I know that the Minister for

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, rydym yn gwybod bod seiber-fwlio yn cael effaith aruthrol niweidiol ar fywydau pobl ifanc yng Nghanol De Cymru ac ar draws Cymru. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod unrhyw beth o bumed rhan i draean o bobl ifanc wedi dioddef o hyn. Gwn fod y Gweinidog addysg

education recently outlined the Welsh Government's approach to tackling this subject, but during Anti-Bullying Week will you place on record your commitment to reducing the number of young people affected by cyber-bullying and ensuring that improving the lives of victims is at the centre of your Government's strategy?

wedi amlinellu'n ddiweddar ymagwedd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r pwnc hwn, ond yn ystod Wythnos Gwrth-fwlio, a wnewch chi osod ar gofnod eich ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc yr effeithir arnynt gan seiber-fwlio a sicrhau bod gwella bywydau dioddefwyr wrth wraidd strategaeth eich Llywodraeth?

**The First Minister:** Bullying of any kind is totally unacceptable. In October last year, we published 'Respecting Others', a suite of comprehensive guidance to help schools and local authorities to prevent, respond to and record incidents of cyber-bullying. In addition, we have implemented the national school-based counselling strategy and the Meic helpline to help and support those who have been affected by cyber-bullying.

**Y Prif Weinidog:** Mae bwlio o unrhyw fath yn gwbl annerbyniol. Ym mis Hydref y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi 'Parchu Eraill', sef cyfres o ganllawiau cynhwysfawr i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i atal, ymateb i, a chofnodi achosion o seiber-fwlio. Yn ogystal, rydym wedi gweithredu strategaeth cwnsela genedlaethol wedi'i seilio mewn ysgolion, a llinell gymorth Meic i helpu a chefnogi'r rhai hynny sydd wedi eu heffeithio gan seiber-fwlio.

**Leanne Wood:** First Minister, giving young people the skills to make them attractive employees would significantly increase the quality of life of many people living in my region. The Party of Wales has put forward the idea of establishing a green construction skills college, initially within the Universities Heads of the Valleys Institute, but with a remit to provide trainers and courses to develop approaches to green skills that will equip local people with the skills that they need for future employment in the green industries. Do you agree that a green skills construction college would give young people those skills and, more importantly, the hope and motivation that they need to find employment to improve the quality of their lives?

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, byddai rhoi y sgiliau i bobl ifanc i'w gwneud yn weithwyr cyflog deniadol yn gwella ansawdd bywyd yn sylweddol i lawer o bobl sy'n byw yn fy rhanbarth i. Mae Plaid Cymru wedi cyflwyno'r syniad o sefydlu coleg sgiliau adeiladu gwyrdd, yn Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd i ddechrau, ond gyda chylch gwaith i ddarparu hyfforddwyr a chyrsiau i ddatblygu agweddau ar sgiliau gwyrdd a fydd yn arfogi pobl leol gyda'r sgiliau y maent eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol yn y diwydiannau gwyrdd. A ydych chi'n cytuno y byddai coleg adeiladu gwyrdd yn rhoi'r sgiliau hynny i bobl ifanc ac, yn bwysicach, y gobaith a'r cymhelliant sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith i wella ansawdd eu bywydau?

2.15 p.m.

**The First Minister:** I would hope that those skills are woven through the course provision of a number of different colleges. If there was just one college, the question then would be where it should be located, and it would be inaccessible to many parts of Wales if located in one place. It is better, to my mind, to ensure—in fairness, colleges are doing this—that colleges are providing a suite of different skills to people in different parts of Wales in order for them to be able to meet the challenges of having the right skills that will be needed in future. I have been to colleges across Wales that are looking very carefully

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn gobeithio bod y sgiliau hynny wedi eu gwau trwy ddarpariaeth cyrsiau mewn nifer o wahanol golegau. Pe na byddai dim ond un coleg, y cwestiwn wedyn fyddai lle y dylid ei leoli, a byddai'n anhygyrch i sawl rhan o Gymru, pe byddai'n cael ei leoli mewn un man. Mae'n well, yn fy marn i, i sicrhau——ac i fod yn deg, mae colegau yn gwneud hyn—bod colegau yn darparu cyfres o wahanol sgiliau i bobl mewn gwahanol rannau o Gymru er mwyn iddynt allu wynebu'r her o gael y sgiliau cywir y bydd eu hangen yn y dyfodol. Rwyf wedi bod mewn colegau ar draws

at this and are looking to provide green construction skills, as the Member calls them, in the future. I think that is probably the best way of ensuring that the provision covers as much of Wales as possible.

Cymru sydd yn edrych yn ofalus iawn ar hyn ac yn ystyried darparu sgiliau adeiladu gwyrdd, fel y mae'r Aelod yn eu galw, yn y dyfodol. Credaf mai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod y ddarpariaeth yn cwmpasu cymaint o Gymru ag y bo modd.

**Jenny Rathbone:** We have learned this week that people on low incomes, suffering from rising prices, frozen wages and cuts in benefits, are cutting back on fruit and vegetables and instead are going for cheaper, very high-fat processed foods. Would the First Minister agree that the Tory medicine of unfair cuts for the poorest people is a recipe for a heart attack, not economy recovery? What can the Welsh Government do to combat this nutritional crisis?

**Jenny Rathbone:** Rydym wedi dysgu yr wythnos hon bod pobl ar incwm isel, sy'n dioddef o brisiau'n codi, cyflogau wedi'u rhewi a thoriadau mewn budd-daliadau, yn torri yn ôl ar ffrwythau a llysiau ac yn hytrach yn prynu bwydydd rhatach wedi'u prosesu, sydd â llawer iawn o fraster ynddynt. A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno bod meddyginiaeth y Torïaid o doriadau annheg ar gyfer y bobl dlotaf yn rysáit ar gyfer trawiad ar y galon yn hytrach nag adferiad economaidd? Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i frwydro yn erbyn yr argyfwng hwn mewn maeth?

**The First Minister:** The Tory medicine is not very nutritious, as we know. One of the things that we are doing is ensuring that free breakfasts are enshrined in law to make sure that nutrition is available to children as they arrive in school. Also, under 'Appetite for Life', we have been working towards implementing more stringent food and nutrition standards in school. Next year, new statutory standards will be introduced in respect of food and drink provided throughout the school day.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw meddyginiaeth y Torïaid yn faethlon iawn, fel y gwyddom. Un o'r pethau yr ydym yn ei wneud yw sicrhau bod brecwastau am ddim yn cael eu hymgorffori yn y gyfraith i wneud yn siŵr bod maeth ar gael i blant wrth iddynt gyrraedd yr ysgol. Hefyd, o dan 'Blas am Oes', rydym wedi bod yn gweithio tuag at weithredu safonau bwyd a maeth mwy llym yn yr ysgolion. Y flwyddyn nesaf, bydd safonau statudol newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer bwyd a diod a ddarperir trwy gydol y diwrnod ysgol.

## Diogelwch ar y Ffyrdd

## Road Safety

***10. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr ymdrechion i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. OAQ(4)0779(FM)*

***10. Rebecca Evans:*** *Will the First Minister make a statement on efforts to improve road safety in Wales. OAQ(4)0779(FM)*

**The First Minister:** We provide substantial funding to support road safety improvements. We know that significant improvements have been made in recent years. We are currently consulting on the road safety delivery plan, which sets out our approach to road safety leading up to 2020.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi gwelliannau diogelwch ar y ffyrdd. Rydym yn gwybod bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn y blynyddoedd diweddar. Rydym wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ar y cynllun cyflawni diogelwch ar y ffyrdd, sy'n nodi ein hymagwedd tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020.

**Rebecca Evans:** Thank you for that answer, First Minister. The recent cycling accidents sustained by Mark Cavendish, Bradley

**Rebecca Evans:** Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'r damweiniau beicio a ddioddefwyd gan Mark Cavendish, Bradley

Wiggins and Shane Sutton have brought into focus the safety of road cycling in Wales. At the same time, a new survey from Brake shows that 43% of children aged seven to 11 have been hit or nearly hit by a vehicle, and another 50% are fearful of that taking place. What is the Welsh Government doing to ensure that children can cycle safely and confidently on Welsh roads?

Wiggins a Shane Sutton yn ddiweddar wedi tynnu sylw at ddiogelwch beicio ar y ffyrdd yng Nghymru. Ar yr un pryd, mae arolwg newydd gan Brake yn dangos bod 43% o blant rhwng saith ac 11 oed wedi eu bwrw neu bron wedi eu bwrw gan gerbyd, a bod 50% arall yn ofni i hynny ddigwydd. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod plant yn gallu beicio'n ddiogel ac yn hyderus ar ffyrdd Cymru?

**The First Minister:** I have to be mischievous and remind the Chamber that, among the wild fringes of the Conservative party, there is a proposal to grub up cycle tracks, if I remember rightly. We are bringing forward an active travel Bill early next year, which will be aimed at making it safer for people to walk and cycle more often and, of course, we have introduced national standards for cycle training into Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhaid i mi fod yn ddrygionus ac atgoffa'r Siambr fod, ymhlith cyrion gwyllt y blaid Geidwadol, cynnig i waredu llwybrau beicio, os cofiaf yn iawn. Rydym yn dwyn ymlaen Bil teithio byw yn gynnar y flwyddyn nesaf, a fydd â'r nod o'i gwneud yn fwy diogel i bobl gerdded a beicio yn amlach ac, wrth gwrs, rydym wedi cyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant beicio i Gymru.

**Russell George:** I bring to the First Minister's attention ongoing speed concerns following the construction of the new bypass at Four Crosses and also concerns in relation to safety at two junctions near Arddleen. The speed review on the section of the A483 is not due to be completed until 2014. Will the First Minister consider prioritising the speed review at this location?

**Russell George:** Rwyf am ddod â phryderon ynglŷn â chyflymder parhaus yn dilyn y gwaith o adeiladu ffordd osgoi newydd yn Four Crosses at sylw'r Prif Weinidog, a hefyd pryderon yn ymwneud â diogelwch ar ddwy gyffordd ger yr Ardd-lin. Nid yw'r arolygiad cyflymder ar y rhan o'r A483 i fod i gael ei gwblhau tan 2014. A wnaiff y Prif Weinidog ystyried blaenoriaethu'r adolygiad cyflymder yn y lleoliad hwn?

**The First Minister:** Yes. The Member will be aware of the work that has been done on the bypass. He has indicated that there is a problem there. I will ask the Minister to write to him with more details as to how this might be addressed.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y ffordd osgoi. Mae wedi nodi bod problem yno. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu ato gyda rhagor o fanylion ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â hyn.

**Llyr Huws Gruffydd:** Bythefnos yn ôl, Brif Weinidog, fe godais gyda'ch Gweinidog trafnidiaeth bryderon ynglŷn â throfa Maes Gamedd ar yr A494 rhwng Corwen a Rhuthun. Ddyddiau yn gynharach, roedd dwy ddamwain wedi bod yno a'r ffordd ar gau am ran helaethaf o'r dydd. Nos Sadwrn yma, bu damwain ddifrifol arall ar y safle, lle anafwyd tri pherson. Yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, mae un ohonynt ag anafiadau difrifol i'w gefn. Felly, a wnewch chi drafod ar fyrder â'ch Gweinidog beth all eich Llywodraeth ei wneud i wella diogelwch ar y drofa honno cyn inni weld damwain angheuol yn digwydd?

**Llyr Huws Gruffydd:** A fortnight ago, First Minister, I raised with your Minister for transport concerns about the Maes Gamedd junction on the A494 between Corwen and Rhuthin. A few days earlier, there had been two accidents there and the road had been closed for most of the day. This Saturday, there was another serious accident at the site in which three people were injured. As I understand it, one of them has serious back injuries. Will you, therefore, discuss with your Minister as a matter of urgency what your Government can do to improve safety at that junction before we see a life-threatening accident?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn edrych ar hynny a bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at yr Aelod gyda mwy o fanylion am yr hyn y gellir ei wneud er mwyn sicrhau mwy o ddiogelwch ar y ffordd.

**The First Minister:** We will look at that and the Minister will write to the Member with more details about what can be done to ensure greater safety on the road.

**The Presiding Officer:** Question 11 was grouped with question 7, so we now move to question 12.

**Y Llywydd:** Mae cwestiwn 11 wedi ei gyfuno gyda chwestiwn 7, felly symudwn yn awr at gwestiwn 12.

### Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar

### Early-years Childcare

***12. Christine Chapman:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. OAQ(4)0770(FM)*

***12. Christine Chapman:*** *Will the First Minister make a statement on the provision of early years childcare in Wales. OAQ(4)0770(FM)*

**The First Minister:** Yes. We continue to invest in early years childcare through key programmes such as Flying Start. Our commitment is to promote accessible, affordable and high-quality childcare across Wales.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf .Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gofal plant yn y blynyddoedd cynnar drwy raglenni allweddol fel Dechrau'n Deg. Ein hymrwymiad yw hyrwyddo gofal plant hygyrch, fforddiadwy ac o ansawdd uchel ledled Cymru.

**Christine Chapman:** Thank you for that answer, First Minister. You will be aware that the Nutbrown review recently made a series of recommendations to the UK Government on boosting the qualifications of childcare professionals in England. We know that, in Wales, 52% of the early years workforce is qualified to NVQ level 3, with only 4% qualified to level 4 and above, compared to 60% in other countries. What assessment has been made of the demand and supply of higher-level qualifications for childcare practitioners in Wales and what steps are you currently taking to promote and encourage practitioners to work towards a graduate-level qualification?

**Christine Chapman:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod adolygiad Nutbrown yn ddiweddar wedi gwneud cyfres o argymhellion i Lywodraeth y DU ar hybu cymwysterau gweithwyr proffesiynol gofal plant yn Lloegr. Rydym yn gwybod bod 52% o weithlu'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru wedi cymhwyso i NVQ lefel 3, gyda dim ond 4% wedi cymhwyso i lefel 4 neu uwch, o'i gymharu â 60% mewn gwledydd eraill. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r galw a'r cyflenwad o gymwysterau lefel uwch ar gyfer ymarferwyr gofal plant yng Nghymru a pha gamau yr ydych yn eu cymryd ar hyn o bryd i hyrwyddo ac annog ymarferwyr i weithio tuag at gymhwyster lefel gradd?

**The First Minister:** We have surveyed the full range of qualifications held by childcare practitioners in Wales, and we have commissioned the Care Council for Wales to pilot and explore access to higher level qualifications for childcare practitioners. That includes developing a continuous professional development framework and extension units to support progression into higher education and, potentially, identifying higher level qualification options for Flying Start settings.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi cynnal arolwg o'r ystod lawn o gymwysterau sydd gan ymarferwyr gofal plant yng Nghymru, ac rydym wedi comisiynu Cyngor Gofal Cymru i gynnal cynllun arbrawf ac archwilio mynediad at gymwysterau lefel uwch ar gyfer ymarferwyr gofal plant. Mae hynny'n cynnwys datblygu fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus ac unedau ymestyn i gefnogi dilyniant i addysg uwch ac, o bosibl, nodi opsiynau cymwysterau lefel uwch ar gyfer lleoliadau Dechrau'n Deg.

**Darren Millar:** One of the ways that you can improve the quality of early years childcare

**Darren Millar:** Un o'r ffyrdd y gallwch wella ansawdd gofal plant yn y blynyddoedd

in Wales is through membership of professional bodies and organisations such as the National Day Nurseries Association—its headquarters is in Ruthin in my constituency. What work is the Welsh Government doing to promote membership of organisations such as the National Day Nurseries Association to ensure that there is good practice in all of our nurseries across Wales?

cynnar yng Nghymru yw drwy aelodaeth o gyrff a sefydliadau proffesiynol fel Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd— sydd â'i phencadlys yn Rhuthun yn fy etholaeth i. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo aelodaeth o sefydliadau megis Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd i sicrhau y ceir arfer da yn ein holl feithrinfeydd ledled Cymru?

**The First Minister:** We would always encourage any practitioners in any field to join the appropriate professional association. That will inevitably provide a benchmark for their abilities and commitment. It also helps to provide the public with a better understanding of the nature of childcare provided by an individual or organisations and provides a certain level of comfort, given that they would be members of an organisation that is widely recognised.

**Y Prif Weinidog:** Byddem bob amser yn annog unrhyw ymarferwyr mewn unrhyw faes i ymuno â'r gymdeithas broffesiynol briodol. Bydd hynny yn anochel yn darparu meincnod ar gyfer eu galluoedd a'u hymroddiad. Mae hefyd yn helpu i ddarparu gwell dealltwriaeth i'r cyhoedd o natur gofal plant a ddarperir gan unigolyn neu sefydliad ac mae hefyd yn darparu lefel benodol o fodlonrwydd, o ystyried y byddent yn aelodau o sefydliad sy'n cael ei gydnabod yn eang.

**Simon Thomas:** First Minister, a report last year by the Institute for Public Policy Research found that the provision of universal childcare for pre-school-age children would pay for itself, because there would be a net return of £20,000 over four years through the tax revenue of mothers returning to work. Do examples like that not show the positive things that could happen in Wales were we to gain tax powers, as recommended by the Silk commission, and will you use the funding of childcare as a positive example of how we could campaign in a referendum on gaining such tax powers?

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, canfu adroddiad y llynedd gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus y byddai darparu gofal plant cyffredinol ar gyfer plant cyn oed ysgol yn talu amdano'i hun, oherwydd y byddai adenillion net o £20,000 dros bedair blynedd trwy refeniw treth mamau'n dychwelyd i'r gwaith. Onid yw enghreifftiau fel hyn yn dangos y pethau cadarnhaol a allai ddigwydd yng Nghymru pe byddai gennym bwerau trethu, fel yr argymhellwyd gan gomisiwn Silk, ac a wnewch chi ddefnyddio ariannu gofal plant fel enghraifft gadarnhaol o sut y gallem ymgyrchu mewn refferendwm ar ennill pwerau trethu o'r fath?

**The First Minister:** We are now into the realms of discussing what might be done with tax powers in Wales. As the Member knows, the view that I have taken is that we must sort out the issue of fair funding first, followed by a referendum, in order to move on to tax-varying powers. Tax-varying powers are not inappropriate for Wales at any time—of course not—but those steps need to be taken first, to my mind, before further consideration is given to the devolution of income tax, partially or wholly.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn awr wedi symud i feysydd trafod beth allai gael ei wneud gyda phwerau trethu yng Nghymru. Fel y mae'r Aelod yn gwybod, fy marn i yw bod yn rhaid i ni ddatrys y mater o ariannu teg yn gyntaf, gan ddilyn hynny â refferendwm, er mwyn symud ymlaen at bwerau amrywio trethi. Nid yw pwerau amrywio trethi yn amhriodol ar gyfer Cymru ar unrhyw adeg—wrth gwrs nad ydynt—ond mae'n rhaid cymryd y camau hynny'n gyntaf, yn fy marn i, cyn i ystyriaeth bellach gael ei rhoi i ddatganoli treth incwm, yn rhannol neu'n gyfan gwbl.

**The Presiding Officer:** Question 13, OAQ(4)0780(FM), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ (4) 0780 (FM), yn ôl.

**Troseddau Casineb**

**Hate Crime**

***14. Lindsay Whittle:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau'r achosion o droseddau casineb yn erbyn pobl yng Nghymru gydag anableddau corfforol. OAQ(4)0771(FM)*

***14. Lindsay Whittle:*** *What action is the Welsh Government taking to reduce the incidence of hate crime against people in Wales with physical disabilities. OAQ(4)0771(FM)*

**The First Minister:** We are developing a framework for action on hate crime in partnership with statutory and third sector organisations.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn datblygu fframwaith ar gyfer gweithredu ar droseddau casineb mewn partneriaeth â sefydliadau statudol a rhai yn y trydydd sector.

**Lindsay Whittle:** Thank you for your answer, First Minister. Many incidents of hate crime occur among tenants in social housing, and the victims are often bullied in their home, where they should feel safest. To what extent is the Welsh Government engaging with social landlords to address this problem, please?

**Lindsay Whittle:** Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Mae llawer o ddigwyddiadau o droseddau casineb yn digwydd ymhlith tenantiaid mewn tai cymdeithasol, ac mae'r dioddefwyr yn cael eu bwlio yn aml yn eu cartrefi, lle y dylent deimlo fwyaf diogel. I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol i fynd i'r afael â'r broblem hon, os gwelwch yn dda?

**The First Minister:** Our immediate priority is to consult on and implement the framework for action on independent living for disabled people. I think that this will deliver positive gains for disabled people. The focus has to be on strengthening the voice of disabled people, so that they have greater choice of and control over the services that they receive. In terms of any crimes that are committed in a social care setting against disabled people, those are matters that we would expect to be dealt with by the Care and Social Services Inspectorate Wales and, ultimately, by the police.

**Y Prif Weinidog:** Ein blaenoriaeth gyntaf yw ymgynghori ar y fframwaith gweithredu ar gyfer byw'n annibynnol i bobl anabl' a'i roi ar waith. Credaf y bydd hyn yn sicrhau gwelliannau cadarnhaol ar gyfer pobl anabl. Mae'n rhaid i'r pwyslais fod ar gryfhau llais pobl anabl, fel bod ganddynt fwy o ddewis a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. O ran unrhyw droseddau sy'n cael eu cyflawni mewn lleoliadau gofal cymdeithasol yn erbyn pobl anabl, mae'r rhain yn faterion y byddem yn disgwyl i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ymdrin â hwy ac, yn y pen draw, yr heddlu.

**Rebecca Evans:** One in 20 children has a moderate or severe disability, and a quarter of them have been attacked physically or sexually, abused emotionally or neglected. Offenders often live near to the victim and are sometimes thought of as friends, because they befriend the child or young person with a disability in order to take advantage of them. What steps are your Government taking to safeguard disabled children against this kind of crime?

**Rebecca Evans:** Mae gan un o bob 20 o blant anabledd cymedrol neu ddifrifol, ac mae chwarter ohonynt wedi dioddef ymosodiad corfforol neu rywiol, wedi'u cam-drin yn emosiynol neu eu hesgeuluso. Mae troseddwyr yn aml yn byw yn agos i'r dioddefwr ac edrychir arnynt weithiau fel ffrindiau, oherwydd eu bod yn gwneud ffrindiau â'r plentyn neu'r person ifanc ag anabledd er mwyn cymryd mantais arnynt. Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i ddiogelu plant anabl yn erbyn y math hwn o drosedd?

**The First Minister:** We published 'Safeguarding Children: Working Together Under the Children Act 2004', which clearly sets out how local authorities and other agencies must co-operate to safeguard and promote the welfare of children. It also provides specific advice on safeguarding disabled children who might be at risk of, or who have suffered, abuse, and the increased vigilance that needs to exist to protect this particularly vulnerable group of children. So, the guidance does already exist.

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddwyd 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' gennym, sy'n nodi'n glir sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae hefyd yn darparu cyngor penodol ar ddiogelu plant anabl a allai fod mewn perygl, neu sydd wedi dioddef, camdriniaeth, a'r gwyliadwriaeth gynyddol sydd ei hangen i amddiffyn y grŵp hwn o blant sy'n arbennig o agored i niwed. Felly, mae'r canllawiau'n bodoli eisoes.

**Angela Burns:** A number of the people who get bullied in this way are in statutory placements in care homes. Can you give me a brief update, even if it is by letter, as to what you are going to do to encourage whistleblowers and to protect whistleblowers who bring forward things that they see, where people with disabilities are severely bullied? Your Minister for equality responded to my short debate on whistleblowing with a list of what the Government will do. To my knowledge, none of it has actually happened yet.

**Angela Burns:** Mae llawer o'r bobl sy'n cael eu bwlio yn y modd hwn mewn lleoliadau statudol mewn cartrefi gofal. A allwch chi roi i mi diweddariad byr, hyd yn oed trwy lythyr, o'r hyn yr ydych yn mynd i'w wneud i annog chwythwyr chwiban ac i ddiogelu chwythwyr chwiban sy'n hysbysu am bethau y maent yn eu gweld, pan fo pobl ag anableddau yn cael eu bwlio yn ddifrifol? Ymatebodd eich Gweinidog dros gydraddoldeb i fy nadl fer ar chwythu'r chwiban gyda rhestr o'r hyn y bydd y Llywodraeth yn ei wneud. Hyd y gwn i, nid oes dim o hyn mewn gwirionedd wedi digwydd hyd yma.

**The First Minister:** We know that hate crime is under-reported. The framework for action that I have already mentioned will examine how to improve rates of reporting, and, as part of that consideration, consideration will be given to how to provide greater protection for whistleblowers.

**Y Prif Weinidog:** Gwyddom fod diffyg hysbysu am droseddau casineb. Bydd y fframwaith ar gyfer gweithredu yr wyf eisoes wedi ei grybwyll yn archwilio ffyrdd o wella cyfraddau hysbysu, ac, yn rhan o'r ystyriaeth honno, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut i ddarparu mwy o ddiogelwch ar gyfer datgelwyr camarfer.

**Cwestiwn Brys**
**Urgent Question**

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yng Nghastell-nedd Port Talbot**
**Neath Port Talbot Children's Social Services**

**The Presiding Officer:** I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66, and I call on Peter Black to ask the urgent question.

**Y Llywydd:** Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog Rhif 12.66, a galwaf ar Peter Black i ofyn y cwestiwn brys.

***Peter Black:*** *Yn dilyn Datganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog, pa gefnogaeth bydd y Gweinidog yn ei rhoi i Gyngor Castell-nedd Port Talbot i sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol i blant yn yr awdurdod hwnnw yn gwella. EAQ(4)0210(HSS)*

***Peter Black:*** *Further to the Deputy Minister's Written Statement, what support will the Minister give to Neath Port Talbot Council to ensure that children's social services improve in the authority. EAQ(4)0210(HSS)*

**The Deputy Minister for Children and**

**Y Dirprwy Weinidog Plant a**

**Social Services (Gwenda Thomas):** The use of the serious concern protocol by the Care and Social Services Inspectorate Wales is a very serious matter. I am not prepared for services for children to fall below acceptable standards. The action taken by the chief inspector is designed specifically as a driver that will support and help improve the authority at this stage.

**Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Mae'r defnydd o'r protocol pryder difrifol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn fater difrifol iawn. Nid wyf yn barod i wasanaethau i blant ddisgyn islaw safonau derbyniol. Mae'r camau a gymerwyd gan y prif arolygydd wedi'u bwriadu'n benodol fel sbardun a fydd yn cefnogi ac yn helpu i wella'r awdurdod ar hyn o bryd.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Deputy Minister. I welcome your resolve in this matter. The inspector's report identifies that the lean systems model of service delivery, which was rolled across the children services in 2011, has led to some inconsistent and, in some cases, unsafe practice. There was, of course, substantial Welsh Government investment in that system, so what discussions have you had with the Minister for finance on the appropriateness of this roll-out and how it was evaluated prior to approval?

**Peter Black:** Diolch am ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Croesawaf eich penderfyniad yn y mater hwn. Mae adroddiad yr arolygydd yn nodi bod y model systemau darbodus o ddarparu gwasanaeth, a gyflwynwyd ar draws y gwasanaethau i blant yn 2011, wedi arwain at rywfaint o arfer anghyson ac, mewn rhai achosion, arfer anniogel. Cafwyd buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn y system honno, wrth gwrs, felly pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog cyllid ynglŷn â pha mor briodol oedd cyflwyno'r system hon a sut y cafodd ei gwerthuso cyn ei chymeradwyo?

Secondly, Deputy Minister, this is the third report in two years, showing little real improvement and still concluding that children services in Neath Port Talbot were engaging in unsafe practice. How will this time be different? What extra support will come to the authority as a result of this protocol?

Yn ail, Ddirprwy Weinidog, dyma'r trydydd adroddiad mewn dwy flynedd. Nid oedd yn dangos fawr o welliant go iawn ac roedd yn dal i ddod i'r casgliad bod ymarfer anniogel i'w gael yn y gwasanaethau i blant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Sut y bydd pethau'n wahanol y tro hwn? Pa gymorth ychwanegol a roddir i'r awdurdod o ganlyniad i'r protocol hwn?

**Gwenda Thomas:** Thank you for those questions. The inspectorate has raised issues about the processes in place in Neath Port Talbot to manage children's cases. The authority undertook a review of those processes using a lean systems approach during 2010. That work was partially supported by an invest-to-save repayment grant from the Welsh Government. An academic evaluation of Neath Port Talbot County Borough Council's systems review of children and young people services was undertaken by Swansea University and a report published in October 2011. The authority has complied with the financial requirements of the funding and has reimbursed the Welsh Government for the investment to date as required. While the

**Gwenda Thomas:** Diolch am y cwestiynau hynny. Mae'r arolygiaeth wedi codi materion ynglŷn â'r prosesau sydd ar waith yng Nghastell-nedd Port Talbot i reoli achosion plant. Cynhaliodd yr awdurdod adolygiad o'r prosesau hynny gan ddefnyddio dull systemau darbodus yn ystod 2010. Cefnogwyd y gwaith hwnnw yn rhannol gan grant buddsoddi-i-arbed gan Lywodraeth Cymru yr oedd gofyn ei ad-dalu. Cynhaliodd Prifysgol Abertawe werthusiad academaidd o adolygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o'i systemau gwasanaethau plant a phobl ifanc, a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Hydref 2011. Mae'r awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofynion ariannol a oedd ynghlwm wrth y grant ac wedi ad-dalu'r buddsoddiad i Lywodraeth

authority is subject to monitoring it will receive support and challenge from the inspectorate. I take your point that the inspectorate has been working with Neath Port Talbot County Borough Council quite intensively in the last two years. I have already said that I will not tolerate unacceptable standards. The authority will now receive support from CSSIW, as I have said, and it will report to me on a quarterly basis. There will also be a re-inspection of the authority in November 2013, and, if things are not right by then, I will not hesitate to take further action.

Cymru hyd yn hyn yn ôl y gofyn. Tra bo'r awdurdod yn destun monitro, bydd yn derbyn cefnogaeth a her gan yr arolygiaeth. Rwyf yn derbyn eich pwynt bod yr arolygiaeth wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn gymharol ddwys yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Rwyf eisoes wedi dweud na fyddaf yn goddef safonau annerbyniol. Bydd yr awdurdod yn awr yn derbyn cefnogaeth gan AGGCC, fel yr wyf wedi dweud, a bydd yn cyflwyno adroddiad i mi bob chwarter. Cynhelir ail-arolygiad o'r awdurdod hefyd ym mis Tachwedd 2013, ac, os nad yw pethau'n iawn erbyn hynny, byddaf yn gwbl barod i gymryd camau pellach.

**David Rees:** As Peter Black has highlighted, the systems model was the one that clearly caused the problems resulting in 486 children being in care and over 800 in need. These are huge numbers; they are the second highest in Wales. The report also highlights good practice and that progress is being made, but not at the speed required to ensure that these children are safe. Have you had discussions with the leadership of Neath Port Talbot County Borough Council to ensure that the political leadership is there to drive forward the agenda that is required to ensure that the changes being made, and, in particular, the workload of staff who are working excellently and performing to a high standard, are balanced to ensure that the care that is required will not be problematic because of workload being too high?

**David Rees:** Fel y mae Peter Black wedi amlygu, y model systemau yn amlwg sydd wedi peri'r problemau a achosodd i 486 o blant fod mewn gofal a thros 800 mewn angen. Mae'r rhain yn niferoedd enfawr; yr ail uchaf yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at arfer da a'r ffaith bod gwelliannau'n cael eu gwneud, ond nid ar y cyflymder sydd ei angen i sicrhau bod y plant hyn yn ddiogel. A ydych chi wedi cael trafodaethau gydag arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i sicrhau bod yr arweinyddiaeth wleidyddol yno i fwrw ymlaen â'r agenda angenrheidiol i sicrhau y gwneir y newidiadau, ac, yn benodol, i sicrhau llwyth gwaith cytbwys ar gyfer y staff sy'n gweithio rhagorol ac i safon uchel, fel na fydd y gofal sydd ei angen yn broblem oherwydd llwyth gwaith rhy uchel?

2.30 p.m.

**Gwenda Thomas:** I thank the Member for Aberavon for those questions. The issue in Neath Port Talbot, as you know, and as we have already shared, is that, at the moment, the services are not of an acceptable standard. I have met with the leader and chief executive, and they have given me their assurance that they will commit themselves to this improvement agenda. I also commend the leader in his commitment to set up a cross-party group to oversee this improvement. I believe that that has worked before, and I look forward to seeing the terms of reference of that group. As I said, we will monitor the authority closely, and I would like to add to your words and commend the

**Gwenda Thomas:** Diolch i'r Aelod dros Aberafan am y cwestiynau hynny. Y broblem yng Nghastell-nedd Port Talbot, fel y gwyddoch, ac fel yr ydym eisoes wedi nodi, yw nad yw'r gwasanaethau o safon dderbyniol ar hyn o bryd. Rwyf wedi cwrdd â'r arweinydd a'r prif weithredwr, ac maent wedi rhoi eu sicrwydd i mi y byddant yn ymrwymo i'r agenda hon ar gyfer gwella. Cymeradwyaf yr arweinydd hefyd am ei ymrwymiad i sefydlu grŵp trawsbleidiol i oruchwylio'r gwelliant hwn. Rwy'n credu bod hynny wedi gweithio o'r blaen, ac edrychaf ymlaen at weld cylch gorchwyl y grŵp hwnnw. Fel y dywedais, byddwn yn monitro'r awdurdod yn agos, a hoffwn

front-line staff in Neath Port Talbot, who have worked consistently in a very committed way to deliver to their best ability. I believe now that they need to be supported. That improvement agenda, underlined by the Care and Social Services Inspectorate Wales, will be of benefit to front-line staff and officers on a senior level alike.

ychwanegu at eich geiriau a chymeradwyo'r staff rheng flaen yng Nghastell-nedd Port Talbot, sydd wedi gweithio'n gyson mewn ffordd ymroddedig iawn i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Rwy'n credu nawr bod arnynt angen cefnogaeth. Bydd yr agenda honno ar gyfer gwella, a danlinellwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, o fudd i staff rheng flaen a swyddogion uwch fel ei gilydd.

**Suzy Davies:** I thank the Deputy Minister for her written statement this week and for taking the trouble to brief local Members separately. Nevertheless, it is disappointing that concerns over children's social services in yet another local authority in South Wales West have reached this height, especially as you were right to expect the local authority in Neath Port Talbot to have learned lessons from what happened in Bridgend and Swansea. As Peter Black mentioned, there are questions about whether the cost of the lean system has contributed to the problems with the delivery and standard of service in Neath Port Talbot. What reassurance have you had from the chief inspector of CSSIW that the council's interim plan is financially viable? Is it open to the Welsh Government to help it with finance in trying to get that plan through?

**Suzy Davies:** Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad ysgrifenedig yr wythnos hon ac am fynd i'r drafferth i roi gwybodaeth ar wahân i Aelodau lleol. Serch hynny, mae'n siomedig bod pryderon ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol i blant mewn awdurdod lleol arall eto yn ne-orllewin Cymru wedi cyrraedd y fath lefel, yn enwedig gan eich bod yn iawn i ddisgwyl i'r awdurdod lleol yng Nghastell-nedd Port Talbot fod wedi dysgu gwersi o'r hyn a ddigwyddodd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe. Fel y crybwyllodd Peter Black, ceir cwestiynau a yw cost y system ddarbodus wedi cyfrannu at y problemau yng nghysyllt darpariaeth a safon y gwasanaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot. Pa sicrwydd a gawsoch gan brif arolygydd AGGCC fod cynllun interim y cyngor yn ariannol hyfyw? A fydd disgwyl i Lywodraeth Cymru roi cyllid i'w helpu i geisio rhoi'r cynllun hwnnw ar waith?

**Gwenda Thomas:** I thank Suzy Davies for that. It is unfortunate when we see any authority falling short on standards. I gave a comprehensive answer to Peter Black on the lean systems. I believe that the interim plan that has been produced is quite robust. I believe that that will now be followed by a structured plan and, with the support of CSSIW, we hope sincerely that this improvement will continue. I also think that support from CSSIW is crucial. The plan, as I say, is robust and we need to follow this up in the days and weeks ahead to ensure that Neath Port Talbot is responding as we feel it should. There have been improvements, as David Rees has mentioned, and I have received a newsletter this morning—I do not know whether it has been circulated—which shows the commitment of the new head of services in Neath Port Talbot. That sets out quite clearly and openly what the problem is,

**Gwenda Thomas:** Diolch i Suzy Davies am hynny. Mae'n anffodus gweld unrhyw awdurdod yn methu â chyrraedd y safonau gofynnol. Rhoddais ateb cynhwysfawr i Peter Black ar y systemau darbodus. Credaf fod y cynllun interim a baratowyd yn eithaf cadarn. Credaf y bydd yn awr yn cael ei ddilyn gan gynllun strwythuredig ac rydym yn gobeithio yn ddiffuant y bydd y gwelliant yn parhau, gyda chymorth AGGCC. Rwyf hefyd yn meddwl bod cefnogaeth gan AGGCC yn hanfodol. Mae'r cynllun, fel y dywedais, yn gadarn ac mae angen gwneud gwaith dilynol yn y dyddiau a'r wythnosau sydd i ddod er mwyn sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn ymateb fel y teimlwn y dylai. Gwelwyd gwelliannau, fel y mae David Rees wedi crybwyll, a derbyniais gylchlythyr fore heddiw—nid wyf yn gwybod a yw wedi ei ddosbarthu—sy'n dangos ymrwymiad pennaeth newydd y gwasanaethau yng

as well as showing how it envisages improving services. However, if that is not achieved, we will consider the matter, and, as I have said already, I will not hesitate in taking further action if that is needed.

Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'n nodi yn eithaf clir ac yn agored beth yw'r broblem, yn ogystal â dangos sut y mae'n rhagweld y bydd gwasanaethau'n cael eu gwella. Fodd bynnag, os na chyflawnir hynny, byddwn yn ystyried y mater, ac, fel y dywedais eisoes, byddaf yn gwbl barod gymryd camau pellach os oes angen hynny.

**Jocelyn Davies:** Deputy Minister, although you are not directly intervening at this point, perhaps you could outline the role of the Welsh Government in ensuring that children's welfare is paramount in Neath Port Talbot and that the staff are supported in the very difficult work that they have to do? Will you also tell us what the role of the local service board is now in connection with this? Is there any probability that children who should not have been were removed from their families? I know that you gave an answer to Peter Black earlier about the lean system, but how will you now ensure that the lean system approach is applied only to the appropriate public services in the future?

**Jocelyn Davies:** Ddirprwy Weinidog, er nad ydych yn ymyrryd yn uniongyrchol ar yr adeg hon, efallai y gallech amlinellu'r rhan y mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae o ran sicrhau mai lles plant sy'n cael y brif flaenoriaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot a bod y staff yn cael eu cefnogi yn eu gwaith anodd iawn? A wnewch chi hefyd ddweud wrthym beth yw swyddogaeth y bwrdd gwasanaethau lleol yn awr mewn cysylltiad â hyn? A yw hi'n debygol o gwbl y tynnwyd plant oddi wrth eu teuluoedd pan na ddylai hynny fod wedi digwydd? Gwn eich bod wedi rhoi ateb i Peter Black yn gynharach ynglŷn â'r system ddarbodus, ond sut y byddwch yn sicrhau yn awr nad yw'r system ddarbodus ond yn cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus priodol yn y dyfodol?

**Gwenda Thomas:** I thank Jocelyn Davies for that, and I agree absolutely. The children's welfare is paramount, and that must be at all times the primary consideration for all of us, for CSSIW and the authority alike.

With regard to the lean system, I have mentioned the review by Swansea University and I hope that any lessons that needed to be learned from what has happened in Neath Port Talbot have been learned. I am sure that we will be pursuing that and ensuring that any systems that are in place, whatever they are, are there to support the service and to support the children who need to be protected.

I am not able to answer the question of whether a child has been taken into care who should not have been. The issue here is an issue for Neath Port Talbot—it is owned by Neath Port Talbot—and it must deliver on its responsibilities. If there is anything of that nature that comes to anyone's attention, I assume that they will make that known.

**Gwenda Thomas:** Diolch i Jocelyn Davies am hynny, a chytunaf yn llwyr. Lles y plant yw'r brif flaenoriaeth, a rhaid i hynny fod y brif ystyriaeth i bob un ohonom bob amser, i AGGCC a'r awdurdod fel ei gilydd.

O ran y system ddarbodus, rwyf wedi crybwyll yr adolygiad gan Brifysgol Abertawe ac rwy'n gobeithio y dysgwyd unrhyw wersi yr oedd angen eu dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rwyf yn siŵr y byddwn yn mynd ar drywydd hynny ac yn sicrhau bod unrhyw systemau sydd ar waith, beth bynnag y bônt, yn cefnogi'r gwasanaeth, ac yn cefnogi'r plant y mae angen eu diogelu.

Ni allaf ateb y cwestiwn a oes plentyn wedi ei gymryd i ofal pan na ddylai hynny fod wedi digwydd. Mae hynny'n fater i Gastell-nedd Port Talbot—mae'n gyfrifoldeb i Gastell-nedd Port Talbot—ac mae'n rhaid iddo gyflawni ei gyfrifoldebau. Os bydd unrhyw beth o'r natur honno'n dod i sylw unrhyw un, rwy'n cymryd yn ganiataol y byddant yn gwneud hynny'n hysbys.

The role of the local service board is part of the performance of local authorities, but primarily this will be the monitoring process by CSSIW under the protocol. This is the first stage of the serious concern protocol, and, as I say, there will be quarterly reports until the next inspection, in November 2013.

Mae swyddogaeth y bwrdd gwasanaethau lleol yn rhan o berfformiad awdurdodau lleol, ond proses fonitro AGGCC fydd hyn yn bennaf o dan y protocol. Dyma gam cyntaf y protocol pryder difrifol, ac, fel y dywedais, bydd adroddiadau chwarterol yn cael eu cyflwyno tan yr arolygiad nesaf, ym mis Tachwedd 2013.

**William Graham:** I thank Peter Black for raising this urgent question. Although we offer support to the Deputy Minister, she will know that this is the third such report in two years, following initial concerns raised in 2010. I am grateful to the Deputy Minister for saying that she will receive quarterly reports, but will she also undertake to give reports to the Assembly, as and when she thinks it appropriate? More particularly, if those reports show continuing problems, will she intervene at the earliest possible opportunity? Furthermore, if those reports show that finance is needed, will she make that finance available, as and when she deems it necessary?

**William Graham:** Diolch i Peter Black am godi'r cwestiwn brys hwn. Er ein bod yn cynnig ein cefnogaeth i'r Dirprwy Weinidog, bydd yn gwybod mai hwn yw'r trydydd adroddiad o'i fath mewn dwy flynedd, yn dilyn pryderon cychwynnol a godwyd yn 2010. Rwyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ddweud y bydd yn derbyn adroddiadau chwarterol, ond a fydd hi hefyd yn ymrwymo i roi adroddiadau i'r Cynulliad, pan mae'n credu ei bod yn briodol? Yn fwy penodol, os bydd yr adroddiadau hynny'n dangos problemau parhaus, a wnaiff hi ymyrryd ar y cyfle cyntaf posibl? Ar ben hynny, os yw'r adroddiadau yn dangos bod angen cyllid, a wnaiff hi sicrhau bod cyllid ar gael, pan mae'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol?

**Gwenda Thomas:** I take those points. I have already said that there has been input by CSSIW since 2010. I believe that there have been some improvements, but it is far too slow; hence, the invoking of this protocol at this stage. This is not ministerial action, I would point out, but CSSIW invoking the protocol. There are ways in which Ministers can intervene at any stage, but I believe that we need to use this process, with the intense contribution from CSSIW, underpinned by these quarterly reports and another inspection in a year. However, the intervention process has begun, and I am sure that Neath Port Talbot will now respond to that, and show us its commitment to improving these services. That is the important thing. We also need to support front-line staff, as I have already said, and, predominantly, we have to safeguard children in Neath Port Talbot and everywhere else in Wales.

**Gwenda Thomas:** Derbyniaf y pwyntiau hynny. Rwyf eisoes wedi dweud y gwnaed gwaith gan AGGCC ers 2010. Credaf y bu rhai gwelliannau, ond mae'r broses lawer yn rhy araf; dyna pam y rhoddwyd y protocol hwn ar waith ar hyn o bryd. Hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith nad gweithredu gweinidogol mo hyn; yn hytrach AGGCC sy'n rhoi'r protocol ar waith. Ceir ffyrdd i Weinidogion ymyrryd ar unrhyw adeg, ond credaf fod angen i ni ddefnyddio'r broses hon, gyda chyfraniad dwys gan AGGCC. Ategir hynny gan yr adroddiadau chwarterol hyn ac arolygiad arall mewn blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r broses ymyrryd wedi dechrau, ac rwy'n siŵr y bydd Castell-nedd Port Talbot bellach yn ymateb i hynny, a dangos i ni ei ymrwymiad i wella'r gwasanaethau hyn. Dyna'r peth pwysig. Mae hefyd angen i ni gefnogi'r staff rheng flaen, fel yr wyf eisoes wedi ei ddweud, ac, yn bennaf, mae'n rhaid i ni ddiogelu plant yng Nghastell-nedd Port Talbot ac ym mhob man arall yng Nghymru.

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**
**Business Statement and Announcement**

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have one minor change to report to the business statement. The title of the statement on winter resilience this afternoon has changed to 'Winter Preparations'. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf un newid bach i adrodd i'r datganiad busnes. Mae teitl y datganiad ar wrthsefyll y gaeaf y prynhawn yma wedi newid i 'Paratoadau ar gyfer y Gaeaf'. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**William Graham:** Last Saturday, I was delighted to join with members of the Merchant Navy Association, John Griffiths, and representatives of the Presiding Officer at the merchant navy memorial at Mariners Green in Newport, to honour merchant sailors who died in conflict in two world wars. Will the Welsh Government bring forth a statement considering establishing a Wales national merchant navy day memorial, allowing us to recall and respect the sacrifices that have been made by merchant seamen in conflicts across the globe?

**William Graham:** Ddydd Sadwrn diwethaf, roeddwn wrth fy modd i ymuno ag aelodau o Gymdeithas y Llynges Fasnachol, John Griffiths, a chynrychiolwyr y Llywydd yng ngwasanaeth coffa'r llynges fasnachol yn Mariners Green yng Nghasnewydd, i anrhydeddu morwyr masnachol a fu farw yn ymladd mewn dau ryfel byd. A fydd Llywodraeth Cymru yn dod â datganiad yn ystyried sefydlu diwrnod coffa llynges fasnachol cenedlaethol Cymru, gan ganiatáu i ni gofio a pharchu'r aberth a wnaed gan y morwyr masnachol mewn rhyfeloedd ar draws y byd?

**Jane Hutt:** There are a number of memorial events that appropriately recognise the merchant navy. There was one here in Cardiff bay the previous week. This is a matter that the Minister who leads on the armed services, and on the response to these issues, will take into account.

**Jane Hutt:** Mae nifer o ddigwyddiadau coffa sy'n cydnabod y llynges fasnachol yn briodol. Roedd un yma ym mae Caerdydd yr wythnos flaenorol. Mae hwn yn fater y bydd y Gweinidog sy'n arwain ar y gwasanaethau arfog, ac ar yr ymateb i'r materion hyn, yn ei ystyried.

**Julie Morgan:** Last Saturday, I held a meeting entitled 'Listening to older women'. That meeting was filled with inspirational older women, who raised issues about health, housing, and transport, as well as talking about the sort of input that they were having, and the sorts of things that they were achieving. Would there be an opportunity to debate the achievements of women in Wales?

**Julie Morgan:** Ddydd Sadwrn diwethaf, cynhaliais gyfarfod o'r enw 'Gwrando ar fenywod hŷn'. Roedd y cyfarfod hwnnw'n llawn o fenywod hŷn ysbrydoledig, a gododd faterion yn ymwneud ag iechyd, tai, a thrafnidiaeth, yn ogystal â siarad am y math o fewnbwn yr oeddent yn ei gael, a'r mathau o bethau y maent yn eu cyflawni. A fyddai cyfle i drafod llwyddiannau menywod yng Nghymru?

**Jane Hutt:** I am sure that the event that the Member for Cardiff North hosted provided a wealth of information, which is evidence of the contribution and the role of older women, in particular, in Wales. I would like to acknowledge that, as Minister for equalities, and look at the opportunities. International

**Jane Hutt:** Rwy'n siŵr bod y digwyddiad a gynhaliodd yr Aelod dros Ogledd Caerdydd wedi darparu cyfoeth o wybodaeth, sy'n dystiolaeth o gyfraniad a rôl merched hŷn, yn arbennig, yng Nghymru. Hoffwn gydnabod hynny, fel y Gweinidog cydraddoldeb, ac edrych ar y cyfleoedd. Mae Diwrnod

Women's Day is a key opportunity as we move forward, and I should say to Members that we have a grant scheme for events in relation to International Women's Day to promote the lives and experiences of women and young girls, and I hope that Members will inform their contacts and groups of that opportunity.

Rhyngwladol y Menywod yn gyfle allweddol wrth i ni symud ymlaen, a dylwn ddweud wrth yr Aelodau bod gennym gynllun grant ar gyfer digwyddiadau mewn perthynas â Diwrnod Rhyngwladol y Menywod i hyrwyddo bywydau a phrofiadau menywod a merched ifanc, ac rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau yn hysbysu eu cysylltiadau a grwpiau am y cyfle hwnnw.

**The Presiding Officer:** May I remind Members that I will be hosting a conference on Thursday about getting women to take a more active role in public life?

**Y Llywydd:** A gaf i atgoffa Aelodau y byddaf yn cynnal cynhadledd ddydd Iau am gael menywod i gymryd rhan fwy gweithredol mewn bywyd cyhoeddus?

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r angen i'ch Llywodraeth chi weithredu'r cynllun i leihau'r dreth gyngor ar 1 Ebrill. Nid wyf wedi gweld y rheoliadau eto sy'n ymwneud â'r cynllun hwnnw, gan nad yw wedi cael ei drafod yma, ond mae'r dyddiad ar gyfer ei weithredu yn prysur agosáu. A allwch ddweud wrthym pryd y byddwn yn trafod y rheoliadau hynny yma i sicrhau nad yw pobl Cymru yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle na ellir cyflwyno'r cynllun i leihau'r dreth gyngor?

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, you will be aware of the need for your Government to implement the scheme to reduce council tax on 1 April. I have not yet seen the regulations appertaining to that scheme, as it has not been discussed here, but the date for implementation is fast approaching. Can you tell us when we will get to debate those regulations here to ensure that the people of Wales do not find themselves in a situation where it is not possible to introduce the scheme to reduce council tax?

Ar fater rhyngwladol, byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth yr Alban wedi galw am atalfa ar y gwrthdaro yn y dwyrain canol ar unwaith i sicrhau cyfiawnder i holl drigolion yr ardal honno. Mae mwy nag un ddadl wedi bod yma yn adlewyrchu'r pryderon sydd yng Nghymru am y sefyllfa sydd wedi bodoli ers rhai blynyddoedd, ond mae bron i 100 o bobl wedi'u lladd yn y gwrthdaro presennol erbyn hyn—90 o Balesteiniaid a thri o ddinasyddion Israel. A ydych chi, fel Llywodraeth, yn bwriadu adlewyrchu'r pryderon hynny a gwneud datganiad tebyg i'r hyn a wnaed gan Lywodraeth yr Alban, neu a ydych yn mynd i roi cyfle i ni drafod y materion hynny yma, fel rydym wedi'i wneud yn y gorffennol? A ydych chi, fel Llywodraeth, yn credu mai'r unig ffordd y gellid sicrhau cyfiawnder a heddwch parhaol yn yr ardal honno yw drwy gydnabod y naill wladwriaeth a'r llall, a hawliau eu dinasyddion?

On an international issue, you will be aware that the Scottish Government has called for an immediate ceasefire in the current conflict in the middle east to ensure justice for all the inhabitants of the area. We have held more than one debate here to reflect the concerns that there are in Wales about the situation that has existed for some years, but almost 100 people have been killed in the current conflict to date—90 Palestinians and three citizens of Israel. Do you as a Government intend to reflect those concerns and make a statement similar to the one made by the Scottish Government, or will you give us an opportunity to discuss these issues here, as we have done in the past? Do you as a Government believe that the only way in which justice can be done and permanent peace secured in that area is by recognising both states and the rights of their citizens?

**Jane Hutt:** In response to Rhodri Glyn Thomas's first question, of course the Minister for Local Government and Communities is progressing with securing the

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i gwestiwn cyntaf Rhodri Glyn Thomas, wrth gwrs mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn bwrw ati i sicrhau'r rheoliadau ar gyfer

regulations for the council tax benefits change. The Member will recognise that the timing and finalisation of decisions is very much up to the UK Government, which includes a 10% cut in the transfer of these funds to the Welsh Government. I raised this matter at the finance quadrilateral meeting as a matter of major concern for finance ministers, but most importantly, for local authorities and the recipients who are most affected by these changes.

newid ym mudd-daliadau'r dreth gyngor. Bydd yr Aelod yn cydnabod bod amseriad a chwblhau'r penderfyniadau yn dibynnu'n fawr iawn ar Lywodraeth y DU, sy'n cynnwys toriad o 10% mewn trosglwyddo'r cronfeydd hyn i Lywodraeth Cymru. Codais y mater hwn yn y cyfarfod cyllid pedairochrog fel mater o bryder mawr i weinidogion cyllid, ond yn bwysicaf oll, i awdurdodau lleol a'r derbynwyr sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau hyn.

Of course it is appropriate for the Member to raise his concerns, which I am sure are shared and reflected in the Chamber, about the current most regrettable conflict in the middle east, and it is an important point for him to make in the business statement.

Wrth gwrs, mae'n briodol i'r Aelod i godi ei bryderon, yr wyf yn sicr sy'n cael eu rhannu a'u hadlewyrchu yn y Siambr, ynghylch y gwrthdaro presennol mwyaf anffodus yn y dwyrain canol, ac mae'n bwynt pwysig iddo wneud yn y datganiad busnes .

**Kirsty Williams:** Minister, will you make time for an urgent statement on the situation with regard to the VION Food Group Ltd? Not only is there a significant number of jobs involved—1,300 in Merthyr, 1,300 in Sandycroft, 336 in Llangefni and 377 in Gaerwen—but this is of huge concern to the red meat industry and the ability to process red and white meat within Wales. The inability to do that has huge implications for the viability of the meat industry in Wales, for animal welfare issues in Wales, and for the future marketing of Welsh food. I note that the Scottish Government has put out an extensive response, outlining what it is going to do to assist in the situation. I am sure that my constituents and many others would be grateful for a similar response from the Welsh Government.

**Kirsty Williams:** Weinidog, a wnewch chi neilltuo amser ar gyfer datganiad brys ar y sefyllfa o ran y VION Food Group Ltd? Nid yn unig y mae nifer sylweddol o swyddi dan sylw—1,300 ym Merthyr, 1,300 yn Sandycroft, 336 yn Llangefni a 377 yn y Gaerwen—ond mae hyn yn destun pryder mawr i'r diwydiant cig coch a'r gallu i brosesu cig coch a gwyn o fewn Cymru. Mae gan yr anallu i wneud hynny oblygiadau enfawr i hyfywedd y diwydiant cig yng Nghymru, i faterion lles anifeiliaid yng Nghymru, ac i farchnata bwyd o Gymru yn y dyfodol. Nodaf fod Llywodraeth yr Alban wedi rhoi ymateb helaeth, gan amlinellu'r hyn y mae'n mynd i'w wneud i gynorthwyo yn y sefyllfa. Rwy'n siŵr y byddai fy etholwyr a llawer o rai eraill yn ddiolchgar am ymateb tebyg gan Lywodraeth Cymru.

**Jane Hutt:** At this stage, the announcement that VION will be selling its sites in Wales is speculative in terms relation to potential job losses, as it is not about closing the facilities, but about selling its sites. Officials are working with the company on a potential sale, to achieve the best possible outcome for each of the four major sites, which certainly are fully engaged. This is a very sensitive commercial time for the business, as the Member will be aware, and, of course, the Minister is clearly engaged through her officials on this point.

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, mae'r cyhoeddiad y bydd VION yn gwerthu ei safleoedd yng Nghymru yn dybiannol o ran y posibilrwydd o golli swyddi, gan nad yw'n ymwneud â chau'r cyfleusterau, ond am werthu ei safleoedd. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r cwmni ar werthiant posibl, er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer pob un o'r pedwar safle mawr, sydd yn sicr yn cael eu cynnwys yn llawn. Mae hwn yn gyfnod masnachol hynod sensitif ar gyfer y busnes, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, ac, wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn ymgysylltu'n glir drwy ei swyddogion ar y pwynt hwn.

2.45 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** I rise to support the leader of the Liberal Democrats on the Vion situation that we currently face. It is a massive issue in the red meat sector. I am disappointed that an emergency question was not taken today. The company is under huge economic pressures on the basis that, in Scotland, it has shut one plant with 1,700 jobs lost, and it could have a massive detrimental impact if one plant closed in Wales, including the levy income for Hybu Cig Cymru, based in Aberystwyth, as well as on the animal health front with the meat hygiene service. A large part of this company's footprint is here in Wales, and I am amazed at the lacklustre response from you as Leader of the House on this issue. You are talking several thousand jobs here. You are talking about a company that has lost, in its last accounting period, £36 million. You are talking about a company that has a key role in supporting the promotional activities of the red meat sector and the rural economy, and it is lamentable that the Welsh Government has shown such a lack of interest in this field. I would urge you to up your game and bring forward a statement so that Members know what specific action is being taken by the Welsh Government, and, in particular, I wish a speedy conclusion to this transaction at this very uncertain time.

**Andrew R.T. Davies:** Codaf i gefnogi arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar sefyllfa Vion yr ydym yn ei hwynebu ar hyn o bryd. Mae'n fater enfawr yn y sector cig coch. Rwy'n siomedig na chymerwyd cwestiwn brys heddiw. Mae'r cwmni o dan bwysau economaidd enfawr ar y sail ei fod, yn yr Alban, wedi cau un ffatri a cholli 1,700 o swyddi, a gallai gael effaith niweidiol enfawr pe byddai un ffatri yn cau yng Nghymru, gan gynnwys incwm o ardollau ar gyfer Hybu Cig Cymru, yn seiliedig yn Aberystwyth, yn ogystal ag ar ffrynt iechyd anifeiliaid gyda'r gwasanaeth hylendid cig. Mae rhan fawr o ôl-troed y cwmni hwn yma yng Nghymru, ac rwy'n rhyfeddu at yr ymateb difflach gennych chi fel Arweinydd y Tŷ ar y mater hwn. Rydych yn siarad am sawl mil o swyddi yma. Rydych yn sôn am gwmni sydd wedi colli, yn ei gyfnod cyfrifyddu diwethaf, £36 miliwn. Rydych yn sôn am gwmni sydd â rôl allweddol mewn cefnogi gweithgareddau hyrwyddo'r sector cig coch a'r economi wledig, ac mae'n druenus bod Llywodraeth Cymru wedi dangos y fath ddiffyg diddordeb yn y maes hwn. Byddwn yn eich annog i gynyddu'ch ymdrechion a chyflwyno datganiad fel y gŵyr yr Aelodau pa gamau penodol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru, ac, yn benodol, rwy'n dymuno gweld terfyn cyflym i'r trafodyn hwn ar yr amser ansicr iawn yma.

**Jane Hutt:** I assure Members and the leader of the opposition, as I did in response to the question from the leader of the Welsh Liberal Democrats, that officials are working with the company as regards a potential sale to achieve the best possible outcome for each of the four major sites in Wales. I did say that this is a sensitive commercial time for the business and I am sure that Members would appreciate that. You have had assurance from Government that officials are working very closely with the company and we need to ensure that those discussions can progress so that we have the best possible outcome in terms of safeguarding not only sites, but facilities and jobs.

**Jane Hutt:** Rwy'n sicrhau Aelodau ac arweinydd yr wrthblaid, fel y gwneuthum yn yr ymateb i'r cwestiwn gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, bod y swyddogion yn gweithio gyda'r cwmni o ran gwerthiant posibl i gyflawni'r canlyniad gorau posibl ar gyfer pob un o'r pedwar prif safle yng Nghymru. Dywedais fod hwn yn amser masnachol sensitif i'r busnes, ac rwy'n siŵr y byddai'r Aelodau'n gwerthfawrogi hynny. Rydych wedi cael sicrwydd gan y Llywodraeth bod swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r cwmni ac mae angen i ni sicrhau y gall y trafodaethau symud ymlaen er mwyn i ni gael y canlyniad gorau posibl o ran diogelu nid yn unig safleoedd, ond cyfleusterau a swyddi.

**Ann Jones:** May I ask you, Leader of the House, to make time for a statement or a debate on the recent police and crime

**Ann Jones:** A gaf i ofyn i chi, Arweinydd y Tŷ, i wneud amser ar gyfer datganiad neu ddadl ar yr etholiadau comisiynydd heddlu a

commissioner elections? Would the Government consider whether legislation for these posts in Wales should be made in Wales? Would the Government also consider whether candidates should have to declare their party affiliation or membership of any secret society?

throseddu diweddar? A fyddai'r Llywodraeth yn ystyried a ddylai deddfwriaeth ar gyfer y swyddi hyn yng Nghymru gael ei gwneud yng Nghymru? A fyddai'r Llywodraeth hefyd yn ystyried a ddylai fod yn rhaid i ymgeiswyr ddatgan eu cysylltiad â phlaid neu aelodaeth o unrhyw gymdeithas gyfrinachol?

**Jane Hutt:** I thank Ann Jones for that question. We have to all reflect on the low turnout at the police and crime commissioner elections, but what is important is that the Electoral Commission is going to undertake a review of this. The words that Jenny Watson, the chair of the Electoral Commission, used in her statement, were:

**Jane Hutt:** Diolch i Ann Jones am y cwestiwn hwnnw. Mae'n rhaid i ni i gyd adlewyrchu ar y nifer isel a bleidleisiodd yn yr etholiadau comisiynydd heddlu a throseddu, ond yr hyn sy'n bwysig yw bod y Comisiwn Etholiadol yn mynd i gynnal adolygiad o hyn. Y geiriau a ddefnyddiodd Jenny Watson, cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, yn ei datganiad oedd:

'the low turnout at the police and crime commissioner elections is a concern for everyone who cares about democracy'.

mae'r nifer isel a bleidleisiodd yn yr etholiadau comisiynydd heddlu a throseddu yn bryder i bawb sy'n poeni am ddemocratiaeth.

She also says that the UK Government

Mae hi hefyd yn dweud bod Llywodraeth y DU

'took a number of decisions about how to run these elections that we did not agree with',

wedi cymryd nifer o benderfyniadau ynglŷn â sut i redeg yr etholiadau hyn nad oeddem yn cytuno â nhw,

and the UK Government did not take account or notice of that clear forewarning from the commission. The commission will undertake a thorough review and present findings to Parliament in early 2013. However, it is important to remember that the powers in relation to council tax precepting and capping in Wales remain the responsibility of the Minister for Local Government and Communities, and he has scheduled a meeting with incoming police and crime commissioners at the end of November. Of course, that is key in terms of determining local policing priorities where those commissioners need to take into account the Welsh Government's national priorities.

ac ni wnaeth Llywodraeth y DU ystyried neu gymryd sylw o'r rhagrybudd clir gan y comisiwn. Bydd y comisiwn yn cynnal adolygiad trylwyr ac yn cyflwyno canfyddiadau i'r Senedd yn gynnar yn 2013. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod y pwerau mewn perthynas â phraeseptio a chapio'r dreth gyngor yng Nghymru yn parhau yn gyfrifoldeb y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ac mae wedi trefnu cyfarfod gyda chomisiynwyr heddlu a throseddu sy'n dod i mewn ar ddiwedd mis Tachwedd. Wrth gwrs, mae hynny'n allweddol o ran pennu blaenoriaethau plismona lleol lle mae angen i'r comisiynwyr hynny ystyried blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

**Simon Thomas:** Weinidog, mae hon yn adeg anodd iawn i nifer o'n hetholwyr wrth iddynt wynebu mynd i ddyled adeg y Nadolig, ac mae hyn yn mynd yn gynyddol waeth yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Ymysg yr adar ysglyfaethus sy'n rheibio bywydau pobl

**Simon Thomas:** Minister, this is a difficult time of year for many of our constituents as they face getting into debt around Christmas, which is increasingly becoming more of a problem in the current economic climate. Among the vultures attacking people

mewn dyled yw cwmnïau benthyg diwrnod pae. Rydym eisoes wedi cael un ddadl o'r meinciau cefn yn y Senedd hon ynglŷn ag arferion rhai o'r cwmnïau hyn, a, heddiw eto, mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi cyhoeddi adroddiad arall sy'n dangos bod y camymddwyn gan y cwmnïau hyn yn parhau, yn enwedig wrth iddynt barhau i gymryd arian oddi wrth bobl sydd mewn dyled ac wrth beidio â sicrhau bod pobl mewn sefyllfa i gymryd y benthyciad yn y lle cyntaf. Gan fod y Llywodraeth wedi ymateb yn bositif y tro diwethaf i'r ddadl o'r meinciau cefn, a oes modd cael datganiad pellach gan y Llywodraeth i ddiweddaru'r Siambr ynglŷn â'r gweithredu sydd wedi digwydd i atal camymddwyn gan rai o'r cwmnïau hyn ac i hybu dulliau amgen o fenthyg i etholwyr, megis trwy undebau credyd? Fe fyddai'n briodol iawn inni gael datganiad o'r fath a chyfle i ymateb cyn y Nadolig.

currently in debt are the pay-day loan companies. We have already had one backbench debate in this Senedd on the practices of some of these companies, and, once again, the Office of Fair Trading has today published another report demonstrating that misconduct by these companies continues, particularly as they continue to take money from people already in debt and fail to check whether people are in a position to take out loans in the first place. As the Government responded positively last time to the backbench debate, would it be possible to have a further statement from the Government in order to update the Chamber on the action taken to prevent misconduct by some of these companies and to promote alternative means of borrowing, such as credit unions? It would be very appropriate that we should have such a statement and an opportunity to respond before Christmas.

**Jane Hutt:** I thank Simon Thomas for that question, which is appropriate in this period leading up to Christmas. I know that the Minister for Local Government and Communities has clearly supported the development of, and has enhanced our support for, Welsh credit unions, which has resulted in new members since 2010. I am working closely with credit unions to see how we can best support them beyond next year, given that access to financial products through the credit unions project will end at that time. It is clear that we have to play our part, within our devolved powers, in supporting people who are at risk of those sharks, particular those who offer pay-day loans. I am sure that the Minister will consider this issue in terms of a further update to the Assembly.

**Jane Hutt:** Diolch i Simon Thomas am y cwestiwn hwnnw, sy'n briodol yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Gwn fod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn amlwg wedi bod o blaid datblygu undebau credyd Cymru, ac mae wedi gwella ein cefnogaeth ar eu cyfer, sydd wedi arwain at aelodau newydd ers 2010. Rwy'n gweithio'n agos gydag undebau credyd i weld sut y gallwn eu cefnogi orau y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf, o ystyried y bydd mynediad i gynhyrchion ariannol drwy'r prosiect undebau credyd yn dod i ben bryd hynny. Mae'n amlwg bod yn rhaid inni chwarae ein rhan, o fewn ein pwerau datganoledig, wrth gefnogi pobl sydd mewn perygl gan y siarcod hynny, yn enwedig y rhai sy'n cynnig benthyciadau diwrnod cyflog. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ystyried y mater hwn o ran rhoi diweddariad pellach i'r Cynulliad.

**Aled Roberts:** Yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn bwriadu gwneud datganiad ynglŷn ag adolygiad o'r gwasanaeth ambiwlans cyn diwedd y mis. Eto, nid oes amser wedi'i neilltuo ar yr amserlen er mwyn i'r datganiad hwnnw gael ei wneud yn y Senedd. A allwch chi sicrhau y bydd y datganiad yn cael ei wneud yn y Senedd, fel y gallwn gael cyfle i drafod y mater cyn y Nadolig?

**Aled Roberts:** Last week, the Minister for Health and Social Services said that she intended to make a statement about a review of the ambulance service before the end of the month. Yet, according to the timetable, no time has been allocated for that statement to be made in the Senedd. Can you ensure that the statement is made in the Senedd, so that we may have an opportunity to discuss the matter before Christmas?

**Jane Hutt:** The Minister for health has given her commitment in terms of the review of ambulance services. When it is appropriate, she will bring the terms of reference and the way forward on that review to this Assembly.

**Jane Hutt:** Mae'r Gweinidog iechyd wedi rhoi ei hymrwymiad o ran yr adolygiad o wasanaethau ambiwlans. Pan fydd yn briodol, bydd yn dod â'r cylch gorchwyl a'r ffordd ymlaen ar yr adolygiad hwnnw i'r Cynulliad hwn.

**Paul Davies:** I would be grateful if the Leader of the House could ask the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science to bring forward a statement to update us on the progress in improving broadband services across Wales. I appreciate that the Minister for business made a statement on 19 July this year with regard to the next generation broadband Wales project, when she confirmed that a further update would be made. I note that no statement is due to be made on this issue according to the business programme between now and the end of the year. Given that I continue to receive representations from my constituents who receive poor broadband services or none at all, I would be grateful if the Leader of the House could ask the Minister for business to bring forward a statement to update us, so that I can inform my constituents of how the additional investment announced earlier this year will benefit the people of Pembrokeshire.

**Paul Davies:** Byddwn yn ddiolchgar pe gallai Arweinydd y Tŷ ofyn i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i gyflwyno datganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd o ran gwella gwasanaethau band eang ar draws Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi bod y Gweinidog busnes wedi gwneud datganiad ar 19 Gorffennaf eleni o ran prosiect band eang y genhedlaeth nesaf Cymru, pan gadarnhaodd y byddai diweddariad pellach yn cael ei wneud. Nodaf nad oes datganiad am gael ei wneud ar y mater hwn yn ôl y rhaglen fusnes rhwng nawr a diwedd y flwyddyn. Gan fy mod yn parhau i dderbyn sylwadau gan fy etholwyr sy'n derbyn gwasanaethau band eang gwael neu ddim o gwbl, byddwn yn ddiolchgar pe gallai Arweinydd y Tŷ ofyn i'r Gweinidog busnes gyflwyno datganiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni, er mwyn i mi roi gwybod i fy etholwyr sut y bydd y buddsoddiad ychwanegol a gyhoeddwyd yn gynharach eleni o fudd i bobl Sir Benfro.

**Jane Hutt:** I am certain that the Member will have welcomed the considerable improved investment that we are making through our draft budget in broadband and next generation broadband. The Minister will update Members on progress in due course.

**Jane Hutt:** Rwy'n sicr y bydd yr Aelod wedi croesawu'r buddsoddiad gwell sylweddol yr ydym yn ei wneud drwy ein cyllideb ddrafft mewn band eang a band eang y genhedlaeth a'r nesaf. Bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd maes o law.

**Antoinette Sandbach:** Leader of the House, I, too, would like to support the calls made by Kirsty Williams and Andrew R.T. Davies in relation to the Vion plant, given that 2,000 of those jobs are in my region of North Wales. Vion has received over £7 million-worth of public money—just £1.2 million of it last year, in 2010, in order to safeguard jobs in Merthyr Tydfil. I am sure that employees elsewhere, particularly in north Wales, where the vast majority of jobs are based, are very concerned about the latest developments. I urge you to ensure that the Minister for business, if she is not going to make a statement—and I, among others, sought to table the urgent question today—at the very

**Antoinette Sandbach:** Arweinydd y Tŷ, hoffwn innau, hefyd, gefnogi'r galwadau a gafwyd gan Kirsty Williams ac Andrew R.T. Davies mewn perthynas â ffatri Vion, o gofio bod 2,000 o'r swyddi hynny yn fy rhanbarth i, Gogledd Cymru. Mae Vion wedi derbyn dros £7 miliwn o arian cyhoeddus—£1.2 miliwn y llynedd, yn 2010, er mwyn diogelu swyddi ym Merthyr Tudful. Rwy'n siŵr bod gweithwyr mewn mannau eraill, yn enwedig yng ngogledd Cymru, lle mae'r rhan fwyaf o swyddi wedi eu lleoli, yn bryderus iawn am y datblygiadau diweddaraf. Rwy'n eich annog i sicrhau bod y Gweinidog busnes, os nad yw hi'n mynd i wneud datganiad—ac rwyf innau, ymhlith eraill, wedi ceisio cyflwyno'r

least writes to us, so that we are aware of the steps that her officials are taking.

cwestiwn brys heddiw—o leiaf yn ysgrifennu atom, fel ein bod yn ymwybodol o'r camau y mae ei swyddogion yn eu cymryd.

**Jane Hutt:** Yes, certainly. The importance of the situation in relation to the recent announcement in terms of Vion is recognised not only by the Minister, but by me, as Leader of the House. The Minister for business will be updating Members on the progress in addressing this serious issue.

**Jane Hutt:** Gwnaf, yn sicr. Mae pwysigrwydd y sefyllfa mewn perthynas â'r cyhoeddiad diweddar o ran Vion yn cael ei gydnabod nid yn unig gan y Gweinidog, ond gennyf i, fel Arweinydd y Tŷ. Bydd y Gweinidog busnes yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y cynnydd wrth fynd i'r afael â'r mater difrifol hwn.

**Nick Ramsay:** I have two points to make. First, on 5 November, Leader of the House, the Minister for health announced that there would be a review into health board finances. It is less than clear when that will report. Can we have some clarity on that, and perhaps a debate in this place on the findings of that review?

**Nick Ramsay:** Mae gennyf ddau bwynt i'w gwneud. Yn gyntaf, ar 5 Tachwedd, Arweinydd y Tŷ, cyhoeddodd y Gweinidog iechyd y byddai adolygiad o gyllid byrddau iechyd. Mae'n llai clir pryd y bydd hynny'n adrodd. Allwn ni gael rhywfaint o eglurder ynghylch hynny, ac efallai dadl yn y lle hwn ar ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw?

Secondly, it has already been mentioned by Ann Jones, but, our four new police and crime commissioners, following the elections last week—while there may be differences of opinion as to whether some Members wanted them—have an important role. I would be grateful to hear from the Minister for communities how he believes the Welsh Government should now interact with those new commissioners. While their remit is not devolved, there are many aspects of policing and dealing with crime that will have a bearing on people in Wales and the functions of the Welsh Government. I would like a statement on that, please.

Yn ail, mae eisoes wedi ei grybwyll gan Ann Jones, ond, mae gan ein pedwar comisiynydd heddlu a throseddau newydd, yn dilyn yr etholiadau yr wythnos diwethaf—tra gall fod gwahaniaeth barn p'un a oedd rhai Aelodau am eu cael—rôl bwysig. Byddwn yn ddiolchgar i glywed gan y Gweinidog cymunedau sut y mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ryngweithio bellach gyda'r comisiynwyr newydd. Er nad yw eu cylch gwaith wedi'i ddatganoli, mae llawer o agweddau ar blismona a delio â throseddau fydd yn cael effaith ar bobl yng Nghymru a swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Hoffwn gael datganiad ar hynny, os gwelwch yn dda.

**Jane Hutt:** The Minister for health is reviewing the financial plans of individual NHS organisations to ensure that they deliver services within the available resources. On your second point, the Minister for Local Government and Communities will be engaging, and, in response to Ann Jones's questions, I highlighted the forthcoming meetings that the Minister will have with the new police and crime commissioners to make sure that the Welsh Government's national priorities for community safety, and related areas such as health, are taken on board by the commissioners.

**Jane Hutt:** Mae'r Gweinidog iechyd yn adolygu cynlluniau ariannol sefydliadau unigol y GIG er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Ar eich ail bwynt, bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ymgysylltu, ac, mewn ymateb i gwestiynau Ann Jones, tynnais sylw at y cyfarfodydd sydd ar ddod y bydd y Gweinidog yn eu cael gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddau newydd i wneud yn siŵr bod blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelwch cymunedol, a meysydd cysylltiedig megis iechyd, yn cael eu hystyried gan y comisiynwyr.

**Datganiad: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol**
**Statement: The Future Delivery of Education Services in Wales**

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** Last week, we discussed the national implementation plan 'Improving schools'. The delivery of the plan under current arrangements is reliant upon the middle tier of local authorities and regional consortia. Members will recall the publication, in March 2011, of the report by the independent task and finish group on the structure of education services in Wales, chaired by Viv Thomas. The report recognised that regional consortia could tackle issues relating to resources, capacity and outcomes. It concluded that the economy of scale from the emerging regional consortia could release resources to the front line and deliver high-quality support services to schools.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Yr wythnos diwethaf, buom yn trafod gweithredu cenedlaethol y cynllun 'Gwella ysgolion'. Mae cyflwyno'r cynllun dan y trefniadau presennol yn dibynnu ar yr haen ganol o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Bydd Aelodau'n cofio y cyhoeddiad, ym mis Mawrth 2011, yr adroddiad gan y grŵp gorffen a gorchwyl annibynnol ar y strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth Viv Thomas. Roedd yr adroddiad yn cydnabod y gallai consortia rhanbarthol fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag adnoddau, gallu a chanlyniadau. Daeth i'r casgliad y gallai'r arbedion maint gan y consortia rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg ryddhau adnoddau i'r rheng flaen a darparu gwasanaethau cefnogi o ansawdd uchel i ysgolion.

Since September 2012, the consortia have started to deliver school improvement services on a regional basis. In some areas, good progress has been made, but, overall progress is, to put it mildly, patchy. Local authorities and consortia gave me an assurance that they will have teams of system leaders based on the very best school-improvement officers and excellent headteachers. Certainly, some very able new system leaders have been appointed in some areas, but whether they will inspire confidence overall remains to be tested.

Ers mis Medi 2012, mae'r consortia wedi dechrau darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar sail ranbarthol. Mewn rhai ardaloedd, mae cynnydd da wedi'i wneud, ond, mae cynnydd cyffredinol, a dweud y lleiaf, yn anghyson. Rhoddodd awdurdodau lleol a chonsortia sicrwydd i mi y bydd ganddynt dimau o arweinwyr system yn seiliedig ar y swyddogion gwella ysgolion gorau oll a phenaethiaid rhagorol. Yn sicr, mae rhai arweinwyr system newydd galluog iawn wedi'u penodi mewn rhai ardaloedd, ond rhaid aros i brofi a fyddant yn ysbrydoli hyder cyffredinol.

Since the introduction of Estyn's common inspection framework in September 2010, 15 local authority inspection reports have been published by Estyn: Newport, Conwy, Denbighshire, Carmarthenshire and Neath Port Talbot are all good; Anglesey is in special measures, with an intervention board appointed; Blaenau Gwent is in special measures and run by commissioners; Pembrokeshire is in need of significant improvement and under the direction of a ministerial board; Torfaen is in need of significant improvement; Powys is in need of significant improvement; and Wrexham, Cardiff, Flintshire, Rhondda Cynon Taf and Caerphilly are adequate—or, as I have said

Ers cyflwyno fframwaith arolygu cyffredin Estyn ym mis Medi 2010, mae 15 o adroddiadau archwilio awdurdodau lleol wedi cael eu cyhoeddi gan Estyn: mae Casnewydd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot i gyd yn dda; mae Ynys Môn mewn mesurau arbennig, gyda bwrdd ymyrraeth wedi'i benodi; mae Blaenau Gwent mewn mesurau arbennig ac yn cael ei gynnal gan gomisiynwyr; mae angen gwelliant sylweddol yn Sir Benfro ac mae dan gyfarwyddyd bwrdd gweinidogol; mae angen gwelliant sylweddol yn Nhorfaen; mae angen gwelliant sylweddol ym Mhowys; ac mae Wrecsam, Caerdydd, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn

before, barely good enough—and in Estyn monitoring. Estyn has recently inspected Bridgend, Merthyr Tydfil and Monmouthshire and re-inspected Pembrokeshire. These reports and Estyn's judgments have not been published yet. So, we have no excellent local authorities, but five good ones; five are in a formal Estyn category; and five are being monitored by Estyn.

ddigonol—neu, fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, prin ddigon da—ac yn cael eu monitro gan Estyn. Mae Estyn yn ddiweddar wedi arolygu Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Sir Fynwy ac ail-arolygu Sir Benfro. Nid yw'r adroddiadau hyn a dyfarniadau Estyn wedi eu cyhoeddi eto. Felly, nid oes gennym unrhyw awdurdodau lleol ardderchog, ond pump o rai da: pump mewn categori Estyn ffurfiol; ac mae pump yn cael eu monitro gan Estyn.

Local authorities in general have not been effective in delivering efficiencies, including promised savings through the creation of consortia or the reduction of surplus places. As we have seen during discussions on the school standards Bill, they have rarely used their powers of intervention to address failure when it arises in schools. Furthermore, both I and the Minister for Local Government and Communities have repeatedly called upon local authorities to make joint appointments when vacancies arise. In respect of posts for directors of education and chief education officers, this has largely fallen on deaf ears.

Nid yw awdurdodau lleol yn gyffredinol wedi bod yn effeithiol wrth wneud arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys arbedion a addawyd drwy greu consortia neu leihau lleoedd dros ben. Fel yr ydym wedi gweld yn ystod trafodaethau ar y Bil safonau ysgol, anaml y maent wedi defnyddio eu pwerau ymyrryd i fynd i'r afael â methiant pan fydd yn codi mewn ysgolion. Ar ben hynny, rwyf i a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi galw dro ar ôl tro ar awdurdodau lleol i wneud penodiadau ar y cyd pan fydd swyddi gwag yn codi. O ran swyddi ar gyfer cyfarwyddwyr addysg a phrif swyddogion addysg, mae hyn wedi syrthio i raddau helaeth ar glustiau byddar.

3.00 p.m.

I have said repeatedly that I would not have invented 22 local education authorities. I have also said that the fragmentation of education authorities in the mid-1990s was one of the contributing factors to the downturn in educational performance a decade later, as effective challenge and support was lost in many parts of the system and time, energy and resource was dissipated. I have given local authorities time and money to get their house in order but the evidence is overwhelming that this has not occurred.

Rwyf wedi dweud dro ar ôl tro na fyddwn i wedi dyfeisio 22 awdurdod addysg lleol. Rwyf hefyd wedi dweud mai darnio awdurdodau addysg yng nghanol y 1990au oedd un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y dirywiad mewn perfformiad addysgol ddegawd yn ddiweddarach, gan fod her a chefnogaeth effeithiol wedi cael eu colli mewn sawl rhan o'r system a gwastraffwyd amser, egni ac adnoddau. Rwyf wedi rhoi amser ac arian i awdurdodau lleol i gael trefn ar bethau ond mae'r dystiolaeth yn aruthrol nad yw hyn wedi digwydd.

All too often, I am being told that local authorities have failed to provide adequate tailored human resources support to schools. In too many local authorities, schools have inadequate access to bandwidth because the local authority has not recognised the specific needs of schools, or local authority ICT policies are too restrictive to allow schools to make the best use of new technology.

Yn rhy aml, rwy'n cael gwybod bod awdurdodau lleol wedi methu â darparu digon o gymorth adnoddau dynol wedi'i deilwra i ysgolion. Mewn llawer gormod o awdurdodau lleol, mae gan ysgolion fynediad annigonol i led band oherwydd nad yw'r awdurdod lleol wedi cydnabod anghenion penodol ysgolion, neu mae polisïau TGCh awdurdodau lleol yn rhy gyfyngol i ganiatáu i ysgolion wneud y defnydd gorau o dechnoleg newydd.

The report on the structure of education services in Wales made a number of key recommendations for consortia to undertake, one or two of which have been met but many of which have not been met or met only sporadically. There was a further recommendation that an in-depth review should be conducted in the autumn of 2013 to determine whether there is a need for further structural change to deliver the best possible education in Wales.

Mae'r adroddiad ar strwythur y gwasanaethau addysg yng Nghymru wedi gwneud nifer o argymhellion allweddol i gonsortia i ymgymryd â nhw, mae un neu ddau ohonynt wedi cael eu bodloni ond mae llawer ohonynt heb gael eu bodloni neu wedi eu bodloni'n achlysurol yn unig. Roedd argymhelliad pellach y dylid cynnal adolygiad manwl yn ystod hydref 2013 i benderfynu a oes angen newid strwythurol pellach i ddarparu'r addysg orau bosibl yng Nghymru.

Llywydd, I am no longer prepared to wait until 2013. I have instructed my officials to scope out a more wide-ranging review of the delivery of education services. This will look at what should be undertaken at school, local authority, regional and national level. The review will look at a number of options for delivery: whether we should move to forms of regional delivery, and what the boundaries of those regions in the future should be, taking account of the regional footprint of delivery in public services among other options; whether responsibilities for school improvement should be removed from local authorities and vested in a more streamlined regional service accountable to Welsh Government; whether statutory merger of the education services of local authorities under joint management by a number of authorities could be a solution; and whether we need to go further and remove all education functions from local government and create regional school boards accountable to Welsh Government, either with or without a level of local government representation.

Lywydd, nid wyf bellach yn barod i aros tan 2013. Rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i bennu cwmpas adolygiad mwy eang o ddarparu gwasanaethau addysg. Bydd hyn yn edrych ar yr hyn y dylid ei wneud ar lefel ysgol, awdurdod lleol, ranbarthol a chenedlaethol. Bydd yr adolygiad yn edrych ar nifer o opsiynau ar gyfer cyflwyno: a ddylem symud at ffurfiau o gyflwyno rhanbarthol, a'r hyn y dylai ffiniau'r rhanbarthau hynny fod yn y dyfodol, gan ystyried ôl troed rhanbarthol o ddarparu mewn gwasanaethau cyhoeddus ymhlith opsiynau eraill; a ddylai cyfrifoldebau ar gyfer gwella ysgolion gael eu tynnu oddi wrth awdurdodau lleol a'u hymddiried mewn gwasanaeth symlach rhanbarthol sy'n atebol i Lywodraeth Cymru; a allai uno statudol y gwasanaethau addysg awdurdodau lleol o dan reolaeth ar y cyd gan nifer o awdurdodau fod yn ateb; ac a oes angen inni fynd ymhellach a chael gwared ar yr holl swyddogaethau addysg o lywodraeth leol a chreu byrddau ysgolion rhanbarthol yn atebol i Lywodraeth Cymru, naill ai gyda neu heb lefel o gynrychiolaeth llywodraeth leol.

The review will consider whether schools should be directly funded by Welsh Ministers, and/or whether there is scope for co-operative ownership of schools at a local level, combining secondary schools and the primary schools in their clusters, with shared systems of governance, which could mean reforming the system known as local management of schools. Such a system could operate in tandem with any of the proposals outlined above for regional delivery of education services. I have not ruled anything in or out, but the time is right for a full review and, obviously, the consequence of

Bydd yr adolygiad yn ystyried a ddylai ysgolion gael eu hariannu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru, a / neu a oes lle ar gyfer perchnogaeth gydweithredol ar ysgolion ar lefel leol, gan gyfuno ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd yn eu clystyrau, gyda systemau a rennir o lywodraethu, a allai olygu diwygio'r system a elwir yn rheolaeth leol ar ysgolion. Gallai system o'r fath weithredu ar y cyd ag unrhyw un o'r cynigion a amlinellwyd uchod ar gyfer darparu gwasanaethau addysg ranbarthol. Nid wyf wedi ystyried na diystyru unrhyw beth , ond mae'r amser yn iawn am adolygiad llawn

potential change would need to be considered.

ac, yn amlwg, byddai angen ystyried canlyniad newid posibl.

The initial scoping for this project will be completed by Christmas. I will then establish a review group, which will report to me by the end of March 2013. This group will work closely with the group chaired by Glyn Mathias, looking at roles and responsibilities in relation to school governance. I appreciate that, given the change of control in many local authorities in May, there is new leadership in place that cannot be blamed for the failures of recent years. However, it is clear that there are problems in our education structures that are having an impact on educational outcomes.

Bydd y cwmpasu cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn wedi ei gwblhau erbyn y Nadolig. Yna, byddaf yn sefydlu grŵp adolygu, a fydd yn adrodd i mi erbyn diwedd mis Mawrth 2013. Bydd y grŵp hwn yn gweithio’n agos gyda’r grŵp dan gadeiryddiaeth Glyn Mathias, gan edrych ar rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â llywodraethu ysgolion. Rwy’n gwerthfawrogi, o ystyried newid rheolaeth mewn llawer o awdurdodau lleol ym mis Mai, bod arweinyddiaeth newydd wedi’i sefydlu na ellir ei feio am y methiannau yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae’n amlwg bod problemau yn ein strwythurau addysg sy’n cael effaith ar ganlyniadau addysgol.

**Angela Burns:** Minister, this is one of the most extraordinary statements that I have heard you make. Part of it is worth considering, but part of it I find, frankly, astonishing. I will deal with it in order and then make a general observation. In your statement, you say that

**Angela Burns:** Weinidog, mae hwn yn un o’r datganiadau mwyaf hynod yr wyf wedi eich clywed yn ei wneud. Mae rhan ohono yn werth ei ystyried, ond mae rhan ohono a ystyriaf a dweud y gwir, yn rhyfeddol. Byddaf yn ymdrin ag ef mewn trefn ac yna’n gwneud sylw cyffredinol. Yn eich datganiad, rydych yn dweud

‘certainly, some very able new system leaders have been appointed in some areas’.

yn sicr, mae arweinwyr system newydd galluog iawn wedi’u penodi mewn rhai ardaloedd.

This is to do with regional consortia. Yet, only a few weeks ago, we had a debate in the Chamber about regional consortia and you told us that, in the main, they were doing fine. Some of them had not had a chance to get off the ground, but you remained confident in them. A mere 14 days later, here we are. In March, you said that regional consortia were providing stronger and more substantial improvement services. Therefore, this is one enormous sea change in the space of just a couple of weeks. I would be very interested to hear your reasons for that.

Mae hyn yn ymwneud â chonsortia rhanbarthol. Eto i gyd, dim ond ychydig wythnosau yn ôl, cawsom ddadl yn y Siambr am gonsortia rhanbarthol a dywedasoch wrthym eu bod, ar y cyfan, yn gwneud yn iawn. Roedd rhai ohonynt heb gael cyfle i gychwyn yn dda, ond roeddech yn dal yn hyderus ynddynt. Ac 14 diwrnod yn unig yn ddiweddarach, dyma ni. Ym mis Mawrth, dywedasoch fod consortia rhanbarthol yn darparu gwasanaethau gwella cryfach a mwy sylweddol. Felly, mae hwn yn weddnewidiad anferth mewn cyfnod o ddim ond ychydig wythnosau. Byddai gennyf ddiddordeb mawr i glywed eich rhesymau am hynny.

At the bottom of the second page of your statement, you say that both you and the Minister for Local Government and Communities have repeatedly called upon local authorities to make joint appointments.

Ar waelod ail dudalen eich datganiad, dywedwch eich bod chi a’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi galw dro ar ôl tro ar awdurdodau lleol i wneud penodiadau ar y cyd. Byddai gennyf

I would be very interested to know what consultations you have held with the Minister for Local Government and Communities and the Welsh Local Government Association, and whether you have held any discussions with any local authorities, because this is going to be an enormous change to their powers, if it happens.

ddiddordeb mawr i wybod pa ymgyngoriadau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a ph'un a ydych wedi cynnal unrhyw drafodaethau gydag unrhyw awdurdodau lleol, gan fod hyn yn mynd i fod yn newid enfawr i'w pwerau, os bydd yn digwydd.

At the top of page 3, you state that you would not have invented 22 local education authorities, and then you try to apportion blame for stuff that happened in the 1990s—almost 20 years ago. Minister, words cannot express my scorn for that statement, because a Labour Government has been in charge for almost 15 years. We have systemic failure in our education system, and there is something wrong in almost all aspects. We have a demoralised workforce, confused students and dropping numbers—it goes on; it just does not stop. Where have you been for the last 15 years? I tell you what the problems are: poor policy, poor planning and poor performance. All of these are interlinked. You have your 22 local education authorities; this was about management. Your Government, through successive Ministers for education—I accept that you have shown more backbone than the rest of them—has not handled this. This is a management issue.

Ar frig tudalen 3, rydych yn datgan na fyddech wedi dyfeisio 22 awdurdod addysg lleol, ac yna rydych yn ceisio rhannu'r bai am bethau a ddigwyddodd yn y 1990au—bron i 20 mlynedd yn ôl. Weinidog, ni all geiriau fynegi fy nirmyg am y datganiad hwnnw, oherwydd bod Llywodraeth Lafur wedi bod wrth y llyw am bron i 15 mlynedd. Mae gennym fethiant systemig yn ein system addysg, ac mae rhywbeth o'i le ym mron pob agwedd. Mae gennym weithlu digalon, myfyrwyr cymysglyd a niferoedd yn gostwng—mae'n ddiddiwedd, nid oes terfyn arno. Ymhle'r ydych chi wedi bod am y 15 mlynedd diwethaf? Ddywedaf i wrthych beth yw'r problemau: polisïau gwael, cynllunio gwael a pherfformiad gwael. Mae'r rhain i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae gennych eich 22 awdurdod addysg lleol; mae hyn yn ymwneud â rheoli. Nid yw eich Llywodraeth, drwy Weinidogion addysg olynol—rwy'n derbyn eich bod wedi dangos mwy o asgwrn cefn na'r gweddill ohonynt—wedi delio â hyn. Mater rheoli yw hwn.

On the last page of your statement, you lay out your proposed possible options for delivery, which you would like to explore. They all remove power from local authorities and place it in your hands, Minister. Given the Welsh Government's vast failures in education, do we honestly think that centralisation is the best course of action? Minister, it also goes against the grain of the mood music that you put out during the discussion on the School Standards and Organisation (Wales) Bill, but in fact it is not your intention to move away from the localisation agenda. You want people to do what they should do, and I support you on that utterly. You want local authorities to perform their jobs properly, and I support you on that. However, there is an enormous difference between teaching, encouraging, even using the stick, if you have to, and just removing powers.

Ar dudalen olaf eich datganiad, rydych yn gosod eich dewisiadau posibl arfaethedig ar gyfer cyflwyno, y byddech yn hoffi eu harchwilio. Maent i gyd yn tynnu pŵer oddi wrth awdurdodau lleol a'i roi yn eich dwylo chi, Weinidog. O ystyried methiannau helaeth Llywodraeth Cymru mewn addysg, ydym ni o ddifri'n credu mai canoli yw'r ffordd orau o weithredu? Weinidog, nid yw hyn yn cyd-fynd â'r argraff a roddwyd gennych yn ystod y drafodaeth ar y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), ond mewn gwirionedd nid yw'n fwriad gennych i symud i ffwrdd oddi wrth yr agenda leoleiddio. Rydych am i bobl wneud yr hyn y dylent ei wneud, ac rwy'n eich cefnogi ar hynny'n llwyr. Rydych am i awdurdodau lleol gyflawni eu gwaith yn iawn, ac rwy'n eich cefnogi chi ar hynny. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth enfawr rhwng addysgu, annog, hyd yn oed

ddefnyddio'r ffon, os oes raid i chi, a chael gwared ar bwerau.

I am delighted to see that you are going to consider directly funding schools. We have been suggesting this for years, so what has taken you so long? I consider your statement to be fairly contradictory. I will end with one comment. Removing inert bureaucracy is one thing, but drawing the power ever closer to a small cabal of Ministers is entirely different. I fear that this takes away local people's voices, it will emasculate the local authorities, and I am sure that it will eventually put the National Assembly for Wales on the sideline. Having said all of that, I utterly support your having a review of sorts as to how we should deliver education, because we have always said that we would look at options. However, this is not saying that you will go out for an open consultation—and we have learned that with other consultations that have happened in the Assembly over the last few months; it is pretty much looking and smelling like policy that will be coming downstream. I have real, grave concerns. However, above all, and I reiterate the comment that I made earlier, I would like to express my absolute scorn at the blaming of everybody else, because it is the Welsh Labour Government and various partners over the years who were responsible for delivering education. We are in the fix that we are in because it has not been done properly.

Rwy'n hynod falch o weld eich bod yn mynd i ystyried ariannu ysgolion yn uniongyrchol. Rydym wedi bod yn awgrymu hyn ers blynyddoedd, felly lle'r ydych chi wedi bod? Rwy'n ystyried eich datganiad i fod yn eithaf anghyson. Rwyf am orffen gydag un sylw. Mae cael gwared ar fiwrocratiaeth swrth yn un peth, ond mae tynnu  grym yn nes at gabál bach o Weinidogion yn gwbl wahanol. Mae arnaf ofn bod hyn yn mynd â lleisiau pobl leol oddi arnynt, bydd yn dirymu'r awdurdodau lleol, ac rwy'n siŵr y bydd yn y pen draw yn rhoi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyrion. Wedi dweud hynny i gyd, rwy'n cefnogi'n llwyr eich bod yn cael adolygiad o ryw fath o ran sut y dylid darparu addysg, oherwydd ein bod bob amser wedi dweud y byddem yn edrych ar opsiynau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dweud y byddwch yn mynd am ymgynghoriad agored—ac rydym wedi dysgu hynny gydag ymgynghoriadau eraill sydd wedi digwydd yn y Cynulliad dros y misoedd diwethaf; mae hwn yn sicr yn edrych ac yn swnio i mi fel polisi sydd am gael ei roi ar waith. Mae gen i bryderon difrifol go iawn,. Fodd bynnag, yn anad dim, ac fe ategaf sylwadau a wneuthum yn gynharach, hoffwn fynegi fy nirmyg llwyr at weld bai ar bawb arall, oherwydd mai Llywodraeth Lafur Cymru a phartneriaid amrywiol dros y blynyddoedd a oedd yn gyfrifol am ddarparu addysg. Rydym yn y strach yr ydym ynddo oherwydd nad yw wedi cael ei wneud yn iawn.

**Leighton Andrews:** That was disappointing, inconsistent and contradictory. The opposition spokesperson called this a management issue, but it is not a management issue; it is a leadership issue. What we are doing here with this statement is leading in the direction that we want to go in education.

**Leighton Andrews:** Roedd hynna'n siomedig, yn anghyson ac yn wrthwynebol. Galwodd llefarydd yr wrthblaid hwn yn fater rheoli, ond nid yw'n fater rheoli; mae'n fater o arweinyddiaeth. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yma gyda'r datganiad hwn yw arwain i'r cyfeiriad yr ydym am fynd iddo o ran addysg.

We have seen from the 15 Estyn reports that I referred to, which the opposition spokesperson did not refer to at all, that overall, I am afraid, local authorities are failing in education.

Rydym wedi gweld o'r 15 adroddiad Estyn y cyfeiriais atynt, nad oedd llefarydd yr wrthblaid yn cyfeirio atynt o gwbl, bod awdurdodau lleol, ar y cyfan, rwy'n yn ofni, yn methu mewn addysg.

**Angela Burns:** Whose fault is that?

**Angela Burns:** Pwy sydd ar fai am hynny?

**Leighton Andrews:** It is the fault of the people who run local authority education services. They come from a variety of backgrounds. She is unable to face that question, but that is the reality. Education has been delivered through 22 local education authorities since the mid-1990s. Before that, it was delivered by a smaller number of stronger authorities, better resourced, more informed and with the kind of support that was necessary for schools.

**Leighton Andrews:** Bai'r bobl sy'n rhedeg gwasanaethau awdurdodau addysg lleol ydyw. Maent yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd. Nid yw hi'n gallu wynebu'r cwestiwn hwnnw, ond dyna'r realiti. Mae addysg wedi cael ei gyflwyno drwy 22 o awdurdodau addysg lleol ers canol y 1990au. Cyn hynny, cafodd ei gyflwyno gan nifer llai o awdurdodau cryfach, gyda gwell adnoddau, mwy gwybodus a chyda'r math o gefnogaeth oedd yn angenrheidiol ar gyfer ysgolion.

What we are doing today is announcing a review. I have no doubt that there will be widespread debate about the nature of the things that we are discussing. I met with all cabinet leads for education, local authority directors of education and WLGA officials on Friday. They are aware of the challenges that face them. As I said to them, a majority of them are probably new in post. They have an opportunity now to face up to the challenges within their own local education authorities. However, what we have to address is the reality that, as I said in the statement, we have no excellent local authorities when it comes to education. We have five good authorities, we have five that are in special measures or in the significant improvement category, and five that are adequate and being monitored by Estyn. That is not a good enough outcome for our young people. What we have to do, therefore, is face up to this and ask: what is the right way forward for Wales?

Yr hyn yr ydym yn ei wneud heddiw yw cyhoeddi adolygiad. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd dadl eang ynghylch natur y pethau yr ydym yn eu trafod. Cwrddais â phob arweinydd y cabinet ar addysg, cyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol a swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddydd Gwener. Maent yn ymwybodol o'r heriau sy'n eu hwynebu. Fel y dywedais wrthynt, mae mwyafrif ohonynt yn ôl pob tebyg yn newydd yn y swydd. Cânt gyfle yn awr i wynebu'r heriau o fewn eu hawdurdodau addysg lleol eu hunain. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n rhaid i ni ymdrin ag ef yw'r realiti, fel y dywedais yn y datganiad, nid oes gennym awdurdodau lleol ardderchog pan ddaw at addysg. Mae gennym bum awdurdod da, mae gennym bump sydd mewn mesurau arbennig neu yn y categori gwelliant sylweddol, ac mae pump sy'n ddigonol ac yn cael eu monitro gan Estyn. Nid yw hynny'n ganlyniad digon da i'n pobl ifanc. Beth mae'n rhaid i ni ei wneud, felly, yw wynebu hyn a gofyn: beth yw'r ffordd orau ymlaen i Gymru?

We have given local authorities the opportunities. We have asked them to collaborate. We have provoked the consortia structures. We know that there have been changes within the consortia and, in some areas, they are making progress. They have made progress in respect of the recruitment of system leaders. However, that is one aspect of the work that is necessary. That is why the statement ranges more widely than simply the issue of school improvement. We have to look at these issues in the round. We have to decide on the right way forward for Wales. I am glad that the opposition spokesperson finally got around to welcoming the review, in her last sentence, after she had spat out the quotations from the

Rydym wedi rhoi'r cyfleoedd i awdurdodau lleol. Rydym wedi gofyn iddynt gydweithredu. Rydym wedi procio'r strwythurau consortia. Rydym yn gwybod y bu newidiadau o fewn y consortia ac, mewn rhai ardaloedd, maent yn gwneud cynnydd. Maent wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â recriwtio arweinwyr system. Fodd bynnag, dyna un agwedd ar y gwaith sy'n angenrheidiol. Dyna pam y mae'r datganiad yn ymestyn yn ehangach na dim ond mater o wella ysgolion. Mae'n rhaid i ni edrych ar y materion hyn yn eu cyfanrwydd. Mae'n rhaid i ni benderfynu ar y ffordd gywir ymlaen i Gymru. Rwy'n falch bod llefarydd yr wrthblaid o'r diwedd wedi croesawu'r adolygiad, yn ei brawddeg olaf, ar ôl iddi

press release that I am sure she has already issued. What I will say to her on this issue is that we are here to make a difference for the young people of Wales. That is why we are committed to this review.

adrodd y dyfyniadau o'r datganiad i'r wasg yr wyf yn siŵr y mae eisoes wedi ei gyhoeddi. Yr hyn a ddywedaf wrthi ar y mater hwn yw ein bod yma i wneud gwahaniaeth i bobl ifanc Cymru. Dyna pam yr ydym wedi ymrwymo i'r adolygiad hwn.

**Joyce Watson:** I thank the Minister for his statement. I fully support the announcement. By bringing the timetable forward, the Minister is taking a grip of continued failure delivered by local government. This is not about interference. In the case of Pembrokeshire, the Government has stepped in to protect children's safety where the authority has clearly failed. It matters too much. Looking at failures, Minister, is it not time for the chief executive, Bryn Parry-Jones, to go from that authority? I am pleased, Minister, that you have put options on the table. I am pleased that they are bold and represent a rare opportunity for root and branch reform. However, I am also very aware that we must take people with us. I therefore ask you, Minister, to give assurances today that there will be real and meaningful consultation with all those who will be involved and who are currently involved.

**Joyce Watson:** Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Rwyf yn llwyr gefnogi'r cyhoeddiad. Drwy ddod â'r amserlen ymlaen, mae'r Gweinidog yn cymryd gafael ar fethiant parhaus a ddarperir gan lywodraeth leol. Nid yw hyn yn ymwneud ag ymyriad. Yn achos Sir Benfro, mae'r Llywodraeth wedi camu i mewn i amddiffyn diogelwch plant lle mae'r awdurdod yn amlwg wedi methu. Mae'n rhy bwysig. O edrych ar fethiannau, Weinidog, onid yw'n bryd i'r prif weithredwr, Bryn Parry-Jones, fynd o'r awdurdod hwnnw? Rwy'n falch, Weinidog, eich bod wedi rhoi opsiynau ar y bwrdd. Rwy'n falch eu bod yn feiddgar ac yn cynrychioli cyfle prin ar gyfer diwygio gwraidd a changen. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ymwybodol iawn bod yn rhaid inni fynd â phobl gyda ni. Felly, gofynnaf i chi, Weinidog, i roi sicrwydd heddiw y bydd ymgynghori go iawn ac ystyrlon gyda phawb fydd yn cymryd rhan ac sy'n cael eu cynnwys ar hyn o bryd.

**Leighton Andrews:** I thank the Member for Mid and West Wales. I can assure her that there will, of course, be full consultation on any options that are brought forward as a result of the review. It is very important that we have a proper debate on all of these issues. Clearly, changes of the kind that I have outlined—the bulk of them—could not take place without legislation in this place. Some of them could be effected, in respect of support to schools, through regulations, I suspect, but the bulk of them would require legislation. Therefore, there would have to be extensive consultation.

**Leighton Andrews:** Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Gallaf ei sicrhau y bydd, wrth gwrs, ymgynghori llawn ar unrhyw ddewisiadau sy'n cael eu dwyn ymlaen o ganlyniad i'r adolygiad. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael dadl briodol ar yr holl faterion hyn. Yn amlwg, ni all newidiadau o'r math yr wyf wedi'u hamlinellu—y rhan fwyaf ohonynt—ddigwydd heb ddeddfwriaeth yn y lle hwn. Gallai rhai ohonynt gael eu heffeithio, mewn perthynas â chefnogaeth i ysgolion, drwy reoliadau, rwy'n amau, ond byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn galw am ddeddfu. Felly, byddai'n rhaid cynnal proses ymgynghori helaeth.

In respect of Pembrokeshire, she will be aware of the situation there at the present time. She will also be aware that further reports are pending from the inspectorates. It would probably be unwise of me to speculate on the future of senior officers in that authority until we have seen the outcome of

O ran Sir Benfro, bydd hi'n ymwybodol o'r sefyllfa yno ar hyn o bryd. Bydd hi hefyd yn ymwybodol bod adroddiadau pellach ar y gweill gan yr arolygiaethau. Mae'n debyg y byddai'n annoeth imi geisio dyfalu ar ddyfodol uwch swyddogion yn yr awdurdod hwnnw hyd nes y byddwn wedi gweld

those reports.

canlyniad yr adroddiadau hynny.

3.15 p.m.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw. Rydym wedi cael cymaint o ddatganiadau gan y Gweinidog fel ei bod yn anodd gwybod weithiau pa rai sydd o bwys. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod datganiad heddiw o bwys sylweddol a'i fod yn dweud nad oes dyfodol i awdurdodau addysg yng Nghymru fel rydym yn gyfarwydd â'u gweld nhw. Mae Plaid Cymru yn croesawu'r ffaith bod cychwyn ar drafodaeth a dadl ar y mater hwn, ac rydym yn bendant o'r farn bod y ddadl honno yn werth ei chael.

**Simon Thomas:** I would like to thank the Minister for today's statement. We have had so many statements from the Minister that it is sometimes difficult to know which ones are important. However, I think that today's statement is of great significance and that it says that there is no future for education authorities in Wales as we know them. Plaid Cymru welcomes the fact that a debate on this issue has been commenced and we are certain that that debate is worth having.

Yn anffodus, mae'n wir dweud nad yw Llywodraeth ddatganoledig wedi gwasanaethu plant a phobl ifanc Cymru yn arbennig o dda. Nid yw wedi arwain at godi safonau fel y dylai, ac mae'r bai am hynny yn gorwedd gyda sawl Gweinidog Llafur a fu yn y Siambr hon, a sawl awdurdod dan reolaeth Llafur a phleidiau eraill sydd wedi bod yn gyfrifol am ddelifro'r polisïau hynny. Os yw'r Gweinidog o ddifrif—ac rwy'n credu ei fod—ynglŷn â chodi safonau, mae'n bwysig ei fod yn edrych ar bob opsiwn ar wahân i ethol comisiynwyr addysg; nid yw hwnnw yn opsiwn yn y datganiad, diolch i'r drefn.

Unfortunately, it is true to say that devolved Government has not served the children and young people of Wales particularly well. It has not led to improvements in standards as it should have done, and the blame for that sits with a number of Labour Ministers who have been in this Chamber, and a number of authorities, under the control of Labour and other parties, that have been responsible for delivering those policies. If the Minister is serious about raising standards—and I think that he is—it is important that he considers all options apart from the election of education commissioners; thank goodness that is not an option in the statement.

Felly, rydym yn croesawu'r datganiad yn hynny o beth. Serch hynny, mae rhywfaint o'r meddylfryd yn natganiad y Gweinidog yn anffodus o ran y ffordd mae'n trio bwrw'r bai. Mae'n anffodus iawn ei fod yn dewis dweud y canlynol yn ei ddatganiad heddiw am y consortia rhanbarthol:

Therefore, we welcome the statement. However, some of the mindset displayed in the Minister's statement is a little unfortunate in the way he tries to lay blame. It is very unfortunate that he chooses to say in today's statement on the regional consortia, that,

'good progress has been made, but, overall progress is, to put it mildly, patchy.'

cynnydd da wedi'i wneud, ond, mae cynnydd cyffredinol, a dweud y lleiaf, yn anghyson.'

Cawsom ddadl bythefnos yn ôl ar y consortia rhanbarthol. Ni ddywedodd y Gweinidog unrhyw beth bryd hynny bod y ddarpariaeth yn ysbeidiol neu'n '*patchy*'; roedd yn trio dadlau bod y system yn gweithio. Bydd sawl un ar lefel awdurdod lleol mewn penbleth heddiw, ac rwyf yn gallu cydymdeimlo â hwy, achos maent yn ceisio rhoi ar waith yr hyn mae'r Gweinidog yn ofyn amdano ar hyn

We had a debate a fortnight ago on the regional consortia. The Minister did not say at that point that the provision was patchy; he was trying to tell us that the system was working. A number of people at local authority level will be confused today and I can sympathise with them because they are trying to put in place what the Minister has requested, namely regional provision, and

o bryd, sef y ddarpariaeth ranbarthol, ond mae fel pe bai’r Gweinidog yn awr yn tynnu’r *rug* ac yn dweud, ‘Na, rydym yn symud ymlaen at ddarpariaeth ranbarthol wahanol neu at ddarpariaeth genedlaethol’. Mae sawl opsiwn yn cael eu crybwyll yn natganiad heddiw.

now the Minister seems to be pulling the rug from under them and saying, ‘No, we are moving towards a different sort of regional provision or even national provision’. A number of options are mentioned in today’s statement.

Felly, hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau i’r Gweinidog ynglŷn â’r ffordd mae’n gweld y broses hon yn gweithio. Yn gyntaf, pa sgîl effeithiau sydd i’w ddatganiad heddiw a fydd yn effeithio ar y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) rydym yn ei drafod ar hyn o bryd? Mae’r Bil hwnnw, fel y soniodd Angela Burns i raddau, yn ategu’r angen i ddelifro yn lleol. Mae’r hyn sy’n cael ei grybwyll yn y datganiad yn newid y pwyslais yn sylweddol o ran lle bydd codi safonau yn cael ei weld. Felly, mae’n ymddangos bod y Bil fel pe bai yn rhoi’r cert o flaen y ceffyl, ac mai dyma’r ceffylau trymion go iawn sy’n gallu gwneud y gwaith o newid addysg yng Nghymru. Rydym eisiau gweld sut mae hynny’n digwydd. Yn y cyd-destun hwnnw, a yw’r Gweinidog yn ystyried y bydd angen deddfwriaeth yn dilyn yr adolygiad ac unrhyw argymhellion sy’n deillio ohono? Sut mae’n bwriadu ennyn cefnogaeth i’r angen am ddeddfwriaeth?

Therefore, I would like to ask a few questions of the Minister on how he sees this process working. First, what impacts will there be from his statement today for the School Standards and Organisation (Wales) Bill that we are currently discussing? That Bill, as Angela Burns mentioned, endorses the need to deliver locally. What is mentioned in the statement changes the emphasis significantly in terms of where raising standards will be seen. Therefore, it appears that the Bill is putting the cart before the horse, and that these are the real workhorses that can change education in Wales. We want to see how that will happen. In that context, does the Minister believe that legislation will be required once the review is completed and the recommendations are brought forward? How does he intend to gather support for this need for legislation?

Nid yw’r Gweinidog wedi dewis ei ffordd ymlaen yn y datganiad heddiw, ac nid yw Plaid Cymru ychwaith yn mynd i ddweud heddiw pa un yw’r ffordd orau ymlaen. Rydym yn agored i weithredu fel plaid genedlaethol; rydym eisiau gweld gweithredu cenedlaethol ar y materion hyn, ac rydym eisiau gweld darpariaeth leol sy’n atebol i bobl leol. Mae cael y cydbwysedd yn iawn yn bwysig i ni, a byddem eisiau gweld y broses yn cael ei ymgynghori arni yn drwyadl gan y Llywodraeth.

The Minister has not chosen his way forward in today’s statement, and Plaid Cymru is also not going to set out the best way forward today. We are open to working as a national party; we want to see action taken at a national level on these matters, and we want to see local provision that is accountable to local people. Getting that balance right is important to us, and we would want to see that process being consulted upon thoroughly by the Government.

Hoffwn ofyn i’r Gweinidog yn benodol ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd yn cofio na wnaeth yr adolygiad gan Viv Thomas, a gyhoeddwyd yn ôl ym mis Mawrth, sôn am addysg Gymraeg a darpariaeth felly, yn sgîl hynny, yn rhanbarthol. Oherwydd hynny, collwyd ffocws ar addysg cyfrwng Cymraeg. Fel gwnaeth y Gweinidog gydnabod yn ein dadl ni bythefnos yn ôl, nid yw darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg rhanbarthol wedi bod yn

I would like to ask the Minister specifically about Welsh-medium education. He will recall that the Viv Thomas review that was published back in March did not mention Welsh-medium education and the provision of that education at a regional level. As a result, there has been a loss of focus on Welsh-medium education. As the Minister acknowledged in our debate a fortnight ago, the regional provision of Welsh-medium education has not been thorough enough. It is

ddigon trwyadl. Mae'n bwysig nad ydym yn colli ffocws ar y ddarpariaeth honno wrth i ni adolygu eto ac edrych ar ddulliau newydd.

important that we do not lose sight of that provision as we once again review the system and look at changes.

The final thing to say, Minister, is that I suspect that the Welsh Labour Government is using education as the wedge to drive through local government reform. I think that that is the wrong way to go about it. We need to have a debate in Wales about local government reform, a wide consultation and a proper examination of the virtues, as we heard in the urgent question earlier, of delivering things such as social services and education at a regional level. The Government has sought to say today that education should be the charge, and should lead the way on this. I am not sure whether that does education any favours; I do not think that it is very good for local government reform either.

Y peth olaf i ddweud, Weinidog, yw fy mod yn amau bod Llywodraeth Lafur Cymru yn defnyddio addysg fel y lletem i yrru drwy ddiwygio llywodraeth leol. Rwy'n credu mai dyna'r ffordd anghywir i fynd ati. Mae angen i ni gael trafodaeth yng Nghymru am ddiwygio llywodraeth leol, ymgynghori eang ac archwiliad priodol o rinweddau, fel y clywsom yn y cwestiwn brys yn gynharach, darparu pethau fel gwasanaethau cymdeithasol ac addysg ar lefel ranbarthol. Mae'r Llywodraeth wedi ceisio dweud heddiw mai addysg ddylai fod yr ysgogiad, a dylai arwain y ffordd ar hyn. Nid wyf yn siŵr a yw hynny'n gwneud unrhyw ffafr ag addysg, nid wyf yn credu ei fod yn dda iawn ar gyfer diwygio llywodraeth leol ychwaith.

Finally, I do not think that the Minister has chosen the right approach. You may have the right outcomes in mind, Minister, but the right approach here is not an internal review leading to a consultation on the outcomes of that internal review. The right approach is a full consultation, starting now, on what the way forward should be for education in Wales. It should concern delivery at a regional level and delivery at a national level, but, please, could you talk your colleagues? Let us see some courage from the other Ministers to lead the debate on local government regional delivery all over Wales. If we do not get that, education may or may not get sorted by this statement today, but we will see complete confusion, geographically and policy-wise, on other things that should be decided and debated at a regional level.

Yn olaf, nid wyf yn credu bod y Gweinidog wedi dewis y dull cywir. Efallai bod y canlyniadau iawn gennych dan sylw, Weinidog, ond nid adolygiad mewnol yn arwain at ymgynghoriad ar ganlyniadau'r adolygiad mewnol hwnnw yw'r dull iawn yma. Yr ymagwedd gywir yw ymgynghoriad llawn, gan ddechrau yn awr, ar yr hyn ddylai fod y ffordd ymlaen ar gyfer addysg yng Nghymru. Dylai ymwneud â darparu ar lefel ranbarthol a darparu ar lefel genedlaethol, ond, os gwelwch yn dda, allech chi siarad â'ch cydweithwyr? Gadewch inni weld rhywfaint o ddewrder gan y Gweinidogion eraill i arwain y drafodaeth ar gyflwyno llywodraeth ranbarthol leol ledled Cymru. Os nad ydym yn cael hynny, efallai y bydd neu efallai na fydd addysg yn cael ei threfnu gan y datganiad hwn heddiw, ond byddwn yn gweld dryswch llwyr, yn ddaearyddol ac o ran polisi, ar bethau eraill y dylid eu penderfynu a'u trafod ar lefel ranbarthol.

**Leighton Andrews:** I am glad that the Plaid Cymru spokesperson accepts that this is a debate worth having and that he recognised the significance overall of the statement and the issues that we are bringing to the fore. I need to correct him on one thing, which is that devolution has led to improvements in standards. We have seen rising numbers of young people getting better qualifications and fewer young people leaving education

**Leighton Andrews:** Rwy'n falch bod llefarydd Plaid Cymru yn derbyn bod hon yn ddadl werth ei chael a'i fod yn cydnabod arwyddocâd cyffredinol y datganiad a'r materion yr ydym yn dod â nhw i'r amlwg. Mae angen i mi ei gywiro ar un peth, sef bod datganoli wedi arwain at welliannau mewn safonau. Rydym wedi gweld nifer cynyddol o bobl ifanc yn cael gwell cymwysterau a llai o bobl ifanc yn gadael addysg heb

without qualifications. That has happened during the period of devolution.

gymwysterau. Mae hynny wedi digwydd yn ystod y cyfnod datganoli.

In terms of the policies that we are pursuing, I am merely continuing with the policies that I began as a Minister in the One Wales Government. I am surprised that he continually airbrushes from his memory, and from that of the Chamber, the progress that was made on these issues during the course of the One Wales Government, when we were in coalition with his party.

O ran y polisïau yr ydym yn eu dilyn, dim ond parhau â'r polisïau y dechreuais fel Gweinidog yn Llywodraeth Cymru'n Un yr wyf. Rwy'n synnu ei fod yn barhaus yn dileu o'i gof, ac o gof y Siambr, y cynnydd a wnaed ar y materion hyn yn ystod Llywodraeth Cymru'n Un, pan oeddem ni mewn clymblaid gyda'i blaid ef.

I am also slightly surprised that the Member does not refer at all to the Estyn reports on the local authorities, to which I have referred. All of those reports have come in since Estyn's new inspection framework was adopted in September 2010. That has given us the evidence base over the last two years as to what is really going on within the middle tier, if you like, of local authorities. We are now clearer as to problems within the system.

Rwyf hefyd yn synnu braidd nad yw'r Aelod yn cyfeirio o gwbl at adroddiadau Estyn ar yr awdurdodau lleol, yr wyf wedi cyfeirio atynt. Mae pob un o'r adroddiadau hynny wedi dod i mewn ers mabwysiadu fframwaith arolygu newydd Estyn ym mis Medi 2010. Mae hynny wedi rhoi y sylfaen tystiolaeth i ni dros y ddwy flynedd diwethaf o ran yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd o fewn haen ganol, os mynnwch chi, awdurdodau lleol. Rydym yn awr yn gliriach o ran problemau o fewn y system.

In respect of consortia, where we are going at present and the question as to whether the school standards Bill is still relevant, of course they are still relevant. Whatever debate that we would have on the long-term future of local education authorities, the reality is that we have young people in our schools and we have a system that needs to deliver for them. Therefore, it is essential that we carry on with the consortia arrangements. It is essential that we get into place the full range of system leaders that we expect to lead and support school improvement programmes. It is also essential that we get the legislation in place that we have outlined in the school standards Bill because that applies to those authorities that currently have statutory responsibilities for delivering education. There is no contradiction in any of that.

O ran consortia, i ble'r ydym yn mynd ar hyn o bryd a'r cwestiwn ynghylch a yw'r Bil safonau ysgol yn dal yn berthnasol, wrth gwrs, maent yn dal yn berthnasol. Pa bynnag ddadl y byddem yn ei chael ar ddyfodol tymor hir awdurdodau addysg lleol, y realiti yw bod gennym bobl ifanc yn ein hysgolion ac mae gennym system y mae angen iddi ddarparu ar eu cyfer. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn parhau â'r trefniadau consortia. Mae'n hanfodol ein bod yn sefydlu'r ystod lawn o arweinwyr system yr ydym yn disgwyl i arwain a chefnogi rhaglenni gwella ysgolion. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn cael y ddeddfwriaeth ar waith yr ydym wedi'i hamlinellu yn y Bil safonau ysgol oherwydd bod hynny'n berthnasol i'r awdurdodau hynny sydd â chyfrifoldebau statudol ar hyn o bryd ar gyfer darparu addysg. Nid oes unrhyw anghysondeb mewn dim o hynny.

Do I think that if we were to move fundamentally forward there would need to be legislation? It would depend, of course, on the model that was adopted. I think it quite likely and therefore I would expect, naturally, extensive consultation to take place as a result of these discussions. Far from this being a private review, as it were, I am

Ydych chi'n meddwl pe baem yn symud ymlaen yn sylfaenol y byddai angen cael deddfwriaeth? Byddai'n dibynnu, wrth gwrs, ar y model a fabwysiadwyd. Rwy'n credu ei fod yn eithaf tebygol ac felly byddwn yn disgwyl, yn naturiol, i ymgynghori helaeth ddigwydd o ganlyniad i'r trafodaethau hyn. Mae hwn ymhell o fod yn adolygiad preifat,

announcing it here in the Chamber and, therefore, starting a very public consideration of these issues. I do not think that anybody can accuse me of hiding these issues away. I am saying that we need a public debate. I have already taken that debate to the Welsh Local Government Association and the cabinet leads for education just last week. We are clear that we want to address these issues fundamentally.

fel petai, rwyf yn ei gyhoeddi yma yn y Siambr, ac felly, yn dechrau ystyriaeth gyhoeddus iawn o'r materion hyn. Nid wyf yn credu y gall unrhyw un fy nghyhuddo o guddio'r materion hyn. Rwy'n dweud bod angen inni gael dadl gyhoeddus. Rwyf eisoes wedi mynd â'r drafodaeth honno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arweinwyr y cabinet ar gyfer addysg yr wythnos diwethaf. Rydym yn glir ein bod am fynd i'r afael â'r materion hyn yn sylfaenol.

In respect of Welsh-medium education, I do have some concerns, and I said that quite honestly during the debate in respect of the consortium arrangements. I discussed that with some of the local authorities that have particular issues on this when I met with them on Friday. However, through the school standards Bill, we are implementing the most radical range of measures on Welsh-medium education that we have seen in Wales. We will be obliging local authorities to measure the demand of parents for Welsh-medium education in that Bill, which is essential, and I would be surprised if the Member did not support me on that, because he has so far.

O ran addysg cyfrwng Cymraeg, mae gennyf rai pryderon, a dywedais hynny'n eithaf onest yn ystod y ddadl o ran y trefniadau consortiwm. Trafodais hynny gyda rhai o'r awdurdodau lleol sydd â materion penodol ar hyn pan wnes i gyfarfod â hwy ddydd Gwener. Fodd bynnag, drwy'r Bil safonau ysgol, rydym yn gweithredu'r ystod fwyaf radical o fesurau ar addysg cyfrwng Cymraeg yr ydym wedi eu gweld yng Nghymru. Byddwn yn gorfodi awdurdodau lleol i fesur galw rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg yn y Bil hwnnw, sy'n hanfodol, a byddwn yn cael fy synnu pe na fyddai'r Aelod yn fy nghefnogi ar hynny, oherwydd mae wedi hyd yn hyn.

In respect of the wider question of local government reform, the Minister for local government and I have spent probably most of the last three years discussing together, back and forth, these issues about some of the challenges that we think are faced in local government. However, I do not think that we should be thinking about this in such a conservative way as the Plaid Cymru spokesperson. It is not entirely clear to me that we need to deliver all services currently delivered by local government in the same way. We may want to do so across the same footprint, but we need to see what works. For example, social services and health work closely together, and my colleague the Deputy Minister for Children and Social Services has been taking through a White Paper and legislation on social services. There are great debates to be had here, but we should not assume that there is a natural singular structure for local government. What we really need to do is focus on the individual services and the outcomes that we want from there.

O ran y cwestiwn ehangach o ddiwygio llywodraeth leol, mae'r Gweinidog dros lywodraeth leol a minnau wedi treulio yn ôl pob tebyg y rhan fwyaf o'r tair blynedd diwethaf yn trafod gyda'n gilydd, yn ôl ac ymlaen, y materion hyn am rai o'r heriau yr ydym yn meddwl a wynebir mewn llywodraeth leol. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y dylem fod yn meddwl am hyn mewn ffordd mor geidwadol â llefarydd Plaid Cymru. Nid yw'n gwbl glir i mi fod angen inni gyflwyno'r holl wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan lywodraeth leol yn yr un ffordd. Efallai y byddwn am wneud hynny ar draws yr un ôl troed, ond mae angen i ni weld beth sy'n gweithio. Er enghraifft, mae gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, ac mae fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn darparu Papur Gwyn a deddfwriaeth ar wasanaethau cymdeithasol. Mae dadleuon mawr i'w cael yma, ond ni ddylem gymryd yn ganiataol bod strwythur unigol naturiol ar gyfer llywodraeth leol. Yr hyn yr ydym wirioneddol angen ei wneud yw

canolbwyntio ar y gwasanaethau unigol a'r canlyniadau yr ydym am ei gael oddi yno.

**David Rees:** Minister, I too thank you for the statement today and I applaud your decision to bring forward the review that we know is required, particularly when we look at the current reports—I am pleased, however, that Neath Port Talbot has had a good report. It also has a federated school model in the upper Afan valley, which I hope will be considered.

**David Rees:** Weinidog, rwyf hefyd yn diolch i chi am y datganiad heddiw ac rwyf yn cymeradwyo eich penderfyniad i ddwyn yr adolygiad ymlaen y gwyddwn sydd ei angen, yn enwedig pan fyddwn yn edrych ar yr adroddiadau presennol—rwy'n falch, fodd bynnag, bod Castell-nedd Port Talbot wedi cael adroddiad da. Mae hefyd yn cynnwys model ysgol ffederal yn rhan uchaf cwm Afan, yr wyf yn gobeithio fydd yn cael ei ystyried.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.26 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.26 p.m.*

Do you agree that it is also important that the right support systems are in place to allow schools to deliver the improvement in educational standards that we all strive towards? Those support systems are wide-ranging and cut across services and, as such, we have heard this afternoon of the impact of children's services in Neath Port Talbot as well as the good report. Will you ensure that your review includes a look at those cross-cutting services so that every option that you have identified has considered the impact of those services on those options, so that children and the education that they receive in schools do not suffer as a consequence of any changes?

A ydych chi'n cytuno ei bod yn bwysig hefyd bod y systemau cymorth cywir wedi'u sefydlu er mwyn galluogi ysgolion i gyflawni'r gwelliannau mewn safonau addysgol yr ydym i gyd yn ymdrechu tuag atynt? Mae'r systemau cefnogi hynny yn eang ac yn torri ar draws gwasanaethau ac, fel y cyfryw, rydym wedi clywed y prynhawn yma am effaith gwasanaethau plant yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ogystal â'r adroddiad da. A wnewch chi sicrhau bod eich adolygiad yn cynnwys edrych ar y gwasanaethau trawsbynciol, fel bod pob opsiwn a nodwyd gennych wedi ystyried effaith y gwasanaethau ar y dewisiadau hynny, fel nad yw plant a'r addysg a gânt mewn ysgolion yn dioddef o ganlyniad i unrhyw newidiadau?

**Leighton Andrews:** Yes. My colleague the Member for Aberavon is absolutely right to draw attention to the good report in Neath Port Talbot in respect of education and the pioneering work that it has done in certain areas, for example, in federating schools, which is a model that we would want to encourage local authorities to look at, and there are now examples in other authorities as well. I suspect that more authorities will look at the scope for federation.

**Leighton Andrews:** Gwnaf. Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Aberafan yn gwbl gywir i dynnu sylw at yr adroddiad da yng Nghastell-nedd Port Talbot mewn perthynas ag addysg a'r gwaith arloesol y mae wedi ei wneud mewn rhai meysydd, er enghraifft, mewn ffedereiddio ysgolion, sy'n fodel y byddem yn awyddus i annog awdurdodau lleol i edrych arno, ac erbyn hyn mae enghreifftiau mewn awdurdodau eraill yn ogystal. Rwy'n amau y bydd mwy o awdurdodau yn edrych ar y cwmpas ar gyfer ffederasiwn.

In respect of any changes that we bring forward, it is clear that the system that we currently have must deliver for young people, as my colleague the Member for Aberavon

Mewn perthynas ag unrhyw newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno, mae'n amlwg bod yn rhaid i'r system sydd gennym ar hyn o bryd ddarparu ar gyfer pobl ifanc, fel y dywedodd

rightly said. That is why it is right that we have maintained the progress that we are currently making on the school standards Bill. It is essential that we maintain the pressure to ensure that the consortia deliver across Wales and that we keep local authorities working hard with their schools to ensure that we have adequate systems of school support and for improvement.

fy nghydweithiwr yr Aelod dros Aberafan yn berffaith iawn. Dyna pam ei bod yn iawn ein bod wedi cynnal y cynnydd yr ydym ar hyn o bryd yn gwneud ar y Bil safonau ysgol. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y pwysau i sicrhau bod y consortia yn cyflawni ar draws Cymru, ac ein bod yn cadw awdurdodau lleol yn gweithio'n galed gyda'u hysgolion i sicrhau bod gennym systemau digonol o gefnogaeth ysgol ac ar gyfer gwella.

**Aled Roberts:** Weinidog, rwy'n derbyn bod elfen o rwystredigaeth, hwyrach, yn eich datganiad heddiw. Fel chi, ac rwy'n siŵr bod y llefarwyr eraill o'r un farn, nid wyf yn credu bod modd i ni fod yn fodlon gyda'r cyrhaeddiad o fewn ein hysgolion, fel rydym wedi dweud eisoes yn y Siambr. Hefyd, nid oes modd i ni fod yn fodlon gyda'r safonau o fewn yr awdurdodau lleol, fel rydych wedi mynegi'r prynhawn yma, o ran adroddiadau Estyn.

**Aled Roberts:** Minister, I accept that there is an element of frustration, perhaps, in your statement today. Like you, and I am sure that the other spokespersons have the same view, I do not believe that it is possible for us to be satisfied with the attainment in our schools, as we have already said in the Chamber. Also, it is not possible for us to be satisfied with the standards within local authorities, as you have expressed this afternoon, in terms of the Estyn reports.

I have no difficulty with any of the issues that are raised in the report, but there is a need for us to consider whether the timing needs to be brought forward. There is a danger in anticipating—Simon Thomas has already made the point that there is a great deal of change currently with regard to the statutory framework within which we operate. I think, in all honesty, that the report by Viv Thomas, when it was anticipated that there would be a call for a review from autumn 2013, was done on the basis that there was a need for things to settle down and for there to be sufficient opportunity for us to assess the success or otherwise of regional consortia. In response to statements made during the course of this past month, I have to say, as other speakers have said, that we have been told that the consortia are working more effectively, although there has been patchy progress. You will know, for example, that in north Wales, as I understand it, processes will not be entirely in place until April next year.

Nid oes gennyf unrhyw anhawster gydag unrhyw un o'r materion a godir yn yr adroddiad, ond mae angen i ni ystyried a oes angen dwyn yr amseriad yn ei flaen. Mae perygl wrth ragweld—mae Simon Thomas eisoes wedi gwneud y pwynt bod llawer iawn o newid ar hyn o bryd o ran y fframwaith statudol yr ydym yn gweithredu ynddo. Rwy'n credu, yn onest, fod yr adroddiad gan Viv Thomas, pan ragwelwyd y byddai galw am adolygiad o hydref 2013, wedi ei wneud ar y sail nad oedd angen i bethau setlo i lawr ac y byddai digon o gyfle i ni asesu llwyddiant neu fel arall consortia rhanbarthol. Mewn ymateb i ddatganiadau a wnaed yn ystod y mis diwethaf, rhaid i mi ddweud, fel y dywedodd siaradwyr eraill, ein bod wedi cael gwybod bod y consortia yn gweithio'n fwy effeithiol, er y bu cynnydd yn anghyson. Byddwch yn gwybod, er enghraifft, yng ngogledd Cymru, fel y deallaf, ni fydd prosesau yn gyfan gwbl wedi'u sefydlu tan fis Ebrill y flwyddyn nesaf.

3.30 p.m.

I speak as somebody who inherited a situation when I became leader where my authority was twenty-first out of 22 as far as GCSEs were concerned. I was very frustrated myself about the progress we made as an authority. Had it not been for the degree of local political scrutiny, across the parties, I

Rwy'n siarad fel rhywun a etifeddodd sefyllfa pan ddeuthum yn arweinydd lle'r oedd fy awdurdod yn unfed ar hugain allan o 22 cyn belled ag yr oedd TGAU yn y cwestiwn. Roeddwn yn teimlo'n rhwystredig iawn fy hun am y cynnydd a wnaethom fel awdurdod. Oni bai am y radd o graffu

am not satisfied that we would have achieved the progress that we did achieve in moving our schools forward.

gwleidyddol lleol, ar draws y pleidiau, nid wyf yn fodlon y byddem wedi cyrraedd y cynnydd yr ydym wedi ei gyflawni wrth ddatblygu ein hysgolion.

I also have fears about the arrangements on regional structures. Insufficient consideration has been given to the governance of these regional consortia and the political scrutiny of what those consortia will achieve. While I accept each and every issue that you address in this statement today, we need to ensure that we have a proper debate as an Assembly. I am sure that most of us would say that these are matters that need to be addressed. As I say, I question the timing, although I accept your frustration about the pace of change. Within the context of local government, we need to understand the end game as far as some of these changes are concerned. For example, if we move to direct funding of schools, there are centralised services that are currently provided locally. If we look across the border to England—I know that some of my colleagues across the border might take a different view to me—I believe that, in some instances, some of the support services for the most vulnerable children are weakened by the removal of centralised services. I understand that this is a matter for review, but, given the rather challenging timescale that you have set, I would hope that those matters would be addressed properly rather than us rushing into something and then finding that we need to revisit it in a few years' time.

Rwyf hefyd yn pryderu am y trefniadau ar strwythurau rhanbarthol. Nid oes digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i lywodraethu'r consortia rhanbarthol a chraffu gwleidyddol ar beth fydd y consortia yn ei gyflawni. Er fy mod yn derbyn pob mater yr ydych yn rhoi sylw iddo yn y datganiad hwn heddiw, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael dadl iawn fel Cynulliad. Rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn dweud bod y rhain yn faterion y mae angen rhoi sylw iddynt. Fel y dywedaf, rwy'n cwestiynu'r amseriad, er fy mod yn derbyn eich rhwystredigaeth am gyflymder y newid. Yng nghyd-destun llywodraeth leol, mae angen i ni ddeall y terfyn chwarae cyn belled ag y mae rhai o'r newidiadau hyn yn y cwestiwn. Er enghraifft, os byddwn yn symud i gyfeirio cyllid ysgolion, mae gwasanaethau canoli sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn lleol. Os edrychwn ar draws y ffin i Loegr—rwy'n gwybod y gallai rhai o fy nghydweithwyr ar draws y ffin gymryd safbwynt gwahanol i mi—rwy'n credu, mewn rhai achosion, bod rhai o'r gwasanaethau cymorth ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed yn cael eu gwanhau drwy gael gwared ar wasanaethau canolog. Rwy'n deall bod hwn yn fater ar gyfer adolygu, ond, o ystyried yr amserlen heriol braidd a osodwyd gennych, byddwn yn gobeithio y byddai'r materion hynny'n cael sylw priodol yn hytrach na'n gweld yn rhuthro i mewn i rywbeth ac yna gweld bod angen i ni edrych ar hyn eto mewn ychydig o flynyddoedd.

Given the scale of the challenge that you face, I would also ask that we try to build some kind of consensus going forward so that, if there is a change of Minister or of political complexion as far as any future administration is concerned, we do not have further churn. The difficulty is that perhaps there was insufficient churn in previous years, but we are now facing a situation in which there is perhaps too much churn.

O ystyried maint yr her sy'n eich wynebu, byddwn hefyd yn gofyn ein bod yn ceisio adeiladu rhyw fath o gonsensws wrth fynd ymlaen fel, os oes newid yn y Gweinidog neu yn y wedd wleidyddol cyn belled ag y mae unrhyw weinyddiaeth yn y dyfodol yn y cwestiwn, nad ydym yn cael corddi pellach. Yr anhawster yw efallai nad oedd digon o gorddi yn y blynyddoedd blaenorol, ond rydym bellach yn wynebu sefyllfa lle mae gormod o gorddi efallai.

**Leighton Andrews:** Deputy Presiding Officer, I listened to the Liberal Democrat

**Leighton Andrews:** Ddirprwy Lywydd, rwyf wedi gwrando ar lefarydd y Democratiaid

spokesperson and he appeared to be saying, ‘Oh, let our system be better, but not yet’. When you have had the range of reports that we have had from Estyn over the last two years, you can see that something is significantly wrong at the local authority level overall. It is on that basis that we are in a situation now where we need to have the proper debate that he called for on the structure for the delivery of education.

Rhyddfrydol, ac roedd yn ymddangos ei fod yn dweud, ‘O, gadewch i’n system fod yn well, ond ddim eto’. Pan ydych wedi cael yr amrywiaeth o adroddiadau yr ydym wedi’u cael gan Estyn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, gallwch weld bod rhywbeth o’i le yn sylweddol ar lefel yr awdurdod lleol yn gyffredinol. Ar y sail honno yr ydym mewn sefyllfa yn awr lle mae angen i ni gael y drafodaeth briodol y galwodd amdani ar y strwythur ar gyfer darparu addysg.

In respect of the consortia, they have all adopted different governance models. They are, at the end of the day, as I have said before in the Chamber on a number of occasions, consortia of local authorities; they are not regional branches of the Welsh Government. I have asked before whether Members want us to have a regional Welsh Government structure. His party has taken the view that it does not want that. We can now have a debate about precisely what kind of structure we should have.

O ran y consortia, maent wedi mabwysiadu’r holl fodelau llywodraethu gwahanol. Maen nhw, yn y bôn, fel yr wyf wedi dweud o’r blaen yn y Siambr ar nifer o achlysuron, yn gonsortia awdurdodau lleol, nid ydynt yn ganghennau rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi gofyn o’r blaen a oedd yr Aelodau am i ni gael strwythur rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Mae ei blaid wedi cymryd y farn nad yw am weld hynny. Yn awr, gallwn gael dadl i drafod yn union pa fath o strwythur y dylem ei gael.

With regard to the question on direct funding of schools, of course there are issues there about where services should be provided on a collaborative basis beyond an individual school. That is why I said in the statement that you can look at direct funding of schools against other models for delivery in the middle tier, which could be at a local authority level or at a regional level. In the case of certain kinds of services, for example services for quite complex additional learning needs, you might want them organised on a wider footprint than a single local authority area. In practice, in many cases a number of authorities have to do that at the present time. So, we are not ruling anything in or out there.

O ran y cwestiwn ar ariannu ysgolion yn uniongyrchol, wrth gwrs ceir materion ynglŷn â lle dylai gwasanaethau gael eu darparu ar sail gydweithredol y tu hwnt i ysgol unigol. Dyna pam y dywedais yn y datganiad y gallwch edrych ar ariannu ysgolion yn uniongyrchol yn erbyn modelau eraill ar gyfer cyflawni yn yr haen ganol, a allai fod ar lefel awdurdod lleol neu ar lefel ranbarthol. Yn achos mathau penodol o wasanaethau, er enghraifft gwasanaethau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol eithaf cymhleth, efallai y byddwch am iddynt gael eu trefnu ar ôl-troed ehangach nag ardal awdurdod lleol unigol. Yn ymarferol, mewn llawer o achosion mae nifer o awdurdodau yn gorfod gwneud hynny ar hyn o bryd. Felly, nid ydym yn ystyried nac yn diystyru unrhyw beth yno.

In respect of north Wales—and he refers to that in the context of the consortia—I have said in the Chamber before that north Wales began the consortium discussions before anybody else. The Minister for local government and I attended discussions with the north Wales local authorities in the spring of 2010. Two and a half years on, I am afraid that, on the whole, the north Wales consortium is behind the others. There are

O ran gogledd Cymru—ac mae’n cyfeirio at hynny yng nghyd-destun y consortia—rwyf wedi dweud yn y Siambr o’r blaen mai gogledd Cymru ddechreuodd y trafodaethau consortiwm cyn neb arall. Mynychodd y Gweinidog llywodraeth leol a finnau, drafodaethau gydag awdurdodau lleol y gogledd yng ngwanwyn 2010. Ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach, mae arnaf ofn, ar y cyfan, bod consortiwm gogledd Cymru y tu

still issues about the appointment of a lead director for that consortium, for example. However, these are consortia of local authorities; they are not regional branches of the Welsh Government. We must ensure that, while these current arrangements are in place—at local authority level and at consortium level—they deliver, and we will keep them to that. However, now is the time to begin a constructive and public debate on the best way to ensure proper support for our schools, and the best way to ensure better teaching and learning as a result.

ôl i'r lleill. Mae problemau o hyd ynghylch penodi cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer y consortiwm hwnnw, er enghraifft. Fodd bynnag, consortia o awdurdodau lleol yw'r rhain, nid ydynt yn ganghennau rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Rhaid inni sicrhau, tra bod y trefniadau presennol wedi'u sefydlu—ar lefel awdurdod lleol ac ar lefel consortiwm—eu bod yn eu darparu, a byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, nawr yw'r amser i ddechrau dadl adeiladol a chyhoeddus ar y ffordd orau i sicrhau cymorth priodol ar gyfer ein hysgolion, a'r ffordd orau i sicrhau addysgu a dysgu gwell o ganlyniad.

**Datganiad: Paratoadau ar gyfer y Gaeaf**
**Statement: Winter Preparations**

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** Although we experienced a relatively mild winter last year, the unpredictability of our weather means that we cannot be complacent. We must be prepared for the kind of severe weather that we have witnessed in recent winters, and do everything that we can to minimise disruption to services across Wales. The Welsh Government has been working with our partner agencies to put in place arrangements to respond to the disruptive challenges that we face.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Er ein bod wedi cael gaeaf cymharol fwyn y flwyddyn ddiwethaf, mae natur anragweladwy ein tywydd yn golygu na allwn fod yn hunanfodlon. Rhaid i ni fod yn barod ar gyfer y math o dywydd difrifol yr ydym wedi ei weld yn ystod gaeafau diweddar, a gwneud popeth a allwn i leihau amharu ar wasanaethau ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'n hasiantaethau partner i roi trefniadau ar waith i ymateb i'r heriau aflonyddol sy'n ein hwynebu.

Wales will start this winter with its highest ever level of salt stocks. Procurement is being co-ordinated through the all-Wales contract to ensure value for money and continuity of supply. We have now established national strategic road salt resilience storage facilities in Blaenau Ffestiniog, Queensferry, and Merthyr Tydfil, with further sites due to open shortly in Llandegai in north-west Wales, and in Llanidloes in mid Wales. An all-Wales weather forecasting contract has been established to provide early notification for local authorities of severe risk. Guidance has also been issued on the efficient use of salt, and mutual aid agreements are in place if needed. We have received assurances from the NHS on its ability to deliver services to the public over the winter, and we have regular planning meetings to consider the response to potential pressures on emergency care.

Bydd Cymru yn dechrau'r gaeaf hwn gyda'i lefel uchaf erioed o stociau halen. Mae caffael yn cael ei gyd-drefnu drwy'r contract Cymru gyfan i sicrhau gwerth am arian a pharhad y cyflenwad. Rydym bellach wedi sefydlu cyfleusterau storio gwydnwch halen ffyrdd strategol cenedlaethol ym Mlaenau Ffestiniog, Queensferry, a Merthyr Tudful, gyda safleoedd eraill yn agor cyn bo hir yn Llandygái yng ngogledd-orllewin Cymru, ac yn Llanidloes yng nghanolbarth Cymru. Mae contract darogan y tywydd ar gyfer Cymru gyfan wedi cael ei sefydlu i roi rhybudd cynnar i awdurdodau lleol o risg difrifol. Mae arweiniad hefyd wedi cael ei gyhoeddi ar y defnydd effeithlon o halen, ac mae cytundebau cymorth ar y cyd wedi'u sefydlu os oes angen. Rydym wedi derbyn sicrwydd gan y GIG ar ei allu i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd dros y gaeaf, ac mae gennym gyfarfodydd cynllunio rheolaidd i ystyried yr

ymateb i bwysau posibl ar ofal brys.

A Choose Well campaign was re-launched in early October, including, for the first time, a smartphone app to help patients choose the best place to go for treatment. The campaign provides advice about the range of healthcare services that are available and directs patients to the most appropriate healthcare setting for their needs. We have engaged Age Cymru to co-ordinate the Keep Well This Winter campaign to provide further information and support to people aged 60 and over around the three main themes of ‘keep well’, ‘keep warm’ and ‘keep safe’. We have also launched a flu immunisation campaign to reduce illness and NHS pressures. The target rate for flu vaccine uptake this year is 75% for older people and at-risk groups, and 50% for health and social care workers who have direct patient contact. Selected community pharmacies will be offering the vaccine free of charge to eligible individuals for the first time.

Cafodd ymgyrch Dewis Doeth ei hail-lansio yn gynnar ym mis Hydref, gan gynnwys, am y tro cyntaf, app ffôn deallus i helpu cleifion i ddewis y lle gorau i fynd i gael triniaeth. Mae’r ymgyrch yn rhoi cyngor am yr ystod o wasanaethau gofal iechyd sydd ar gael ac yn cyfeirio cleifion at y lleoliad gofal iechyd mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Rydym wedi ymgysylltu ag Age Cymru i gyd-drefnu’r ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn i ddarparu rhagor o wybodaeth a chymorth i bobl 60 oed a hŷn o amgylch y tair prif thema sef ‘cadw’n iach’, ‘cadw’n gynnes’ a ‘cadw’n ddiogel’. Rydym hefyd wedi lansio ymgyrch imiwneiddio rhag y ffliw i leihau salwch a phwysau ar y GIG. Y nod ar gyfer y nifer sy’n derbyn brechiad ffliw eleni yw 75% ar gyfer pobl hŷn a grwpiau sydd mewn perygl, a 50% ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol sy’n dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion. Bydd fferyllfeydd cymunedol dethol yn cynnig y brechlyn yn rhad ac am ddim i unigolion cymwys am y tro cyntaf.

The risks to vulnerable people during severe weather are considerable. We have contacted local authorities to encourage the take-up of seasonal flu vaccination among social care staff and providers to ensure greater resilience in the delivery of care services. We are also taking steps to address the risks to the care provided by self-funding organisations and informally through family, friends and community groups. The impact on these, and the knock-on effect on statutory services, could be very significant. We are establishing a task and finish group with the involvement of the Social Services Improvement Agency and the Association of Directors of Social Services to consider these issues.

Mae’r risgiau i bobl sy’n agored i niwed yn ystod tywydd garw yn sylweddol. Rydym wedi cysylltu ag awdurdodau lleol i annog pobl i dderbyn brechiad rhag y ffliw tymhorol ymhlith staff a darparwyr gofal cymdeithasol i sicrhau bod mwy o wytnwch wrth ddarparu gwasanaethau gofal. Rydym hefyd yn cymryd camau i fynd i’r afael â’r risgiau i’r gofal a ddarperir gan sefydliadau hunan-gyllido ac yn anffurfiol drwy grwpiau teulu, ffrindiau a chymunedol. Gallai’r effaith ar y rhain, a’r effaith ddilynol ar wasanaethau statudol, fod yn sylweddol iawn. Rydym yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda chyfranogiad yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried y materion hyn.

We will continue to fund Nest, through British Gas, to help keep people warm in winter and to reduce their fuel bills. The Nest scheme provides advice on reducing energy use, as well as general guidance on money management. Under Nest, heating installations can be prioritised for householders who are particularly vulnerable, with temporary heaters provided while work

Byddwn yn parhau i ariannu Nyth, drwy Nwy Prydain, er mwyn helpu i gadw pobl yn gynnes yn y gaeaf ac i leihau eu biliau tanwydd. Mae’r cynllun Nyth yn darparu cyngor ar leihau’r defnydd o ynni, yn ogystal ag arweiniad cyffredinol ar reoli arian. O dan Nyth, gellir blaenoriaethu gosodiadau gwresogi ar gyfer deiliaid tai sy’n arbennig o agored i niwed, a darparu gwresogyddion

is being completed. We have also launched Arbed 2 this year, which is a three-year programme to improve energy performance and to reduce the fuel bills of nearly 5,000 homes across Wales.

dros dro tra bod y gwaith yn cael ei gwblhau. Rydym hefyd wedi lansio Arbed 2 eleni, sef rhaglen dair blynedd i wella perfformiad ynni a lleihau biliau tanwydd bron i 5,000 o gartrefi ar draws Cymru.

School closures during severe weather have widespread impact, and the decisions that are taken by headteachers and local authorities to close schools need careful consideration. Our joint publication with the Welsh Local Government Association, 'Opening Schools in Extreme Bad Weather', has been in place since 2010, and gives advice to schools on whether they should remain open or close in extremely bad weather.

Mae cau ysgolion yn ystod tywydd garw yn cael effaith eang, ac mae angen ystyriaeth ofalus ar y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd gan benaethiaid ac awdurdodau lleol i gau ysgolion. Mae ein cyhoeddiad ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 'Agor Ysgolion mewn Tywydd Gwael Eithafol', wedi bod ar waith ers 2010, ac mae'n rhoi cyngor i ysgolion ynghylch a ddylent aros ar agor neu gau yn ystod tywydd drwg iawn.

There also remains a risk of flooding during the winter, with the potential for relatively small amounts of rainfall to exacerbate already full catchments. The national flood forecasting centre monitors weather conditions at all times and the Environment Agency has flood warning staff on duty 24 hours a day. All the Welsh flood risk management authorities have plans in place to ensure that they can deliver critical services during periods of severe weather. We have also developed a Wales flood response framework in partnership with responders, which brings together advice and guidance to enable consistent and coherent planning during flooding incidents. The Environment Agency has issued a press release about the risk of winter flooding and information and advice is available on its website. It also offers free flood warnings.

Mae risg o lifogydd hefyd yn parhau yn ystod y gaeaf, gyda'r potensial o weld ychydig o law yn gymharol yn gwaethygu dalgylchoedd sydd eisoes yn llawn. Mae'r ganolfan genedlaethol darogan llifogydd yn monitro amodau tywydd ar bob adeg ac mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd staff rhybuddio rhag llifogydd ar ddyletswydd 24 awr y dydd. Mae gan bob un o'r awdurdodau rheoli risg llifogydd yng Nghymru gynlluniau wedi'u sefydlu i sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod cyfnodau o dywydd garw. Rydym hefyd wedi datblygu fframwaith ymateb i lifogydd yng Nghymru mewn partneriaeth ag ymatebwyr, sy'n dwyn ynghyd gyngor a chanllawiau i alluogi cynllunio cyson a chydlynol yn ystod llifogydd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg am y perygl o lifogydd y gaeaf ac mae gwybodaeth a chyngor ar gael ar ei gwefan. Mae hefyd yn cynnig rhybuddion llifogydd am ddim.

We are also aware of the impact that severe winters have on businesses. We are in regular contact with key companies and a range of SMEs to offer support and ensure that lines of communication are kept open. It is important that companies take measures, through business continuity planning, to reduce the impact on their businesses. Utility companies have taken such steps. For example, Dŵr Cymru and Dee Valley Water are reviewing their plans to ensure that they have sufficient salt and chemicals for the treatment of drinking water in preparation for the winter period.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r effaith y mae gaeafau difrifol yn ei chael ar fusnesau. Rydym mewn cyswllt rheolaidd â chwmnïau allweddol ac ystod o fusnesau bach a chanolig i gynnig cymorth a sicrhau bod llinellau cyfathrebu yn cael eu cadw ar agor. Mae'n bwysig bod cwmnïau yn cymryd camau, drwy gynllunio parhad busnes, er mwyn lleihau'r effaith ar eu busnesau. Mae cwmnïau gwasanaethau wedi cymryd camau o'r fath. Er enghraifft, mae Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn adolygu eu cynlluniau i sicrhau bod ganddynt ddigon o halen a chemegau ar gyfer trin dŵr yfed wrth

baratoi ar gyfer y gaeaf.

In terms of animal welfare, we have issued advice to livestock keepers encouraging them to have contingency plans in place for emergencies and we are working with companion animal welfare organisations to raise owners' awareness of the needs of their pets in severe weather.

O ran lles anifeiliaid, rydym wedi cyhoeddi cyngor i geidwaid da byw yn eu hannog i gael cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau ac rydym yn gweithio gyda sefydliadau lles anifeiliaid anwes i godi ymwybyddiaeth perchnogion o anghenion eu hanifeiliaid anwes mewn tywydd garw.

I have also had discussions with senior officers from responder agencies and multi-agency planning is taking place to ensure that preparations are in place to respond to any severe weather incidents. This includes agencies building on the experience of previous winters by making plans for the best use of 4x4 vehicles, particularly in respect of transporting essential staff to their places of work.

Rwyf hefyd wedi cael trafodaethau gydag uwch swyddogion o asiantaethau sy'n ymateb ac mae cynllunio aml-asiantaeth yn cael ei gynnal i sicrhau bod paratoadau ar waith i ymateb i unrhyw ddigwyddiadau tywydd garw. Mae hyn yn cynnwys asiantaethau'n adeiladu ar brofiad gaeafau blaenorol trwy wneud cynlluniau ar gyfer y defnydd gorau o gerbydau 4x4, yn enwedig o ran cludo staff hanfodol i'w mannau gwaith.

While this statement provides details of preparations for winter, the impact of weather can be unpredictable. It is important that members of the public also take steps to look after themselves and keep their neighbours safe. Last year, people faced problems with the delivery of heating oil. In Wales, Consumer Focus has been leading a campaign asking people to fill up early, if appropriate, and offering money-saving advice. People need to come together and help each other when the need arises. Our winter weather advice on the Welsh Government website brings together a number of websites offering practical advice and suggestions on keeping warm, healthy and safe in extreme winter weather, as well as saving money.

Er bod y datganiad yn rhoi manylion am baratoadau ar gyfer y gaeaf, gall effaith y tywydd fod yn anragweladwy. Mae'n bwysig bod aelodau'r cyhoedd hefyd yn cymryd camau i ofalu amdanynt eu hunain ac yn cadw eu cymdogion yn ddiogel. Y llynedd, roedd pobl yn wynebu problemau gyda danfon olew gwresogi. Yng Nghymru, mae Llais Defnyddwyr wedi bod yn arwain ymgyrch yn gofyn i bobl i lenwi ag olew yn gynnar, os yw'n briodol, ac yn cynnig cyngor arbed arian. Mae angen i bobl ddod at ei gilydd a helpu ei gilydd pan fydd yr angen yn codi. Mae ein cyngor tywydd y gaeaf ar wefan Llywodraeth Cymru yn dwyn ynghyd nifer o wefannau sy'n cynnig cyngor ymarferol ac awgrymiadau ar gadw'n gynnes, yn iach ac yn ddiogel mewn tywydd eithafol y gaeaf, yn ogystal ag arbed arian.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, it is clear that action is needed now in order to prepare well in advance to mitigate the pressures that winter can bring and I welcome this statement. You mentioned that you have discussed preparations for winter with senior officers from responder agencies. Was that across the whole of Wales? Clearly, some areas have different requirements from others. Also, what role has the Welsh Government had in the arrangements for contingency planning in conjunction with local authorities? How are you joining all this up? Your statement reads really well, but,

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, mae'n amlwg bod angen gweithredu yn awr er mwyn paratoi mewn da bryd i liniaru'r pwysau all ddod yn y gaeaf, ac rwy'n croesawu'r datganiad hwn. Soniasoch eich bod wedi trafod y paratoadau ar gyfer y gaeaf gydag uwch swyddogion o asiantaethau ymatebwyr. A oedd hynny ym mhob cwr o Gymru? Yn amlwg, mae gan rai ardaloedd ofynion gwahanol i eraill. Hefyd, pa rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn y trefniadau ar gyfer cynllunio wrth gefn ar y cyd ag awdurdodau lleol? Sut ydych chi'n cysylltu hyn i gyd? Mae eich datganiad yn

when an event takes place and we have a problem and winter pressures start, often without warning, it is about how soon these mechanisms can kick in. With that in mind, is it not time to put forward a cross-portfolio, joined-up strategy whereby we can have more confidence that everything has been prepared for? That would encompass plans for road gritting, keeping schools open, the smooth running of public transport and support to help our farmers and those living in rural areas, and, in particular, to help the frail and elderly to access health provision, which is vital.

darllen yn dda iawn, ond, pan fydd digwyddiad ac mae gennym broblem ac mae pwysau'r gaeaf yn dechrau, yn aml heb rybudd, mae'n ymwneud â pha mor fuan y gall y dulliau hyn gychwyn. Gyda hynny mewn golwg, onid yw'n bryd cyflwyno strategaeth drawsbortffolio, gydgysylltiedig lle y gallwn gael mwy o hyder bod paratoadau wedi'u gwneud ar gyfer popeth? Byddai hynny'n cynnwys cynlluniau ar gyfer graeanu ffyrdd, cadw ysgolion ar agor, cael trafnidiaeth gyhoeddus yn rhedeg yn llyfn a chefnogaeth i helpu ein ffermwyr a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ac, yn benodol, i helpu'r bobl fregus ac oedrannus i gael mynediad at ddarpariaeth iechyd, sy'n hanfodol .

What action is the Welsh Government taking to ensure that local authority risk registers are up-to-date and reflect the growing trend of severe winter pressures? Risk registers are often reviewed across the annual term of a local authority, but, often, this risk is not as high on the scale as it ought to be.

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod cofrestrau risg yr awdurdod lleol yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r duedd gynyddol o bwysau gaeaf difrifol? Mae cofrestrau risg yn cael eu hadolygu'n aml ar draws tymor blynyddol awdurdod lleol, ond, yn aml, nid yw'r risg mor uchel ar y raddfa ag y dylai fod.

3.45 p.m.

What is the Welsh Government doing to raise awareness of the smartphone application and the winter weather advice website? I am particularly keen to see the involvement with Consumer Focus and Age Cymru, as I think it vital that you work with other agencies. I can see that the statement reflects that a lot of cross-partnership working is going on.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r app ffôn deallus a'r wefan cyngor tywydd y gaeaf? Rwy'n arbennig o awyddus i weld yr ymwneud â Llais Defnyddwyr ac Age Cymru, gan fy mod yn credu ei bod yn hollbwysig eich bod yn gweithio gydag asiantaethau eraill. Gallaf weld bod y datganiad hwn yn adlewyrchu bod llawer o draws-weithio mewn partneriaeth yn mynd ymlaen.

Finally, what steps is the Welsh Government taking with local authorities to ensure that schools are prepared for bad weather, in the hope that we can reduce the number of school closures? I know that that sometimes happen as a result of obvious difficulties, such as in getting the children to the school, but I have known of instances in which central heating systems have packed up. Even if children can arrive at the school, sometimes they physically cannot stay there because of that. There is quite a lot of joining up to do there, and I think that it is time now for a cross-portfolio strategy to be put in place. Really, for us as Assembly Members, we need to know whether you are the Minister currently

Yn olaf, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael eu paratoi ar gyfer tywydd drwg, yn y gobaith y gallwn leihau nifer yr ysgolion sy'n cau? Gwn fod hynny yn digwydd weithiau o ganlyniad i anawsterau amlwg, megis cael y plant i'r ysgol, ond rwyf wedi clywed am achosion lle mae systemau gwresogi canolog wedi torri Hyd yn oed os gall plant gyrraedd yr ysgol, weithiau ni allant aros yno'n gorfforol oherwydd hynny. Mae cryn dipyn o gydgysylltu i'w wneud yno, ac rwy'n meddwl ei bod yn bryd yn awr i strategaeth drawsbortffolio gael ei rhoi ar waith. Mewn gwirionedd, i ni fel Aelodau'r Cynulliad, mae

leading on all this.

angen i ni wybod ai chi yw'r Gweinidog yn arwain ar hyn i gyd ar hyn o bryd.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her questions. Most of the answers are in the statement that I have just delivered, but I will allude in more detail to some of the issues that she has raised. I am the Minister who co-ordinates resilience across the Cabinet. There is a lot of joint working by Cabinet colleagues and between departments to ensure that we have the correct amount of action and resilience in place for winter pressures. Alongside the First Minister, I also chair the resilience forum, the membership of which encompasses many of the agencies that the Member mentioned, including the Welsh Local Government Association, the armed forces, the emergency services and other sectors, including the Welsh Government, to ensure that we have a collective response to the problems that are raised.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau. Mae'r rhan fwyaf o'r atebion yn y datganiad yr wyf newydd ei gyflwyno, ond cyfeiriaf yn fanylach at rai o'r materion a godwyd ganddi. Fi yw'r Gweinidog sy'n cydlynu gwydnwch ar draws y Cabinet. Mae llawer o weithio ar y cyd gan gydweithwyr yn y Cabinet a rhwng adrannau er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o weithredu a gwydnwch ar waith ar gyfer pwysau'r gaeaf. Ochr yn ochr â'r Prif Weinidog, rwyf hefyd yn cadeirio'r fforwm gwydnwch, ac mae' aelodaeth yn cwmpasu llawer o'r asiantaethau a grybwyllodd yr Aelod, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y lluoedd arfog, y gwasanaethau brys a sectorau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod gennym ymateb ar y cyd i'r problemau sy'n cael eu codi.

The Member raised specific issues to do with school closures. As I mentioned in my contribution, the 'Opening schools in extreme bad weather' document, published with the Welsh Local Government Association, was issued in 2010 to give an all-Wales perspective on making the decision to close schools or keep them open, and that stands. We believe that it is an effective document that gives people the right guidance and support that they require.

Roedd yr Aelod yn codi materion penodol yn ymwneud â chau ysgolion. Fel y soniais yn fy nghyfraniad, cafodd y ddogfen 'Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol', a gyhoeddwyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ei chyhoeddi yn 2010 er mwyn rhoi safbwynt Cymru gyfan ar wneud y penderfyniad i gau ysgolion neu eu cadw ar agor, ac mae hynny'n sefyll. Rydym yn credu ei bod yn ddogfen effeithiol sy'n rhoi'r arweiniad a'r gefnogaeth briodol sydd eu hangen arnynt i bobl.

I also welcome the Members comments about joint working with organisations such as Age Cymru. Third sector organisations are critical to the delivery of services beyond Government agencies to look after our most vulnerable in our communities. Notwithstanding the fact that we have no control over the weather conditions, we believe that we are well placed given the resilience measures that we have in place, and I will continue to act on behalf of my ministerial colleagues as the lead Minister in this role.

Croesawaf hefyd sylwadau'r Aelod ynghylch gweithio ar y cyd gyda sefydliadau megis Age Cymru. Mae mudiadau trydydd sector yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i asiantaethau'r Llywodraeth i edrych ar ôl y mwyaf bregus yn ein cymunedau. Er gwaethaf y ffaith nad oes gennym unrhyw reolaeth dros yr amodau tywydd, rydym yn credu ein bod mewn sefyllfa dda o ystyried y mesurau gwydnwch sydd gennym wedi'u sefydlu, a byddaf yn parhau i weithredu ar ran fy nghyd-Weinidogion fel y Gweinidog sy'n arwain yn y rôl hon.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ceisiaf godi cwestiynau nad ydych eisoes wedi'u hateb yn eich datganiad. Rwy'n croesawu'r datganiad yn fawr. Mae'n dda iawn gweld bod trafodaethau wedi bod i baratoi am y gaeaf

**Rhodri Glyn Thomas:** I will try to raise some questions that have not already been answered in your statement. I very much welcome the statement. It is good to see that discussions have already taken place to make

a'r math o broblemau y gallem eu hwynebu oherwydd y tywydd. Yn eich trafodaethau ag awdurdodau lleol, a oes unrhyw adwaith wedi bod i'ch penderfyniad i dynnu symiau sylweddol o arian—miliynau o bunnoedd—o'u cyllidebau ar gyfer eich cronfa gydweithredu? A yw arweinwyr yr awdurdodau lleol wedi dweud wrthych y bydd hynny'n creu trafferthion iddynt wrth sicrhau bod digon o gyllideb ganddynt i wynebu anawsterau'r gaeaf?

preparations for the winter and the types of problems that we could face as a result of the weather. In your discussions with local authorities, has there been any reaction to your decision to take substantial sums of money—millions of pounds—from their budgets for your co-operation fund? Have local authority leaders told you that that will cause problems for them in ensuring that they have sufficient money to face the difficulties of winter?

Yn eich datganiad, rydych yn cyfeirio at yr app y byddwch yn ei greu i gyfeirio pobl at y lle mwyaf priodol iddynt gael triniaeth mewn achosion fel sy'n codi yn ystod y gaeaf. Sut y byddwch yn sicrhau bod yr app hwnnw wedi'i ddiweddaru yn ddigonol? Yn ystod tywydd anffafriol, yn aml iawn, mae rhai unedau, yn enwedig unedau mân-anafiadau, yn cael eu cau gan nad yw'r staff yn gallu cyrraedd. Sut y byddwch yn sicrhau bod yr app yn cyfeirio pobl nid yn unig at y lle mwyaf priodol ond at y lle sydd ar agor ac sy'n gallu cynnig gwasanaethau?

In your statement, you refer to the app that you will create to signpost people to the most appropriate place to receive treatment in cases such as those that arise during the winter period. How will you ensure that that app is sufficiently updated? In adverse weather conditions, some units, particularly minor injuries units, will be closed because staff are unable to get there. How will you ensure that that app refers people not only to the most appropriate place but to places that are open and are able to offer services?

Bu ichi gyfeirio at y trafodaethau a gawsoch gyda'r bobl sy'n darparu gwasanaethau iechyd, fel y gwasanaeth ambiwlans ac ati. Sut y byddwch yn sicrhau bod yr addewidion yr ydych wedi'u cael ganddynt yn cael eu gwireddu? Yn y gorffennol, nid yw hynny wedi digwydd. Rwy'n falch iawn eich bod yn cael y trafodaethau, ond hoffwn gael fy sicrhau bod mwy na thrafod yn digwydd a bod sicrwydd y caiff yr addewidion hynny eu gwireddu.

You referred to the discussions that you have had with people who provide health services, such as the ambulance service, and so on. How will you ensure that the commitments that you have received from them will be fulfilled? In the past, that has not been the case. I am very pleased that you are having those discussions but I would like an assurance that there is more than just discussion taking place and that those promises will have to be fulfilled.

Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â'ch trafodaethau â Llywodraeth San Steffan, am fudd-daliadau. Rydym i gyd yn gwybod y bydd toriadau enbyd mewn budd-daliadau, ac mae pobl eisoes yn poeni am y sefyllfa a fydd yn eu hwynebu yn y flwyddyn newydd o ganlyniad i'r penderfyniadau a gymerwyd gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan. Yn aml iawn, yn y gaeaf, mae trafferthion ymarferol yn codi o ran cyflwyno'r budd-daliadau hynny i bobl. I'r sawl sydd dan bwysau yn barod, a allwch chi ddweud wrthym pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael i sicrhau bod y taliadau hynny yn eu cyrraedd a bod modd iddynt gael yr arian hyd yn oed pan fydd problemau o ganlyniad i'r tywydd?

My final question relates to your discussions with the Westminster Government about benefits. We are all aware that there have been terrible cuts to benefits, and people are already concerned about the situation that they will be faced with in the new year as a result of decisions taken by the coalition Government at Westminster. Very often, in the winter, practical difficulties can arise in distributing those benefits to people. For those who are already under pressure, can you tell us what discussions you have had to ensure that those payments reach them and they are able to access the money even when there may be problems as a result of the weather?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his contribution and the questions that he raised. I understand his line of questioning, but it does not quite fit in. It is 12 months too early for the £10 million top-slicing of the RSG. Actually, that comes in next year's budget, so he may want to ask me the same question next year. What is important now is that we have planned for the encroachment of winter and, as the Member for Conwy mentioned earlier, planning is essential. We have worked through the detailed plans in advance of any potential bad weather.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad a'r cwestiynau a godwyd ganddo. Rwy'n deall trefn ei gwestiynau, ond nid yw'n ffitio i mewn yn hollol. Mae'n 12 mis yn rhy gynnar ar gyfer brigdorri £10 miliwn y Grant Cynnal Refeniw. A dweud y gwir, mae hynny'n dod yng nghyllideb y flwyddyn nesaf, felly efallai y bydd yn dymuno gofyn yr un cwestiwn i mi y flwyddyn nesaf. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw ein bod wedi cynllunio ar gyfer dyfodiad y gaeaf, ac, fel y soniodd yr Aelod dros Gonwy yn gynharach, mae cynllunio'n hanfodol. Rydym wedi gweithio drwy'r cynlluniau manwl cyn unrhyw dywydd drwg posibl.

The Member asks for reassurance, and I have made sure that the resilience team working with other departments is able to provide appropriate plans for intervention subject to all levels of severe winter weather. As I said, we do not know what the weather will present, but we have to try to prepare for the worst situations. Some of those plans deal with the best use of 4x4 vehicles, which is one aspect of this, to ensure that we can get staff to their places of work, to maintain emergency services such as hospitals and care homes, continuing the care pathway for individuals.

Mae'r Aelod yn gofyn am sicrwydd, ac rwyf wedi gwneud yn siŵr bod y tîm gwydnwch sy'n gweithio gydag adrannau eraill yn gallu darparu cynlluniau priodol ar gyfer ymyrryd yn amodol ar bob lefel o dywydd difrifol y gaeaf. Fel y dywedais, nid ydym yn gwybod beth fydd y tywydd yn ei gyflwyno, ond mae'n rhaid i ni geisio paratoi ar gyfer y sefyllfaoedd gwaethaf. Mae rhai o'r cynlluniau yn ymdrin â'r defnydd gorau o gerbydau 4x4, sy'n un agwedd ar hyn, er mwyn sicrhau y gallwn gael staff i'w mannau gwaith, er mwyn cynnal gwasanaethau brys megis ysbytai a chartrefi gofal, gan barhau â'r llwybr gofal ar gyfer unigolion .

The Member raised Choose Well, and I am glad that he welcomes the application that we have launched. Just in the past week, there has been a 35% increase in the uptake of that app, which signposts people to the appropriate pathway for choosing the assistance that they may need, whether that be from primary care or secondary care A&E services. What it does not give advice on is winter weather. That is found on the Welsh Government website, which is updated on a daily or, if need be, an hourly basis in preparation for ensuing severe weather.

Cododd yr Aelod Dewis Doeth, ac rwy'n falch ei fod yn croesawu'r app yr ydym wedi ei lansio. Yn ystod yr wythnos diwethaf yn unig, bu cynnydd o 35% yn y niferoedd sy'n cael yr app, sy'n cyfeirio pobl at y llwybr priodol ar gyfer dewis y cymorth y gallai fod ei angen arnynt, boed hynny gan wasanaethau damweiniau ac achosion brys gofal sylfaenol neu ofal eilaidd. Yr hyn nad yw'n rhoi cyngor arno yw tywydd y gaeaf. Mae hwnnw i'w gael ar wefan Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei diweddaru'n ddyddiol neu, os bydd angen, bob awr i baratoi ar gyfer tywydd garw dilynol.

On the issue of how we ensure that all the plans come together, the Wales resilience forum makes sure that all responder agencies have plans in place, and we hope that, whatever mother nature chooses to throw at us, we are prepared to the best of our ability to ensure the continuation of services.

Ar y mater o sut yr ydym yn sicrhau bod yr holl gynlluniau'n dod at ei gilydd, mae fforwm gwydnwch Cymru'n gwneud yn siŵr bod gan yr holl asiantaethau sy'n ymateb gynlluniau ar waith, ac rydym yn gobeithio, beth bynnag y bydd natur yn dewis ei daflu atom, y byddwn yn barod hyd eithaf ein gallu i sicrhau parhad y gwasanaethau.

The last point that the Member raised was about benefits and support. We aim to keep Wales mobile during this process, and the welfare reform element is recognised. It is nothing to do with me, as it is an element of the UK Government's decision, but we are trying to ensure that, where people need to access services, whether at the local post office or in council offices, we keep paths and roads open. That is indicated by the level of salt stocks that we have in place across Wales.

Y pwynt olaf a gododd yr Aelod oedd ynghylch budd-daliadau a chymorth. Rydym yn anelu at gadw Cymru'n symudol yn ystod y broses hon, ac mae'r elfen ddiwygio lles yn cael ei chydnabod. Nid oes a wnelo dim â mi, gan ei bod yn elfen o benderfyniad Llywodraeth y DU, ond rydym yn ceisio sicrhau, lle mae angen i bobl gael mynediad at wasanaethau, boed hynny yn y swyddfa bost leol neu yn swyddfeydd y cyngor, ein bod yn cadw llwybrau a ffyrdd ar agor. Mae hynny'n cael ei nodi gan lefel y stociau halen sydd gennym ar waith ledled Cymru.

**Mike Hedges:** I congratulate the Minister on his attempt to predict Wales's winter weather. Apart from being cold and wet, the rest of it is what we discover as we go through time. Will the Minister join me in congratulating local authorities on their preparedness during difficult financial times in getting ready for what could be a bad winter? Is the Minister aware of just how important and appreciated both the Nest and Arbed schemes are? May I also say how pleased I am personally about the provision of an app, given that an awful lot of younger people expect an app for almost everything?

**Mike Hedges:** Hoffwn longyfarch y Gweinidog ar ei ymgais i ragweld tywydd gaeaf Cymru. Ar wahân i fod yn oer ac yn wlyb, y gweddill yw'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod wrth i ni fynd drwy amser. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i longyfarch awdurdodau lleol ar eu parodrwydd yn ystod cyfnod ariannol anodd i baratoi ar gyfer beth allai fod yn aeaf drwg? A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o ba mor bwysig yw'r cynlluniau Nyth ac Arbed a faint o werthfawrogi sydd arnynt? A gaf fi hefyd ddweud pa mor falch yr wyf yn bersonol am y ddarpariaeth o app, o ystyried bod llawer iawn o bobl ifanc yn disgwyl cael app ar gyfer popeth bron?

I have a question on school closures, which you may well say is not under your jurisdiction. However, there is a feeling among many headteachers that, if they keep their school open and only half the pupils turn up, they will be penalised for showing only 50% attendance, but if they close the school, they will not be penalised. That may not be true, but it is believed by an awful lot of headteachers. Therefore, if it is not true, it is important that you and the Minister for Education and Skills let people know that. There is also an issue with the danger of getting pupils to schools and the dangers of school yards in inclement weather, which needs to be remembered.

Mae gen i gwestiwn ar gau ysgolion, efallai y byddwch yn dweud nad yw o dan eich awdurdodaeth. Fodd bynnag, mae teimlad ymysg llawer o benaethiaid, os ydynt yn cadw eu hysgol ar agor a dim ond hanner y disgyblion yn troi i fyny, y byddant yn cael eu cosbi am ddangos presenoldeb o ddim ond 50%, ond os byddant yn cau'r ysgol, ni fyddant yn cael eu cosbi. Efallai nad yw hynny'n wir, ond mae llawer iawn o benaethiaid yn credu hynny. Felly, os nad yw'n wir, mae'n bwysig eich bod chi a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gadael i bobl wybod hynny. Mae mater hefyd gyda'r perygl o gael disgyblion i ysgolion a pheryglon iardiau ysgolion mewn tywydd garw, ac mae angen cofio hynny.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his support. I also congratulate local authorities on their aim to join forces in their preparation for severe weather. The Arbed and Nest schemes are key areas of work that my ministerial colleagues have developed to

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gefnogaeth. Rwyf hefyd yn llongyfarch yr awdurdodau lleol ar eu nod o ymuno yn eu paratoadau ar gyfer tywydd garw. Mae'r cynlluniau Arbed a Nest yn feysydd allweddol o waith y mae fy nghyd-

enhance the opportunities for people to deal with energy issues in the home.

Weinidogion wedi eu datblygu i wella'r cyfleoedd i bobl i ddelio â materion ynni yn y cartref.

I note the Member's comments on school closures. The 2010 document that was issued to local authorities and schools gives clear guidance on this, but I will take a note to the Minister for education on what the Member raised today. I do not believe that that is the case, and if there is a communication issue, we need to clear that up by corresponding with the local authorities that are in any doubt.

Nodaf sylwadau'r Aelod ar gau ysgolion. Mae'r ddogfen 2010 a roddwyd i awdurdodau lleol ac ysgolion yn rhoi arweiniad clir ar hyn, ond byddaf yn cymryd nodyn i'r Gweinidog addysg ar hyn a gododd yr Aelod heddiw. Nid wyf yn credu bod hynny'n wir, ac os oes mater cyfathrebu, mae angen i ni glirio hynny drwy ohebu gyda'r awdurdodau lleol sydd mewn unrhyw amheuaeth.

On the issue of gritting in vulnerable or high-risk areas, I can say that I issued advice to local authorities on the areas that should be appropriately gritted. It is a matter for local authorities, but we looked at high-risk areas, such as around sheltered accommodation for the elderly, schools and hospitals, and I think that those areas should all be seriously considered as priorities for each local authority to ensure the safety of those people, who need to take care. We must ensure that we can help where we can, and our gritting policy is the key to that.

Ar y mater o raeanu mewn ardaloedd sy'n agored i niwed neu risg uchel, gallaf ddweud fy mod wedi rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar y mannau y dylid eu graeanu'n briodol. Mae'n fater i awdurdodau lleol, ond buom yn edrych ar ardaloedd risg uchel, megis o amgylch llety gwarchod ar gyfer yr henoed, ysgolion ac ysbytai, ac rwy'n credu y dylai'r ardaloedd hynny i gyd gael eu hystyried o ddifrif fel blaenoriaethau ar gyfer pob awdurdod lleol i sicrhau diogelwch y bobl hynny, sydd angen iddynt gymryd gofal. Mae'n rhaid i ni sicrhau y gallwn helpu lle y gallwn, ac mae ein polisi graeanu yn allweddol i hynny.

**Peter Black:** Minister, I start by thanking you for your statement. It is important that we are all given early notice of the preparations that are being made for severe weather and for the various winter pressures that face all government agencies. I want to start with the Choose Well campaign. I also welcome the app that has been brought in, but could you explain what is being done for the technologically excluded? How will they access the information that is provided via that app? Young people will clearly have access to that technology and that information, but many elderly people, who this campaign is aimed at, may not.

**Peter Black:** Weinidog, dechreuaf drwy ddiolch ichi am eich datganiad. Mae'n bwysig ein bod i gyd yn cael rhybudd cynnar o'r paratoadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer tywydd garw ac ar gyfer y pwysau gaeaf amrywiol sy'n wynebu pob asiantaeth y llywodraeth. Rwyf am ddechrau gyda'r ymgyrch Dewis Doeth. Rwyf innau hefyd yn croesawu'r app sydd wedi cael ei gyflwyno, ond allech chi esbonio beth sy'n cael ei wneud ar gyfer y rhai sydd wedi'u heithrio'n dechnolegol? Sut fyddant hwy yn cael y wybodaeth a ddarperir drwy gyfrwng yr app? Yn amlwg, bydd gan bobl ifanc fynediad at y dechnoleg honno a'r wybodaeth honno, ond efallai na fydd gan lawer o bobl oedrannus, y mae'r ymgyrch hon wedi'i hanelu atynt.

I note, as part of the preparations, the work being done with the health service. I have concerns about the vaccination rates against flu et cetera. Of those under the age of 65 who are in an at-risk group, just 34.9% have been vaccinated, against the Government's

Nodaf, fel rhan o'r paratoadau, y gwaith a wneir gyda'r gwasanaeth iechyd. Mae gennyf bryderon am y cyfraddau brechu yn erbyn ffliw ac ati. O'r rhai dan 65 oed sydd mewn grŵp mewn perygl, dim ond 34.9% sydd wedi cael eu brechu, yn erbyn targed y

target of 75%, and that figure is just 51.8% for those over the age of 65, against the Government's target of 75%. What action is being taken to increase that take-up? I also note that the Government paid £25,000 to the Met Office to receive 33 heatwave warnings over the summer, all of which were low risk, which will not surprise any of us. I notice that you have now commissioned it to provide you with severe weather warnings. How much is that costing, and what do you expect to learn from that action? Are you expecting to get value for money from that investment?

Llywodraeth o 75%, a 51.8% yn unig yw'r ffigur hwnnw ar gyfer y rhai dros 65 oed, yn erbyn targed y Llywodraeth o 75%. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i gynyddu'r raddfa dderbyn? Nodaf hefyd fod y Llywodraeth wedi talu £25,000 i'r Swyddfa Dywydd i dderbyn 33 rhybudd o dywydd poeth dros yr haf, pob un ohonynt yn risg isel, na fydd yn syndod i unrhyw un ohonom. Rwy'n sylwi eich bod bellach wedi ei chomisiynu i ddarparu rhybuddion tywydd difrifol i chi. Faint mae hynny'n gostio, a beth ydych chi'n disgwyl ei ddysgu gan y camau hynny? Ydych chi'n disgwyl cael gwerth am arian o'r buddsoddiad hwnnw?

Finally, over the past year, the number of hours lost because of ambulance transfers at accident and emergency departments has risen from 3,000 to just over 5,000. There is clearly a danger that, as we approach winter, that figure will increase yet again. What measures have been taken to try to manage those transfers at the doors of A&E departments, to try to reduce them, and to ensure that ambulances are able to get back on the road as soon as possible?

Yn olaf, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer yr oriau a gollwyd oherwydd trosglwyddiadau ambiwlans mewn adrannau damweiniau ac achosion brys wedi codi o 3,000 i ychydig dros 5,000. Mae'n amlwg bod perygl, wrth i ni nesáu at y gaeaf, y bydd y ffigur yn cynyddu unwaith eto. Pa gamau sydd wedi'u cymryd i geisio rheoli'r trosglwyddiadau hynny wrth ddrysau adrannau damweiniau ac achosion brys, i geisio eu lleihau, ac i sicrhau bod ambiwlansys yn gallu mynd yn ôl ar y ffordd cyn gynted ag y bo modd?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for all his questions. Of course, the Choose Well app is new, modern technology that we have been exploring to try to reach areas that we have not been successful at reaching in the past—as Members alluded to earlier on—such as many of the younger people in our communities. We must not exclude people socially.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei holl gwestiynau. Wrth gwrs, mae'r app Dewis Doeth yn dechnoleg newydd, fodern yr ydym wedi bod yn ei harchwilio i geisio cyrraedd meysydd nad ydym wedi bod yn llwyddiannus yn eu cyrraedd yn y gorffennol—fel y cyfeiriodd Aelodau ato yn gynharach—fel llawer o'r bobl ifanc yn ein cymunedau. Rhaid i ni beidio ag allgáu pobl yn gymdeithasol.

4.00 p.m.

Many younger people use apps on their mobile phones to ensure opportunities, through Twitter feeds et cetera, for the Choose Well programme. We hope that, by encouraging an increase in take-up, people will be better informed to signpost them to this area. That goes alongside the work of the Choose Well campaign leaflets in doctor surgeries and other public areas, which is currently in place.

Mae llawer o bobl iau yn defnyddio apps ar eu ffonau symudol er mwyn sicrhau cyfleoedd, trwy Twitter ac ati, ar gyfer y rhaglen Dewis Doeth. Rydym yn gobeithio, drwy annog cynnydd mewn cyfraddau derbyn, y bydd pobl yn fwy gwybodus i'w cyfeirio at y maes hwn. Mae hynny'n mynd ochr yn ochr â'r gwaith y taflenni ymgyrch Dewis Doeth mewn meddygfeydd a mannau cyhoeddus eraill, sydd ar hyn o bryd ar waith.

The Member raises issues around flu vaccination uptake. The Minister for social

Mae'r Aelod yn codi materion yn ymwneud â brechu rhag y ffliw. Mae'r Gweinidog

services is concerned about the low take up of seasonal flu vaccination, and is closely monitoring the situation. She recently met with the Royal College of Nursing to look at how nursing staff and other public sector workers can share the message of the success of the flu vaccination and encourage at-risk groups to take up the vaccine. In addition, a television advertising campaign will continue to run on ITV and S4C until Christmas and we will continue to monitor progress.

gwasanaethau cymdeithasol yn pryderu am y nifer isel sy'n derbyn brechiad tymhorol rhag y ffliw, ac mae'n monitro'r sefyllfa'n ofalus. Mae hi wedi cwrdd â'r Coleg Nyrsio Brenhinol i edrych ar sut y gall staff nyrsio a gweithwyr sector cyhoeddus eraill rannu neges llwyddiant y brechiad rhag y ffliw ac annog grwpiau sydd mewn perygl i dderbyn y brechlyn. Yn ogystal, bydd ymgyrch hysbysebu teledu yn parhau i redeg ar ITV ac S4C tan y Nadolig a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd.

The Member raises an important issue about the contract with the Met Office and asking for details of severe weather warnings, whether it is a heat wave or severe weather. It is a difficult call; if you are seeking the information and it does not come, is that a failure? We are trying to be better informed as early as possible. We believe it is money well spent in terms of hoping that we can assess if there are—we have more chance of bad weather than a good summer, I would expect. I am hoping that we have a better response in terms of the details coming from the organisation providing that information.

Mae'r Aelod yn codi mater pwysig ynghylch y contract gyda'r Swyddfa Dywydd ac yn gofyn am fanylion rhybuddion tywydd garw, boed yn dywydd poeth neu'n dywydd garw. Mae'n anodd mesur, os ydych yn chwilio am y wybodaeth ac nid yw'n dod, a yw hynny'n fethiant? Rydym yn ceisio cael mwy o wybodaeth cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn credu ei fod yn arian sydd wedi'i wario'n dda o ran gobeithio y gallwn asesu os oes—mae gennym fwy o siawns o dywydd drwg na haf da, byddwn yn disgwyl. Rwy'n gobeithio y cawn ymateb gwell o ran y manylion sy'n dod o'r sefydliad sy'n darparu'r wybodaeth honno.

On the issue the Member raises around ambulance services and the ability to go back on the road, we try to work with the Wales ambulance service, and in difficult times we have to be mindful of the difficult conditions that the emergency services find themselves in. They drive in conditions that people would not normally try to drive in: icy conditions, snow and rain. All of the emergency services have to deal with those. It is an issue that the Minister for health is keen to ensure that we continue to monitor and work on in order to provide the adequate vehicles and safety training for the ambulance crews involved in the day-to-day running of the service. She will monitor any pressures on the health service alongside the health boards and the Wales ambulance service to ensure that we do what we can to provide a good service for the public.

Ar y mater hwn, mae'r Aelod yn ei godi ynghylch gwasanaethau ambiwlans a'r gallu i fynd yn ôl ar y ffordd, rydym yn ceisio gweithio gyda gwasanaeth ambiwlans Cymru, ac mewn cyfnodau anodd mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r amodau anodd y mae'r gwasanaethau brys yn eu hwynebu. Maen nhw'n gyrru mewn amodau na fyddai pobl fel arfer yn ceisio gyrru ynddynt: amodau rhewllyd, eira a glaw. Rhaid i bob un o'r gwasanaethau brys ymdrin â hwy. Mae'n fater y mae'r Gweinidog iechyd yn awyddus i sicrhau ein bod yn parhau i fonitro a gweithio arno er mwyn darparu'r cerbydau a hyfforddiant diogelwch digonol ar gyfer y criwiau ambiwlans sy'n ymwneud â rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Bydd hi'n monitro unrhyw bwysau ar y gwasanaeth iechyd ochr yn ochr â'r byrddau iechyd a gwasanaeth ambiwlans Cymru i sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i ddarparu gwasanaeth da i'r cyhoedd.

**The Deputy Presiding Officer:** I ask for questions only now, please.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwy'n gofyn am gwestiynau yn unig nawr, os gwelwch yn dda.

**Joyce Watson:** The key question that I would like to ask the Minister is: does more salt mean more coverage? Lots of the communities I represent are off the main arterial road networks. I understand that there has to be prioritisation, but you must appreciate that some towns and villages in rural Wales get cut off every time there is bad weather. Have you discussed extending gritting coverage in your talks with Carmarthenshire, Ceredigion, Gwynedd, Pembrokeshire and Powys councils?

**Joyce Watson:** Y cwestiwn allweddol yr hoffwn ofyn i'r Gweinidog yw: a yw mwy o halen yn golygu sicrwydd ehangach? Mae llawer o'r cymunedau yr wyf yn eu cynrychioli oddi ar y rhwydweithiau ffyrdd prifwythiennol. Deallaf fod rhaid cael blaenoriaethu, ond mae'n rhaid i chi sylweddoli bod rhai trefi a phentrefi yng nghefn gwlad Cymru yn cael eu hynysu bob tro mae tywydd gwael. Ydych chi wedi trafod ymestyn y ddarpariaeth graeanu yn eich trafodaethau gyda Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Sir Benfro a chynghorau Powys?

**Carl Sargeant:** I welcome the Member's contribution; she represents her region well. Opportunities for mobility around the region are extremely important, but this is a matter for the local authorities. We have plenty of salt, or I would probably be more comfortable saying 'enough salt'. We know, from previous winters, of the pressure on the system. It is important that we are able to comply with the salt plans of individual authorities in terms of how many days' salt to hold in storage. Increasing the demand for routes is something that they would have to carefully decide on in terms of managing the increased costs incurred. The Member may wish to raise that directly with local authorities.

**Carl Sargeant:** Croesawaf gyfraniad yr Aelod; mae hi'n cynrychioli ei rhanbarth yn dda. Mae cyfleoedd ar gyfer symud o gwmpas y rhanbarth yn hynod bwysig, ond mae hwn yn fater i'r awdurdodau lleol. Mae gennym ddigonedd o halen, neu mae'n debyg y byddwn yn fwy cyfforddus yn dweud 'digon o halen'. Rydym yn gwybod, oherwydd gaeafau blaenorol, am y pwysau ar y system. Mae'n bwysig ein bod yn gallu cydymffurfio â chynlluniau halen awdurdodau unigol o ran halen am sawl diwrnod ddylid ei gadw yn y storfa. Mae cynyddu'r galw am lwybrau yn rhywbeth y byddai'n rhaid iddynt benderfynu arno'n ofalus ar o ran rheoli'r costau uwch a geid. Efallai y bydd yr Aelod yn dymuno codi hynny'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol.

**Byron Davies:** Minister, thank you for the timely statement. I have some questions. Given that we have something in the region of a quarter of a billion tonnes of salt in stock in Wales, I wanted to ask you a few questions in relation to this. Will the Minister outline what procedures are in place to escalate problems on our trunk roads, and at what point will the Minister step in to take action if relationships and agreements with local authorities and trunk road agencies appear to break down? What strategic plans does the Minister have to keep the major trunk roads and the M4 in particular open? How quickly can Wales secure additional salt, and does the Government have any agreements with suppliers? What discussions have you had with utility companies to ensure that they are built into your plans and emergency

**Byron Davies:** Weinidog, diolch i chi am y datganiad amserol. Mae gennyf rai cwestiynau. O gofio bod gennym oddeutu chwarter biliwn o dunelli o halen mewn stoc yng Nghymru, roeddwn eisiau gofyn rhai cwestiynau i chi mewn perthynas â hyn. Wnaiff y Gweinidog amlinellu pa weithdrefnau sydd ar waith i waethygu problemau ar ein cefnffyrdd, ac ar ba bwynt y bydd y Gweinidog yn cymryd camau os bydd yn ymddangos bod perthynas a chytundebau gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau cefnffyrdd wedi torri i lawr? Pa gynlluniau strategol sydd gan y Gweinidog i gadw'r cefnffyrdd mawr a'r M4 yn benodol ar agor? Pa mor gyflym all Cymru sicrhau halen ychwanegol, ac a oes gan y Llywodraeth unrhyw gytundebau gyda chyflenwyr? Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda

structures, especially fuel companies in rural Wales?

chwmnïau gwasanaethau i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn eich cynlluniau a strwythurau argyfwng, yn enwedig cwmnïau tanwydd yng Nghymru wledig?

**Carl Sargeant:** Thank you for your succinct questions, so I will try to give succinct answers. We have no evidence to suggest that there will be any breakdown in discussions between local authorities and the trunk road agency. In fact, relationships are growing day by day and I am hopeful that that will continue. The M4 and other trunk roads have plans in place for gritting during extreme weather, based on temperature and road conditions. We have an agreement of continuation of supply, and I refer the Member to my statement. What is increasingly important is that we have a collective response as regards resilience and I believe that that is the case with the resilience forum, which I chair.

**Carl Sargeant:** Diolch ichi am eich cwestiynau cryno, felly byddaf yn ceisio rhoi atebion cryno. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd unrhyw fethiant yn y trafodaethau rhwng awdurdodau lleol a'r asiantaeth cefnffyrdd. Yn wir, mae perthnasoedd yn tyfu o ddydd i ddydd ac rwy'n obeithiol y bydd hynny'n parhau. Mae gan yr M4 a chefnffyrdd eraill gynlluniau wedi'u sefydlu ar gyfer graeanu yn ystod tywydd eithafol, yn seiliedig ar dymheredd ac amodau ar y ffordd. Mae gennym gytundeb o ran parhad cyflenwad, a chyfeiriaf yr Aelod at fy natganiad. Yr hyn sy'n gynyddol bwysig yw bod gennym ymateb ar y cyd o ran gwydnwch a chredaf mai dyna'r achos gyda'r fforwm gwydnwch yr wyf yn gadeirydd arno.

**Rebecca Evans:** I am pleased that you have received assurances from the NHS about its ability to deliver health services this year, but with the welcome move to providing more care closer to home, what discussions are you having with colleagues as to whether further investments need to be made in order to ensure that the provision of health and social care closer to home is resilient during future winters, as more and more care is delivered locally? Secondly, during the harsh winters, there is often confusion as to what steps individual householders, small businesses and shops can take to help themselves and others in tackling snow and ice? There are often stories in the media about legal liability if someone falls on the ice, for example. What advice and reassurance can you offer in this regard?

**Rebecca Evans:** Rwy'n falch eich bod wedi cael sicrwydd gan y GIG am ei allu i ddarparu gwasanaethau iechyd eleni, ond gyda'r symudiad derbyniol i ddarparu mwy o ofal yn agosach at y cartref, pa drafodaethau ydych chi'n eu cael gyda chydweithwyr ynghylch a oes angen gwneud buddsoddiadau pellach er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn nes at y cartref yn gadarn yn ystod y gaeafau yn y dyfodol, wrth i fwy a mwy o ofal gael ei ddarparu'n lleol? Yn ail, yn ystod y gaeafau caled, mae dryswch yn aml ynghylch pa gamau y gall deiliaid tai unigol, busnesau bach a siopau eu cymryd i helpu eu hunain ac eraill i fynd i'r afael ag eira a rhew? Yn aml mae straeon yn y cyfryngau am atebolrwydd cyfreithiol os bydd rhywun yn syrthio ar y rhew, er enghraifft. Pa gyngor a sicrwydd allwch chi ei gynnig yn hyn o beth?

**Carl Sargeant:** The Member raises an important issue around unregistered carers. I am keen to ensure that local authorities, social services and the health boards take care in the home into consideration. I raised that with them at the resilience forum in order to ensure that we can try to map out the increase in demand for services locally and how that could affect some of their plans for the future. That work is ongoing.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi mater pwysig ynghylch gofalwyr heb eu cofrestru. Rwy'n awyddus i sicrhau bod awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol a'r byrddau iechyd yn ystyried gofal yn y cartref. Codais hynny gyda nhw yn y fforwm gwydnwch er mwyn sicrhau y gallwn geisio mapio'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn lleol a sut y gallai hynny effeithio ar rai o'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo.

In terms of risk, I am responsible for the trunk roads, and local authorities are responsible for local roads. They have risk assessments in relation to their gritting plans. I assume that the Member is referring to the risk of an individual de-icing a piece of footpath, but that is a matter for them as individuals. Local authorities and the Welsh Government have to be careful in the actions they take, and we have to measure the risk and effectiveness of the duties that we undertake. I would not want to see anybody being prosecuted unnecessarily or for the wrong reasons, having tried to be a good citizen by attempting to maintain access and mobility.

O ran risg, rwyf yn gyfrifol am y cefnffyrdd, ac mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ffyrdd lleol. Mae ganddynt asesiadau risg mewn perthynas â'u cynlluniau graeanu. Rwy'n tybio bod yr Aelod yn cyfeirio at y risg o weld unigolyn yn dadrewi darn o lwybr troed, ond mae hynny'n fater iddynt hwy fel unigolion. Rhaid i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fod yn ofalus yn y camau y maent yn eu cymryd, ac mae'n rhaid inni fesur y risg ac effeithiolrwydd y dyletswyddau yr ydym yn ymgymryd â nhw. Ni fyddwn am weld unrhyw un yn cael ei erlyn yn ddiangen neu am y rhesymau anghywir, ar ôl ceisio bod yn ddinesydd da drwy geisio cynnal mynediad a symudedd

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio—Pwerau i Gynnwys Darpariaethau Machlud ac Adolygu mewn Is-ddeddfwriaeth**
**Legislative Consent Memorandum on the Enterprise and Regulatory Reform Bill Relating Powers to Include Sunset and Review Provisions in Subordinate Legislation**

*Cynnig NNDM5061 Jane Hutt*

*Motion NNDM5061 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n ymwneud â phŵer i Weinidogion Cymru gynnwys cymalau machlud ac adolygu mewn is-ddeddfwriaeth, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that those provisions of the Enterprise and Regulatory Reform Bill which relate to a power for Welsh Ministers to include sunset and review clauses in subordinate legislation, insofar as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

I express my thanks to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering the legislative consent memorandum in relation to the sunset and review provisions of the Enterprise and Regulatory Reform Bill and for the report that it has produced. We are considering legislative consent issues that have arisen as a result of the provisions of this Bill, and the provisions that are the subject of this LCM are enabling provisions. They have given Welsh Ministers the power to include sunset and review provisions in support of legislation made by them. The Welsh Ministers are not under any obligation to exercise this power, and in the vast majority of cases, any exercise of the power would be

Rwy'n mynegi fy niolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â darpariaethau machlud ac adolygu'r Bil Diwygio Menter a Rheoleiddio ac am yr adroddiad y mae wedi'i gynhyrchu. Rydym yn ystyried materion cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi codi o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn, ac mae'r darpariaethau sy'n destun y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ddarpariaethau galluogi. Maent wedi rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i gynnwys darpariaethau machlud ac adolygu i gefnogi deddfwriaeth a wnaed ganddynt. Nid yw Gweinidogion Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i arfer y pŵer

subject to Assembly scrutiny through the affirmative or negative procedures. I therefore request that the National Assembly agrees this legislative consent motion.

hwn, ac yn y mwyafrif llethol o achosion, byddai unrhyw arfer ar y pŵer yn destun craffu y Cynulliad drwy'r gweithdrefnau cadarnhaol neu negyddol. Gofynnaf felly bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**Eluned Parrott:** I am delighted to support this LCM, which is based on a policy from the Liberal Democrat manifesto for 2010—a fact that, I am sure, will encourage you all to give it your warmest support, in the normal way.

**Eluned Parrott:** Rwy'n falch iawn o gefnogi'r LCM, sy'n seiliedig ar bolisi o faniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer 2010—ffaith, yr wyf yn sicr, fydd yn eich annog i gyd i roi eich cefnogaeth gynhesaf, yn y ffordd arferol.

The burden of bureaucracy is often a cause of frustration for businesses in Wales. Just today, we have heard the chairman of Redrow, one of Wales's most successful brands in any sector, warning that Wales could become a no-go area because of the impact of new regulation on the building industry.

Mae baich biwrocratiaeth yn aml yn achosi rhwystredigaeth i fusnesau yng Nghymru. Dim ond heddiw, rydym wedi clywed cadeirydd Redrow, un o frandiau mwyaf llwyddiannus Cymru mewn unrhyw sector, yn rhybuddio y gallai Cymru ddod yn ardal gaeedig oherwydd yr effaith rheoleiddio newydd ar y diwydiant adeiladu.

**Ann Jones:** This intervention gives me an opportunity to correct that assertion. Redrow has now said that there would be a cost of £11,000 to provide sprinklers for a house, but the Home Builders Federation has had to revise its estimate to £5,000 or lower. Do you agree that Redrow is just trying to scare people?

**Ann Jones:** Mae'r ymyriad hwn yn rhoi cyfle i mi gywiro'r honiad hwnnw. Mae Redrow wedi dweud bellach y byddai cost o £11,000 i ddarparu systemau chwistrellu ar gyfer tŷ, ond mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai wedi gorfod adolygu ei amcangyfrif i £5,000 neu is. Ydych chi'n cytuno mai ceisio dychryn pobl y mae Redrow?

**Eluned Parrott:** Thank you for that, Ann. I have no knowledge of the independence of the valuations that those companies have put forward. However, I recognise and respect the reasons why these regulations were brought, but I also believe that it is right that the impact of any new regulations should be reviewed after an agreed period as a matter of course to assess how effectively they have been implemented, to ensure that they have had the effect intended by that policy, and to ensure that any unintended consequences can be identified and tackled. Good regulation has nothing to fear from sunset clauses, and I believe that they could play an important role in reducing the burden of regulation on businesses and helping to improve our own implementation processes as well. I hope that this LCM gains the support of the Chamber and the active support of the Welsh Government in using this new power. With that in mind, Minister, I ask the Welsh Government to produce a protocol on how it

**Eluned Parrott:** Diolch ichi am hynny, Ann. Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth am annibyniaeth y prisiadau y mae'r cwmnïau wedi'u cyflwyno. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod ac yn parchu'r rhesymau pam y cyflwynwyd y rheoliadau hyn, ond rwyf hefyd yn credu ei bod yn iawn bod effaith unrhyw reoliadau newydd yn cael ei hadolygu ar ôl cyfnod cytunedig fel mater o drefn er mwyn asesu pa mor effeithiol y maent wedi cael eu rhoi ar waith, i sicrhau eu bod wedi cael yr effaith a fwriadwyd gan y polisi hwnnw, ac i sicrhau y gellir nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Nid oes gan reoleiddio da ddim i'w ofni gan gymalau machlud, ac rwy'n credu y gallent chwarae rhan bwysig wrth leihau baich rheoleiddio ar fusnesau a helpu i wella ein prosesau gweithredu ein hunain yn ogystal. Rwy'n gobeithio y bydd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ennill cefnogaeth y Siambr a chefnogaeth weithredol Llywodraeth Cymru wrth

intends to use this new power, outlining when it will be used and how it will be audited.

ddefnyddio'r pŵer newydd hwn. Gyda hynny mewn golwg, Weinidog, rwy'n gofyn i Lywodraeth Cymru gynhyrchu protocol ar sut y mae'n bwriadu defnyddio'r pŵer newydd hwn, gan amlinellu pryd y bydd yn cael ei ddefnyddio a sut y bydd yn cael ei archwilio.

**Jane Hutt:** I am grateful for that contribution from Eluned Parrott. I do not think that I need to add to Ann Jones's response. I am certainly grateful that Members will be supporting this motion. We will be clear that we will keep our policy and position on this issue under review.

**Jane Hutt:** Rwy'n ddiolchgar am y cyfraniad hwnnw gan Eluned Parrott. Nid wyf yn credu bod angen i mi ychwanegu at ymateb Ann Jones. Rwy'n sicr yn ddiolchgar y bydd yr Aelodau yn cefnogi'r cynnig hwn. Byddwn yn glir y byddwn yn cadw ein polisi a'n safbwynt ar y mater hwn o dan adolygiad.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

**Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2011-12**
**The Children's Commissioner for Wales's Annual Report 2011-12**

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5095 Jane Hutt*

*Motion NDM5095 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2011-12.*

*Notes the Children's Commissioner for Wales' Annual Report 2011-12.*

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I move the motion.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Cynigiaf y cynnig.

On Universal Children's Day, I am delighted to welcome the fifth annual report from the Children's Commissioner for Wales and I would like to thank Keith Towler and his office for the work they have done in preparing and submitting this report. We believe that our relationship with the children's commissioner continues to be a strong one and there continues to be a willingness to engage in frank and open dialogue and to work co-operatively. We

Ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant, rwy'n falch iawn o gael croesawu pumed adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru a hoffwn ddiolch i Keith Towler a'i swyddfa am y gwaith y maent wedi'i wneud wrth baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn. Rydym yn credu bod ein perthynas â'r comisiynydd plant yn parhau i fod yn un gref ac mae parodrwydd o hyd i gymryd rhan mewn deialog onest ac agored ac i weithio yn gydweithredol. Rydym yn cefnogi'r

support the children's commissioner in his belief that he should have responsibility for any issue in relation to children and young people in Wales, regardless of whether it is a devolved matter or not. We therefore support amendment 1 and we will continue to press the UK Government on the need to consider changes to current legislation to allow this to happen.

comisiynydd plant yn ei gred y dylai fod yn gyfrifol am unrhyw fater mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yng Nghymru, ni waeth a yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli ai peidio. Byddwn felly'n cefnogi gwelliant 1 a byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU ar yr angen i ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol i ganiatáu i hyn ddigwydd.

I do, however, have to oppose amendment 2, as the children's commissioner's office was set up as an independent organisation that holds Ministers fully to account. It is a human rights institution that complies with the Paris principles. It is already considered to be independent of Government and is scrutinised by the Assembly's committees. We have developed a memorandum of understanding that sets out the operational working arrangements between the Welsh Government and the children's commissioner to ensure that this independence is understood and maintained. Legislation dictates that the commissioner publishes his annual report no later than 31 October, and that the Welsh Government responds no later than 31 March. However, last year, I committed in Plenary to shortening the timescales for our response and I will issue the Welsh Government's full response by 30 November. I am also committed to providing the commissioner with full and comprehensive responses to the issues he raises as I believe that this is good practice.

Rhaid i mi, fodd bynnag, wrthwynebu gwelliant 2, gan fod swyddfa'r comisiynydd plant wedi ei sefydlu fel sefydliad annibynnol sy'n dwyn Gweinidogion i gyfrif yn llawn. Mae'n sefydliad hawliau dynol sy'n cydymffurfio ag egwyddorion Paris. Mae'n cael ei ystyried yn barod i fod yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae pwyllgorau'r Cynulliad yn craffu arni. Rydym wedi datblygu memorandwm o ddealltwriaeth sy'n nodi'r trefniadau gweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a'r comisiynydd plant er mwyn sicrhau bod yr annibyniaeth hon yn cael ei deall a'i chynnal. Mae deddfwriaeth yn mynnu bod y comisiynydd yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 31 Hydref, a bod Llywodraeth Cymru yn ymateb heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth. Fodd bynnag, y llynedd, ymrwymais yn y Cyfarfod Llawn i fyrhau'r amserlenni ar gyfer ein hymateb a byddaf yn cyhoeddi ymateb llawn Llywodraeth Cymru erbyn 30 Tachwedd. Rwyf wedi ymrwymo hefyd i ddarparu ymatebion llawn a chynhwysfawr i'r materion y mae'n eu codi i'r comisiynydd gan fy mod yn credu bod hyn yn arfer da.

4.15 p.m.

The commissioner's report identifies the work that he and his office have taken forward in 2011-12 and I congratulate him on his achievements on behalf of children and young people. It is vital that we have a strong and respected independent children's commissioner to champion the rights of children and young people and to hold organisations and services to account. I am aware that the Children and Young People Committee has met with the children's commissioner since his report was published and has spent time considering its contents. Our response to the report will take into account the committee's concerns where they relate to Government policies.

Mae adroddiad y comisiynydd yn nodi'r gwaith y mae ef a'i swyddfa wedi ei ddatblygu yn 2011-12 ac rwy'n ei longyfarch ar ei gyflawniadau ar ran plant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol bod gennym gomisiynydd plant annibynnol sy'n gryf ac uchel ei barch i hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc ac i ddwyn sefydliadau a gwasanaethau i gyfrif. Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi cwrdd â'r comisiynydd plant ers cyhoeddi ei adroddiad ac wedi treulio amser yn ystyried ei gynnwys. Bydd ein hymateb i'r adroddiad yn ystyried pryderon y pwyllgor lle maent yn berthnasol i bolisïau'r Llywodraeth.

As the report focuses on 2011-12, I am pleased to say that policies and developments have since moved on, and there have been many positive developments that will go some way to addressing some of the commissioner's concerns. For example, the commissioner, in his report calls for the Welsh Government to publish, as a matter of urgency, a tackling poverty plan. In June of this year, the Welsh Government published the tackling poverty action plan, setting out the effective interventions to prioritise lifting people, and particularly children, out of poverty as well as mitigating the impact of poverty.

Gan fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar 2011-12, rwy'n falch o ddweud bod polisïau a datblygiadau wedi symud ymlaen ers hynny, a bu datblygiadau cadarnhaol a fydd yn mynd beth o'r ffordd at roi sylw i rai o bryderon y comisiynydd. Er enghraifft, mae'r comisiynydd, yn ei adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi, fel mater o frys, gynllun mynd i'r afael â thlodi. Ym mis Mehefin eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun gweithredu mynd i'r afael â thlodi, sy'n nodi'r ymyriadau effeithiol i flaenoriaethu codi pobl, ac yn enwedig plant, allan o dlodi yn ogystal â lliniaru effaith tlodi.

The commissioner also set out his concern in relation to youth services; amendment 3 also refers to this. We support this amendment, as we value youth services as a way of providing informal learning, alternative experiences and support for our young people. The Minister for Education and Skills has stated his intention to bring forward a consultation on a revised national youth service strategy by May next year.

Mae'r comisiynydd hefyd yn amlinellu ei bryder mewn perthynas â gwasanaethau ieuenctid; mae diwygiad 3 hefyd yn cyfeirio at hyn. Rydym yn cefnogi'r gwelliant hwn, gan ein bod yn gwerthfawrogi gwasanaethau ieuenctid fel ffordd o ddarparu dysgu anffurfiol, profiadau gwahanol a chymorth ar gyfer ein pobl ifanc. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi datgan ei fwriad i gyflwyno ymgynghoriad ar strategaeth ddiwygiedig gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol erbyn mis Mai y flwyddyn nesaf.

The commissioner made reference to the importance of play for the development and wellbeing of children and young people. I am delighted that the Welsh Government is the first Government in the world to legislate for children's play, and the commencement of the duty on local authorities to assess for sufficient play opportunities for children in their areas is an important step in achieving our purpose.

Mae'r comisiynydd yn cyfeirio at bwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad a lles plant a phobl ifanc. Rwyf wrth fy modd mai Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer chwarae plant, ac mae cychwyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu ar gyfer cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd yn gam pwysig o ran cyflawni ein diben.

The commissioner continues to be concerned about children and young people seeking asylum and age assessments. It is a heartbreaking fact that children and young people are still arriving in the UK seeking refuge and safety. He acknowledges the publication of practice guidance by the all Wales child protection procedures group to promote the welfare of unaccompanied asylum-seeking/refugee children and young people in Wales. In line with this, the UK

Mae'r comisiynydd yn parhau i fod yn bryderus am blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches ac asesiadau oedran. Mae'n ffaith dorcalonnus bod plant a phobl ifanc yn dal i gyrraedd y DU yn ceisio lloches a diogelwch. Mae'n cydnabod cyhoeddi canllawiau arfer gan y grŵp gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru gyfan i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches/ffoaduriaid sydd ar eu pen eu hunain yng Nghymru. Yn unol â hyn, mae cyfarwyddwr rhanbarthol Cymru

Border Agency's regional director for Wales has asked the Wales migration partnership to look at a piece of work to establish clarity around the issues relating to the age assessment of these children. I welcome this work, the aim of which is to establish an all Wales agreement for the handling of age assessment cases with the best interests of the child always at the forefront of thinking.

Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi gofyn i bartneriaeth ymfudo Cymru i edrych ar ddarn o waith i sefydlu eglurder ynghylch y materion sy'n ymwneud ag asesu oedran y plant hyn. Rwy'n croesawu'r gwaith hwn, y nod yw sefydlu cytundeb Cymru gyfan ar gyfer ymdrin ag achosion asesu oedran gyda buddiannau gorau'r plentyn bob amser yn rheng flaen meddyliau.

In relation to the best interests of the child, we recognise that all parents may, at times, need support. I confirmed last October that the Welsh Government would not put forward legislation to ban smacking during the current Assembly term. Rather, we want to promote the benefits of positive parenting and provide information and support on safe, non-physical strategies and skills that parents can use. We provide a wide range of support for families, in all their forms, through some of our flagship programmes, including Families First, Communities First, Flying Start and integrated family support services. Parental support is offered in groups or on a one-to-one basis, with a mix of formal and informal support depending on the varying needs of families. The commissioner makes positive reference to family support programmes, such as Flying Start and Families First, in his report. Families First offers significant opportunities and increased funding to develop new and better ways to work with families. The programme emphasises the importance of ensuring early support that can help prevent families' problems escalating towards crisis. This programme rolled out across Wales in April 2012, and all local authorities are in the process of implementing their action plans and commissioning services to meet locally identified needs. Families First will work together with related Welsh Government programmes, including Flying Start and Communities First, to deliver an accessible, seamless service to communities in Wales. Together, they form a coherent response to the challenge of reducing the levels of child poverty. The social services Bill will further support and integrate services for families.

Mewn perthynas â buddiannau gorau'r plentyn, rydym yn cydnabod y gall pob rhiant, ar adegau, fod angen cymorth. Cadarnheais fis Hydref diwethaf na fyddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno deddfwriaeth i wahardd taro plant yn ystod tymor cyfredol y Cynulliad. Yn hytrach, rydym eisiau hyrwyddo manteision rhianta cadarnhaol a darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar strategaethau a sgiliau diogel, heb fod yn gorfforol y gall rhieni eu defnyddio. Rydym yn darparu amrywiaeth eang o gefnogaeth i deuluoedd, yn eu holl ffurfiau, drwy rai o'n rhaglenni blaenllaw, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a gwasanaethau cymorth i deuluoedd integredig. Mae cefnogaeth i rieni yn cael ei gynnig mewn grwpiau neu ar sail un-i-un, gyda chymysgedd o gymorth ffurfiol ac anffurfiol yn dibynnu ar anghenion amrywiol teuluoedd. Mae'r comisiynydd yn cyfeirio'n gadarnhaol at raglenni cymorth i deuluoedd, megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, yn ei adroddiad. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cyfleoedd sylweddol a chyllid cynyddol i ddatblygu ffyrdd newydd a gwell o weithio gyda theuluoedd. Mae'r rhaglen yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cefnogaeth gynnar a all helpu i atal problemau teuluoedd rhag gwaethygu tuag at argyfwng. Cyflwynwyd y rhaglen hon ar draws Cymru ym mis Ebrill 2012, ac mae pob awdurdod lleol yn y broses o roi eu cynlluniau gweithredu ar waith a chomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a nodwyd yn lleol. Bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio ynghyd â rhaglenni cysylltiedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn darparu gwasanaeth hygyrch, di-dor i gymunedau yng Nghymru. Gyda'i gilydd, maent yn llunio ymateb cydlynol i'r her o leihau lefelau tlodi plant. Bydd y Bil

gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi ac yn integreiddio gwasanaethau ymhellach ar gyfer teuluoedd.

While the commissioner has raised a number of concerns within his report, he has also highlighted areas where he feels that the Government should be commended. I would like to highlight another area that he particularly mentions. He has acknowledged the significant development of the passing of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. The commissioner has referred to this as 'groundbreaking', and states that he remains encouraged by our political will and commitment to the Measure.

Er bod y comisiynydd wedi codi nifer o bryderon o fewn ei adroddiad, mae wedi amlygu'r meysydd hefyd lle mae'n teimlo y dylai'r Llywodraeth gael ei chanmol. Hoffwn dynnu sylw at faes arall y mae'n sôn amdano'n arbennig. Mae wedi cydnabod y datblygiad sylweddol o basio'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r comisiynydd wedi cyfeirio at hyn fel rhywbeth 'arloesol', ac mae'n datgan ei fod yn parhau wedi'i galonogi gan ein hewyllys gwleidyddol a'n hymrwymiad i'r Mesur.

Wales remains a force in promoting a rights-based approach for children and establishing itself as the champion of children and young people's rights. We do this because not only is it the right thing to do, but also the one sure way to improve the wellbeing of every child and young person in Wales.

Mae Cymru'n parhau i fod yn rym mewn hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer plant a sefydlu ei hun fel hyrwyddwr hawliau plant a phobl ifanc. Rydym yn gwneud hyn nid yn unig am mai dyma'r peth iawn i'w wneud, ond hefyd am mai dyma'r un ffordd sicr o wella lles pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

These are just some of the issues that the commissioner has highlighted within his report, and I look forward to hearing Members' comments. The Welsh Government will listen carefully and we will respond fully in due course to each of the issues raised.

Dim ond rhai o'r materion yn unig yw'r rhain y mae'r comisiynydd wedi tynnu sylw atynt yn ei adroddiad, ac edrychaf ymlaen at glywed sylwadau'r Aelodau. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando'n astud a byddwn yn ymateb yn llawn maes o law i bob un o'r materion a godwyd.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at the end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Gomisiynydd Plant Cymru gyfrifoldeb dros faterion wedi eu datganoli a materion heb eu datganoli sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to ensure that the Children's Commissioner for Wales has responsibility for both devolved and non-devolved issues relating to children in Wales.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as a new point at the end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu trefniadau llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru, ac i ystyried gwneud y Comisiynydd*

*Calls on the Welsh Government to review governance arrangements for the Children's Commissioner for Wales and consider*

*yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach nag i'r Prif Weinidog yn unig.*

*making the Commissioner accountable to the National Assembly for Wales rather than solely to the First Minister.*

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliant 1 a 2 yn fy enw i ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

**Aled Roberts:** I move amendments 1 and 2 in my name on behalf of the Welsh Liberal Democrats.

Mae'n bwysig, yn y lle cyntaf, fy mod yn diolch i'r comisiynydd a'i staff am eu gwaith yn ystod y flwyddyn er budd plant Cymru. Rwyf hefyd yn croesawu'r cyfle hwn i drafod yr adroddiad a diolch i'r Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth am drefnu amser o fewn amserlen y Llywodraeth ar gyfer hynny.

It is important, first of all, that I thank the commissioner and his staff for their work over the past year for the benefit of the children of Wales. I also welcome this opportunity to discuss the report and thank the Deputy Minister and the Government for arranging Government time for this.

Mae perygl, wrth gwrs, wrth i ni wneud hyn yn flynyddol, ein bod yn ailadrodd nifer o feysydd lle mae'n ymddangos na fu newid byd ar lawr gwlad, er bod nifer o strategaethau a dogfennau wedi eu cyhoeddi gan y Llywodraeth. Fel y dywedodd Lynne Neagle ac eraill y llynedd ac yn y 18 mis diwethaf, rydym wedi sôn am deimlad o *déjà vu* wrth ddarllen yr adroddiad blynyddol dro ar ôl tro.

There is a danger, of course, that, in undertaking this task on an annual basis, we rehearse a number of issues where it appears that there has been no change at grass-roots level, although a number of strategies and documents have been published by the Government. As Lynne Neagle and others said last year and over the past 18 months, we have talked of a feeling of *déjà vu* in reading this annual report year on year.

Roedd cyhoeddusrwydd yr wythnos diwethaf ym mhapurau newydd y de-orllewin am broblemau parhaus o ran toiledau ysgolion. Rwy'n ymwybodol o un ysgol yn ardal Wrecsam lle mae plant yn dweud eu bod yn gwrthod mynd i'r toiled yn ystod y dydd oherwydd eu bod yn anfodlon â glendid y toiledau. Fodd bynnag, mae'r adroddiad, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, yn sôn am ddatblygiadau arwyddocaol ym maes hawliau plant yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys yr ymrwymiad i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg. Rydym hefyd wedi pasio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac wedi cymeradwyo'r cynllun plant a oedd yn gysylltiedig â'r Mesur hwnnw. Bu'n gyfnod, felly, o ddatblygiadau deddfwriaethol a pholisi pellgyrhaeddol i Lywodraeth Cymru.

There was some publicity last week in newspapers in south-west Wales about continued problems with school toilets. I am aware of one school in the Wrexham area where there are children who say that they refuse to go to the toilet during the day because they are unhappy with toilet hygiene levels. However, as the Deputy Minister said, the report does mention some significant developments in terms of the rights of children over the past year, including the commitment to double the number of children who benefit from Flying Start services. We have also passed the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, and approved the children scheme related to it. It has been, therefore, a period of far-reaching policy and legislative developments for the Welsh Government.

Fodd bynnag, gofynnir cwestiynau yn yr adroddiad hwn ynglŷn â gwasanaeth penodol cynghori o fewn ysgolion. Rhaid gofyn a yw'r ddarpariaeth ariannol yn ddigonol. Carwn glywed gan y Dirprwy Weinidog sut bydd y gofynion ar y gwasanaethau newydd hyn yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn. A yw'n fodlon bod y gwasanaeth yn gallu

However, there are also questions posed in this report on the specific counselling service in schools. It must be asked whether the financial provision is adequate. I would like to hear from the Deputy Minister how the requirements for these new services will be monitored over the year. Is she content that the service can provide effective and timely

cynnig cyngor effeithiol ac amserol?

advice?

O ran ein gwelliannau, mae gwelliant 1 yn delio â'r broses o ddiwygio swyddfa comisiynydd plant Lloegr, ac rwy'n falch iawn bod y Llywodraeth yn barod i gefnogi'r gwelliant hwn heddiw. Mae'r diwygiad hwn yn rhoi cyfle i ni ailgydio yn y drafodaeth ar ddeddfwriaeth y comisiynydd, ac yn gyfle hefyd i Lywodraeth Cymru gymryd rhan mewn dadl ehangach.

Turning to our amendments, amendment 1 deals with the process of changing the office of the children's commissioner for England, and I am pleased that the Government is willing to support this amendment today. This change gives us an opportunity to recommence the discussion on legislation related to the commissioner, and is an opportunity for the Welsh Government to participate in a wider debate.

There is an anomaly as far as the commissioner in Wales is concerned, when he finds himself unable to deal with a particular issue because it is not a devolved matter. A joint letter from the commissioners for Wales, Scotland and Northern Ireland was recently sent to the chair of the Joint Committee on Human Rights at the House of Commons, which included reference to a clear consensus that we should commend the UK Government's intention to address Dunford's recommendation that

Mae anghysondeb cyn belled ag y mae'r comisiynydd yng Nghymru yn y cwestiwn, pan mae'n canfod ei hun yn methu â delio â mater penodol am nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Cafodd llythyr ar y cyd gan y comisiynwyr ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ei anfon yn ddiweddar at gadeirydd y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol yn Nhŷ'r Cyffredin, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at gonsensws clir y dylem gymeradwyo bwriad Llywodraeth y DU i roi sylw i argymhelliad Dunford y

'children's commissioners should be responsible for the interests of children and young people who normally reside in their countries. If possible, this principle should be enshrined in law.'

dylai comisiynwyr plant fod yn gyfrifol am y buddiannau plant a phobl ifanc sydd fel arfer yn byw yn eu gwledydd. Os yn bosibl, dylai'r egwyddor hon gael ei hymgorffori yn y gyfraith.

There is, naturally, a concern that the ambiguities within the current situation are resolved. It is disappointing to note that, in reference to proposed reform, the commissioners' letter also states that it is

Yn naturiol, mae pryder bod yr amwysedd o fewn y sefyllfa bresennol yn cael eu datrys. Mae'n siomedig i nodi, wrth gyfeirio at ddiwygiad arfaethedig, bod llythyr y comisiynwyr hefyd yn datgan ei bod yn

'unclear to us to what extent the devolved Governments have engaged in this process and question whether or not there are constitutional conventions to be considered such as legislative consent motions.'

aneglur i ni i ba raddau y mae'r Llywodraethau datganoledig wedi cymryd rhan yn y broses ac yn holi p'un a oes confensiynau cyfansoddiadol i'w hystyried ai peidio megis cynigion cydsyniad deddfwriaethol.

I have been in correspondence with my colleagues in Westminster, and they are aware of our views on this issue. I know that they are looking at the legal implications, but I do not consider that the current proposal, that the English commissioner should undertake the inquiry and delegate it to the Welsh commissioner, is acceptable. Therefore, I want to hear from the Deputy

Rwyf wedi bod yn gohebu gyda fy nghydweithwyr yn San Steffan, ac maent yn ymwybodol o'n barn ar y mater hwn. Gwn eu bod yn edrych ar y goblygiadau cyfreithiol, ond nid wyf yn ystyried fod y cynnig presennol, y dylai comisiynydd Lloegr gynnal yr ymchwiliad a'i ddirprwyo i gomisiynydd Cymru, yn dderbyniol. Felly, hoffwn glywed gan y Dirprwy Weinidog o

Minister with regard to the steps being taken by the Welsh Government.

ran y camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru.

I accept the Deputy Minister's view with regard to the second amendment. That was drawn up as a result of evidence given by the commissioner to the Children and Young People Committee within the last month. He stated that the First Minister could remove him from office if he took the view that he was not performing as he should, but that he does not have a direct reporting relationship with him. The commissioner stated that he would feel more comfortable if he had a relationship with the National Assembly for Wales and the Senedd, and that is the meaning behind our second amendment.

Rwy'n derbyn safbwynt y Dirprwy Weinidog o ran yr ail welliant. Lluniwyd hwnnw o ganlyniad i dystiolaeth a roddwyd gan y comisiynydd i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc o fewn y mis diwethaf. Dywedodd y gallai'r Prif Weinidog ei ddiswyddo os yw ef o'r farn nad oedd yn perfformio fel y dylai, ond nad oes ganddo berthynas adrodd yn uniongyrchol gydag ef. Dywedodd y comisiynydd y byddai'n teimlo'n fwy cyfforddus pe bai ganddo berthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Senedd, a dyna'r ystyr y tu ôl ein hail welliant.

*Gwelliant 3—William Graham*

*Amendment 3—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod datganiad i'r wasg Comisiynydd Plant Cymru sy'n gysylltiedig ag Adroddiad Blynyddol 2011-12:*

*Notes that the Children's Commissioner for Wales' press release accompanying the Annual Report 2011-12:*

*a) yn cydnabod y pryderon a fynegwyd wrth Gomisiynydd Plant Cymru nad yw rhai pobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar wasanaethau ieuenctid o ansawdd da, ac nad yw gwasanaethau ieuenctid yn cael eu gwerthfawrogi ddigon; a*

*a) acknowledges concerns raised with the Children's Commissioner for Wales that some young people in Wales have no access to good quality youth services and that youth services are undervalued; and*

*b) yn galw am ymrwymiad cenedlaethol i gydnabod gwerth gwaith ieuenctid.*

*b) calls for a national commitment to recognise the value of youth work.*

**Mohammad Asghar:** I move amendment 3 in the name of William Graham.

**Mohammad Asghar:** Cynigiaf welliant 3 yn enw William Graham.

The Welsh Conservatives welcome the publication of this report, and I thank Keith Towler and his team for the work that they have done and are doing to change the lives of children and young people in Wales. In his report, the commissioner's analysis, key policies and development in each area are covered by the Welsh Government's aims. It is clear that he has concerns that need to be addressed in each area. I know that the Deputy Minister is doing a wonderful job, and I am sure that she will carry on doing that, putting forward on the world map the way that she is taking this forward.

Mae Ceidwadwyr Cymru yn croesawu cyhoeddi'r adroddiad hwn, a diolch i Keith Towler a'i dîm am y gwaith y maent wedi'i wneud ac yn ei wneud i newid bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ei adroddiad, mae dadansoddiad, polisïau allweddol a datblygiad y comisiynydd ym mhob ardal yn cael eu cynnwys gan amcanion Llywodraeth Cymru. Mae'n amlwg fod ganddo bryderon y mae angen mynd i'r afael â nhw ym mhob ardal. Gwn fod y Dirprwy Weinidog yn gwneud gwaith gwych, ac rwy'n siŵr y bydd yn parhau i wneud hynny, gan roi'r ffordd y mae hi'n datblygu hyn ar fap y byd.

Recent events have only too clearly demonstrated the need for an effective system of child advocacy in Wales. It is 12 years since the publication of the Waterhouse report, yet the children's commissioner states that

Mae digwyddiadau diweddar wedi dangos yn rhy glir yr angen am system effeithiol o eiriolaeth plant yng Nghymru. Mae'n 12 mlynedd ers cyhoeddi adroddiad Waterhouse, ac eto dywed y comisiynydd plant bod

'some of Wales' most vulnerable children and young people remain unaware of their entitlement to have an independent professional advocate to represent their views'.

rhai o blant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru yn dal yn anymwybodol o'u hawl i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol i gynrychioli eu safbwyntiau.

We must ensure that all children and young people are made aware of their entitlement to advocacy and are able to access it when necessary. Similarly, young carers have distinct needs and a right to the childhood that they deserve. According to the Carers Trust, 11,000 carers in Wales are children, which is a staggering figure, Deputy Minister. I am sure that you are doing wonderful job for carers as well, but I am concerned that the commissioner expresses his disappointment that the carers strategies guidance, which was issued to local health boards and local authorities, does not adequately reflect and give sufficient prominence to the distinct needs of young carers.

Rhaid i ni sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawl i eiriolaeth ac yn gallu cael mynediad ato pan fo angen. Yn yr un modd, mae gan ofalwyr ifanc anghenion arbennig a hawl i gael y plentyndod y maent yn ei haeddu. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, mae 11,000 o ofalwyr yng Nghymru yn blant, sydd yn ffigur syfrdanol, Ddirprwy Weinidog. Rwy'n siŵr eich bod yn gwneud gwaith gwych ar gyfer gofalwyr yn ogystal, ond rwy'n pryderu bod y comisiynydd yn mynegi ei siom nad oedd y canllawiau strategaethau ar gyfer gofalwyr, a gyhoeddwyd i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, yn adlewyrchu anghenion penodol gofalwyr ifanc yn ddigonol nac yn rhoi digon o amlygrwydd iddynt.

He goes on to say that the respite needs of young carers are different from those of the majority of carers, who tend to be older. Respite service provision will fall short of what is necessary as a result. We owe a considerable debt to our young carers, and respite is vital if they are to be allowed to have a childhood of their own. We need to ensure that there is a clear focus on the needs of the child. Respite breaks for the carers of disabled children and young people are important, as they provide an opportunity for the disabled to participate in leisure and play activities to promote independence.

Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod anghenion seibiant gofalwyr ifanc yn wahanol i rai'r mwyafrif o ofalwyr, sy'n tueddu i fod yn hŷn. Bydd darpariaeth gwasanaethau seibiant yn brin o'r hyn sy'n angenrheidiol o ganlyniad. Mae arnom ni ddyled sylweddol i'n gofalwyr ifanc, ac mae gofal seibiant yn hanfodol os ydynt am gael yr hawl i gael plentyndod eu hunain. Mae angen i ni sicrhau bod ffocws clir ar anghenion y plentyn. Mae seibiannau i ofalwyr plant anabl a phobl ifanc yn bwysig, gan eu bod yn rhoi cyfle i bobl anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a gweithgareddau chwarae i hybu annibyniaeth.

4.30 p.m.

However, the commissioner states that the Welsh Government's review of Families First pioneers,

Fodd bynnag, noda'r comisiynydd fod adolygiad Llywodraeth Cymru o arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf,

‘contains very little reference to specific support for disabled children and young people and their families.’

yn cynnwys fawr ddim cyfeiriad at gefnogaeth benodol i blant a phobl ifanc anabl a’u teuluoedd.

I ask the Deputy Minister to consider this point and to see what more can be done to support our young disabled people.

Gofynnaf i’r Dirprwy Weinidog ystyried y pwynt hwn ac i weld beth y gellir ei wneud i gefnogi ein pobl ifanc anabl.

We also need to do more to support young people leaving care who are starting to live life independently. It is concerning to read that looked-after children and young people leaving care are often not aware of their rights and entitlements and could miss out on the support that they need. The commissioner also raises the issue of educational outcomes for looked-after children, noting that only 60% were supported by timely personal educational plans last year. The Deputy Minister must address these issues urgently to give looked-after children and young people the best start that we can provide them in life.

Mae angen i ni hefyd wneud mwy i gynorthwyo pobl ifanc sy’n gadael gofal sy’n dechrau byw bywyd annibynnol. Mae’n peri pryder i ddarllen bod plant sy’n derbyn gofal a phobl ifanc sy’n gadael gofal yn aml yn anymwybodol o’u hawliau a’u hawliadau a gallant fethu â chael y cymorth sydd ei angen. Mae’r comisiynydd hefyd yn codi mater canlyniadau addysgol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, gan nodi mai dim ond 60% oedd yn cael eu cefnogi gan gynlluniau addysgol personol amserol y llynedd. Rhaid i’r Dirprwy Weinidog fynd i’r afael â’r materion hyn ar frys i roi’r cychwyn gorau y gallwn ei roi iddynt mewn bywyd i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal.

I also ask the Deputy Minister to say a few words about youth work. We all recognise the valuable contribution that youth work makes to the education and the development of our young people. The commissioner has concerns that the current youth strategy in Wales has been due for an update since 2010 and that the statutory guidance on the youth support service is also overdue for review. I ask the Deputy Minister to address those delays and to ensure that the strategy and guidance are updated to keep them relevant and effective. We must not allow the impression to be given that we undervalue youth work and the positive results that it delivers for young people and our society as a whole.

Gofynnaf hefyd i’r Dirprwy Weinidog i ddweud ychydig eiriau am waith ieuenctid. Rydym i gyd yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae gwaith ieuenctid yn ei wneud i addysg a datblygiad ein pobl ifanc. Mae gan y comisiynydd bryderon bod y strategaeth ieuenctid ar hyn o bryd yng Nghymru wedi bod yn barod am ddiweddariad ers 2010 a’i bod yn hen bryd hefyd adolygu’r canllawiau statudol ar y gwasanaeth cymorth ieuenctid. Gofynnaf i’r Dirprwy Weinidog fynd i’r afael â’r oediadau hyn a sicrhau bod y strategaeth a’r canllawiau yn cael eu diweddaru i’w cadw’n berthnasol ac yn effeithiol. Rhaid i ni sicrhau na roddir yr argraff ein bod yn tanbrisio gwaith ieuenctid a’r canlyniadau cadarnhaol y mae’n eu darparu ar gyfer pobl ifanc a’n cymdeithas yn ei chyfanrwydd.

In this report, the children’s commissioner has raised many concerns and made a number of recommendations. The Welsh Government must now act and deliver the improvements in the lives of children and young people that we all want to see in Wales.

Yn yr adroddiad hwn, mae’r comisiynydd plant wedi codi nifer o bryderon a gwnaeth nifer o argymhellion. Rhaid i Lywodraeth Cymru yn awr weithredu a chyflwyno’r gwelliannau ym mywydau plant a phobl ifanc yr ydym i gyd eisiau eu gweld yng Nghymru.

**Leanne Wood:** As we have all been sadly reminded by recent events, the Children’s

**Leanne Wood:** Fel y cawsom i gyd ein hatgoffa yn anffodus gan ddigwyddiadau

Commissioner for Wales came into existence following the Waterhouse inquiry into abuses at care homes. The commissioner has recently called for a reappraisal of that investigation in the light of fresh allegations that were alleged not to have been dealt with by the original inquiry. Two investigations have subsequently been announced by the UK Government in London, one looking into the allegations of abuse in care homes and the other looking at whether the Waterhouse inquiry was properly carried out. At times like this, when question marks have been raised about the actions or inactions of the police, the children's commissioner's office is a welcome independent space. It is crucial, therefore, that it is properly resourced in order to deal with the people who come forward and to ensure the proper investigation of all complaints.

diweddar, daeth Comisiynydd Plant Cymru i fodolaeth yn dilyn ymchwiliad Waterhouse i achosion o gamdriniaeth mewn cartrefi gofal. Mae'r comisiynydd yn ddiweddar wedi galw am ailystyried yr ymchwiliad hwnnw yng ngoleuni'r honiadau newydd yr honnwyd nad oedd yr ymchwiliad gwreiddiol wedi ymdrin â nhw. Mae dau ymchwiliad dilynol wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU yn Llundain, un yn edrych i mewn i honiadau o gam-drin mewn cartrefi gofal a'r llall yn edrych ar p'un a gynhaliwyd ymchwiliad Waterhouse yn briodol. Ar adegau fel hyn, pan fo cwestiynau wedi cael eu codi am weithredu neu ddiffyg gweithredu'r heddlu, mae swyddfa'r comisiynydd plant yn lle annibynnol i'w groesawu. Mae'n hanfodol, felly, ei fod yn cael adnoddau priodol er mwyn delio â'r bobl sy'n dod ymlaen ac i sicrhau ymchwiliad priodol i bob cwyn.

We must take particular care to support those people who are now adults who were abused as children, people who are particularly vulnerable now when they see images on the tv and so on, as well as ensuring a strong and independent advocacy service for those who are in the system today. All of this costs, of course, but we have no choice. It is a point that I have made during First Minister's questions, and I hope that the First Minister has listened to that call and will actively ensure that this takes place. We should be able to guarantee advocacy to every child in the care system. Is that something that we can guarantee now? I very much doubt it. Is this not a good time to get that system right?

Mae'n rhaid i ni gymryd gofal arbennig i gefnogi'r bobl hynny sydd bellach yn oedolion a gafodd eu cam-drin fel plant, pobl sydd yn arbennig o agored i niwed yn awr pan fyddant yn gweld lluniau ar y teledu ac yn y blaen, yn ogystal â sicrhau gwasanaeth eiriolaeth cryf ac annibynnol i'r rhai sydd yn y system heddiw. Mae hyn i gyd yn costio, wrth gwrs, ond nid oes gennym unrhyw ddewis. Mae'n bwynt yr wyf wedi ei wneud yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, ac rwy'n gobeithio bod y Prif Weinidog wedi gwrando ar yr alwad honno ac y bydd yn mynd ati i sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylem fod yn gallu gwarantu eiriolaeth i bob plentyn yn y system ofal. A yw hynny'n rhywbeth y gallwn warantu yn awr? Rwy'n amau hynny'n fawr. Onid yw hwn yn amser da i gael y system honno'n iawn?

In our 2011 election manifesto, Plaid Cymru recommended some changes to the children's commissioner's responsibilities. We argued then that the commissioner should be answerable to, and therefore appointed by, the Assembly and not the Government, as is the case at present. We are of the view that this would do a lot to inspire confidence in the independence of the role of the office of the children's commissioner.

Yn ein maniffesto ar gyfer etholiad 2011, argymhellodd Plaid Cymru rai newidiadau i gyfrifoldebau'r comisiynydd plant. Roeddem yn dadlau bryd hynny y dylai'r comisiynydd fod yn atebol i, ac wedi ei benodi felly gan, y Cynulliad ac nid y Llywodraeth, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rydym o'r farn y byddai hyn yn gwneud llawer i ysbrydoli hyder yn annibyniaeth rôl swyddfa'r comisiynydd plant.

The final point that I would like to make in relation to the latest abuse developments regards the importance of protection for

Mae'r pwynt olaf yr hoffwn ei wneud mewn perthynas â'r datblygiadau cam-drin diweddaraf yn ymwneud â phwysigrwydd

whistleblowers. We need to make sure that those who have information are prepared to come forward, but, following the *Newsnight* programme, people are now less likely to come forward. Therefore, a review of whistleblowing legislation to see what can be done to improve the safety, the confidentiality and the livelihoods of those who have information and want to share it would be helpful. I would be grateful for a response from the Deputy Minister on that specific point.

diogelwch ar gyfer chwythwyr chwiban. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y rhai sydd â gwybodaeth yn barod i ddod ymlaen, ond, yn dilyn y rhaglen *Newsnight*, mae pobl yn awr yn llai tebygol o ddod ymlaen. Felly, byddai adolygiad o ddeddfwriaeth chwythu'r chwiban i weld beth ellir ei wneud i wella diogelwch, cyfrinachedd a bywoliaeth y rhai sydd â gwybodaeth ac eisiau ei rhannu yn ddefnyddiol. Byddwn yn ddiolchgar am ymateb gan y Dirprwy Weinidog ar y pwynt penodol hwnnw.

We also believe that the children's commissioner should have a role in areas that are not yet devolved, such as youth justice, broadcasting and responsibilities over refugee children. I welcome the Deputy Minister's remarks on refugee children. There should be concerted attempts now to negotiate those changes to the responsibilities of the children's commissioner with Westminster. Of course, we cannot discuss children's rights without accepting that we still have legislation that allows children to be hit under the excuse of lawful chastisement, under section 58 of the Children Act 2004. The children's commissioner has supported a change in the law. His message to Assembly Members said this:

Rydym hefyd yn credu y dylai'r comisiynydd plant fod â rôl mewn meysydd sydd heb eu datganoli eto, megis cyfiawnder ieuenctid, darlledu a chyfrifoldebau dros blant sy'n ffoaduriaid. Rwy'n croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog ar blant sy'n ffoaduriaid. Dylai fod ymdrechion ar y cyd yn awr i drafod y newidiadau hynny i gyfrifoldebau'r comisiynydd plant gyda San Steffan. Wrth gwrs, ni allwn drafod hawliau plant heb dderbyn bod gennym ddeddfwriaeth o hyd sy'n caniatáu i blant gael eu taro o dan esgus cerydd cyfreithlon, o dan adran 58 o Ddeddf Plant 2004. Mae'r comisiynydd plant wedi cefnogi newid yn y gyfraith. Roedd ei neges i Aelodau'r Cynulliad, yn dweud hyn:

'Children are the only people in the UK who can be hit without consequences. Children should be entitled to the same level of protection as adults.'

Plant yw'r unig bobl yn y DU y gellir eu taro heb ganlyniadau. Dylai plant gael yr hawl i'r un lefel o amddiffyniad ag oedolion.

'There is no such thing as a safe smack.'

Nid oes y fath beth â tharo diogel.

'A change in legislation will help shift attitudes and behaviour related to assaulting children'.

Bydd newid mewn deddfwriaeth yn helpu newid agweddau ac ymddygiad yn ymwneud ag ymosod ar blant.

That call was supported here in the National Assembly by 20 votes to 13 in that backbench debate. A similar call has been made by the Archbishop of Wales today, on Universal Children's Day. If we are serious about the promotion of children's rights, we should now be prepared to move beyond the voluntary approach on this, and we should be prepared to seek the power and change the law as soon as is practically possible.

Cefnogwyd yr alwad honno yma yn y Cynulliad Cenedlaethol o 20 pleidlais i 13 yn y ddadl meinciau cefn honno. Mae galwad tebyg wedi cael ei wneud gan Archesgob Cymru heddiw, ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant. Os ydym o ddifrif am hyrwyddo hawliau plant, dylem bellach fod yn barod i symud y tu hwnt i'r dull gwirfoddol ar hyn, a dylem fod yn barod i ofyn am y pŵer a newid y gyfraith cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

**Julie Morgan:** I also welcome the fifth

**Julie Morgan:** Rwyf finnau'n croesawu

annual report of the children's commissioner for 2011-12. As has already been said, the Children's Commissioner for Wales was the first children's commissioner in the UK, and we have led the way in developing a children's rights agenda. The importance of this independent office has been shown in recent months with the allegations that have swirled around about Jimmy Savile and the original Waterhouse inquiry.

pumed adroddiad blynyddol y comisiynydd plant ar gyfer 2011-12. Fel y dywedwyd eisoes, Comisiynydd Plant Cymru oedd y comisiynydd plant cyntaf yn y DU, ac rydym wedi arwain y ffordd wrth ddatblygu'r agenda hawliau plant. Mae pwysigrwydd y swyddfa annibynnol hon wedi cael ei ddangos yn ystod y misoedd diwethaf â'r honiadau sydd wedi chwyrlïo o gwmpas am Jimmy Savile a'r ymchwiliad Waterhouse gwreiddiol.

I support amendment 1 in the name of Aled Roberts, and I believe that the children's commissioner should have responsibility for devolved and non-devolved matters. I think that it is a very unsatisfactory situation that exists at the moment, and I cannot believe that a fair deal is done for children in Wales on some of the issues that are non-devolved. This debate has gone on since the children's commissioner was set up, and when the legislation was discussed at Westminster, this was the same issue that was constantly raised. I hope that we will be able to make some progress on that. I think that the office of the children's commissioner is beginning to have an effect on the way that children are thought of in Wales, and the Deputy Minister has highlighted the progress that has been made, while acknowledging that there is still a long way to go.

Rwy'n cefnogi gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a chredaf y dylai'r comisiynydd plant fod yn gyfrifol am faterion datganoledig a materion heb eu datganoli. Rwy'n credu ei bod yn sefyllfa anfoddhaol iawn sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac ni allaf gredu bod bargen deg yn cael ei gwneud ar gyfer plant yng Nghymru ar rai o'r materion hynny sydd heb eu datganoli. Mae'r ddadl hon wedi mynd ymlaen ers sefydlu'r comisiynydd plant, a phan drafodwyd y ddeddfwriaeth yn San Steffan, dyma'r mater a godwyd yn gyson. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu gwneud rhywfaint o gynnydd ar hynny. Credaf fod swyddfa'r comisiynydd y plant yn dechrau cael effaith ar y ffordd y mae plant yn cael eu hystyried yng Nghymru, ac mae'r Dirprwy Weinidog wedi tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud, tra'n cydnabod bod ffordd bell i fynd .

In his report, the commissioner refers to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which says that we must have due regard to children's rights when forming or changing policy. In his briefing for this debate, the children's commissioner says that it is too early to see the impact that this legislation is having at the moment. I think that it is too early to say, but he does draw attention to the fact that there are examples of Welsh Government policy where the consideration of the rights of children seems to be making an impact. He particularly referred to the intention to remove the intentionality test for households with children in the housing White Paper. I think that that is a good example because, for any of us who have dealt with people who are deemed to be intentionally homeless, and have problems with children becoming homeless, it is absolutely essential that this goes forward. It is a good example of how

Yn ei adroddiad, mae'r comisiynydd yn cyfeirio at Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n dweud bod rhaid i ni roi sylw dyledus i hawliau plant wrth lunio neu newid polisi. Yn ei friffio ar gyfer y ddadl hon, mae'r comisiynydd plant yn dweud ei bod yn rhy gynnar i weld yr effaith y mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei chael ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl ei bod yn rhy gynnar i ddweud hynny, ond mae'n tynnu sylw at y ffaith bod enghreifftiau o bolisi Llywodraeth Cymru lle mae'n ymddangos bod ystyriaeth o hawliau plant yn cael effaith. Cyfeiriodd yn benodol at y bwriad i gael gwared ar y prawf bwriadoldeb ar gyfer aelwydydd â phlant yn y Papur Gwyn tai. Credaf fod hynny'n enghraifft dda oherwydd, i unrhyw un ohonom sydd wedi delio â phobl sy'n cael eu hystyried yn ddigartref yn fwriadol, ac sy'n cael problemau gyda phlant yn dod yn ddigartref, mae'n gwbl hanfodol bod hyn yn cael ei ddatblygu. Mae'n enghraifft dda o sut

children's rights are being considered. The children's commissioner suggested that there should be a children's rights impact assessment with every consultation document, and I think that that is important and that we should do that. I would welcome the Deputy Minister's views on that.

mae hawliau plant yn cael eu hystyried. Awgrymodd y comisiynydd plant y dylai fod asesiad effaith o hawliau plant gyda phob dogfen ymgynghori, ac rwy'n meddwl fod hynny'n bwysig ac y dylem wneud hynny. Byddwn yn croesawu barn y Dirprwy Weinidog ar hynny.

The opportunities and the support that we offer to our children in Wales must be one of the most important things that we do as an Assembly and as a Government. At lunchtime, the Gypsies and Travellers cross-party group held a meeting about the education of Gypsy and Traveller children in Wales. Some of the disturbing key issues that came out were the racism and bullying that some Gypsy/Traveller children have experienced, particularly in secondary schools. We had mothers at the meeting saying that they would not send their children to school again to experience that extent of racism. We also heard some good examples of sensitivity in the transition to secondary education, and the fact that the numbers of Gypsy/Traveller children are going up. There is a long way to go, certainly for every child in the Gypsy and Traveller community to fulfil their potential, and I hope that the children's commissioner will continue to play a role in that. I would be interested to know the Deputy Minister's views on that as well.

Mae'n rhaid i'r cyfleoedd a'r gefnogaeth a gynigir gennym i'n plant yng Nghymru fod yn un o'r pethau mwyaf pwysig a wnawn fel Cynulliad ac fel Llywodraeth. Amser cinio, cynhaliodd y grŵp trawsbleidiol Sipsiwn a Theithwyr gyfarfod am addysg plant Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Rhai o'r materion annymunol allweddol a nodwyd oedd yr hiliaeth a'r bwlio y mae rhai plant Sipsiwn / Teithwyr wedi eu profi, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Cawsom famau yn y cyfarfod yn dweud na fyddent yn anfon eu plant i'r ysgol eto i brofi'r graddau hynny o hiliaeth. Clywsom hefyd rai enghreifftiau da o sensitifrwydd yn y pontio i addysg uwchradd, a'r ffaith fod niferoedd plant Sipsiwn / Teithwyr yn cynyddu. Mae ffordd bell i fynd, yn sicr ar gyfer pob plentyn yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr i gyflawni eu potensial, ac rwy'n gobeithio y bydd y comisiynydd plant yn parhau i chwarae rhan yn hynny. Byddai gennyf ddiddordeb i wybod barn y Dirprwy Weinidog ar hynny hefyd.

I want to end by drawing the Assembly's attention to a vigil that is being held this evening, on Universal Children's Day, which has already been referred to, by Barry Morgan, the Archbishop of Wales, on ending legalised violence against children. The children's commissioner does refer to this in his report, and welcomes the fact that this debate has been opened up again in this Assembly in the context of the rights of children and young people in Wales. I believe that this is a fundamental issue, and I hope that we will be able to make some progress in this debate in this Assembly. Universal Children's Day also marks the day on which the United Nations adopted the declaration and convention on the rights of the child. Basically, I think that it is a fundamental right of any child that they should not be hit.

Rwyf am gloi trwy dynnu sylw'r Cynulliad at wylnos sy'n cael ei chynnal heno, ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant, y cyfeiriwyd ati eisoes, gan Barry Morgan, Archesgob Cymru, ar roi terfyn ar drais cyfreithlon yn erbyn plant. Mae'r comisiynydd plant yn cyfeirio at hon yn ei adroddiad, ac yn croesawu'r ffaith bod y ddadl wedi cael ei hagor eto yn y Cynulliad hwn yng nghyd-destun hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Credaf fod hwn yn fater sylfaenol, ac rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu gwneud rhywfaint o gynnydd yn y ddadl hon yn y Cynulliad hwn. Mae Diwrnod Byd-eang y Plant hefyd yn nodi'r diwrnod pan wnaeth y Cenhedloedd Unedig fabwysiadu'r datganiad a'r confensiwn ar hawliau'r plentyn. Yn y bôn, yr wyf yn credu ei bod yn hawl sylfaenol unrhyw blentyn na ddylid eu taro.

**Suzy Davies:** Thank you for the opportunity to speak in this debate. Perhaps I could begin

**Suzy Davies:** Diolch am y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Efallai y gallwn ddechrau drwy

by thanking the commissioner and his staff for this year's report. For the role of the children's commissioner to be genuinely valuable, it needs to be independent, as Leanne Wood noted—fearlessly and fiercely independent. Policy makers did not need a quango, they needed a critical friend, and so do law makers. That is why we will be supporting amendment 2 as well as some of the others.

ddiolch i'r comisiynydd a'i staff am adroddiad eleni. Er mwyn i rôl y comisiynydd plant fod yn wirioneddol werthfawr, mae angen iddi fod yn annibynnol, fel y nododd Leanne Wood—yn eofn ac yn benderfynol annibynnol. Nid oedd gwneuthurwyr polisi angen cwango, roeddent angen cyfaill beirniadol, a dyna mae gwneuthurwyr cyfraith ei angen. Dyna pam y byddwn yn cefnogi gwelliant 2 yn ogystal â rhai o'r lleill.

The independence of the role of the children's commissioner is an intrinsic part of its success, protecting the holder of the post from any claim of political interference and giving children and young people confidence that their views will be taken seriously and not weighed against competing calls on the commissioner's loyalties.

Mae annibyniaeth rôl y comisiynydd plant yn rhan annatod o'i lwyddiant, gan ddiogelu deiliad y swydd rhag unrhyw honiad o ymyriad gwleidyddol a rhoi hyder i blant a phobl ifanc y bydd eu barn yn cael ei gymryd o ddifrif ac nid yn cael ei bwyso yn erbyn galwadau sy'n cystadlu ar deyrngarwch y comisiynydd.

This year's report acknowledges a number of achievements for both the commissioner and the Welsh Government, and it is right that we as an Assembly should acknowledge them too. Nevertheless, the commissioner's independence means that he is free to draw our attention to those unresolved problems that are becoming just a little too familiar and hoary. I see that other Members have spotted this, too. On that subject, I would like to pick up and develop a point made by Mohammad Asghar regarding advocacy services for children and young people. The Waterhouse report of 2000—which is very much in the news at the moment—not only recommended the establishment of an independent children's commissioner for Wales, but the establishment of independent advocacy services for children and young people too. In that same year, 12 years ago, a Welsh Assembly Government report made specific references to the need for advocacy provision to be established. In 2003, almost three years later, national standards for the provision of advocacy services were published by the Government. In the same year, the children's commissioner reported that many of the Waterhouse recommendations about advocacy services were implemented inconsistently throughout Wales. Responding to the commissioner's 2003 findings and recommendations, the then Minister for Health and Social Services said:

Mae adroddiad eleni yn cydnabod nifer o gyflawniadau ar ran y comisiynydd a Llywodraeth Cymru, ac mae'n iawn y dylem eu cydnabod hefyd fel Cynulliad. Serch hynny, mae annibyniaeth y comisiynydd yn golygu ei fod yn rhydd i dynnu ein sylw at y problemau hynny sydd heb eu datrys sy'n dod braidd yn rhy gyfarwydd ac oesol. Gwelaf fod Aelodau eraill wedi sylwi ar hyn, hefyd. Ar y pwnc hwnnw, hoffwn godi a datblygu pwynt a wnaed gan Mohammad Asghar ynghylch gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Roedd adroddiad Waterhouse o 2000—sydd yn amlwg iawn yn y newyddion ar hyn o bryd—nid yn unig yn argymell y dylid sefydlu comisiynydd plant annibynnol ar gyfer Cymru, ond y dylid sefydlu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd. Yn yr un flwyddyn, 12 mlynedd yn ôl, gwnaeth adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfeiriadau penodol at yr angen i sefydlu darpariaeth eiriolaeth. Yn 2003, bron i dair blynedd yn ddiweddarach, cyhoeddwyd safonau cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth gan y Llywodraeth. Yn yr un flwyddyn, adroddodd y comisiynydd plant fod llawer o argymhellion Waterhouse ynghylch gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu rhoi ar waith mewn modd anghyson ledled Cymru. Gan ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion 2003 y comisiynydd, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

‘I want this service to be available to all children across Wales but I realise that this is not going to happen overnight’.

Rwyf am i’r gwasanaeth fod ar gael i bob plentyn ar draws Cymru, ond rwy’n sylweddoli nad yw hyn yn mynd i ddigwydd dros nos.

That has certainly been borne out, has it not? The shaggy dog story of advocacy services is a classic example of how Government obsession with process, followed by incomplete delivery and monitoring, has diverted attention from the big question: what about the results?

Mae hynny’n sicr wedi ei gadarnhau, onid yw? Mae stori ddiddiwedd gwasanaethau eiriolaeth yn enghraifft glasurol o sut y mae obsesiwn y Llywodraeth â phroses, wedi’i ddilyn gan ddosbarthiad a monitro anghyflawn, wedi dargyfeirio sylw oddi wrth y cwestiwn mawr: beth am y canlyniadau?

In 2004, the Welsh Government established the advocacy development and performance unit. In the same year, the Children Act imposed further duties upon local authorities to ascertain the wishes and feelings of children in need and those who are looked after. However, in 2005, another Welsh Government report concluded that advocacy provision for children in Wales was still patchy and inconsistent. It took until 2008 to see the new service framework for the future provision of advocacy services in Wales, with its national advocacy boards, its advocacy development and performance unit within the Welsh Government, an all-Wales advocacy and advice service, and a locally and regionally commissioned integrated specialist advice and advocacy service. There is nothing like a little bureaucracy to liven up the tale.

Yn 2004, sefydlodd Llywodraeth Cymru yr uned datblygu eiriolaeth a pherfformiad. Yn yr un flwyddyn, gosododd y Ddeddf Plant ddyletswyddau pellach ar awdurdodau lleol i ganfod dymuniadau a theimladau plant mewn angen a’r rhai sy’n derbyn gofal. Fodd bynnag, yn 2005, daeth adroddiad arall Llywodraeth Cymru i’r casgliad bod y ddarpariaeth eiriolaeth ar gyfer plant yng Nghymru yn dal yn fylchog ac yn anghyson. Cymerodd tan 2008 i weld y fframwaith gwasanaeth newydd ar gyfer y ddarpariaeth gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru yn y dyfodol, gyda’i byrddau eiriolaeth cenedlaethol, ei huned datblygu eiriolaeth a pherfformiad o fewn Llywodraeth Cymru, gwasanaeth eiriolaeth a chynghori Cymru gyfan, a gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth arbenigol integredig a gomisiynwyd yn lleol ac yn rhanbarthol Nid oes dim byd tebyg i ychydig o fiwrocratiaeth i fywiogi’r stori.

In the same year, the Minister rejected the Children and Young People Committee recommendation for the establishment of a transparent, centrally funded national advocacy unit with responsibility for commissioning independent advocacy services. In 2009, the Welsh Government, understanding that its newly introduced bureaucratic structures were obscuring rather than illuminating the way to a happy ending for the advocacy story, issued guidance for delivering advocacy services for children and young people in Wales.

Yn yr un flwyddyn, gwrthododd y Gweinidog argymhelliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar gyfer sefydlu uned eiriolaeth genedlaethol dryloyw, a ariennir yn ganolog gyda chyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol. Yn 2009, gan ddeall bod ei strwythurau biwrocrataidd oedd newydd eu cyflwyno yn cuddio yn hytrach nag yn taflu goleuni ar y ffordd at ddiwedd hapus i’r stori eiriolaeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

4.45 p.m.

Critically, it required advocacy providers to be independent of the organisations commissioning the service. However, this

Yn allweddol, mae’n ofynnol i ddarparwyr eiriolaeth fod yn annibynnol ar y sefydliadau sy’n comisiynu’r gwasanaeth. Fodd bynnag,

guidance was only advisory, and in September 2010—the advocacy story is already becoming the political equivalent of a three-volume novel—the Assembly's Children and Young People Committee piled in with yet another report, with recommendations, lamenting the general lack of progress in implementing the Welsh Government's advocacy model. We go on. Between January and April 2011, the Welsh Government consulted on statutory guidance to replace the current advisory guidance. When the children's commissioner published his report in the late spring of this year, 2012, we were still waiting for that guidance. By then, the commissioner had managed to bring out another report suggesting how to bring this epic saga of reviews, recommendations and random implementation to a conclusion. He stated that

ymgynghorol yn unig oedd yr arweiniad hwn, ac ym mis Medi 2010—mae'r stori eiriolaeth eisoes yn dod yr hyn sy'n cyfateb yn wleidyddol i nofel dair cyfrol —ymwthiodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad i mewn gydag adroddiad arall eto, gydag argymhellion, yn gresynu at y diffyg cynnydd cyffredinol o ran gweithredu model eiriolaeth Llywodraeth Cymru. Awn ymlaen. Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2011, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ganllawiau statudol i ddisodli'r canllawiau cynghori presennol. Pan gyhoeddodd y comisiynydd plant ei adroddiad ar ddiwedd y gwanwyn eleni, 2012, roeddem yn dal i aros am yr arweiniad. Erbyn hynny, roedd y comisiynydd wedi llwyddo i ddod ag adroddiad arall yn awgrymu sut i ddod â'r saga epig hon o adolygiadau, argymhellion a gweithredu ar hap i'w therfyn. Dywedodd fod

'some of Wales' most vulnerable children and young people remain unaware of their entitlement to have an independent professional advocate to represent their views'.

rhai o blant mwyaf agored i niwed a phobl ifanc Cymru yn aros yn anymwybodol o'u hawl i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol i gynrychioli eu barn.

Wales has been on the advocacy journey for over 10 years, following the publication of Waterhouse, and yet it finds itself without a clear set of checks and balances to ensure that all children and young people with an entitlement to advocacy have a genuine opportunity to access it.

Mae Cymru wedi bod ar y daith eiriolaeth ers dros 10 mlynedd, yn dilyn cyhoeddi Waterhouse, ac eto mae'n cael ei hun heb gyfres glir o wiriadau a chydbwysedd er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â hawl i eiriolaeth yn cael cyfle gwirioneddol i gael mynediad ati.

This should not have been an epic saga. This is not *One Thousand and One Nights*—it is 4,000 nights since the argument on effective independent advocacy services was made. That is 4,000 nights when a child may not have felt confident enough to speak out, perhaps against those who they were told to trust, but whom they could not trust.

Ni ddylai hyn fod wedi bod yn saga epig. Nid *One Thousand and One nights* yw hyn—mae'n 4,000 o nosweithiau ers gwneud y ddadl ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol effeithiol. Dyna 4,000 o nosweithiau pan nad oedd plentyn efallai wedi teimlo'n ddigon hyderus i godi'i lais, efallai yn erbyn y rhai y dywedwyd wrthynt ymddiried ynddynt, ond na allent ymddiried ynddynt.

**Christine Chapman:** First, I want to put on record my thanks to the children's commissioner and his team for the work that they do on behalf of the children and young people of Wales. I believe that the tenth anniversary last year of the office of the children's commissioner was a real milestone in the progress that we have made in Wales and the groundbreaking way that we have put the voice of children and young people at the

**Christine Chapman:** Yn gyntaf, rwyf am gofnodi fy niolch i'r comisiynydd plant a'i dîm am y gwaith y maent yn ei wneud ar ran plant a phobl ifanc Cymru. Credaf fod degfed pen-blwydd swyddfa'r comisiynydd plant y llynedd yn garreg filltir go iawn yn y cynnydd yr ydym wedi'i wneud yng Nghymru a'r ffordd arloesol yr ydym wedi rhoi llais plant a phobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn .

heart of all we do.

As the children's commissioner states in his report, this is about ensuring that children and young people achieve lasting positive change in their lives, regardless of their circumstances and background. I am pleased that the children's commissioner has reminded us of the important role that the Children and Young People Committee has played in this and the fact that the committee, in this new Assembly, was maintained and strengthened. While there is much to celebrate, we need to be aware of where the gaps are, so that all our young people can achieve their potential.

Fel y dywed y comisiynydd plant yn ei adroddiad, mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni newid cadarnhaol parhaol yn eu bywydau, beth bynnag fo'u hamgylchiadau a'u cefndir. Rwy'n falch bod y comisiynydd plant wedi'n atgoffa am y rôl bwysig y mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi'i chwarae yn hyn a'r ffaith bod y pwyllgor, yn y Cynulliad newydd hwn, wedi cael ei gynnal a'i gryfhau. Er bod llawer i'w ddathlu, mae angen i ni fod yn ymwybodol o ble mae'r bylchau, fel y gall pob un o'n pobl ifanc gyflawni eu potensial.

First, in his report, the children's commissioner refers to child and adolescent mental health services. I certainly agree with his sentiment that mental health and emotional wellbeing are significant factors in the lives of children and young people, and it is their right to access timely interventions to ensure that their mental health and wellbeing can be secured. The new legislation is, of course, welcome, but we must ensure that it filters down to every young person who needs it—as an Assembly Member, I regret the times when I encounter parents of young people who are not getting the help that they need. As Chair of the Children and Young People Committee, I can certainly say that there have been times when, in carrying out our scrutiny role, we have been left unconvinced as to the priority that health boards, for example, have given to CAMHS. Therefore, I would welcome the Deputy Minister's observations on that.

Yn gyntaf, yn ei adroddiad, mae'r comisiynydd plant yn cyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Yn sicr, cytunaf â'i farn bod iechyd meddwl a lles emosiynol yn ffactorau arwyddocaol ym mywydau plant a phobl ifanc, ac mae ganddynt hawl i gael mynediad at ymyriadau amserol i sicrhau y gellir diogelu eu hiechyd meddwl a'u lles. Mae'r ddeddfwriaeth newydd, wrth gwrs, i'w chroesawu, ond rhaid inni sicrhau ei bod yn treiddio i lawr i bob person ifanc sydd ei hangen—fel Aelod Cynulliad, rwy'n gresynu at yr adegau pan fyddaf yn dod ar draws rhieni pobl ifanc nad ydynt yn cael y cymorth y maent ei angen. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, gallaf ddweud yn sicr y bu adegau, wrth gyflawni ein rôl graffu, pan oeddem heb ein hargyhoeddi ynghylch y flaenoriaeth y mae byrddau iechyd, er enghraifft, wedi'i rhoi i CAMHS. Felly, byddwn yn croesawu sylwadau'r Dirprwy Weinidog ar hynny.

Secondly, being a parent is tough at times, but parents of children with special needs and mental health problems face added pressures in relation to many aspects of their lives. Most parents are affected emotionally by their child's diagnosis and can experience feelings of denial, anger, confusion and powerlessness. They also have a real fear of what the future holds for their child, which is entirely understandable. Therefore, I welcome the fact that the children's commissioner, in his report, picks up on the increase in appeals concerned with the content of special educational need statements. I am aware of these problems,

Yn ail, mae bod yn rhiant yn anodd ar adegau, ond mae rhieni plant ag anghenion arbennig a phroblemau iechyd meddwl yn wynebu mwy o bwysau mewn perthynas â sawl agwedd ar eu bywydau. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn cael eu heffeithio yn emosiynol gan ddiagnosis eu plentyn a gallant brofi teimladau o wadu, dicter, dryswch a diffyg grym. Mae ganddynt hefyd ofn go iawn o'r hyn sydd yn y dyfodol ar gyfer eu plentyn, sy'n gwbl ddealladwy. Felly, croesawaf y ffaith bod y comisiynydd plant, yn ei adroddiad, yn tynnu sylw at y cynnydd mewn apeliadau sy'n ymwneud â chynnwys y datganiadau anghenion addysgol

due to casework that I am dealing with—along with other Members—and I am pleased that the Minister is acting on this, and I look forward to seeing the conclusions of the recent consultation and subsequent legislation that will be brought forward on reforming special educational needs.

arbennig. Rwy'n ymwybodol o'r problemau hyn, o ganlyniad i waith achos yr wyf yn ymdrin ag o—ynghyd ag Aelodau eraill—ac rwy'n falch bod y Gweinidog yn gweithredu ar hyn, ac edrychaf ymlaen at weld y casgliadau o'r ymgynghoriad diweddar a deddfwriaeth ddilynol a fydd yn cael eu gweithredu ar ddiwygio anghenion addysgol arbennig.

Finally, I want to say that I fully support the remarks on smacking made by Leanne Wood and Julie Morgan.

Yn olaf, hoffwn ddweud fy mod yn llwyr gefnogi'r sylwadau ar daro plant a wnaed gan Leanne Wood a Julie Morgan.

**Lindsay Whittle:** I, too, would like to thank the commissioner for his wide-ranging report. In this debate, I want to focus on two particular issues about which he has shown some concern—concerns that I share.

**Lindsay Whittle:** Hoffwn innau hefyd ddiolch i'r comisiynydd am ei adroddiad eang ei gwmpas. Yn y ddadl hon, rwyf am ganolbwyntio ar ddau fater penodol y mae wedi dangos rhywfaint o bryder ynglŷn â nhw—pryder yr wyf yn ei rannu.

I share his concern about the needs of young carers, and I will speak about that later. However, a concern that I share with a passion relates to the issue of not smacking children. As the report points out, the vexed question of whether to ban the smacking of children has occupied the Welsh Government for the past 10 years. That is far too long. Despite a general cross-party consensus that smacking children should not be tolerated, and despite a motion to that effect having been agreed some months ago, we have yet to see this Government take action to legislate on this matter. Deputy Minister, I appeal to you to change your mind on this, please.

Rhannaf ei bryder am anghenion gofalwyr ifanc, a byddaf yn siarad am hynny yn nes ymlaen. Fodd bynnag, mae pryder yr wyf yn ei rannu'n angerddol yn ymwneud â mater o beidio â tharo plant. Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae'r cwestiwn dadleuol a ddylid gwahardd taro plant wedi meddiannu Llywodraeth Cymru ers y 10 mlynedd diwethaf. Mae hynny yn llawer rhy hir. Er gwaethaf consensws trawsbleidiol cyffredinol na ddylid goddef taro plant, ac er gwaethaf cynnig i'r perwyl hwnnw wedi ei gytuno rai misoedd yn ôl, nid ydym eto wedi gweld y Llywodraeth yn cymryd camau i ddeddfu ar y mater hwn. Ddirprwy Weinidog, rwy'n apelio arnoch i newid eich meddwl ar hyn, os gwelwch yn dda.

In appointing a children's commissioner, the Welsh Government led the way. It was a bold move and England followed. I like saying that sentence; I really do. However, that joy is short lived. Today, we are tarred with the same brush as England, because the United Nations has slated Britain as one of just five countries in Europe that has not banned what amounts to physical assault on children by parents or other carers. I have received very few comments from members of the public who oppose a ban. A few who were against me included ministers of the cloth churning out the old cliché, 'Well, it didn't do me any harm'. However, when I read about the abuse of children in certain religious quarters, I am

Wrth benodi comisiynydd plant, mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd. Roedd yn gam mentrus a dilynodd Lloegr. Rwy'n hoffi dweud y frawddeg yna; ydw wir Fodd bynnag, llawenydd byrhoedlog yw hwnnw. Heddiw, nid oes modd dewis rhyngom ni a Lloegr, oherwydd bod y Cenhedloedd Unedig wedi beirniadu Prydain fel un o ddim ond pum gwlad yn Ewrop nad yw wedi gwahardd yr hyn sy'n gyfystyr ag ymosodiad corfforol ar blant gan rieni neu ofalwyr eraill. Ychydig iawn o sylwadau yr wyf wedi'u derbyn gan aelodau o'r cyhoedd sy'n gwrthwynebu gwaharddiad. Roedd rhai a oedd yn fy erbyn yn cynnwys gweinidogion yr efengyl yn corddi'r hen ystrydeb, 'Wel, ni

tempted to take those statements and treat them with the contempt they deserve.

wnaeth unrhyw ddrwg i mi'. Fodd bynnag, pan wyf yn darllen am gam-drin plant mewn cylchoedd crefyddol penodol, rwy'n cael fy nhemtio i gymryd y datganiadau hynny a'u trin gyda'r dirmyg y maent yn ei haeddu.

Just as the Assembly was the first legislative body to appoint a children's commissioner in the United Kingdom, I want it to be the first to pass a law banning smacking and throwing out the defence of reasonable chastisement. As far as children and physical punishment are concerned, we are still in the dark ages when, in Britain, the 'rule of thumb' meant that a husband could assault his wife if the stick he was using was no thicker than his thumb. The term 'domestic abuse' should also include the abuse of children. Let us not forget that it was not that long ago that the police would often turn a blind eye to physical assault when it was a 'domestic incident'. Unless we act now to ban the smacking of children, we can be accused of adopting the same excuse. We can say, 'Yes, the parent physically assaulted the child, but it was a domestic incident'. That is not on.

Yn union fel mai'r Cynulliad oedd y corff deddfwriaethol cyntaf i benodi comisiynydd plant yn y Deyrnas Unedig, rwyf am iddo fod y cyntaf i basio deddf gwahardd taro plant a chael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol. Cyn belled ag y mae plant a chosb gorfforol yn y cwestiwn, rydym yn dal i fod yn yr oesoedd tywyll pan, ym Mhrydain, roedd 'synnwyr y fawd' yn golygu y gallai gŵr ymosod ar ei wraig os nad oedd y ffon yr oedd yn ei defnyddio yn fwy trwchus na'i fawd. Dylai'r ymadrodd 'cam-drin domestig' hefyd gynnwys cam-drin plant. Gadewch inni beidio ag anghofio nad oedd mor bell yn ôl pan fyddai'r heddlu yn aml yn troi llygad ddall i ymosodiad corfforol pan oedd yn 'ddigwyddiad domestig'. Oni bai ein bod yn gweithredu nawr i wahardd taro plant, gallwn gael ein cyhuddo o fabwysiadu'r un esgus. Gallwn ddweud, 'Do, fe wnaeth y rhiant ymosod yn gorfforol ar y plentyn, ond roedd yn ddigwyddiad domestig'. Nid yw hynny'n dderbyniol.

The other issue on which the report urges the Welsh Government to take more positive action is on protecting the rights of young carers and responding to their needs. At the moment, according to the commissioner, the guidance offered by the Welsh Government does not fully recognise the special needs of young carers. Will that be put right in the revised carers strategy? I certainly hope so, Minister. I am relying on you.

Y mater arall y mae'r adroddiad yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau mwy cadarnhaol arno yw ar warchod hawliau gofalwyr ifanc ac ymateb i'w hanghenion. Ar hyn o bryd, yn ôl y comisiynydd, nid yw'r arweiniad a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod anghenion arbennig gofalwyr ifanc. A fydd yn cael ei unioni yn y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer gofalwyr? Rwy'n sicr yn gobeithio hynny, Weinidog. Rwy'n dibynnu arnoch chi.

The Welsh Government needs to make it absolutely clear to health boards and local authorities that young carers—many of whom are in primary schools, can you believe it?—deserve the fullest possible help and support, so that their task as family carers does not jeopardise their school performance or, indeed, more importantly, their physical and emotional wellbeing. The Welsh Government prides itself on putting children first. Let us see that promise translated into action with regard to the banning of the smacking of children and actively promoting

Mae angen i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn gwbl glir i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol bod gofalwyr ifanc—mae llawer ohonynt mewn ysgolion cynradd, allwch chi gredu hynny?—yn haeddu'r cymorth a'r gefnogaeth lawnaf posibl, fel nad yw eu tasg fel gofalwyr teuluol yn peryglu eu perfformiad ysgol neu, yn wir, yn bwysicach, eu lles corfforol ac emosiynol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymfalchïo mewn rhoi plant yn gyntaf. Gadewch inni weld yr addewid honno'n cael ei throi yn weithred mewn perthynas â gwahardd taro plant a

the rights and needs of young carers. We owe it to the children of Wales.

mynd ati i hyrwyddo hawliau ac anghenion gofalwyr ifanc. Mae arnom ni hynny i blant Cymru.

**Kenneth Skates:** Thank you for allowing me to speak in this debate today. I join other Members in welcoming the annual report. It has been a difficult and challenging few months for everyone involved in child protection right across the UK. The recent nation-wide focus on the north Wales child abuse scandal has reopened a lot of very important questions with regard to how we can and should be supporting our most vulnerable children and young people in care. In many respects, the scandal has never gone away. It has, for the last 10 years, rightly shaped much of our child safeguarding agenda and has been central to the efforts, led ably by the Deputy Minister for Social Services, to refocus the system of support for people in the care system.

**Kenneth Skates:** Diolch i chi am ganiatáu imi siarad yn y ddadl hon heddiw. Ymunaf ag Aelodau eraill wrth groesawu'r adroddiad blynyddol. Mae wedi bod yn ychydig fisoedd anodd a heriol i bawb sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ar draws y DU. Mae'r ffocws diweddar ledled y wlad ar sgandal cam-drin plant gogledd Cymru wedi ailagor llawer o gwestiynau pwysig iawn ynglŷn â sut y gallwn a sut y dylwn gefnogi ein plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed mewn gofal. Mewn sawl ffordd, nid yw'r sgandal erioed wedi mynd i ffwrdd. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'n briodol wedi rhoi siâp i lawer o'n hagenda diogelu plant ac mae wedi bod yn ganolog i ymdrechion, o dan arweiniad medrus gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, i newid ffocws y system o gefnogaeth i bobl yn y system ofal.

I would like to make a few brief points. It is certainly not overstating the case to say that the child abuse crimes that took place in north Wales were truly abhorrent and vile and a stain on our national reputation. Our primary duty now is to put politics aside and get to the truth in a full, frank and considered way that ensures that victims get justice and that young people in the future are better protected from harm. It is widely accepted that many important lessons came out of the Waterhouse report, as well as the establishment of the Children's Commissioner for Wales. However, one of the important questions that we now need to answer is whether the restraints of the original inquiry meant that some of the victims were not given their say and that some lessons about what happened were not learned.

Hoffwn wneud ychydig o bwyntiau byr. Yn sicr, nid yw'n gorliwio'r achos i ddweud bod y troseddau cam-drin plant a ddigwyddodd yng ngogledd Cymru yn wirioneddol ffiaidd a chywilyddus ac yn staen ar ein henw da cenedlaethol. Ein prif ddyletswydd yn awr yw rhoi gwleidyddiaeth o'r neilltu a chael at y gwir mewn ffordd lawn, onest ac ystyriol sy'n sicrhau bod dioddefwyr yn cael cyfiawnder a bod pobl ifanc yn y dyfodol yn cael eu hamddiffyn yn well rhag niwed. Mae'n cael ei dderbyn yn eang bod gwersi pwysig wedi deillio o adroddiad Waterhouse yn ogystal â sefydlu Comisiynydd Plant Cymru. Fodd bynnag, un o'r cwestiynau pwysig y mae angen inni ei ateb yw a yw cyfyngiadau'r ymchwiliad gwreiddiol yn golygu nad yw rhai o'r dioddefwyr yn cael dweud eu dweud a bod rhai gwersi am yr hyn a ddigwyddodd heb eu dysgu.

Deputy Presiding Officer, if the review commissioned by the Prime Minister into the Waterhouse report reveals that there were failings in the remit of the original report, the fact that nobody in the last 12 years has acted on those shortcomings should trouble us all. If there is substance to the claim that Waterhouse missed key issues, all of us, including the children's commissioner, need

Ddirprwy Lywydd, os bydd yr adolygiad a gomisiynwyd gan y Prif Weinidog i adroddiad Waterhouse yn dangos bod methiannau yng nghylch gorchwyl yr adroddiad gwreiddiol, dylai'r ffaith nad oes neb yn ystod y 12 mlynedd diwethaf wedi gweithredu ar y diffygion hyn ein poeni ni i gyd. Os oes sylwedd i'r honiad bod Waterhouse wedi methu materion allweddol,

to take account of these and address them. However, following on from this, there are other big questions that need to be addressed. In my view, and as suggested in this year's report, we need a much wider debate about children and young people in care. We have come a long way in the last 10 to 15 years, particularly in the field of child safeguarding, with young people much better protected than they once were. However, the cases of grooming gangs in Rochdale, Rotherham and elsewhere show that major failures in child protection can and still occur in our communities. Therefore, we may need a comprehensive lessons learned review, possibly jointly led by children's commissioners from across the UK, to pull together the findings from all the current inquiries into institutional child abuse and paedophile rings to inform current and future practice on child protection.

mae angen i bob un ohonom, gan gynnwys y comisiynydd plant, ystyried y rhain ac ymdrin â hwy. Fodd bynnag, gan ddilyn ymlaen o hyn, mae cwestiynau mawr eraill y mae angen rhoi sylw iddynt. Yn fy marn i, ac fel yr awgrymwyd yn adroddiad eleni, mae arnom angen dadl ehangach o lawer am blant a phobl ifanc mewn gofal. Rydym wedi dod yn bell yn y 10 i 15 mlynedd diwethaf, yn enwedig ym maes diogelu plant, gyda phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn yn llawer gwell nag yr oeddent ar un adeg. Fodd bynnag, mae achosion o gangiau meithrin perthynas amhriodol yn Rochdale, Rotherham ac mewn mannau eraill yn dangos y gall methiannau mawr mewn amddiffyn plant ddigwydd ac maent yn dal i ddigwydd yn ein cymunedau. Felly, efallai y bydd angen adolygiad cynhwysfawr o'r gwersi a ddysgwyd, o bosibl wedi'i arwain ar y cyd gan gomisiynwyr plant o bob cwr o'r DU, er mwyn dwyn ynghyd y canfyddiadau o'r holl ymholiadau presennol i gam-drin plant sefydliadol a chylchoedd pedoffilyddion i lywio arferion cyfredol ac yn y dyfodol ar amddiffyn plant.

We also need to place this debate in a much wider context. It is still a tragic fact that children in care do less well in school than their peers not in care. They are more likely to have mental health problems, more likely to live in poverty after they leave care, and more likely to end up in prison than those not in care. The children's commissioner is clear in his report that the cost of such problems to the public purse can be significant. Indeed, the report highlights that every young person not in education, employment or training costs around £97,000 over their lifetime, rising to £300,000, depending on the benefits they claim. It is clear from the report and from much of the work that I have done with care leavers, that we need a far greater emphasis, both in our public policy and in our national discourse, on looking at support for young people in care not as empty expenditure, but as an investment in futures that helps us to fulfil our important role as good corporate parents.

Mae angen hefyd i roi'r ddadl hon mewn cyd-destun llawer ehangach. Mae'n dal i fod yn ffaith ofnadwy nad yw plant mewn gofal yn gwneud cystal yn yr ysgol a'u cyfoedion nad ydynt mewn gofal. Maent yn fwy tebygol o gael problemau iechyd meddwl, yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ar ôl iddynt adael gofal, ac yn fwy tebygol o ddiweddu yn y carchar na'r rhai nad ydynt mewn gofal. Mae'r comisiynydd plant yn glir yn ei adroddiad y gall cost problemau o'r fath fod yn sylweddol i bwrs y wlad. Yn wir, mae'r adroddiad yn amlygu bod pob person ifanc nad yw mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn costio o gwmpas £ 97,000 yn ystod eu hoes, yn codi i £300,000, yn dibynnu ar y budd-daliadau y maent yn eu hawlio. Mae'n amlwg o'r adroddiad ac o lawer o'r gwaith yr wyf wedi ei wneud gyda'r rhai sy'n gadael gofal, bod angen llawer mwy o bwyslais, yn ein polisi cyhoeddus ac yn ein trafodaeth genedlaethol, ar edrych ar gymorth i bobl ifanc mewn gofal nid fel gwariant gwag, ond fel buddsoddiad mewn dyfodol sy'n ein helpu i gyflawni ein rôl bwysig fel rhieni corfforaethol da.

In conclusion, much of the coverage over the

I gloi, mae llawer o'r sylw dros yr wythnosau

last few weeks has referred to 'historical' accusations of child abuse. There is nothing historical about it: the pain, the hurt and the damage done by those abusers lives on with the victims day in, day out, in their nightmares and will live with them forever. We cannot undo the past, but we must bring justice to those mistreated and prevent these terrible things from happening again. With the goodwill being expressed in this Chamber, I am hopeful that we can put in place the important building blocks to help make this happen.

diwethaf wedi cyfeirio at gyhuddiadau 'hanesyddol' o gam-drin plant. Nid oes dim hanesyddol am y peth: mae'r boen, y niwed a'r difrod a wnaed gan y rhai sy'n cam-drin yn parhau gyda'r dioddefwyr ddydd ar ôl dydd, yn eu hunllefau a bydd yn aros gyda nhw am byth. Ni allwn dadwneud y gorffennol, ond mae'n rhaid i ni ddod â chyfiawnder i'r rhai sy'n cam-drin ac atal y pethau ofnadwy hyn rhag digwydd eto. Gyda'r ewyllys da sy'n cael ei fynegi yn y Siambr hon, rwy'n obeithiol y gallwn roi'r blociau adeiladu pwysig ar waith i helpu i wneud i hyn ddigwydd.

**Rebecca Evans:** In his report, the children's commissioner looks forward to the publication by the Welsh Government of its all-Wales protocol on sexually harmful behaviour, which was issued for consultation in November 2011. I congratulate the Welsh Government on identifying the need for a national, co-ordinated and consistent approach to managing and supporting children who demonstrate sexually harmful behaviour, and I join the commissioner in looking forward to the publication of the protocol. There is also a prevention and education agenda that we must engage with. Only this week, we have heard disturbing reports in the media that 24 police forces across the UK have arrested children under the age of 13 on suspicion of rape, and a further seven forces have detained 10-year-old children on suspicion of rape. The research found that some 357 children aged under 18 were convicted of sex crimes, including rape, sexual assaults on other children, grooming, incest and taking or possessing indecent images of minors. Experts warn that many of these crimes will go unreported, so the actual figures are likely to be higher.

**Rebecca Evans:** Yn ei adroddiad, mae'r comisiynydd plant yn edrych ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei phrotocol Cymru gyfan ar ymddygiad rhywiol niweidiol, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2011. Rwy'n llongyfarch Llywodraeth Cymru am nodi'r angen am ymagwedd genedlaethol, cyd-drefnedig a chyson i reoli a chefnogi plant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol, ac rwy'n ymuno â'r comisiynydd mewn edrych ymlaen at gyhoeddi'r protocol. Mae agenda atal ac addysg hefyd y mae'n rhaid inni ymgysylltu â hi. Dim ond yr wythnos hon, rydym wedi clywed adroddiadau sy'n peri pryder yn y cyfryngau bod 24 o heddluoedd ar draws y DU wedi arestio plant o dan 13 oed ar amheuaeth o drais rhywiol, a saith o heddluoedd arall wedi cadw plant 10 oed ar amheuaeth o dreisio. Canfu'r gwaith ymchwil fod rhyw 357 o blant o dan 18 oed yn euog o droseddau rhyw, gan gynnwys treisio, ymosodiadau rhywiol ar blant eraill, meithrin perthynas amhriodol, llosgach a thynnu neu feddu ar ddelweddau anweddus o blant dan oed. Mae arbenigwyr yn rhybuddio y bydd llawer o'r troseddau hyn yn mynd heb eu hadrodd, felly mae'r ffigurau gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch.

5.00 p.m.

There is a growing body of evidence to suggest that there is a direct link between children committing sexual assaults and having easy access to hardcore and violent online pornography. The link is reported by both academic researchers and professionals working on the front line with children and young people, including teachers and the

Mae corff cynyddol o dystiolaeth i awgrymu bod cysylltiad uniongyrchol rhwng plant yn cyflawni ymosodiadau rhywiol a chael mynediad hawdd i bornograffi caled a threisgar ar-lein. Mae'r cysylltiad yn cael ei adrodd gan ymchwilwyr academaidd a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar y rheng flaen gyda phlant a phobl ifanc, gan

police. Earlier this year, a cross-party independent parliamentary inquiry into online child protection found that children as young as 11 are finding themselves addicted to online pornography. It reported that viewing inappropriate sexual and violent content has a serious impact on children and young people's development, from diminishing their sympathy for victims of sexual assault to reducing their own inhibitions and making them more vulnerable to abuse or exploitation.

gynnwys athrawon a'r heddlu. Yn gynharach eleni, canfu ymchwiliad annibynnol trawsbleidiol seneddol i amddiffyn plant ar-lein fod plant mor ifanc ag 11 oed yn cael eu hunain yn gaeth i bornograffi ar-lein. Roedd yn adrodd bod gwylio cynnwys rhywiol a threisgar amhriodol yn cael effaith ddifrifol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc, o leihau eu cydymdeimlad â dioddefwyr ymosodiadau rhywiol i leihau eu swildod eu hunain a'u gwneud yn fwy agored i gamdriniaeth neu gam-fanteisio.

Some young people are growing up with completely unrealistic and unhealthy expectations of themselves and others, in respect of both body image and personal relationships. Dealing with this issue is not the sole responsibility of parents and guardians, although their role is vital. It is a common theme that some parents feel unsure of what their children are doing online and unaware of the safety tools that can prevent their children from seeing inappropriate content on their mobile phones and computers. There is a role for Government in supporting parents to access the information and help that is out there for them. There is also a role for internet service providers and social network sites in ensuring the welfare of children and young people online. I am pleased that there is currently a debate in Parliament as to how this can best be addressed. Some of my Labour colleagues at Westminster are promoting opt-in systems for adult content.

Mae rhai pobl ifanc yn tyfu i fyny gyda disgwyliadau hollol afrealistig ac afiach ohonynt eu hunain ac eraill, mewn perthynas â delwedd y corff a pherthynas bersonol. Nid cyfrifoldeb rhieni a gwarcheidwaid yn unig yw delio â'r mater hwn, er bod eu rôl yn hanfodol. Mae'n thema gyffredin bod rhai rhieni'n teimlo'n ansicr o'r hyn y mae eu plant yn ei wneud ar-lein ac yn anymwybodol o'r offer diogelwch a all atal eu plant rhag gweld cynnwys amhriodol ar eu ffonau symudol a'u cyfrifiaduron. Mae rôl i'r Llywodraeth wrth gefnogi rhieni i gael mynediad at y wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae rôl hefyd i ddarparwyr gwasanaeth rhyngrwyd a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol wrth sicrhau lles plant a phobl ifanc ar-lein. Rwy'n falch bod dadl ar hyn o bryd yn Senedd y DU ar y ffordd orau i fynd i'r afael â hyn. Mae rhai o fy nghydweithwyr Llafur yn San Steffan yn hyrwyddo systemau optio i mewn ar gyfer cynnwys oedolion.

The online world presents us with child protection and welfare issues that simply were not there 10 or 20 years ago, but we have to confront them head on. Supporting the online welfare of children and young people must also extend to offering protection from other potentially harmful sites, such as those that promote suicide, anorexia, gambling and violence. There is also a role for us all in supporting children's online welfare, and the Government must ensure that parents, teachers, school nurses, school counsellors, youth workers, police and others who interact with children have all the information and tools that they need to support and promote online welfare. It is right that this Government has made safeguarding children a priority.

Mae'r byd ar-lein yn cyflwyno materion amddiffyn a lles plant i ni nad oeddent yn bodoli 10 neu 20 mlynedd yn ôl, ond mae'n rhaid i ni eu hwynebu yn uniongyrchol. Rhaid bod cefnogi lles ar-lein plant a phobl ifanc yn ymestyn hefyd i gynnig amddiffyniad rhag safleoedd eraill a allai fod yn niweidiol, megis y rhai sy'n hyrwyddo hunanladdiad, anorecsia, gamblo a thrais. Mae rôl i ni i gyd hefyd mewn cefnogi lles plant ar-lein, a rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod rhieni, athrawon, nyrsys ysgol, cwnselwyr ysgol, gweithwyr ieuenctid, yr heddlu ac eraill sy'n rhyngweithio â phlant yn cael yr holl wybodaeth a'r offer sydd eu hangen arnynt i gefnogi a hyrwyddo lles ar-lein. Mae'n iawn fod y Llywodraeth hon wedi gwneud diogelu plant yn flaenoriaeth.

Finally, we must be careful not to demonise the children who develop addictions or those who commit crimes as a result of the content that they view. A number of them will have been victims of abuse themselves. The forthcoming protocol on sexually harmful behaviour must underline the importance of the welfare and rehabilitation of child offenders, and offer them some basic guarantees. Article 40 of the United Nations Convention on the Rights of the Child states that any child who is found to have broken the law must be treated in a manner that promotes the child's sense of dignity and self-worth, which reinforces the child's respect for the human rights and fundamental freedoms of others. Those are the values that should be at the core of how we approach children who display sexually harmful behaviour and how we approach the online welfare of children more generally. I share the commissioner's hope that the protocol will be closely monitored and implemented, and I look forward to its publication as soon as possible.

Yn olaf, mae'n rhaid i ni fod yn ofalus na fyddwn yn demoneiddio'r plant sy'n ddibynnol ar rywbeth neu'r rhai sy'n cyflawni troseddau o ganlyniad i'r cynnwys y maent yn ei weld. Bydd nifer ohonynt wedi bod yn ddioddefwyr camdriniaeth eu hunain. Mae'n rhaid i'r protocol arfaethedig ar ymddygiad rhywiol niweidiol bwysleisio pwysigrwydd lles ac adsefydlu troseddwyr sy'n blant, a chynnig rhai gwarantau sylfaenol iddynt. Mae Erthygl 40 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod rhaid i unrhyw blentyn y canfyddir sydd wedi torri'r gyfraith gael ei drin mewn ffordd sy'n hyrwyddo synnwyr y plentyn o urddas a hunanwerth, sy'n atgyfnerthu parch y plentyn ar gyfer hawliau dynol a rhyddid sylfaenol pobl eraill. Dyna'r gwerthoedd a ddylai fod wrth wraidd sut yr ydym yn ymdrin â phlant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a sut yr ydym yn ymdrin â lles ar-lein plant yn fwy cyffredinol. Rwy'n rhannu gobaith y comisiynydd y bydd y protocol yn cael ei fonitro'n agos a'i weithredu, ac edrychaf ymlaen at weld ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I will not have time to take every one of these important points individually. I would like to start with a reference to the Waterhouse issue. The Welsh Government takes the further allegations of child abuse in north Wales during the 1970s and 1980s very seriously indeed. Following calls for a further inquiry, the First Minister met the children's commissioner, Keith Towler, to hear his thoughts directly. The First Minister has asked for urgent advice on the terms of reference of the Waterhouse inquiry at the time it was set up, so that we can understand what was included and what was excluded.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Ni fydd gennyf amser i ymateb i bob un o'r pwyntiau pwysig hyn yn unigol. Hoffwn ddechrau gyda chyfeiriad at fater Waterhouse. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr honiadau pellach o gam-drin plant yng ngogledd Cymru yn ystod y 1970au a'r 1980au yn ddifrifol iawn yn wir. Yn dilyn galwadau am ymchwiliad pellach, cyfarfu'r Prif Weinidog â'r comisiynydd plant, Keith Towler, i glywed ei feddyliau yn uniongyrchol. Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn am gyngor ar frys ar gylch gorchwyl ymchwiliad Waterhouse ar yr adeg y cafodd ei sefydlu, fel y gallwn ddeall yr hyn gafodd ac na chafodd ei gynnwys.

The Welsh Government welcomes the swift engagement of the Prime Minister and the Secretary of State for Wales, whom I met yesterday. We are discussing with the UK Government the proposal for an investigation into the Waterhouse report. I would stress once again that victims who feel that they were abused, are suffering, and that their

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymrwymiad cyflym y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y cyfarfûm ag ef ddoe. Rydym yn trafod gyda Llywodraeth y DU y cynnig ar gyfer ymchwiliad i adroddiad Waterhouse. Hoffwn bwysleisio unwaith eto bod dioddefwyr sy'n teimlo eu bod wedi cael eu cam-drin, yn dioddef, a

claims have not been investigated should raise their concerns with the police. The Welsh Government will engage with the Home Office as the North Wales Police investigation gets under way. We are currently in the process of identifying and collating any historic information that we may hold relating to the allegations of child abuse in north Wales. That information will then be made available to the appropriate investigative authorities.

dylai'r ffaith nad yw eu honiadau wedi cael eu hymchwilio godi pryderon gyda'r heddlu. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Swyddfa Gartref wrth i ymchwiliad Heddlu Gogledd Cymru gychwyn. Rydym ar hyn o bryd yn y broses o nodi a choladu unrhyw wybodaeth hanesyddol a allai fod gennym yn ymwneud â honiadau o gam-drin plant yng ngogledd Cymru. Sicrheir bod y wybodaeth ar gael i'r awdurdodau ymchwilio priodol.

To deal with Members' points, I turn to Aled Roberts first. I think that I have responded to the amendments, and I take his point about resources in the development of policy and programmes, and also what he has repeated now about the English commissioner and the legislation currently going through the UK Parliament.

Er mwyn delio â phwyntiau'r Aelodau, rwy'n troi at Aled Roberts yn gyntaf. Credaf fy mod wedi ymateb i'r gwelliannau, ac rwy'n derbyn ei bwynt am adnoddau wrth ddatblygu polisi a rhaglenni, a hefyd yr hyn y mae wedi ei ailadrodd yn awr am gomisiynydd Lloegr a'r ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd.

Mohammad Asghar talked about child advocacy and I take that seriously. A few of you mentioned young carers, and I stress that the carers' strategies give young carers the same rights as any other carer. I am looking forward to the strategies being in place by January next year. Mohammad Asghar also raised the issue of disabled young people. There is, of course, a specified amount of money within Families First, and I am evaluating the effectiveness of that. He also mentioned young people leaving care and youth work. I am sure that he will agree that it is a good thing that we have accepted the amendment on youth work and that the Minister for Education and Skills has given a commitment on that.

Siaradodd Mohammad Asghar am eiriolaeth i blant, ac rwy'n cymryd hynny o ddifrif. Mae rhai ohonoch wedi sôn am ofalwyr ifanc, ac rwy'n pwysleisio bod y strategaethau gofalwyr yn rhoi'r un hawliau i ofalwyr ifanc ag i unrhyw ofalwr arall. Rwy'n edrych ymlaen at weld y strategaethau ar waith erbyn mis Ionawr y flwyddyn nesaf. Cododd Mohammad Asghar fater pobl ifanc anabl. Mae, wrth gwrs, swm penodedig o arian o fewn Teuluoedd yn Gyntaf, ac rwy'n gwerthuso effeithiolrwydd hynny. Soniodd hefyd am bobl ifanc sy'n gadael gofal a gwaith ieuenctid. Rwy'n siŵr y bydd yn cytuno ei fod yn beth da ein bod wedi derbyn y gwelliant ar waith ieuenctid a bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi rhoi ymrwymiad ar hynny.

Leanne Wood, I think that I have covered your point on Waterhouse as widely as I can in the time that I have. You talked about strong advocacy. I agree with that and also with the extension of the commissioner's remit, which I have tried to respond to, as well. We will keep pressing the UK Government on that issue, so that our commissioner can comment and take action on issues that are non-devolved.

Leanne Wood, rwy'n meddwl fy mod wedi ymdrin â'ch pwynt ar Waterhouse mor eang ag y gallaf yn yr amser sydd gennyf. Soniasoch am eiriolaeth gref. Cytunaf â hynny a hefyd gyda'r estyniad o gylch gwaith y comisiynydd, yr wyf wedi ceisio ymateb iddynt, yn ogystal. Byddwn yn dal i roi pwysau ar Lywodraeth y DU ar y mater hwnnw, fel y gall ein comisiynydd wneud sylwadau a gweithredu ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli.

Julie Morgan talked about due regard, and she is absolutely right. I agree that this has got to be seriously considered and Ministers

Siaradodd Julie Morgan am sylw dyledus, ac mae hi yn llygad ei lle. Rwy'n cytuno bod rhaid ystyried hyn o ddifrif ac mae

are doing that. I would also say that the scheme that has been developed to support that responsibility is a living scheme. I have a group working on it. The children's commissioner's office is involved in it, and we will develop that scheme further to meet the roll-out of the due regard responsibility in May 2014.

Gweinidogion yn gwneud hynny. Byddwn hefyd yn dweud bod y cynllun sydd wedi cael ei ddatblygu i gefnogi'r cyfrifoldeb hwnnw yn gynllun byw. Mae gennyf grŵp yn gweithio arno. Mae swyddfa'r comisiynydd plant yn cymryd rhan ynddo, a byddwn yn datblygu'r cynllun hwnnw ymhellach i ddiwallu cyflwyno'r cyfrifoldeb sylw dyledus ym mis Mai 2014.

Suzy Davies also talked about advocacy, which I will say something about when I make my closing remarks, and also, importantly, about the independence of the commissioner's role.

Soniodd Suzy Davies hefyd am eiriolaeth, a byddaf yn dweud rhywbeth am hynny pan fyddaf yn gwneud fy sylwadau cau, a hefyd, yn bwysig, am annibyniaeth rôl y comisiynydd.

Turning to Christine Chapman, the Chair of the Children and Young People Committee, I agree with her about the importance of the role of the committee. I value that committee and the opportunity to give evidence to it. The Welsh Government would be all the poorer without the input of the Children and Young People Committee. There were points well made on mental health, emotional wellbeing and parenting, too. It is parents who have to face the first diagnosis, and we know what a terrible thing that can be. We know that support is needed at that point. I recognise her points on special educational needs. The Minister for education is committed to a review of that, and I am sure that we will be hearing from him in due course .

Gan droi at Christine Chapman, Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, rwy'n cytuno â hi am bwysigrwydd rôl y pwyllgor. Rwy'n gwerthfawrogi'r pwyllgor hwnnw a'r cyfle i roi tystiolaeth iddo. Byddai Llywodraeth Cymru yn dlotach o lawer heb fewnbwn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Roedd pwyntiau a wnaed yn dda ar iechyd meddwl, lles emosiynol a magu plant, hefyd. Rhieni sy'n gorfod wynebu'r diagnosis cyntaf, ac rydym yn gwybod peth mor ofnadwy y gall hynny fod. Rydym yn gwybod bod angen cymorth ar yr adeg honno. Rwy'n cydnabod ei phwyntiau ynghylch anghenion addysgol arbennig. Mae'r Gweinidog addysg wedi ymrwymo i adolygiad o hynny, ac rwy'n siŵr y byddwn yn clywed ganddo ef maes o law.

Lindsay Whittle sincerely put, again, the case for young carers. I have tried to answer that. On the point about smacking children made by Julie Morgan, Christine Chapman and Leanne Wood, I have explained the Welsh Government's position at the moment. We really owe a debt of gratitude to Ken Skates and the young people in Wales leaving care. We reflect on what he is able to do here as a backbencher, and we look forward to seeing the fruits of that labour. I know that he agrees with me that that will develop an improvement in the lives of young people leaving care. His point about corporate parenting is also very important, and important for all local authorities.

Roedd Lindsay Whittle yn ddidwyll yn rhoi, unwaith eto, yr achos dros ofalwyr ifanc. Rwyf wedi ceisio ateb hynny. Ar y pwynt am daro plant a wnaed gan Julie Morgan, Christine Chapman a Leanne Wood, rwyf wedi egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Rydym yn wir yn ddyledus i Ken Skates a phobl ifanc yng Nghymru sy'n gadael gofal. Rydym yn myfyrio ar yr hyn y mae'n gallu ei wneud yma fel aelod o'r meinciau cefn, ac rydym yn edrych ymlaen at weld ffrwyth y llafur hwnnw. Rwy'n gwybod ei fod yn cytuno â mi y bydd hynny'n datblygu gwelliant ym mywydau pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae ei bwynt am rianta corfforaethol yn bwysig iawn hefyd, ac yn bwysig i bob awdurdod lleol.

Rebecca Evans's point on sexually harmful behaviour and the online welfare of children

Roedd pwynt Rebecca Evans ar ymddygiad rhywiol niweidiol a lles ar-lein plant a phobl

and young people was very well put. Rebecca, we look forward to the protocol, given the positive comments being made about it, and I think that we can lead the way on developing that protocol to the best of our ability and raising awareness of it.

ifanc wedi ei wneud yn dda iawn. Rebecca, rydym yn edrych ymlaen at y protocol, o ystyried y sylwadau cadarnhaol sy'n cael eu gwneud am y peth, ac rwy'n meddwl y gallwn arwain y ffordd ar ddatblygu'r protocol hyd eithaf ein gallu a chodi ymwybyddiaeth ohono.

I would also like to bring everything together, if I can, and say that you know that we are currently developing the national outcomes framework for social services, which will focus on improved wellbeing outcomes. We have an early exercise to populate the national outcomes framework for looked-after children as a first priority. You will know that I issued a statement on the national outcomes framework, and that I have asked you all to consider responding to that consultation. Key stakeholders, including the children's commissioner's office, sit on the strategic steering and engagement group, working to develop the national outcomes framework for social services. One of the objectives of the national outcomes framework is to achieve a consistent pan-Wales view of performance, standards and outcomes. We will use the development of the social services Bill and subsequent legislation and guidance to ensure that there is an effective and modern framework in place for commissioning, including in respect of statutory advocacy for social services. Therefore, there is an opportunity now to respond to that consultation.

Hoffwn hefyd i ddod â phopeth at ei gilydd, os gallaf, a dweud eich bod yn gwybod ein bod wrthi'n datblygu fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau lles gwell. Mae gennym enghraifft gynnar i boblogi'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel blaenoriaeth gyntaf. Byddwch yn gwybod fy mod wedi gwneud datganiad ar y fframwaith canlyniadau cenedlaethol, ac rwyf wedi gofyn i chi i gyd ystyried ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw. Mae budd-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys swyddfa'r comisiynydd plant, yn eistedd ar y grŵp llywio ac ymgysylltu strategol, yn gweithio i ddatblygu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Un o amcanion y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yw sicrhau safbwynt cyson Cymru-gyfan ar berfformiad, safonau a chanlyniadau. Byddwn yn defnyddio datblygiad y Bil gwasanaethau cymdeithasol a deddfwriaeth ddilynol a chanllawiau i sicrhau bod fframwaith effeithiol a modern ar waith ar gyfer comisiynu, gan gynnwys mewn perthynas ag eiriolaeth statudol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Felly, mae cyfle yn awr i ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw.

In closing, I thank Members for their comments this afternoon, which will be taken seriously. There will be a full response to the children's commissioner's report by 30 November, and I also thank him for his tireless work on behalf of the children and young people of Wales.

Wrth gloi, diolchaf i'r Aelodau am eu sylwadau'r prynhawn yma, a fydd yn cael eu hystyried o ddifrif. Bydd ymateb llawn i adroddiad y comisiynydd plant erbyn 30 Tachwedd, ac rwyf hefyd yn diolch iddo am ei waith diflino ar ran y plant a phobl ifanc Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is no objection. Amendment 1 is therefore agreed, in accordance with Standing Order No. 12.36.
*Derbyniwyd y gwelliant.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, derbynnir gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Amendment agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there are objections. Therefore, all further votes on this item will be deferred until voting time, which follows this item. Before we proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Felly, bydd pob pleidlais bellach ar yr eitem hon yn cael ei gohirio tan amser pleidleisio, sy'n dilyn yr eitem hon. Cyn i ni symud ymlaen, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

**Cyfnod Pleidleisio**
**Voting Time**

*Gwelliant 2 i NDM5095: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 2 to NDM5095: For 24, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5095: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3 to NDM5095: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter

Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM5095 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2011-12.*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod gan Gomisiynydd Plant Cymru gyfrifoldeb dros faterion wedi eu datganoli a materion heb eu datganoli sy'n ymwneud â phlant yng*

Motion NDM5095 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes the Children's Commissioner for Wales' Annual Report 2011-12.*

*2. Calls on the Welsh Government to work with the UK Government to ensure that the Children's Commissioner for Wales has responsibility for both devolved and non-devolved issues relating to children in Wales.*

*Nghymru.*

*3. Yn nodi bod datganiad i'r wasg Comisiynydd Plant Cymru sy'n gysylltiedig ag Adroddiad Blynyddol 2011-12:*

*a) yn cydnabod y pryderon a fynegwyd wrth Gomisiynydd Plant Cymru nad yw rhai pobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar wasanaethau ieuenctid o ansawdd da, ac nad yw gwasanaethau ieuenctid yn cael eu gwerthfawrogi ddigon; a*

*b) yn galw am ymrwymiad cenedlaethol i gydnabod gwerth gwaith ieuenctid.*

*3. Notes that the Children's Commissioner for Wales' press release accompanying the Annual Report 2011-12:*

*a) acknowledges concerns raised with the Children's Commissioner for Wales that some young people in Wales have no access to good quality youth services and that youth services are undervalued; and*

*b) calls for a national commitment to recognise the value of youth work.*

*Cynnig NDM5095 fel y'i diwygiwyd: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 1.*
*Motion NDM5095 as amended: For 50, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Neagle, Lynne

Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig NDM5095 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5095 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I ask those Members who are leaving the Chamber to do so quietly and quickly, please.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gofynnaf i'r Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n dawel ac yn gyflym, os gwelwch yn dda.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 5.14 p.m.*
*Sandy Mewies took the Chair at 5.14 p.m.*

**Dadl Fer**
**Short Debate**

**Y Storm Berffaith—Asesu Effaith Gronnol Diwygio Lles mewn cysylltiad â Thai yng Nghymru**
**The Perfect Storm—Assessing the Cumulative Impact of Housing-related Welfare Reform in Wales**

**Lynne Neagle:** If time allows, I have agreed to give a minute of my time this evening to both Peter Black and Joyce Watson, in that order.

**Lynne Neagle:** Os bydd amser yn caniatáu, rwyf wedi cytuno i roi munud o'm hamser heno i Peter Black a Joyce Watson, yn y drefn honno.

I should start by saying that I do not see this debate as an opportunity for party-political knockabout, and I do not necessarily expect to win over any opposition hearts and minds. However, the impact of housing-related benefit reform will be so massive and the consequences so grave for the people and communities that we represent that I have no reservations about using my short debate to raise these issues once again. Every Member in the Assembly will have huge numbers of constituents affected by this, so whichever party they stand for and whatever their view on welfare reform more widely, these are issues that we all need to be alive to.

Dylwn ddechrau drwy ddweud nad wyf yn gweld y ddadl hon fel cyfle ar gyfer ymryson rhwng y pleidiau gwleidyddol, ac nid wyf o reidrwydd yn disgwyl ennill calonnau a meddyliau'r gwrthbleidiau. Fodd bynnag, bydd effaith y diwygiadau sy'n gysylltiedig â budd-dal tai mor enfawr a'r canlyniadau mor ddifrifol ar gyfer pobl a chymunedau yr ydym yn eu cynrychioli fel nad wyf yn petruso o gwbl ynglŷn â defnyddio fy nadl fer i godi'r materion hyn unwaith eto. Bydd gan bob Aelod yn y Cynulliad nifer enfawr o etholwyr yr effeithir arnynt gan hyn, felly ni waeth dros ba blaid y maent yn sefyll na beth yw eu barn ar ddiwygiadau ehangach i'r gyfundrefn les, mae angen i ni i gyd fod yn ymwybodol o'r materion hyn.

5.15 p.m.

That is not just because it is the poorest and most vulnerable who will be the hardest hit—the very people we are supposed to be in politics to stand up for—but because it is the Welsh NHS, Welsh social services, the

Un rheswm yw mai'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed a fydd yn dioddef fwyaf—yr union bobl y dylem ni fel gwleidyddion fod yn sefyll o'u plaid—ond hefyd oherwydd mai'r GIG yng Nghymru, gwasanaethau

Welsh third sector, local government in Wales and, ultimately, this Assembly, that will be left to deal with the fall out. Frankly, given the sheer number of changes to the benefits system, either already introduced or just around the corner, it is difficult to know where to start.

cymdeithasol Cymru, y trydydd sector yng Nghymru, llywodraeth leol yng Nghymru ac, yn y pen draw, y Cynulliad hwn, a fydd yn gorfod ymdopi â'r effeithiau. A dweud y gwir, o ystyried nifer enfawr y newidiadau i'r system fudd-daliadau, gan gynnwys rhai a gyflwynwyd eisoes a rhai sydd ar fin cael eu cyflwyno, mae'n anodd gwybod ble i ddechrau.

It is the so-called bedroom tax due to be introduced from April next year that is causing the most concern out there. It is a move that will see households in the social rented sector lose 14% of their benefit if they are deemed to have a spare bedroom, or 25% if they have two spare rooms. These penalties, despite the best efforts of Labour in Westminster, will also hit foster carers, families with disabled children as well as parents whose children visit at weekends or during school holidays. We are not just talking about a handful of households. Of all the nations and regions, Wales will be hardest hit, with the Department for Work and Pensions' impact assessment predicting that 46% of working-age housing benefit claimants in the social sector in Wales will be affected compared with 31% nationally, 33% in Scotland and just 20% in the south-west of England. Without wishing to undermine the really significant impact elsewhere, that is 40,000 claimants in Wales. It is 40,000 households who lose, on average, £12 a week from incomes already stretched to breaking point, who are already facing rising fuel bills and who are dealing with the cumulative impact of a myriad of other changes to the benefits system.

Y dreth ystafell wely, fel y'i gelwir, a fydd yn cael ei chyflwyno o fis Ebrill y flwyddyn nesaf sy'n achosi'r pryder mwyaf i bobl. Mae'n gam a fydd yn gweld aelwydydd yn y sector tai rhent cymdeithasol yn colli 14% o'u budd-dal os ystyrir bod ganddynt ystafell wely sbâr, neu 25% os oes ganddynt ddwy ystafell sbâr. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r Blaid Lafur yn San Steffan, bydd y cosbau hyn hefyd yn effeithio ar ofalwyr, maeth, teuluoedd â phlant anabl, yn ogystal â rhieni y mae eu plant yn ymweld ar benwythnosau neu yn ystod gwyliau'r ysgol. Nid am lond llaw o aelwydydd yr ydym yn sôn. O'r holl wledydd a'r rhanbarthau, Cymru fydd yn dioddef fwyaf. Mae asesiad effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhagweld y bydd 46% o bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-dal tai yn y sector cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei effeithio o'i gymharu â 31% yn genedlaethol, 33 % yn yr Alban a dim ond 20% yn ne-orllewin Lloegr. Heb ddymuno tanseilio'r effaith sylweddol iawn mewn mannau eraill, mae hyn yn golygu 40,000 o hawlwyr yng Nghymru. Dyma 40,000 o aelwydydd a fydd yn colli £12 yr wythnos, ar gyfartaledd, o incwm sydd eisoes wedi'i ymestyn i'r eithaf—aelwydydd sydd eisoes yn wynebu cynnydd mewn biliau tanwydd ac sy'n ymdopi ag effaith gronnol myrdd o newidiadau eraill i'r system fudd-daliadau.

I have been in regular contact with social housing providers in my constituency over this issue for some time. I know that they are doing everything they can to try to model the impact of the under-occupancy rules, raise awareness, communicate the change to tenants and work with them to better manage their finances and prepare for the future. However, the reality is that they fear, as I do, that this will hit communities like a tsunami when these changes are introduced in April.

Rwyf wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â darparwyr tai cymdeithasol yn fy etholaeth ynglŷn â'r mater hwn ers peth amser. Gwn eu bod yn gwneud popeth yn eu gallu i geisio modelu effaith y rheolau tan-feddianaeth, codi ymwybyddiaeth, rhoi gwybod i denantiaid am y newid a gweithio gyda hwy i reoli eu cyllid yn well a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, y realiti yw eu bod hwy, fel minnau, yn ofni y bydd hyn yn taro cymunedau fel tswnami pan gyflwynir y newidiadau ym mis Ebrill.

The latest borough-wide data in Torfaen suggests that 1,700 households are at risk, with 1,100 considered to have one bedroom too many under the new criteria, and 600 with two or more bedrooms too many. There is strong evidence to suggest that the vast majority of tenants—nine out of 10, in fact—understandably do not want to uproot themselves from their home and community, away from friends and family, possibly from jobs, potentially take their children out of school and move to a smaller property, but will instead try to make up the shortfall in rent themselves. The predicted loss for this group of tenants is set to be £1.3 million in Torfaen alone, which is a significant sum that will be taken out of the local economy, as households reprioritise budgets already stretched to breaking point. It will take food off the tables of hard-pressed families and put cash in the pockets of loan sharks who prey on the poor and the vulnerable. Of course, under-occupancy is a real issue when there is so much pressure on the supply of social housing, but you do not solve one problem by creating another. There simply are not the smaller homes available for people to move to. Of the nearly 354 general needs properties advertised through Torfaen's choice-based letting scheme, only 73 were one-bedroomed flats.

Mae'r data diweddaraf ar draws bwrdeistref Torfaen yn awgrymu bod 1,700 o aelwydydd mewn perygl. Ystyrir bod gan 1,100 ohonynt un ystafell wely yn ormod o dan y meini prawf newydd, a bod gan 600 ddwy neu fwy o ystafelloedd gwely yn ormod. Ceir tystiolaeth gref i awgrymu nad yw'r mwyafrif helaeth o denantiaid—naw o bob 10, mewn gwirionedd—eisiau eu dadwreiddio eu hunain oddi wrth eu cartref a'u cymuned, a symud i ffwrdd oddi wrth ffrindiau a theulu, o bosibl oddi wrth eu swyddi, gan gymryd eu plant allan o'r ysgol o bosibl, er mwyn symud i eiddo llai. Mae hyn yn ddealladwy, a byddant, yn hytrach, yn ceisio talu gweddill y rhent eu hunain. Bydd y golled a ragwelir ar gyfer y grŵp hwn o denantiaid yn £1.3 miliwn yn Nhorfaen yn unig. Dyma swm sylweddol a fydd yn cael ei gymryd o'r economi lleol, wrth i aelwydydd ailflaenoriaethu cyllidebau sydd eisoes wedi'u hymestyn i'r eithaf. Bydd yn cymryd bwyd oddi ar fyrddau teuluoedd dan bwysau a rhoi arian ym mhocedi benthycwyr arian sy'n manteisio ar y tlawd a'r bregus. Wrth gwrs, mae tanfeddianaeth yn broblem go iawn pan fo cymaint o bwysau ar y cyflenwad o dai cymdeithasol, ond nid ydych yn datrys un broblem drwy greu un arall. Nid oes digon o gartrefi llai ar gael i bobl symud iddynt. O'r 354 eiddo anghenion cyffredinol, bron, a hysbysebwyd trwy gynllun gosod tai seiliedig ar ddewis Torfaen, dim ond 73 oedd yn fflatiau un ystafell wely.

This will compound enormous existing pressures. Last year, there was a 25% increase in applications for affordable rented homes on the Torfaen housing register. In case any Members here think that this somehow will not affect their constituents, it is worth noting that recent Community Housing Cymru research showed that there is not a single housing association or social landlord in Wales that has the housing stock profile to meet potential downsizing needs. North or south, east or west, this will hit every corner of the country, and we should listen carefully to the stark warnings we heard from the Welsh Tenants Federation recently, gravely predicting that these changes could lead to 4,000 households being made homeless.

Bydd hyn yn dwysáu'r pwysau presennol enfawr. Y llynedd, cafwyd cynnydd o 25% mewn ceisiadau ar gyfer cartrefi rhent fforddiadwy ar gofrestr tai Torfaen. Rhag ofn bod unrhyw Aelod yma'n meddwl na fydd hyn yn effeithio ar eu hetholwyr hwy rhywsut, mae'n werth nodi fod ymchwil diweddar gan Cartrefi Cymunedol Cymru yn dangos nad oes gan yr un cymdeithas dai na landlord cymdeithasol unigol yng Nghymru y proffil stoc tai i ddiwallu'r anghenion posibl o ran symud pobl i dai llai o faint. Bydd hyn yn effeithio ar bob cornel o'r wlad, y gogledd a'r de, y dwyrain a'r gorllewin. Dylem wrando'n ofalus ar y rhybuddion llwm a glywsom gan Ffederasiwn Tenantiaid Cymru yn ddiweddar, a'u rhagolwg difrifol y gallai'r newidiadau hyn arwain at wneud 4,000 o aelwydydd yn ddigartref.

All this would be bad enough were it happening in isolation. In Torfaen, a DWP pilot is under way to test the effect of plans to pay the housing element of universal credit directly to tenants. Bron Afon Community Housing Limited in my patch is taking part, not, I should add, because it supports the change—quite the opposite, in fact—but because it is mindful of the need to model the potentially very serious impact on its tenants and on levels of arrears. It is right to be concerned. Given the experience of the London & Quadrant Housing Association, which trialled a similar scheme that was subsequently scrapped by the previous Labour Government after arrears rocketed by 80%. Many social landlords are predicting a doubling in arrears because of the change, with one predicting an annual rise from £417,000 to £750,000 a year, which is a worrying figure when you consider how important the financial stability of housing associations will be in helping to meet the need for affordable homes in the years ahead.

Byddai hyn yn ddigon drwg ar ei ben ei hun. Yn Nhorfaen, mae cynllun peilot ar y gweill gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i brofi effaith cynlluniau i dalu elfen dai y credyd cynhwysol yn uniongyrchol i denantiaid. Mae Bron Afon Community Housing Limited yn fy ardal i yn cymryd rhan, nid, dylwn ychwanegu, oherwydd ei fod o blaid y newid. I'r gwrthwyneb, mae'n cymryd rhan oherwydd ei fod yn ymwybodol o'r angen i fodelu'r effaith a allai fod yn ddifrifol iawn ar ei denantiaid ac ar lefelau ôl-ddyledion. Mae'n iawn i fod yn bryderus, o gofio profiad y London & Quadrant Housing Association, a gynhaliodd gynllun treialu tebyg. Cafodd y cynllun hwnnw ei ddirwyn i ben yn ddiweddarach gan y Llywodraeth Lafur flaenorol ar ôl i ôl-ddyledion saethu i fyny 80%. Mae nifer o landlordiaid cymdeithasol yn rhagweld y bydd ôl-ddyledion yn dyblu oherwydd y newid, gydag un yn rhagweld y byddant yn cynyddu o £417,000 i £750,000 y flwyddyn. Mae hyn yn peri pryder o ystyried pa mor bwysig fydd sefydlogrwydd ariannol cymdeithasau tai o ran helpu i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy yn y blynyddoedd i ddod.

The fact is that, almost universally, tenants do not want direct payments. Bron Afon's annual tenant survey indicated that 86% of its residents would prefer their housing costs to be paid directly to the landlord. More than half stated that the shift to monthly payments would make it more difficult to manage their budgets and 35% said that they were not confident that they could keep up with their rent payments. This is not surprising when you consider that 14% of these tenants do not even have a bank account of their own.

Y gwir yw nad yw tenantiaid, bron yn ddieithriad, yn dymuno cael taliadau uniongyrchol. Dangosodd yr arolwg blynyddol ymhlith tenantiaid Bron Afon y byddai'n well gan 86% o'i thrigolion gael talu eu costau tai yn uniongyrchol i'r landlord. Dywedodd mwy na hanner y byddai'r newid i daliadau misol yn ei gwneud hi'n fwy anodd iddynt reoli eu cyllidebau a dywedodd 35% nad oeddent yn hyderus y gallent dalu eu rhent ar amser. Nid yw hyn yn syndod o ystyried nad oes gan 14% o'r tenantiaid hyn eu cyfrif banc eu hunain hyd yn oed.

The DWP pilot scheme in Torfaen is about to be extended to the group of tenants thought to be most at risk from direct payments, namely those with a history of financial difficulties and significant debt problems. Does it not show how in touch the UK Government is with the pressures facing families that tenants are being pushed into this scheme in the run-up to Christmas? I dread to think of the choices that families, particularly those with children, will be forced to make, especially

Mae cynllun peilot yr Adran Gwaith a Phensiynau yn Nhorfaen ar fin cael ei ymestyn i'r grŵp o denantiaid yr ystyrir eu bod yn y perygl mwyaf yn sgil taliadau uniongyrchol, sef y rhai sydd â hanes o anawsterau ariannol a phroblemau dyled sylweddol. Onid yw'r ffaith bod tenantiaid yn cael eu gwthio i mewn i'r cynllun yn y cyfnod cyn y Nadolig yn dangos i ba raddau y mae Llywodraeth y DU yn deall y pwysau sy'n wynebu teuluoedd? Mae'n gas gen' i

when Bron Afon's survey found that, of the most vulnerable social housing residents, nearly half have struggled in the last year to pay for food and 39% have been unable to afford fuel.

feddwl am y dewisiadau y bydd teuluoedd, yn enwedig y rhai â phlant, yn cael eu gorfodi i'w gwneud, yn enwedig wedi i arolwg Bron Afon ddangos bod bron i hanner y bobl fwyaf agored i niwed sy'n byw mewn tai cymdeithasol wedi cael trafferth talu am fwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, a 39% wedi methu â fforddio tanwydd.

It is not as though these measures are the Government's starting point for welfare reform. Over the last 18 months, we have already seen the introduction of a whole range of changes that have hammered the incomes of some of the most hard-pressed households in Wales. These are reforms like the thirtieth percentile change to local housing allowance, which has left nearly 50,000 of the poorest households in Wales £9 a week worse off; the ending of excess payments, payable when rent was lower than recipients' LHA-calculated housing benefit, which acted as a lifeline for many who were struggling to make ends meet; and we should not forget the decision to uprate significantly non-dependant deductions, which had been frozen for many years under Labour, a move that modelling suggests is having an impact on 102 tenants per housing association and which is commonly cited by housing professionals as a leading cause of family conflict and breakdown.

Ni allwn ddweud hyd yn oed mai'r mesurau hyn yw man cychwyn y Llywodraeth ar gyfer diwygio'r gyfundrefn les. Dros y 18 mis diwethaf, rydym eisoes wedi gweld ystod eang o newidiadau'n cael eu cyflwyno a'r rheiny'n taro incwm rhai o'r aelwydydd sydd dan y pwysau mwyaf yng Nghymru. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys y newid 'tri deg y cant' i Lwfans Tai Lleol, sydd wedi cymryd £9 yr wythnos oddi ar bron i 50,000 o'r aelwydydd tlotaf yng Nghymru. Rhoddwyd diwedd ar y taliadau dros ben, a oedd yn daladwy pan fo rhent yn is na budd-dal tai pobl fel y'i cyfrifwyd yn unol â'r Lwfans Tai Lleol, ac a oedd yn achubiaeth i lawer a oedd yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd. Ac ni ddylem anghofio'r penderfyniad i gynyddu'n sylweddol y didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion. Cafodd y rhain eu rhewi am sawl blwyddyn dan Lafur, ac mae'r gwaith modelu a wnaed yn awgrymu bod y newid hwn yn cael effaith ar 102 o denantiaid fesul cymdeithas tai. Mae gweithwyr proffesiynol ym maes tai yn aml yn ei grybwyll fel un o brif achosion gwrthdaro o fewn teuluoedd a theuluoedd yn chwalu.

When I met with benefits advisers at Torfaen citizens' advice bureau recently, it was clear that they are already seeing real hardship out there on the ground. They have seen a 34% leap in the cases of threatened homelessness in the past 12 months, an incredibly worrying trend underlined by data from Shelter Cymru, which has helped the families of nearly 6,500 individual children in Wales affected by homelessness or potential homelessness in the past year. All this is at a time when, across the country, CABx, Shelter and the wider advice sector are facing enormous pressures of their own, dealing with burgeoning caseloads and, in many cases, having to shed paid adviser posts because of Government cuts.

Pan es i gyfarfod â chynghorwyr budd-daliadau yng nghanolfan cyngor ar bopeth Torfaen yn ddiweddar, roedd yn amlwg eu bod eisoes yn gweld caledi gwirioneddol ar lawr gwlad. Maent wedi gweld cynnydd o 34% yn nifer yr achosion lle ceir bygythiad o ddigartrefedd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r duedd hon yn peri pryder anhygoel, ac fe'i tanlinellir gan ddata gan Shelter Cymru, sydd wedi helpu teuluoedd i bron i 6,500 o blant unigol yng Nghymru yr effeithwyd arnynt gan ddigartrefedd neu ddigartrefedd posibl yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan fo canolfannau cyngor ar bopeth, Shelter a'r sector cynghori ehangach, ledled y wlad, yn wynebu pwysau enfawr eu hunain, gan ymdrin â llwythi achosion cynyddol ac, mewn llawer o

achosion, yn gorfod cael gwared ar swyddi cynghorwyr cyflogedig oherwydd toriadau gan y Llywodraeth.

While the picture that I have painted this evening has been almost unrelentingly bleak, it would be remiss of me to not recognise the fact that valiant work is going on up and down Wales to try to mitigate the impact of these reforms. I have already touched on the work that social landlords are doing with their tenants to help them to plan and prepare, but there are countless other examples, such as the efforts to promote digital inclusion being pioneered by Melin Homes in my constituency so that tenants are prepared for universal credit, which will rely on their having basic IT skills; the deals that have been struck in some areas between social landlords and credit unions so that tenants without access to basic bank accounts can receive direct payments; and, more widely, the many examples of collaboration that we are seeing not just between social landlords and local authorities, but between social landlords themselves. The Gwent welfare reform partnership is one example, where seven social landlords have come together to tackle these issues.

Er i'r darlun yr wyf wedi ei baentio heno fod yn un llwm bron yn ddieithriad, byddai'n esgeulus imi beidio â chydnabod y gwneir gwaith glew ar hyd a lled Cymru i geisio lliniaru effaith y diwygiadau hyn. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y gwaith y mae landlordiaid cymdeithasol yn ei wneud gyda'u tenantiaid er mwyn eu helpu i gynllunio a pharatoi. Ond ceir enghreifftiau eraill di-rif, megis yr ymdrechion arloesol gan Melin Homes yn fy etholaeth i i hyrwyddo cynhwysiant digidol er mwyn paratoi tenantiaid ar gyfer y credyd cynhwysol, a fydd yn gofyn iddynt fod â sgiliau TG sylfaenol; y bargeinion a wnaed mewn rhai ardaloedd rhwng landlordiaid cymdeithasol ac undebau credyd fel y gall tenantiaid heb gyfrifon banc sylfaenol dderbyn taliadau uniongyrchol; ac, yn fwy eang, yr enghreifftiau niferus o gydweithio a welwn nid yn unig rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol, ond rhwng landlordiaid cymdeithasol eu hunain. Mae partneriaeth diwygio lles Gwent yn un enghraifft, lle y daeth saith landlord cymdeithasol at ei gilydd i fynd i'r afael â'r materion hyn.

It is crucial that the kind of issues raised tonight feed into the recently announced and very welcome Welsh Affairs Committee inquiry into the impact of housing-related welfare reform on Wales. Equally, these are matters that need to be at the forefront of the Welsh Government's root-and-branch review of the advice sector, a review that must take into account the need for specialist housing advice, as well as the more general advice networks and the one-stop shops that we hear so much about.

Mae'n hanfodol fod y math o faterion a godwyd heno yn cyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac y mae croeso mawr iddo, i effaith diwygiadau lles sy'n gysylltiedig â thai ar Gymru. Yn yr un modd, mae angen i'r materion hyn fod wrth wraidd adolygiad trwyadl Llywodraeth Cymru o'r sector cynghori, adolygiad y mae'n rhaid iddo roi ystyriaeth i'r angen am gyngor arbenigol ym maes tai, yn ogystal â'r rhwydweithiau cyngor mwy cyffredinol a'r siopau un-stop yr ydym yn clywed cymaint amdanynt.

Ministers also need to ensure that social landlords exercise the maximum possible discretion when it comes to dealing with tenants who end up in debt and arrears as a result of these reforms, building on the good work that Shelter has done around preventing homelessness by making eviction the very last resort. There is also an important role that the Welsh Government can play in

Mae hefyd angen i Weinidogion sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol yn arfer y disgresiwn mwyaf posibl wrth ymdrin â thenantiaid sy'n mynd i ddyled ac ôl-ddyledion o ganlyniad i'r diwygiadau hyn, gan adeiladu ar y gwaith da y mae Shelter wedi'i wneud yng nghyswllt atal digartrefedd trwy sicrhau mai'r cam olaf un pan fetho popeth arall yw troi pobl allan o'u cartrefi.

ensuring that local authorities are making much more effective use of discretionary housing payments, inadequate as they may be. I was deeply dismayed to see such huge disparity between different local authorities in Wales in terms of the amount of discretionary housing payment available per housing benefit claimant. It cannot be right that in Ceredigion there is £24.47 available per claimant, but the figure is just £4.46 in Caerphilly. There is a real job to do in ensuring that every council in Wales follows best practice and makes maximum possible use of discretionary housing payments that will become so very important in the period ahead.

Mae swyddogaeth bwysig hefyd y gall Llywodraeth Cymru ei chyflawni o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd llawer mwy effeithiol o daliadau tai yn ôl disgresiwn, er mor annigonol y gallant fod. Roeddwn yn siomedig iawn i weld bod swm y taliad tai yn ôl disgresiwn sydd ar gael fesul hawliwr budd-dal tai yn amrywio cymaint rhwng gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru. Ni all fod yn iawn bod £24.47 ar gael ar gyfer pawb sy'n hawlio yng Ngheredigion, ond mai £4.46 yn unig yw'r ffigur yng Nghaerffili. Mae gwaith go iawn i'w wneud o ran sicrhau bod pob cyngor yng Nghymru yn dilyn arfer gorau ac yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o daliadau tai yn ôl disgresiwn a fydd mor bwysig yn y cyfnod i ddod.

Finally, it is incumbent upon all of us, as individual Assembly Members, to ensure that not only are we fully alive to these changes and the fall-out that will inevitably result, but that we properly support and represent our partners on the ground who deal with the impact of housing-related welfare reform on a daily basis, not least because it is our own surgeries and constituency offices up and down Wales that will be, for many, the first port of call in what really is the perfect storm.

Yn olaf, mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom, fel Aelodau Cynulliad unigol, i sicrhau ein bod yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau hyn a'r effeithiau anochel, ond hefyd ein bod yn cefnogi ac yn cynrychioli'n briodol ein partneriaid ar lawr gwlad sy'n ymdrin ag effaith diwygiadau lles sy'n gysylltiedig â thai o ddydd i ddydd. Rhaid cofio mai at ein cymorthfeydd a'n swyddfeydd etholaethol ni ar hyd a lled Cymru y bydd llawer o bobl yn troi gyntaf yn yr hyn sydd mewn gwirionedd yn storm berffaith.

**Peter Black:** I thank Lynne Neagle for bringing this topic to the short debate. I also have concerns about the way in which these changes are being brought in and how some of them will be implemented. I think that one of the reasons why we are still waiting for the regulations is because there are still a lot of battles going on behind the scenes where, in particular, Liberal Democrats Ministers are trying to moderate some of these changes and make sure that we are able to bring in changes that will not have the sort of impact that Lynne Neagle suggests. I expect that there will be some impact but, hopefully, we will be able to moderate those by the time the regulations come forward.

**Peter Black:** Diolch i Lynne Neagle am gyflwyno'r pwnc hwn yn y ddadl fer. Mae gennyf innau hefyd bryderon ynglŷn â'r ffordd y caiff y newidiadau hyn eu cyflwyno a'r modd y bydd rhai ohonynt yn cael eu rhoi ar waith. Credaf mai un o'r rhesymau pam ein bod yn dal i aros am y rheoliadau yw bod llawer o frwydrau yn dal i ddigwydd y tu ôl i'r llenni lle mae Gweinidogion y Democratiaid Rhyddfrydol, yn benodol, yn ceisio cymedroli rhai o'r newidiadau hyn a gwneud yn siŵr y gallwn gyflwyno newidiadau na fyddant yn cael y math o effaith y mae Lynne Neagle yn ei awgrymu. Rwyf yn disgwyl gweld rhywfaint o effaith, ond, gobeithio y byddwn yn gallu eu cymedroli erbyn yr adeg y cyflwynir y rheoliadau.

I also welcome Lynne's contribution in terms of discretionary housing payments. An extra £30 million has been allocated by the UK

Rwyf hefyd yn croesawu cyfraniad Lynne o ran taliadau tai yn ôl disgresiwn. Mae Llywodraeth y DU wedi dyrannu £30 miliwn

Government to discretionary housing payments. I think that Lynne is absolutely right in saying that councils need to be more consistent about how the payments are applied, because many councils underspend their allocations in that area.

ychwanegol i daliadau tai yn ôl disgresiwn. Credaf fod Lynne yn gwbl gywir wrth ddweud bod angen i gynghorau fod yn fwy cyson wrth ddefnyddio’r taliadau, gan fod llawer o gynghorau nad ydynt yn gwario’u dyraniadau i gyd yn y maes hwnnw.

Finally, these changes are based on the local housing allowance, which was introduced by the previous Government in 2008 and already applies to private sector accommodation. Clearly, there were teething problems when that was introduced in 2008, as there will be teething problems here too. I think that everyone needs to work together to try to move through those teething problems.

Yn olaf, mae’r newidiadau hyn yn seiliedig ar y lwfans tai lleol, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth flaenorol yn 2008 ac mae eisoes yn berthnasol i lety yn y sector preifat. Yn amlwg, cafwyd problemau cychwynnol pan gyflwynwyd y rhain yn 2008, a bydd problemau cychwynnol yma hefyd. Credaf fod angen i bawb weithio gyda’i gilydd i geisio symud heibio i’r problemau cychwynnol hynny.

**Joyce Watson:** I thank Lynne for raising this debate today. I wish to outline the case of a woman living in a small town in rural mid Wales. She received notice from the county council about changes to her housing benefit. She lives alone in a two-bedroomed house that she used to share but can no longer do so, through no fault of her own. As one of the bedrooms is unoccupied, her housing payments are being cut and she will not be able to cover the cost of living. There are no one-bedroomed homes in her area, but she is thankful for the job that she has as there are few about. She works part-time because that is all the hours that her employer can give her. She does not drive, so if she looked for work elsewhere she would have to move. The Tories talk tough on welfare but, in my opinion, the welfare reforms are very tough on people. That is just one case that I have of the many yet to come.

**Joyce Watson:** Hoffwn ddiolch i Lynne am gyflwyno’r ddadl hon heddiw. Hoffwn amlinellu achos menyw sy’n byw mewn tref fechan yng nghefn gwlad canolbarth Cymru. Derbyniodd hysbysiad gan y cyngor sir ynglŷn â newidiadau i’w budd-dal tai. Mae hi’n byw ei phen ei hun mewn tŷ dwy ystafell wely yr arferai ei rannu ond na all ei rannu mwyach, heb unrhyw fai arni hi. Gan fod un o’r ystafelloedd gwely yn wag, mae ei thaliadau tai yn cael eu cwtogi ac ni fydd hi’n gallu talu ei chostau byw. Nid oes unrhyw gartrefi un ystafell wely yn ei hardal, ond mae hi’n ddiolchgar am y swydd sydd ganddi gan nad oes fawr ohonynt ar gael. Mae hi’n gweithio’n rhan-amser oherwydd na all ei chyflogwr roi mwy o oriau iddi. Nid yw hi’n gyrru, felly pe byddai hi’n chwilio am waith rywle arall, byddai’n rhaid iddi symud. Mae geiriau’r Torïaid ynglŷn â lles yn ddigyfaddawd, ond, yn fy marn i, mae’r diwygiadau lles yn galed iawn ar bobl. Dim ond un achos yw hwn o’r nifer sydd eto i ddod.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I thank Lynne for raising this topic for debate, which helps to keep the plight of those relying on benefits uppermost in all our minds. Let us be clear, what we are talking about in respect of these benefit cuts is that these are not benefits received by some small section of society; they are benefits like council tax benefits, claimed by three 330,000 people in Wales, 30,000 of whom are in work but on low income, or housing benefit claimed by 48,000

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Hoffwn ddiolch i Lynne am godi’r pwnc hwn i’w drafod, gan helpu i gadw sefyllfa’r rhai sy’n dibynnu ar fudd-daliadau ym mlaen ein meddyliau ni i gyd. Gadewch inni fod yn glir ynglŷn â’r hyn yr ydym yn ei drafod. Nid budd-daliadau a dderbynnir gan gyfran fach o gymdeithas mo’r rhain, maent yn cynnwys budd-daliadau treth gyngor, y mae 330,000 o bobl yng Nghymru yn ei hawlio, â 30,000 ohonynt mewn gwaith ond ar incwm isel; neu fudd-

people in Wales. The list goes on. Referring to welfare reform, Iain Duncan Smith said that he was delighted by this Bill, which will fundamentally change people's lives. They will fundamentally change people's lives all right, but 'delight' is not the word that I would choose to describe my feelings at the prospects for my constituents or for the people of Wales more widely.

dal tai y mae 48,000 o bobl yng Nghymru yn ei hawlio. Mae'r rhestr yn un hirfaith. Gan gyfeirio at y diwygiadau i'r gyfundrefn les, dywedodd Iain Duncan Smith ei fod yn falch iawn o'r Mesur hwn, a fydd yn newid bywydau pobl yn sylfaenol. Mae'n wir y byddant yn newid bywydau pobl yn sylfaenol, ond nid 'balch' yw'r gair y byddwn i'n ei ddewis i ddisgrifio fy nheimladau ynglŷn â'r rhagolygon i'm hetholwyr neu i bobl Cymru yn ehangach.

5.30 p.m.

The impact of these reforms poses some very real threats to our ability to protect people from poverty. Already we know that, as a result of the reforms that have taken effect this year, an additional 600,000 children could be taken into relative poverty. That is not my assessment—the Department for Work and Pensions, which has responsibility for taking forward the UK coalition Government welfare reform agenda, has produced impact assessments at every stage of the process. Its facts are clear about the cumulative effect of welfare reform between April 2011 and April 2013—that is, the April 2011 changes, the local housing allowance changes and the benefit cap. Based on DWP figures, the cumulative effect will, on average, amount to a benefit reduction of £97.50 a week. That is £5,000 a year.

Mae effaith y diwygiadau hyn yn cyflwyno rhai bygythiadau go iawn i'n gallu i ddiogelu pobl rhag tlodi. Eisoes rydym yn gwybod y gallai 600,000 yn ychwanegol o blant gwympo i dlodi cymharol, o ganlyniad i'r diwygiadau sydd wedi dod i rym eleni. Nid fy asesiad i mo hynny—mae'r Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen ag agenda Llywodraeth glymblaid y DU ym maes diwygio'r gyfundrefn les, wedi paratoi asesiadau effaith ar bob cam o'r broses. Mae ei ffeithiau yn eglur ynghylch effaith gronnol y diwygiadau rhwng mis Ebrill 2011 ac Ebrill 2013—hynny yw newidiadau Ebrill 2011, y newidiadau i'r lwfans tai lleol a'r cap ar fudd-daliadau. Yn seiliedig ar ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau, bydd yr effaith gronnol, ar gyfartaledd yn gyfystyr â thoriad o £97.50 yr wythnos mewn budd-daliadau. Mae hynny'n £5,000 y flwyddyn.

I have asked officials here to request information from each of the Welsh local authorities on the potential impact of welfare reform on their communities. When this information is available, I shall refer it to the ministerial task and finish group. I have already received information from Cardiff and Flintshire, and the findings are extremely worrying. In respect of the benefit cap alone, which will kick in next April, 400 households will be affected in Cardiff alone, with 100 families losing over £100 a week. Ninety-five per cent of these families have children. Five hundred and seventy single people will lose around £42 a week, as they will only qualify for a room in a shared house. Owner occupiers will also feel the full impact of the reforms, with the support for mortgage interest rolled up into the universal credit; it is expected that the capital limit for interest

Rwyf wedi gofyn i swyddogion yma ofyn am wybodaeth gan bob un o awdurdodau lleol Cymru ar effaith bosibl y diwygiadau lles ar eu cymunedau. Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, byddaf yn ei chyfeirio at grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog. Rwyf eisoes wedi derbyn gwybodaeth gan Gaerdydd a Sir y Fflint, ac mae'r canfyddiadau yn destun pryder mawr. O ran y cap ar lefel budd-daliadau'n unig, a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill nesaf, bydd 400 o aelwydydd yn cael eu heffeithio yng Nghaerdydd yn unig, gyda 100 o deuluoedd yn colli dros £100 yr wythnos. Mae gan 95 y cant o'r teuluoedd hyn blant. Bydd 570 o bobl sengl yn colli tua £42 yr wythnos, gan na fyddant ond yn gymwys i gael ystafell mewn tŷ a rennir. Bydd perchen-feddianwyr hefyd yn teimlo effaith lawn y diwygiadau, gan fod cefnogaeth ar gyfer llog morgais yn cael ei

payments will be halved, and that the qualifying period for payment will be extended from 13 weeks to 39 weeks. How can a family maintain its mortgage interest payments for nine months when someone has, for instance, lost their job or is unable to work due to illness? I guess that this is alright if you live in Dave’s world or in George’s world, and have a wealthy family that can step in to help out. However, this is not the world that the vast majority of our citizens in Wales inhabit.

chynnwys yn y credyd cynhwysol; disgwylir y bydd y terfyn cyfalaf ar gyfer taliadau llog yn cael ei haneru, ac y bydd y cyfnod cymhwyso ar gyfer taliadau yn cael ei ymestyn o 13 wythnos i 39 wythnos. Sut y gall teulu gynnal ei daliadau llog morgais am naw mis pan fydd rhywun, er enghraifft, wedi colli ei swydd neu yn methu â gweithio oherwydd salwch? Mae’n debyg nad oes problem os ydych yn byw ym myd Dave neu fyd George, a bod gennych deulu cyfoethog sy’n gallu camu i mewn i helpu. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif helaeth ein dinasyddion yng Nghymru yn byw mewn byd o’r fath.

It will not stop there. As we have heard, the welfare budget will take a further hit as George Osborne’s plans for growth have failed to materialise. The suggestions have been a freeze on benefit uprating and a withdrawal of benefit for under-25s. We did some work as a Welsh Government earlier this year, when this was first mooted, and we were advised by the DWP that 22,230 under-25s would be affected in Wales. There can be a gap of nine years between a young person leaving education and reaching the age of 25. What are young people expected to do? What about the circumstances of family breakdown or of domestic abuse? The detailed proposals are unknown, but it is hoped that there is a safety net for those who are simply unable to live at home, as there is now for those leaving care, for instance, or those estranged from parents.

Nid dyna fydd y diwedd. Fel yr ydym wedi clywed, bydd ergyd ychwanegol i’r gyllideb les gan fod cynlluniau George Osborne ar gyfer twf wedi methu. Mae’r awgrymiadau wedi cynnwys rhoi’r gorau dros dro i uwchraddio budd-daliadau a thynnu budd-daliadau ar gyfer pobl dan 25 oed yn ôl. Gwnaethom rywfaint o waith fel Llywodraeth Cymru yn gynharach eleni, pan grybwyllwyd hyn yn gyntaf, ac fe’n cynghorwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau y byddai 22,230 o bobl dan 25 oed yn cael eu heffeithio yng Nghymru. Gall fod bwlch o naw mlynedd rhwng gadael addysg a chyrraedd 25 oed. Beth mae disgwyl i bobl ifanc ei wneud? Beth am achosion o gamdriniaeth ddomestig neu deuluoedd yn chwalu? Ni wyddom beth fydd y cynigion manwl, ond y gobaith yw y bydd rhwyd achub ar gael ar gyfer pobl na allant fyw gartref, fel sydd ar gael yn awr i’r rheiny sy’n gadael gofal, er enghraifft, neu’r rheiny sydd wedi eu hymddieithrio oddi wrth eu rhieni.

In October 2013, universal credit will be introduced and, as I have said, I would welcome a simplified system. However, the proposed system is fraught with potential problems. It is digital by default, meaning that there will be no paper claim forms and all will have to claim universal credit electronically. We know that not everyone is IT literate. Does everyone have access to a computer? No. What about those who have reading and writing difficulties? What about those who are vulnerable, or have health issues? Universal credit will be paid calendar monthly in arrears, directly to a named

Bydd credyd cynhwysol yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref 2013, ac, fel y dywedais, byddwn yn croesawu system symlach. Fodd bynnag, mae’r system arfaethedig yn llawn problemau posibl. Mae’n ddigidol yn ddiofyn, sy’n golygu na fydd unrhyw ffurflenni hawlio papur ac y bydd yn rhaid i bawb hawlio credyd cynhwysol yn electronig. Rydym yn gwybod nad yw pawb yn hyddysg mewn TG. A oes cyfrifiadur ar gael i bawb ei ddefnyddio? Nac oes. Beth am y rhai sydd ag anawsterau o ran darllen ac ysgrifennu? Beth am y rhai sy’n agored i niwed, neu sydd â phroblemau iechyd? Bydd

person in the household. How does that work for families where the payee has problems with drink or drugs, or in situations where one partner is fleeing abuse? Will the money find its way to the right places—for rent, food or fuel—or even to the right person in those circumstances? Worryingly, less than a year before universal credit is implemented, there are multiple aspects of the new system that are yet to be finalised. What kind of support will be received by those who are unable to access IT systems to make a claim? Universal credit will be delivered centrally. Will someone from the DWP arrange a home visit? Will the local authority be asked to provide a face-to-face service? We do not know. What we do know is that the intention of the UK Government is that either we, the Welsh Government, or local authorities should pick up the pieces, with little or no extra money from the UK Government available. We are already seeing this with the deficit of upwards of 10% when council tax benefit support is devolved. These are the obvious costs. What is difficult to quantify is the cost to our communities and our public services.

credyd cynhwysol yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau bob mis calendr, yn uniongyrchol i berson a enwir yn yr aelwyd. Sut mae hynny'n gweithio yn achos teuluoedd lle y mae gan y sawl sy'n derbyn y taliad broblemau gyda diod neu gyffuriau, neu mewn sefyllfaoedd lle mae un partner yn ffoi rhag camdriniaeth? A fydd yr arian yn cyrraedd y mannau cywir—ar gyfer rhent, bwyd neu danwydd—neu hyd yn oed y person cywir yn yr amgylchiadau hynny? Mae'n destun pryder, lai na blwyddyn cyn y daw'r credyd cynhwysol i rym, nad yw sawl agwedd ar y system newydd wedi eu cwblhau hyd yma. Pa fath o gefnogaeth a roddir i i bobl nad oes systemau TG ar gael iddynt gyflwyno cais? Bydd credyd cynhwysol yn cael ei ddarparu'n ganolog. A fydd rhywun o'r Adran Gwaith a Phensiynau yn trefnu ymweliad cartref? A fydd gofyn i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaeth wyneb-yn-wyneb? Nid ydym yn gwybod. Yr hyn a wyddom yw mai bwriad Llywodraeth y DU yw y dylem ni, Lywodraeth Cymru, neu awdurdodau lleol ymdopi â'r effeithiau, heb fawr o arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU, os o gwbl. Rydym eisoes yn gweld hyn gyda diffyg o 10% neu fwy pan ddatganolir cymorth budd-dal y dreth gyngor. Dyma'r costau amlwg. Yr hyn sy'n anodd ei fesur yw'r gost i'n cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus.

The ministerial task and finish group on welfare reform has commissioned further research on the impact on our public services and on the Welsh economy. Potential implications that are already being discussed are the increased demand on health and social care services, due to increased stress and family breakdown; local authorities anticipating a greater reliance on temporary accommodation and increased cases of homelessness; and the potential for increased crime as police numbers are cut and a small minority turn to crime to make up shortfalls in household income.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog ar ddiwygiadau i'r gyfundrefn les wedi comisiynu rhagor o waith ymchwil ar yr effaith ar ein gwasanaethau cyhoeddus ac ar economi Cymru. Mae'r goblygiadau posibl sydd eisoes yn cael eu trafod yn cynnwys y galw cynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd straen cynyddol a chwalfa deuluol; y ddibyniaeth uwch ar lety dros dro a'r cynnydd mewn achosion o ddigartrefedd a ragwelir gan awdurdodau lleol; a'r potensial ar gyfer cynnydd mewn trosedd wrth i niferoedd yr heddlu gael eu cwtogi ac wrth i leiafrif bychan droi at droseddu i wneud iawn am y diffyg yn incwm eu haelwydydd.

In terms of housing, I am extremely concerned about the implications of a reduced collection of rent and what that will mean for our ability to invest in building

O ran tai, rwyf yn bryderus iawn ynglŷn â goblygiadau casgliadau rhent is a'r hyn y bydd hynny'n ei olygu o ran ein gallu i fuddsoddi er mwyn adeiladu mwy o dai

more social housing and for reaching the Welsh housing quality standard. These are very real issues that we will not necessarily fully comprehend until we are in the midst of the UK Government's welfare reform programme.

cymdeithasol ac i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Mae'r rhain yn faterion real iawn na fyddwn o reidrwydd yn eu deall yn llawn hyd nes y byddwn yng nghanol rhaglen Llywodraeth y DU o ddiwygiadau i'r gyfundrefn les.

This Welsh Government is considering what we can do to mitigate the impact, for example through our financial inclusion work. We are trying to ensure that low-income families are given the support that they need to manage monthly budgets. This includes a network of housing advisory services across Wales that are easily accessible and can help people at any stage in their housing need. Good advice will have to be our first approach to maintaining people in their homes, and this will be a major focus of the housing Bill that I intend to introduce.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr hyn y gallwn ei wneud i liniaru'r effaith, er enghraifft trwy ein gwaith ym maes cynhwysiant ariannol. Rydym yn ceisio sicrhau bod teuluoedd ar incwm isel yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i reoli cyllidebau misol. Mae hyn yn cynnwys rhwydwaith o wasanaethau cynghori ledled Cymru ym maes tai—gwasanaethau hygyrch a all helpu pobl ag angen ar unrhyw lefel ym maes tai. Rhaid i gyngor da fod y cam cyntaf tuag at gadw pobl yn eu cartrefi, a dyma fydd prif bwyslais y Bil tai yr wyf yn bwriadu ei gyflwyno.

We continue to fund many of the advice services supporting vulnerable homeowners, including Shelter Cymru and the housing debt helpline run by the Consumer Credit Counselling Service. My colleague Carl Sargeant is in active dialogue with stakeholders through his overall review of advisory services. However, the reality is that we will not be able to mitigate fully the real impact that these reforms will have on Wales and its people. A change of direction will only come when a majority of people see through the coalition's thoroughly hateful demonisation of the poorest and those on the lowest incomes. The coalition continually portrays the poor as feckless. Peter Black scoffs at this.

Rydym yn parhau i ariannu llawer o'r gwasanaethau cynghori sy'n cefnogi perchnogion tai sy'n agored i niwed, gan gynnwys Shelter Cymru a'r llinell gymorth dyledion tai a weithredir gan y Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr. Mae fy nghydweithiwr, Carl Sargeant, mewn trafodaethau gweithredol â rhanddeiliaid trwy ei adolygiad cyffredinol o'r gwasanaethau cynghori. Fodd bynnag, y realiti yw na fyddwn yn gallu lliniaru'n llawn yr effaith wirioneddol y bydd y diwygiadau hyn ei chael ar Gymru a'i phobl. Ni ddaw newid cyfeiriad nes i'r rhan fwyaf o bobl weld drwy arfer cwbl atgas y glymblaid o bardduo'r tlotaf a'r rhai ar yr incwm isaf. Mae'r glymblaid yn portreadu pobl dlawd yn gyson fel pobl ddiamcan. Mae Peter Black yn wfftio at hyn.

**Peter Black** *rose*—

*Cododd* **Peter Black -**

**Huw Lewis:** I will give way to Peter in a moment. Here are the words of one of his coalition partners, conjuring up visions of the feckless poor:

**Huw Lewis:** Byddaf yn ildio i Peter mewn munud. Dyma eiriau un o'i bartneriaid yn y glymblaid, sy'n creu delwedd o'r tlodion diamcan:

'dysfunctional families … blighted by worklessness, educational failure, family breakdown, problem debt'.

teuluoedd camweithredol ... wedi'u llethu gan fethiant addysgol, chwalfa deuluol, problemau dyled a'r ffaith eu bod heb waith.

Before I allow Peter to intervene, I just want to suggest that words like that might serve to

Cyn i mi ganiatáu i Peter i ymyrryd, rwyf am awgrymu y gallai geiriau fel y rhain

describe some sections of society—it springs to mind that half the nonentities seen on celebrity television, or, come to that, a goodly proportion of the British aristocracy, could fit well into that definition—but they do not describe people on low incomes and they do not describe poverty. This is a wicked smokescreen for a re-making and a dismantling of the welfare state.

ddisgrifio rhai rhannau o gymdeithas—mae'n dod i'r meddwl y gallent fod yn addas ar gyfer hanner yr enwogion dibwys a welir ar raglenni teledu, neu gyfran dda o bendefigion Prydain hyd yn oed—ond nid ydynt yn disgrifio pobl ar incwm isel ac nid ydynt yn disgrifio tlodi. Ystryw aflan yw hon i guddio'u bwriad i ail-wneud a datgymalu'r wladwriaeth les.

**Peter Black:** A lot of the criticism that you have outlined also applies to the welfare reforms brought in by the previous Labour Government, many of which are reflected or carried on in what has been proposed by the current Government. Some of the other things that you have outlined are, of course, pure speculation and not even agreed policy on the part of the UK coalition Government, such as Iain Duncan Smith's remarks, which have not been agreed by the coalition and are not Government policy.

**Peter Black:** Mae llawer o'r feirniadaeth yr ydych wedi'i hamlinellu hefyd yn berthnasol i'r diwygiadau a gyflwynwyd i'r gyfundrefn les gan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Mae llawer ohonynt yn cael eu hadlewyrchu neu eu parhau yn yr hyn a gynigiwyd gan y Llywodraeth bresennol. Damcaniaethu pur, wrth gwrs, yw rhai o'r pethau eraill yr ydych wedi eu hamlinellu, yn hytrach na pholisi y cytunwyd arno ar ran Llywodraeth glymblaid y DU, er enghraifft sylwadau Iain Duncan Smith, nad ydynt wedi cael eu cytuno gan y glymblaid ac nad ydynt yn bolisi gan y Llywodraeth.

**Huw Lewis:** The general bleating of the Liberal Democrats is, 'Of course, we are not really part of this demonisation of the poor, or this distinction between the deserving and the undeserving poor that we wish to plant in the public mind'. That will not sustain the fortunes of the Liberal Democrat party through the crisis that we are heading towards. It is a shameful, disingenuous display and, Peter, your party will be electorally damned for it by the people of Wales for generations to come. If you cannot see that, you are politically blind to the consequences of the scale of what is coming down the track. Poverty causes dreadful damage to people, families and society as a whole. Iain Duncan Smith, the Liberal Democrats and the coalition as a whole all know this, but they clearly do not think that it matters enough to change course.

**Huw Lewis:** Cwynion cyffredinol y Democratiaid Rhyddfrydol yw, 'Wrth gwrs nid ydym ni mewn gwirionedd yn rhan o'r broses hon o bardduo'r tlodion, nac o blannu'r syniad ym meddyliau'r cyhoedd bod gwahaniaeth rhwng tlodion haeddiannol ac anhaeddiannol'. Ni fydd hynny'n cynnal y Democratiaid Rhyddfrydol trwy'r argyfwng yr ydym yn anelu tuag ato. Mae'n sioe gywilyddus, annidwyll a bydd eich plaid, Peter, yn cael ei chondemnio o'i herwydd gan etholwyr Cymru am genedlaethau i ddod. Os na allwch weld hynny, rydych yn wleidyddol ddall i ganlyniadau graddfa'r hyn sy'n dod tuag atom. Mae tlodi yn achosi niwed ofnadwy i bobl, teuluoedd a chymdeithas yn gyffredinol. Mae Iain Duncan Smith, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r glymblaid yn ei chyfanrwydd i gyd yn gwybod hyn, ond yn amlwg nid ydynt yn credu bod hynny'n ddigon pwysig i achosi iddynt newid cyfeiriad.

I thank Lynne for choosing this subject for her short debate today.

Diolch i Lynne am ddewis y pwnc hwn ar gyfer ei dadl fer heddiw.

**Sandy Mewies:** That brings today's proceedings to a close.

**Sandy Mewies:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 p.m.*
*The meeting ended at 5.40 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru Annibynnol – Independent Plaid Cymru)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

This page is intentionally left blank